



Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

# Cynllun Datblygu Lleol (2011-2026)

**Mabwysiadwyd Ionawr 2016**

www.npt.gov.uk/ldp

Neath Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol

## Rhagair

Mae'n bleser gen i gyflwyno Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot (CDLl), fel y'i mabwysiadwyd gan y Cyngor ar 27ain Ionawr 2016.

Carwn fynegi diolch didwyll o waelod calon i holl staff y Cyngor, y cynrychiolwyr etholedig, y rhanddeiliaid allweddol a'r trigolion lleol sydd wedi cyfrannu at wireddu'r cynllun hwn.

Bydd y ddogfen yn helpu'r Fwrdeistref Sirol i edrych yn strategol ar fynd i'r afael â'r heriau niferus rydym ni'n eu hwynebu ar hyn o bryd, yn ogystal â'r rhai sydd ar y gorwel.

Mae'r cynllun wedi'i seilio ar archwiliad cymhleth o sylfaen eang, ddofn o dystiolaeth, ac mae wedi cael ei brofi'n drylwyr mewn modd annibynnol gan farn broffesiynol. Mae hefyd wedi bod yn destun ymgynghori cymunedol egnïol, manwl gyda'r cyhoedd a rhanddeiliaid lleol allweddol. Bydd o gymorth mawr yn yr ymgais i lunio a chreu economi fwy amrywiol a deinamig, gan ddenu buddsoddiad ac adnewyddu hirdymor i Gastell-nedd Port Talbot. Yn ogystal, bydd hefyd yn amddiffyn ac yn cynnal ein hamgylchedd naturiol, ein treftadaeth ddiwylliannol a'n tirweddau gogoneddus.

Mae'r CDLl yn darparu gweledigaeth fodern, glir ac uchelgeisiol o'r hyn rydym ni eisiau ei weld yn digwydd yng Nghastell-nedd Port Talbot yn ystod y degawd nesaf - Bwrdeistref Sirol lle gallwn ni ddarparu dyfodol gwell a thecach i bawb sy'n byw, yn gweithio, yn ymweld â'r sir neu'n buddsoddi yma - gan danlinellu ar yr un pryd y rôl ehangach y gallwn ni ei chwarae o ran cynyddu ffyniant a lleihau tlodi ac anghydraddoldeb ar draws y rhanbarth.

Mae rhaid yn awr i'r Cyngor a'i bartneriaid o bob sector groesawu a chofleidio, gyda phenderfyniad a golwg at y dyfodol, y cyfleoedd mae'r CDLl yn eu creu i gyflawni'r newid gwirioneddol y mae ar Gastell-nedd Port Talbot ei angen, ac y mae'n ei haeddu.



Y Cynghorydd Anthony J. Taylor
Yr Aelod Cabinet ar gyfer Datblygu Economaidd a Gwasanaethau Eiddo





## Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| **1** | **Cyflwyniad a Chefndir** | **5** |
| 1.1 | Cyd-destun Castell-nedd Port Talbot | 8 |
| 1.2 | Y Cyd-destun Polisi Cenedlaethol, Rhanbarthol a Lleol | 10 |
| 1.3 | Materion Allweddol yng Nghastell-nedd Port Talbot | 16 |
| **2** | **Y Strategaeth** | **17** |
| 2.1 | Gweledigaeth | 19 |
| 2.2 | Amcanion | 19 |
| 2.3 | Y Strategaeth | 21 |
| 2.4 | Twf | 22 |
| 2.5 | Dosbarthiad Gofodol | 24 |
| **3** | **Polisïau Trosfwaol** | **31** |
| **3.0.2** | **Polisi Strategol SP1 Newid yn yr Hinsawdd** | **33** |
| **3.0.6** | **Polisi Strategol SP2 Iechyd** | **33** |
| **3.0.9** | **Polisi Strategol SP3 Cymunedau Cynaliadwy** | **35** |
| 3.0.12 | Polisi SC1 Terfynau Aneddiadau | 36 |
| 3.0.19 | Polisi SC2 Amddiffyn Cyfleusterau Cymunedol sydd eisoes yn bodoli | 36 |
| **3.0.23** | **Polisi Strategol SP4 Isadeiledd** | **37** |
| 3.0.26 | Polisi I1 Gofynion Isadeiledd | 37 |
| **4** | **Polisïau Ardal** | **39** |
| **4.0.2** | **Polisi Strategol SP5 Datblygiad yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir** | **41** |
| 4.0.5 | Polisi SRA1 Ardal Adfywio Strategol Coed Darcy | 41 |
| 4.0.10 | Polisi SRA2 Ardal Adfywio Strategol Glannau'r Harbwr | 42 |
| 4.0.16 | Polisi CCRS1 Cynllun Adfywio Coridor yr Arfordir | 43 |
| 4.0.25 | Polisi CCUC1 Campws y Brifysgol ar Goridor yr Arfordir | 44 |
| **4.0.30** | **Polisi Strategol SP6 Datblygiad yn Ardal Strategaeth y Cymoedd** | **44** |
| 4.0.38 | Polisi VRS1 Ardal Adfywio'r Cymoedd | 45 |
| **5** | **Polisïau Pynciol** | **47** |
| **5.1** | **Cymunedau a Thai** | **49** |
| **5.1.1** | **Polisi Strategol SP7 Gofynion Tai** | **49** |
| 5.1.9 | Polisi H1 Safleoedd Tai | 51 |
| **5.1.18** | **Polisi Strategol SP8 Tai Fforddiadwy** | **54** |
| 5.1.26 | Polisi AH1 Tai Fforddiadwy | 55 |
| 5.1.34 | Polisi AH2 Safleoedd sy'n Eithriadau o ran Tai Fforddiadwy | 56 |
| **5.1.39** | **Polisi Strategol SP9 Sipsiwn a Theithwyr** | **56** |
| 5.1.42 | Polisi GT1 Safle Sipsiwn a Theithwyr | 56 |
| 5.1.46 | Polisi GT2 Cynigion ar gyfer Safleoedd Newydd i Sipsiwn a Theithwyr | 57 |
| **5.1.51** | **Polisi Strategol SP10 Mannau Agored** | **57** |
| 5.1.54 | Polisi OS1 Darparu Mannau Agored | 58 |
| 5.1.59 | Polisi OS2 Amddiffyn Mannau Agored sydd eisoes yn bodoli | 58 |
| **5.2** | **Yr Economi** | **59** |
| **5.2.1** | **Polisi Strategol SP11 Twf Cyflogaeth** | **59** |
| 5.2.7 | Polisi EC1 Dyraniadau Cyflogaeth | 59 |
| 5.2.17 | Polisi EC2 Ardaloedd Cyflogaeth Presennol | 61 |
| 5.2.20 | Polisi EC3 Defnyddiau Ardal Gyflogaeth | 61 |
| 5.2.23 | Polisi EC4 Amddiffyn Defnyddiau Cyflogaeth Presennol | 62 |
| 5.2.26 | Polisi EC5 Defnyddiau Cyflogaeth yn y Cymoedd | 62 |
| 5.2.30 | Polisi EC6 Unedau Bywyd/Gwaith | 62 |
| **5.2.34** | **Polisi Strategol SP12 Manwerthu** | **63** |
| 5.2.38 | Polisi R1 Dyraniadau Manwerthu | 64 |
| 5.2.43 | Polisi R2 Cynigion mewn Canolfannau Manwerthu | 64 |
| 5.2.48 | Polisi R3 Cynigion Manwerthu y tu allan i'r Canol | 65 |
| **5.2.51** | **Polisi Strategol SP13 Twristiaeth** | **66** |
| 5.2.54 | Polisi TO1 Datblygu Twristiaeth yng Nghefn Gwlad | 66 |

5.2.58 Polisi TO2 Amddiffyn Cyfleusterau Twristiaeth Presennol 66

5.2.61 Polisi TO3 Adfywio ar Sail Twristiaeth 67

5.2.65 Polisi TO4 Llwybrau Cerdded a Beicio 67

**5.3 Yr Amgylchedd ac Adnoddau 68**

**5.3.1 Polisi Strategol SP14 Cefn Gwlad a'r Arfordir sydd heb ei Ddatblygu 68**

5.3.5 Polisi EN1 Arfordir sydd heb ei Ddatblygu 68

5.3.8 Polisi EN2 Ardaloedd Tirlun Arbennig 68

5.3.15 Polisi EN3 Lletemau Glas 69

5.3.20 Polisi EN4 Anheddau Amnewid yng Nghefn Gwlad 69

5.3.22 Polisi EN5 Trawsnewid ac Estyn Adeiladau sydd eisoes yn bodoli yng Nghefn Gwlad 70

**5.3.26 Polisi Strategol SP15 Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth 70**

5.3.31 Polisi EN6 Safleoedd Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth pwysig 71

5.3.36 Polisi EN7 Nodweddion Naturiol Pwysig 71

**5.3.38 Polisi Strategol SP16 Amddiffyn yr Amgylchedd 72**

5.3.41 Polisi EN8 Llygredd a Sefydlogrwydd Tir 72

5.3.51 Polisi EN9 Datblygiadau yn Ardal Ganolog Port Talbot 73

5.3.53 Polisi EN10 Mannau Tawel 73

**5.3.58 Polisi Strategol SP17 Mwynau 74**

5.3.65 Polisi M1 Datblygu mewn Ardaloedd Diogelu Mwynau 75

5.3.69 Polisi M2 Gweithrediadau Glo ar yr Wyneb 75

5.3.74 Polisi M3 Datblygu mewn Parthau Clustogi Mwynau 75

5.3.78 Polisi M4 Meini Prawf ar gyfer Asesu Datblygu Mwynau 76

**5.3.88 Polisi Strategol SP18 Ynni Adnewyddadwy ac Ynni Carbon Isel 76**

5.3.92 Polisi RE1 Meini Prawf ar gyfer Asesu Datblygiadau Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel 77

5.3.100 Polisi RE2 Ynni Adnewyddadwy ac Ynni Carbon Isel mewn Datblygiadau Newydd 78

**5.3.105 Polisi Strategol SP19 Rheoli Gwastraff 78**

5.3.112 Polisi W1 Cyfleusterau Trin Gwastraff oddi mewn i Adeiladau 79

5.3.124 Polisi W2 Gwaredu Gwastraff Anadweithiol ar Dir Amaethyddol 80

5.3.128 Polisi W3 Rheoli Gwastraff mewn Datblygiad Newydd 80

**5.4 Trafnidiaeth a Mynediad 81**

**5.4.1 Polisi Strategol SP20 Y Rhwydwaith Trafnidiaeth 81**

5.4.9 Polisi TR1 Cynigion Trafnidiaeth 81

5.4.21 Polisi TR2 Dyluniad Datblygiad Newydd a Mynediad iddo 82

5.4.27 Polisi TR3 Diogelu Isadeiledd Rheilffordd nad yw'n cael ei Ddefnyddio 83

5.4.29 Polisi TR4 Diogelu Cyfleusterau Cludo Nwyddau 83

**5.5 Diwylliant a Threftadaeth 84**

**5.5.1 Polisi Strategol SP21 Yr Amgylchedd Adeiledig a'r Dreftadaeth Hanesyddol 84**

5.5.8 Polisi BE1 Dylunio 85

5.5.19 Polisi BE2 Adeiladau o Bwysigrwydd Lleol 86

5.5.23 Polisi BE3 Y Rhwydwaith Camlesi 87

**5.5.27 Polisi Strategol SP22 Yr Iaith Gymraeg 87**

5.5.31 Polisi WL1 Datblygiad mewn Ardaloedd Ieithyddol Sensitif 88

**6 Gweithredu a Monitro 89**

6.1 Cyflwyno a Gweithredu 91

6.2 Monitro ac Adolygu 96

**7 Canllawiau Cynllunio Atodol 115**

**Atodiadau 119**

Atodiad A: Polisi H1 Safleoedd Tai 121

**Map o'r Cynigion**

**Byrfoddau ac Acronymau**

**Rhestr Termau**





Adran 1

# Cyflwyniad a Chefndir

## 1 Cyflwyniad a Chefndir

**1.0.1** O dan Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi Cynllun Datblygu Lleol (CDLl).

**1.0.2** Mae CDLl yn tywys datblygiad ardal yn y dyfodol, gan ddarparu gweledigaeth glir ar gyfer y Fwrdeistref Sirol, a nodi ble, pryd a faint o ddatblygiad newydd a all ddigwydd yn ystod y 15 mlynedd nesaf (2011-2026). Y nod yw rhoi sicrwydd i ddatblygwyr a'r cyhoedd ynghylch fframwaith cynllunio Castell-nedd Port Talbot.

### Y Broses Ddatblygu Leol

**1.0.3** Mae proses y CDLl yn cynnwys y camau canlynol:

- Datblygu ac adolygu'r sylfaen o dystiolaeth;
- Y Cytundeb Cyflawni;
- Y Cynllun Cyn Adnau;
- Y Cynllun Adnau;
- Cyflwyno ac Archwilio;
- Adroddiad yr Arolygydd;
- Mabwysiadu; a
- Monitro ac Adolygu.

**1.0.4** Seiliwyd y CDLl ar swm sylweddol o dystiolaeth a gasglwyd. Er bod peth gwybodaeth wedi'i chasglu o ffynonellau oedd eisoes yn bodoli, mae llawer iawn yn deillio o ymchwil wreiddiol a gomisiynwyd neu a gynhaliwyd gan y Cyngor. Defnyddiwyd yr wybodaeth hon, y cyfeirir ati fel y 'sylfaen o dystiolaeth', i ganfod y prif faterion a heriau y mae'r Fwrdeistref Sirol yn eu hwynebu.

**1.0.5** Ar ben hynny, mae'r Cyngor wedi cynnal rhaglen helaeth o gynnwys y gymuned, gan gwmpasu'r cyhoedd ac amrywiaeth o sefydliadau rhanddeiliaid. Yng ngwahanol gyfnodau paratoi'r Cynllun, trefnwyd cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu i nodi'r materion sy'n bodoli, i ganfod dyheadau'r gymuned at y dyfodol, i drafod cyfeiriad strategol y Cynllun, ac i ystyried y polisïau a'r cynigion sy'n dod i'r amlwg ar gyfer y Cynllun Adnau.

**1.0.6** Mae'r holl elfennau ymgysylltu wedi cael eu dogfennu, ac maent yn rhan hanfodol o'r sylfaen o dystiolaeth. Mae'r holl safbwyntiau a fynegwyd ym mhob cam wedi helpu i hysbysu'r CDLl. Ar ben hynny, mae'r Cyngor wedi gweithio'n agos gydag Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLl) cymdogol, i sicrhau bod materion trawsffiniol yn cael eu cymryd i ystyriaeth.

### Arfarniad Cynaliadwyedd (yn ymgorffori Asesiad Amgylcheddol Strategol) [AC (AAS)]

**1.0.7** Bu'r CDLl yn destun Arfarniad Cynaliadwyedd (AC) a oedd yn ymgorffori Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) [1].

**1.0.8** Bu'r arfarniad yn broses a ailadroddwyd ar hyd y broses o baratoi'r Cynllun, ac mae'r polisïau a'r cynigion a geir yn y Cynllun yn adlewyrchu canlyniad y broses honno. Mae cwmpas yr arfarniad yn gwerthuso'r Cynllun i sicrhau ei fod yn adlewyrchu amcanion datblygu cynaliadwy ac yn ystyried ffactorau cymdeithasol ac economaidd, yn ogystal â rhai amgylcheddol. Mae hefyd yn arfarnu effaith y Cynllun ar iechyd, cydraddoldebau a'r iaith Gymraeg.

### Arfarniad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC)

**1.0.9** Bu'r CDLl hefyd yn destun Arfarniad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC). Mae'r ARhC wedi asesu a yw'r CDLl yn debygol o gael effaith sylweddol ar unrhyw Safleoedd Ewropeaidd (a elwir hefyd yn Safleoedd 'Natura 2000'), boed hynny'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, a naill ai ar ei ben ei hun, neu o'i gyfuno â chynlluniau a phrosiectau eraill.

### Sut mae defnyddio'r Ddogfen hon

> Rhaid darllen y Cynllun Datblygu Lleol yn ei gyfanrwydd. Mae pob un o'r polisïau yn gysylltiedig â'i gilydd, ac mae'n rhaid eu darllen gyda'i gilydd i ddeall eu heffaith gyfun ar unrhyw gynnig cynllunio.

### Strwythur y Ddogfen

**1.0.10** Strwythurwyd y ddogfen hon fel a ganlyn:

1. **Cyflwyniad a Chefndir:** yma ceir cyflwyniad cyffredinol i'r ardal a phrif nodweddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol y Fwrdeistref Sirol, gan gynnwys gwybodaeth gefndir, y cyd-destun polisi a'r materion allweddol a nodwyd ar gyfer yr ardal.
2. **Y Strategaeth:** yma amlinellir Gweledigaeth ac Amcanion y Cynllun, gan roi esboniad ar y strategaethau twf a gofodol cyffredinol ar gyfer cyflawni'r amcanion a nodwyd, gan gynnwys gwahaniaethu rhwng Coridor yr Arfordir ac ardaloedd strategaeth y Cymoedd, a'r dulliau gwahanol sy'n berthnasol iddynt.
3. **Polisïau Trosfwaol:** yma cyflwynir polisïau trosfwaol y Cynllun, sy'n ymwneud â'r materion y bernir eu bod ymhlith y pwysicaf i'r Fwrdeistref Sirol gyfan.
4. **Polisïau Ardal:** yma cyflwynir y gwahanol ddulliau o ymdrin â dwy ardal y strategaeth.
5. **Polisïau Pynciol:** yma cyflwynir polisïau pynciol strategol a manwl y Cynllun, sy'n dangos sut gweithredir strategaeth gyffredinol y Cynllun, gan gynnwys dyraniadau safle-benodol.
6. **Gweithredu a Monitro:** yn gyntaf yma cyflwynir manylion cyflawni a gweithredu, gan roi syniad o pryd disgwylir i safleoedd gael eu cynnig, pwy fydd yn gyfrifol am roi'r datblygiad ar waith, a'r ffynonellau ariannu. Yn ail, mae'n cwmpasu'r fframwaith monitro, y dangosyddion allweddol, a'r targedau a'r sbardunau ar gyfer gweithredu pellach yng nghyswllt pob polisi, gan greu sail ar gyfer asesu effeithiolrwydd polisïau'r Cynllun. Yr adran hon o'r Cynllun sy'n darparu sail ar gyfer cynhyrchu'r Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB).
7. **Canllaw Cynllunio Atodol:** yma cyflwynir manylion y Canllawiau Cynllunio Atodol a gyflwynir i gefnogi'r Cynllun.

1 Fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a'r Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol Strategol.

8. **Map o'r Cynigion:** yma dangosir, ar sylfaen Arolwg Ordnans, lleoliad daearyddol a chwmpas y datblygiad safle-benodol a'r polisïau amddiffyn.

## 1.1 Cyd-Destun Castell Nedd Port Talbot


**1.1.1** Mae Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot wedi'i lleoli ar yr arfordir rhwng Dinas a Sir Abertawe i'r gorllewin a Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i'r dwyrain. Mae Castell-nedd Port Talbot hefyd yn rhannu ffiniau gyda Sir Gaerfyrddin, Rhondda Cynon Taf a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog: Mae Map 1.1 yn darlunio cyd-destun gofodol Castell-nedd Port Talbot.

**1.1.2** Mae gan Gastell-nedd Port Talbot boblogaeth breswyl o 139,800[2]. Mae'r Fwrdeistref Sirol yn cwmpasu ardal o fwy na 44,217 hectar, a gellir rhannu ei nodweddion ffisegol, a ddangosir ar Fap 1.2 isod, yn fras i'r ddwy ardal ganlynol:

- Coridor yr Arfordir; a'r
- Cymoedd.



**Map 1.1** **Cyd-destun Gofodol Castell-nedd Port Talbot**




### Coridor yr Arfordir

**1.1.3** Mae'r ardal hon o'r Fwrdeistref Sirol yn cwmpasu llain arfordirol gymharol gul sy'n estyn o amgylch Bae Abertawe, ac yno y lleolir y prif ganolfannau poblogaeth, cyflogaeth a choridor yr M4.

**1.1.4** Mae prif drefi ac aneddiadau Castell-nedd a Phort Talbot yn dal yn brif ffocws ar gyfer adeiladu tai, a hynny yn y farchnad breifat ac ymhlith landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Darperir mwyafrif y tai a adeiledir ar safleoedd mawr[3] ac mae eiddo preifat ar rent hefyd yn chwarae rhan bwysig, yn enwedig mewn ardaloedd yn ymyl canol y trefi.

### Y Cymoedd

**1.1.5** Nodweddir y cymoedd gan dirlun deniadol dyffrynnoedd afonydd, wedi'u gwahanu gan lwyfannau ucheldir a mynyddoedd. Mae ardal y Cymoedd yn cynnwys pum prif ddyffryn, sef Cymoedd Afan, Aman, Dulais, Nedd a Thawe.

**1.1.6** Cymoedd gwledig ydynt, ac mae cymunedau ar wasgar drwyddynt. Er bod nodweddion a hunaniaeth unigol gref i'r cymoedd unigol, maent yn rhannu nodweddion a phroblemau cyffredin. Yn hanesyddol, mae adeiladu tai ar raddfa fawr wedi cael ei gyfyngu'n bennaf i Bontardawe a phen uchaf Cwm Tawe.

### Yr Economi a Chyflogaeth

**1.1.7** Mae cyflogaeth yn y Fwrdeistref Sirol yn cynnwys cyfran gymharol uchel o swyddi yn y sectorau gweithgynhyrchu a chyhoeddus, a chyfran gymharol isel yn y sector gwasanaeth. Mae'r canolbwynt cyflogaeth wedi'i leoli'n bennaf ar hyd coridor yr arfordir, a Tata Steel a'r Cyngor yw'r cyflogwyr mwyaf. Yn y Cymoedd, ceir y cyflogwyr mwyaf yn y diwydiannau echdynnu mwynau, gyda gweddill y boblogaeth yn cael eu cyflogi mewn mentrau bach a chanolig.

**1.1.8** Cyflogir cyfran gymharol uchel o bobl mewn gwaith gweinyddol a chymorth, tra bod nifer y rhai a gyflogir mewn swyddi rheoli a phroffesiynol a'r nifer sy'n hunangyflogedig yn is na chyfartaledd Cymru. Mae cyfran y bobl sy'n economaidd segur yn uwch na'r cyfartaledd ledled Cymru ac mae gan y boblogaeth dros 16 oed gymwysterau is na chyfartaledd Cymru. Mae nifer sylweddol uwch o bobl yn teithio allan o'r Fwrdeistref Sirol i gael hyd i waith nag sy'n teithio i mewn iddi.

2 Cyfrifiad 2011.
3 Safleoedd lle gellir codi 10 neu fwy o anheddau.

**Map 1.2** **Topograffi a Phrif Aneddiadau Castell-nedd Port Talbot**



**1.1.9** Mae'r patrwm hwn ar gyfer teithio i'r gwaith yn adlewyrchu'r ffaith fod y Fwrdeistref Sirol yn rhan o ardal ehangach teithio i'r gwaith Bae Abertawe. Mae'r banc tir diwydiannol sydd â mynediad hwylus i'r ffordd, y rheilffordd a'r môr yn cyflawni swyddogaeth bwysig yn yr is-ranbarth, fel y bydd Campws Gwyddoniaeth ac Arloesedd y Brifysgol a Phentref Trefol Coed Darcy.

**Trafnidiaeth ac Isadeiledd**

**1.1.10** Mae'r isadeiledd allweddol o ffyrdd a rheilffyrdd yn croesi coridor yr arfordir, ac yn darparu sylfaen i'r Fwrdeistref Sirol fel ardal gyflogaeth allweddol o fewn yr is-ranbarth, drwy ddarparu cysylltiadau i'r dwyrain, trwy gyfrwng yr M4 a'r rheilffordd, i Gaerdydd a'r tu hwnt, i'r gorllewin i Abertawe ac i Ganolbarth Lloegr ar hyd ffordd Blaenau'r Cymoedd (Cefnffordd), yr A465. Bernir bod y dociau ym Mhort Talbot hefyd yn un o asedau'r ardal, gan eu bod yn darparu ar gyfer llwythi cyffredinol, yn ogystal â chyfleusterau dŵr dwfn ar gyfer llwythi swmpus.

**Treftadaeth**

**1.1.11** Mae gan yr ardal gyfoeth o asedau hanesyddol, archaeolegol a phensaernïol, yn enwedig rhai sy'n gysylltiedig â hanes diwydiannol yr ardal o ran glo, haearn, dur a chopr. Mae hefyd yn cynnwys llawer o olion archaeolegol hŷn, sy'n dyddio'n ôl i'r cyfnod cyn y Rhufeiniaid. Mae'r rhain i gyd yn nodweddion pwysig yn yr ardal, sy'n creu unigrywiaeth lleol. Mae llawer ohonynt, megis Parc Margam a'r rhwydwaith camlesi, hefyd yn darparu cyfleoedd ar gyfer twristiaeth a hamdden.

**Y Tirlun ac Ecoleg**

**1.1.12** Mae gan Gastell-nedd Port Talbot dirlun amrywiol a nifer o gynefinoedd trawiadol, yn amrywio o gorsydd halen arfordirol a thwyni tywod i goetir hynafol ac ardaloedd ucheldir o laswellt y bwla. Mae rhai o'r cynefinoedd hyn o bwysigrwydd Ewropeaidd, Cenedlaethol neu leol. Mae ardaloedd helaeth o'r Fwrdeistref Sirol yn cynnwys planhigfeydd conifferau, ac mae'r ardal hefyd yn cynnwys nodweddion daearegol pwysig, yn cynnwys dyffrynnoedd rhewlifol a ffurfiannau creigiau.

**Adnoddau Naturiol**

**1.1.13** Mae'r Fwrdeistref Sirol yn cynnwys adnoddau mwynol, ar ffurf glo ac agregau, sy'n arwyddocaol ar raddfa'r Deyrnas Unedig. Maent hefyd yn bwysig o ran eu cyfraniad at economi Cymru ac yn fwy lleol o ran cyflogaeth.

**1.1.14** Mae adnoddau glo oddi tan y Fwrdeistref Sirol gyfan fwy neu lai. Cydnabyddir bod y glo hwn o ansawdd uchel gyda glo caled yn y gogledd ac, ychydig yn llai cyffredin, glo stêm yn y de-ddwyrain. Mae glo wedi cael ei gloddio'n helaeth o fewn yr ardal ers canrifoedd ac mae wedi cyfrannu'n sylweddol at greu a chynnal llawer o gymunedau'r Fwrdeistref Sirol

**1.1.15** Mae'r ddwy brif chwarel cerrig caled yn yr ardal, y Gilfach (Castell-nedd) a Chwm Nant Lleici (Pontardawe), yn cyflenwi agregau manyleb uchel i'r farchnad ranbarthol a marchnad y DU. Mae argaeledd agregau o'r fath yn lleol ac yn gyfyngedig iawn, ac mae'n cynrychioli cynnyrch premiwm y diwydiant chwarela cerrig caled.

**1.1.16** Yn sgîl ardaloedd ucheldir helaeth y Fwrdeistref Sirol, mae cyfle sylweddol hefyd i fanteisio ar adnodd y gwynt. Mae dwy o'r Ardaloedd Chwilio Strategol (AChS E ac AChS F) a nodwyd gan Lywodraeth Cymru wedi'u lleoli mewn man amlwg yn yr ardal weinyddol, ac yn dilyn eu dynodi, bu cryn ddiddordeb ymhlith datblygwyr yn yr ardal.

## 1.2 Cyd-Destun Polisi Cenedlaethol, Rhanbarthol a Lleol

**1.2.1** Mae ystod o strategaethau a datganiadau polisi cenedlaethol, rhanbarthol a lleol sy'n darparu fframwaith ar gyfer datblygu polisi ar lefel leol. Rhaid i'r CDLl roi sylw i'r fframwaith polisi hwn, a chydweddu ag ef. Mae'r adran hon yn amlinellu'n gryno elfennau allweddol y cyd-destun polisi ehangach sydd wedi dylanwadu ar y Cynllun.

### [1] Y Cyd-destun Polisi Cenedlaethol

**Polisi Cynllunio Cymru Argraffiad 8 (2016)**

**1.2.2** Cyflwynir polisïau cynllunio defnydd tir Llywodraeth Cymru yn Polisi Cynllunio Cymru (PCC) Argraffiad 8 (2016), sy'n darparu'r fframwaith polisi ar gyfer paratoi Cynlluniau Datblygu Lleol yn effeithiol. I gyd-fynd â PCC, ceir cyfres o Nodiadau Cyngor Technegol (TAN) a Chylchlythyron.

**Pobl, Lleoedd, Dyfodol - Diweddaru Cynllun Gofodol Cymru (2008)**

**1.2.3** Mae Cynllun Gofodol Cymru (CGC): Pobl, Lleoedd, Dyfodol yn pennu fframwaith strategol ar gyfer tywys datblygiad ac ymyriadau polisi yng Nghymru yn y dyfodol, y tu hwnt i gwmpas rheolaeth gynllunio ffurfiol ar ddefnydd tir. Mae CGC *"yn integreiddio agweddau gofodol ar strategaethau cenedlaethol, gan gynnwys cynhwysiad cymdeithasol a datblygiad economaidd, iechyd, polisi trafnidiaeth a'r amgylchedd, ac felly yn trosi dyletswydd datblygu cynaliadwy'r Cynulliad yn ymarfer"*. Mae'n ceisio ymdrin â'r heriau sy'n gysylltiedig â newid demograffig, hygyrchedd a dosbarthiad adnoddau yn ystod yr 20 mlynedd nesaf.

**1.2.4** Mae CGC yn cydnabod y bydd angen ei hymateb unigryw ei hun ar bob ardal yng Nghymru er mwyn cyflawni'r weledigaeth genedlaethol. O ganlyniad, mae'r Cynllun yn edrych ar anghenion penodol chwe ardal ofodol neu ranbarthol yng Nghymru, gan nodi canolfannau allweddol a chysylltiadau rhyngwladol a rhyng-ranbarthol.

**1.2.5** Mae Castell-nedd Port Talbot yn rhan o Ardal Glannau Bae Abertawe a Chymoedd y Gorllewin, a'i weledigaeth yw: *'Rhwydwaith o aneddiadau annibynnol,*

*gydag Abertawe yn y canol, sy'n cyd-dynnu'n effeithiol fel dinas-ranbarth gydag economi fodern, gystadleuol, seiliedig ar wybodaeth, a luniwyd i ddarparu ansawdd bywyd uchel, amgylchedd cynaliadwy, glannau llawn bywyd a chysylltiadau cenedlaethol a rhyngwladol ardderchog'.*

**1.2.6** Elfen ganolog o'r weledigaeth hon yw rhwydwaith o gymunedau cryf, cynaliadwy sy'n lledaenu ffyniant o Abertawe a'r prif aneddiadau eraill i'r aneddiadau llai ar draws y rhanbarth. Nodwyd nifer o aneddiadau allweddol a fydd yn cynnwys tai mwy fforddiadwy a deniadol, gwell ystod o wasanaethau lleol ac amrywiaeth o gyfleusterau manwerthu a hamdden. Er mwyn helpu i greu cymunedau cynaliadwy, dylai twf tai, safleoedd cyflogaeth newydd, a datblygiadau manwerthu a hamdden o dan do gael eu cyd-leoli, gyda gwasanaeth cludiant cyhoeddus da.

**1.2.7** Mae Cynllun Gofodol Cymru a'i Strategaeth ar gyfer Cymoedd y Gorllewin yn nodi deg anheddiad allweddol a fydd yn chwarae rhan hanfodol yn llwyddiant y ddinas-ranbarth, ac mae tri ohonynt yng Nghastell-nedd Port Talbot: Castell-nedd, Pontardawe / Clydach a Phort Talbot. Nodwyd nifer o aneddiadau llai hefyd sy'n gymunedau cynhaliol, yn cynnwys yr ardaloedd canlynol yng Nghastell-nedd Port Talbot: Cwm Dulais, Glyn-nedd / Resolfen, Cwm Afan Uchaf, Dyffryn Aman Uchaf ac Ystalyfera/ Ystradgynlais.

**1.2.8** Y prif flaenoriaethau ar gyfer y rhanbarth yw:

- Gwella hygyrchedd. Mae hyn yn cynnwys gwell cysylltiadau telegyfathrebu yn ogystal â datblygu cysylltiadau trafnidiaeth rhwng y prif aneddiadau;
- Datblygu economi wybodaeth sydd ar flaen y gad;
- Lleihau segurdod economaidd a datblygu strategaeth sgiliau integredig;
- Rhoi Prif Gynllun y Glannau ar waith i wneud yn fawr o'r cyfleoedd ar hyd harddwch neilltuol yr arfordir;
- Datblygu diwydiant twristiaeth cryf, yn seiliedig ar weithgareddau a hamdden;
- Sicrhau bod amddiffyn a gwella'r amgylchedd yn cael eu hintegreiddio'n llwyr.

**Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru (2006)**

**1.2.9** Mae'r Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru'n pennu strategaeth hir dymor Llywodraeth Cymru ar gyfer yr amgylchedd yng Nghymru yn ystod yr 20 mlynedd nesaf. Diben y Strategaeth yw darparu fframwaith y gellir ei ddefnyddio i gyflawni amgylchedd sy'n lân, yn iach, yn cynnwys amrywiaeth biolegol, ac yn cael ei werthfawrogi gan bobl Cymru.

**1.2.10** Yn ôl gweledigaeth y strategaeth 'Erbyn 2026 rydym am weld ein hamgylchedd unigryw yng Nghymru yn ffynnu ac yn cyfrannu at yr economi ac at les cymdeithasol a iechyd holl bobl Cymru'. Mae'r weledigaeth hon i gael ei chyflawni trwy reoli'r pwysau a roddir ar ein hamgylchedd yn fwy effeithiol, a galluogi newid o dan bum thema amgylcheddol allweddol:

- Ymdrin â'r Newid yn yr Hinsawdd;
- Defnydd Cynaliadwy o Adnoddau;
- Bioamrywiaeth, Tirweddau a Morweddau Neilltuol;
- Ein Hamgylchedd Lleol;
- Peryglon amgylcheddol.

**1.2.11** Mae'r Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru yn nodi, er mwyn darparu lleoedd ansawdd uchel i bobl fyw ynddynt, fod angen amgylchedd adeiledig o ansawdd uchel, gyda chyfleoedd i gyrchu mannau glas a bioamrywiaeth, lle cyfyngir gymaint â phosib ar niwsans amgylcheddol, a lle deëllir a rheolir perygl llifogydd.

**Adfywiad Economaidd: Cyfeiriad Newydd (2010)**

**1.2.12** Lansiodd Llywodraeth Cymru raglen Adfywio Economaidd mewn ymateb i newidiadau yn yr hinsawdd economaidd fyd-eang ac mae'n pwysleisio pwysigrwydd adeiladu economi Cymru ar gryfderau a sgiliau ei phobl a'i hamgylchedd naturiol. Mae'n amlinellu pum blaenoriaeth o ran adfywio economaidd yn dilyn y dirywiad economaidd:

- Buddsoddi mewn isadeiledd cynaliadwy, ansawdd uchel;
- Gwneud Cymru yn lle mwy deniadol ar gyfer busnes;
- Ehangu a dyfnhau'r sylfaen sgiliau;
- Annog arloesedd;
- Targedu cymorth busnes lle bydd yn ychwanegu'r gwerth mwyaf.

**Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid (2013)**

**1.2.13** Yn ddiweddar, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fframwaith adfywio newydd, yn cynnwys y weledigaeth y dylai pawb yng Nghymru fyw mewn cymunedau llewyrchus, llawn addewid, sy'n gynaliadwy ac yn cynnwys cysylltiadau da, gydag economi leol gref ac ansawdd bywyd da.

**1.2.14** Mae'r fframwaith yn pennu nifer o ganlyniadau cenedlaethol ar gyfer cyflawni cymunedau ffyniannus, iachach sy'n dysgu. O dan y canlyniadau hyn cefnogir nifer o weithgareddau, yn cynnwys, gwella lefelau gweithgaredd economaidd, cefnogi economïau cryf ac amrywiol, cefnogi gweithlu medrus, hyderus, cefnogi cymunedau iach a chydlynus sy'n medru tyfu a gweithio gyda'i gilydd, a thai da sy'n fforddiadwy ac yn darparu dewis o ran deiliadaeth.

**1.2.15** Mae'r fframwaith yn cyflwyno tair egwyddor ar gyfer adfywio effeithiol:

- **Partneriaeth**, sef cyfathrebu effeithiol a gweithio ar y cyd rhwng yr holl sectorau ac ar eu traws, gan gofleidio arfer da, cydraddoldeb ac arloesedd;
- **Strategaeth**, wedi'i sylfaenu ar raglenni seiliedig ar dystiolaeth ac yn cyfuno arweinyddiaeth ddeinamig â llywodraethu cadarn, gan gynnwys monitro a gwerthuso, er mwyn sicrhau gwerth am arian; a
- **Datblygu Cynaliadwy**, egwyddor trefnu ganolog Llywodraeth Cymru, gan ganiatáu buddsoddiadau hir dymor trwy brosiectau a greir ac a gyflwynir yn lleol, oddi mewn i strategaeth drosfwaol a rennir.

**1.2.16** Mae'r dull o gyflawni adfywio yn cynnwys defnyddio tystiolaeth gadarn i hysbysu strategaethau a phenderfyniadau buddsoddi a chyfuno gwelliannau i leoedd â chefnogaeth ar gyfer y bobl sy'n byw ynddynt.

**1.2.17** Nodir nifer o flaenoriaethau buddsoddi allweddol sy'n cynnwys dull wedi'i dargedu'n fwy o greu lleoedd llwyddiannus, gan arwain at fuddsoddi dwysach mewn nifer llai o leoedd er mwyn mwyafu effaith, Canol Trefi sy'n gwasanaethu trefi ar gyfer yr 21ain Ganrif, cymunedau Arfordirol a chlystyrau Cymunedau yn Gyntaf.

## [2] Y Cyd-destun Polisi Rhanbarthol

### Cynllun Trafnidiaeth ar y Cyd ar gyfer De-orllewin Cymru (2015-2020)

**1.2.18** Lluniwyd Cynllun Trafnidaeth ar y Cyd ar gyfer De-orllewin Cymru o ganlyniad i weithio ar y cyd gan bedwar awdurdod lleol, sef Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot, Abertawe a Sir Benfro. Mae'r Cynllun yn llunio polisi trafnidiaeth yn y rhanbarth ar gyfer y cyfnod 2015-20 ac wedi hynny.

**1.2.19** Y weledigaeth yw gwella trafnidiaeth a mynediad oddi mewn i'r rhanbarth a'r tu hwnt er mwyn hwyluso adfywio economaidd, lleihau amddifadedd a chynnal datblygiad a defnydd dulliau cludiant mwy cynaliadwy a iachach. Er mwyn cyflawni'r weledigaeth hon mae'r Cynllun Trafnidiaeth ar y Cyd yn nodi amcanion strategol, strategaeth hir dymor a rhaglen o brosiectau ar gyfer cyflawni'r strategaeth a'i hamcanion.

### Datganiad Technegol Rhanbarthol – Adolygiad 1af (2014)

**1.2.20** O dan ddarpariaethau Nodyn Cyngor Technegol ar Fwynau 1 (MTAN1): Agregau, mae Gweithgor Agregau Rhanbarthol De Cymru (SWRAWP) yn gyfrifol am baratoi Datganiad Technegol Rhanbarthol yn nodi sut y diwallir y galw am agregau yn y rhanbarth dros gyfnod o 15 mlynedd. Mae'r Datganiad Technegol Rhanbarthol yn asesu'r galw am agregau a'r cyflenwad ohonynt yn rhanbarth De Cymru, gan ystyried capasiti amgylcheddol pob Awdurdod Cynllunio Mwynol i wneud cyfraniad at ddiwallu'r galw rhanbarthol. Nod y Datganiad yw:

- Mwyafu'r defnydd o agregau eilaidd, deunydd a ailgylchwyd a gwastraff mwynol cyn torri cerrig caled newydd o'r chwarel;
- Diogelu mwynau sydd yn y tir yn y tymor hwy;
- Cydnabod bod estyn chwareli sydd eisoes yn bodoli, lle bo hynny'n dderbyniol yn amgylcheddol, yn debygol o fod yn fwy priodol na chreu chwareli newydd;
- Lle bo angen ardaloedd newydd o gyflenwadau agregau (h.y. chwareli) y dylid lleoli'r rhain mewn ardaloedd lle na cheir fawr ddim cyfyngiadau amgylcheddol, gan roi sylw i oblygiadau trafnidiaeth; a
- Chynnal y cyflenwad o agregau morol sy'n cyd-fynd â gofynion y Polisi Interim ar gyfer Treillio Agregau Morol (IMADP) a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2004.

**1.2.21** Mae'r Datganiad yn un strategol ei natur, ac nid yw'n cynnig safleoedd penodol ar gyfer echdynnu agregau, gan mai mater i'r Awdurdodau Cynllunio Mwynol yw hynny, gan roi sylw i'r asesiadau a gynhwyswyd yn y Datganiad. Cyfunir gwybodaeth o amrywiol ffynonellau ynghylch y cyflenwad agregau, y cronfeydd wrth gefn a ganiateir, asesiadau o'r galw, trafnidiaeth, polisïau Llywodraeth Cymru a chanfyddiadau astudiaeth capasiti'r amgylchedd (IMAECA)[4], i ddarparu asesiad rhanbarthol o'r galw am agregau a'r cyflenwad ohonynt, a'r sail ar gyfer polisïau agregau mewn Cynlluniau Datblygu Lleol.

### Cynllun Rheoli'r Traethlin (2010)

**1.2.22** Cynhyrchwyd Cynllun Rheoli'r Traethlin ar gyfer yr arfordir rhwng Trwyn Larnog ym Mro Morgannwg a Phentir Santes Ann yn Sir Benfro. Mae felly yn cwmpasu'r ardal arfordirol a geir ym Mwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot. Paratoir Cynllun Rheoli'r Traethlin gan grŵp sy'n cynnwys Awdurdodau Lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru, a phartneriaid eraill, ac mae'n darparu asesiad graddfa fawr o'r risgiau sy'n gysylltiedig ag erydiad arfordirol a llifogydd ger yr arfordir. Mae hefyd yn cyflwyno polisïau i helpu i reoli'r risgiau hyn i bobl ac i'r amgylchedd datblygedig, hanesyddol a naturiol mewn modd cynaliadwy.

**1.2.23** Mae'r ardal arfordir a geir yng Nghastell-nedd Port Talbot yn rhan o Senario Polisi 8: Pwynt y Sger i Ddociau Abertawe. Cynigir y polisïau canlynol:

- Ar gyfer y rhan fwyaf o'r traethlin, cynnal y llinell trwy gadw ac uwchraddio'r mesurau diogelu sydd eisoes yn bodoli.
- Ail-alinio wedi'i reoli ar gyfer y systemau twyni tywod, er mwyn caniatáu iddynt barhau i esblygu'n naturiol.
- Argymhellir polisi hir dymor o gynnal y llinell hefyd ar safle hen fferm danciau BP, i'r gorllewin o Dwyni Crymlyn.

### Strategaeth Adfywio Economaidd Dinas-Ranbarth Bae Abertawe (2013-2030)

**1.2.24** Ym mis Gorffennaf 2013, lansiwyd Bae Abertawe fel "Dinas-Ranbarth gyntaf Cymru", er mwyn rhoi hwb i fuddsoddiad a chyfleoedd am swyddi. Mae Dinas-Ranbarth Bae Abertawe yn cynnwys ardaloedd Awdurdodau Lleol Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Dinas a Sir Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot.

**1.2.25** Mae dynodi'r Ddinas-Ranbarth wedi dod i'r amlwg o ganlyniad i adroddiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, oedd yn amlygu bod twf economaidd yn digwydd fwyfwy mewn rhanbarthau sy'n troi o amgylch dinas, gan ddenu swyddi sgiliau a chyflog uwch.

**1.2.26** Bydd cysyniad y Ddinas-Ranbarth yn dileu'r ffiniau gweinyddol presennol rhwng Awdurdodau Lleol i greu ardal fusnes ganolog. Bydd y dull hwn yn creu marchnad lafur fwy a mwy effeithlon, a gwell rhagolygon o ran creu swyddi, denu mewnfuddsoddi ac arloesedd, er mwyn ychwanegu rhagor o werth i'r economi leol. Mae'r dull hwn hefyd yn cynnig gwell cyfleoedd i gynllunio tai, trafnidiaeth, cymorth i fusnesau a gwasanaethau eraill.

4 Gweithredu'r Fethodoleg ar gyfer Asesu Capasiti Amgylcheddol Agregau Cynradd.

**Strategaeth Twf Economaidd ar gyfer De-orllewin Cymru (2013-2030)**

**1.2.27** Nod y fframwaith strategol hwn yw cynnal De-orllewin Cymru a datblygiad economaidd yn y dyfodol. Mae ardal Newydd De-orllewin Cymru yn cynrychioli cynllun twf economaidd newydd uchelgeisiol ar gyfer De-orllewin Cymru. Canfu'r strategaeth, er gwaethaf buddsoddi mewn isadeiledd yn yr ardal, fod y rhanbarth yn tanberfformio, ac mae'n canolbwyntio ar yr heriau strategol mwyaf pwysig y mae'r rhanbarth yn eu hwynebu. Llwyddiant economaidd yw'r weledigaeth hir dymor, fel bod De-orllewin Cymru yn gallu bod yn Ddinas-Ranbarth hyderus, uchelgeisiol, gysylltiedig, a gydnabyddir yn rhyngwladol am ei heconomi Wybodaeth ac Arloesedd sy'n dod i'r amlwg.

**1.2.28** Mae'r fframwaith yn cynnwys pum nod Strategol cydweddus, fel a ganlyn;

1. Twf Busnes, ei Gadw ac Arbenigo. Mae hyn yn cynnwys;
   - Darparu cymorth busnes wedi'i deilwra er mwyn cadw busnesau a'u helpu i dyfu;
   - Cefnogi cyflogwyr pwysig graddfa fawr sydd eisoes yn bodoli ar draws y rhanbarth, yn y sectorau cyhoeddus a phreifat;
   - Datblygu mewnfuddsoddi cydlynus sy'n gyson o'r radd flaenaf;
   - Datblygu diwylliant mwy entrepreneuraidd ar draws y Ddinas-Ranbarth;
   - Hybu marchnad cychwyn busnes fwy deinamig a chynaliadwy.
2. Medrus ac Uchelgeisiol ar gyfer llwyddiant hir dymor. Mae hyn yn cynnwys;
   - Gwella cyrhaeddiad ac uchelgais yn ein hysgolion isel eu perfformiad;
   - Sicrhau bod y ddarpariaeth addysg bellach ac uwch yn y Ddinas-Ranbarth yn cynnig cymorth hyblyg, sy'n cyfateb i anghenion cyflogwyr;
   - Hyrwyddo ymwybyddiaeth o werth uwchraddio sgiliau;
3. Mwyafu'r swyddi a greir i bawb. Mae hyn yn cynnwys;
   - Cefnogi'r rhai sy'n segur yn economaidd i ddychwelyd i'r gweithlu;
   - Datblygu mentrau lleol;
   - Cynyddu cyfleoedd am swyddi trwy gefnogi twf cyflogaeth oddi mewn i'r stoc busnes brodorol;
   - Sefydlu rhaglen gydlynus o leoliadau profiad gwaith a phrentisiaethau ffurfiol;
4. Yr Economi Wybodaeth ac Arloesedd. Mae hyn yn cynnwys:
   - Mwyafu potensial tymor hir y Campws Gwyddoniaeth ac Arloesedd newydd ym Mhrifysgol Abertawe;
   - Datblygu dull strategol hir dymor o feithrin busnesau newydd;
5. Mannau Unigryw ac Isadeileddau Cystadleuol. Mae hyn yn cynnwys;
   - Datblygu a gweithredu fframwaith cydweddus ar gyfer ymgysylltu ag ymwelwyr a buddsoddwyr;
   - Buddsoddi er mwyn cydlynu cynllunio gofodol i sefydlu map ffyrdd ar gyfer targedu datblygiad tir, eiddo ac isadeiledd;
   - Ymgysylltu â chymunedau lleol, busnesau a rhanddeiliaid cysylltiedig megis cymdeithasau tai wrth greu gweledigaeth leol;
   - Datblygu isadeiledd Band Eang Cenhedlaeth Nesaf cystadleuol ar draws pob rhan o'r Ddinas-Ranbarth;
   - Grymuso'r gymuned a'r sector gwirfoddol i chwarae rhan yn y gwaith o ddatblygu, cyflwyno a phrofi dulliau newydd o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.

## [3] Y Cyd-destun Polisi Lleol

**Cynllun Integredig Sengl Castell-nedd Port Talbot: Gweithio mewn Partneriaeth (2013-2023)**

**1.2.29** Mae'r Cynllun Integredig Sengl yn cyflwyno gweledigaeth y Cyngor ar gyfer Castell-nedd Port Talbot, sef: *'Creu Castell-nedd Port Talbot lle mae gan bawb gyfle cyfartal i fod yn fwy iach, yn hapusach, yn fwy diogel ac yn llewyrchus'.*

**1.2.30** Mae'r Cynllun yn cynnwys 5 prif ganlyniad ar gyfer cyflawni'r weledigaeth:

**1.2.31** **Canlyniad 1** - 'Iachach': Bod plant a phobl ifanc yng Nghastell-nedd Port Talbot yn iach yn gorfforol ac yn emosiynol; bod oedolion oedran gwaith yng Nghastell-nedd Port Talbot yn iach yn gorfforol ac yn emosiynol; a bod Pobl Hŷn yn annibynnol ac yn mwynhau ansawdd bywyd da. Nod y canlyniad hwn yw gwella iechyd a lles trigolion Castell-nedd Port Talbot trwy:

- Hybu ffyrdd iachach o fyw;
- Mewnosod gwella iechyd i drefniadau llunio polisi a chyflwyno gwasanaeth;
- Ailfodelu ac Integreiddio Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

**1.2.32** **Canlyniad 2** - 'Mwy Diogel': Bod pobl yng Nghastell-nedd Port Talbot yn "Teimlo'n Ddiogel a'u bod yn Ddiogel". Nod y canlyniad hwn yw gwella diogelwch pobl trwy wneud y canlynol:

- Lleihau effaith Troseddu ac Ofn Troseddu;
- Lliniaru effeithiau Tân ar y Gymuned;
- Gwella Hyder y Cyhoedd a'u Boddhad ynghylch lefelau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol;

- Lleihau nifer yr achosion o Gam-drin yn y Cartref a'u heffaith
- Lleihau nifer y Bobl Ifanc sy'n ymwneud ag ymddygiad troseddol;
- Lleihau niwed Camddefnyddio Sylweddau.

**1.2.33** **Canlyniad 3** - 'Cynaliadwy': Bod cymunedau ac amgylchedd Castell-nedd Port Talbot yn gynaliadwy. Nod y canlyniad hwn yw creu cymunedau cryf a chynaliadwy i wynebu heriau cynyddol, trwy'r canlynol:

- Datblygu cymunedau sy'n gryf ac yn gynaliadwy trwy ddiwallu anghenion tai ar draws pob deiliadaeth;
- Sicrhau cynaliadwyedd amgylcheddol trwy fyw o fewn ein terfynau a sicrhau bod yr awyr, y tir a'r dŵr yn iach ac yn lân;
- Amddiffyn, gwella a chadw ein hamgylchedd naturiol ac adeiledig;
- Datblygu Trafnidiaeth Gynaliadwy;
- Lleihau gwastraff a symud tuag at fwyafu ailgylchu;
- Cefnogi cyfleoedd i adeiladu cymunedau sy'n ddiogel, yn wydn, yn economaidd hyfyw ac yn gynaliadwy.

**1.2.34** **Canlyniad 4** - 'Ffyniannus': Bod gan Gastell-nedd Port Talbot economi gref, ffyniannus, sy'n arwain at lai o dlodi. Nod y canlyniad hwn yw gwella ein heconomi leol a helpu i leihau tlodi, gan ymdrin â cholli diwydiant o'r ardal a'r hinsawdd economaidd heriol trwy wneud y canlynol:

- Datblygu safleoedd allweddol, prosiectau ac isadeiledd i gadw a denu buddsoddiad i'r economi leol;
- Creu swyddi ansawdd uchel a thwf economaidd ar draws y Fwrdeistref Sirol trwy ddatblygiad a buddsoddiad;
- Mwyafu nifer y bobl sy'n gallu cyrchu cyflogaeth, trwy ymdrin â rhwystrau i gyflogaeth;
- Datblygu rhwydwaith cryf o fusnesau lleol sy'n gallu creu twf economaidd.

**1.2.35** **Canlyniad 5** - 'Dysgu': Bod pobl yng Nghastell-nedd Port Talbot yn cyflawni eu potensial dysgu. Bydd y canlyniad hwn yn ymdrin ag achosion o dangyflawni ac yn codi safonau perfformiad ysgolion a disgyblion trwy wneud y canlynol:

- Gwella addysg, gan sicrhau bod ysgolion yn addas at y diben, ac yn gallu darparu addysg ansawdd uchel;
- Cefnogi plant a phobl ifanc i gyflawni eu potensial;
- Gwella'r canlyniadau dysgu i oedolion.

### Strategaeth Cymoedd y Gorllewin (2006)

**1.2.36** Lansiwyd Strategaeth Castell-nedd Port Talbot ar gyfer Cymoedd y Gorllewin yn 2005 fel strategaeth 10 mlynedd i wella bywyd yng Nghymoedd Castell-nedd Port Talbot ac i wella rhagolygon cymdeithasol ac economaidd y bobl sy'n byw yno. Mae'r Strategaeth yn cynnwys rhaglen ar gyfer yr holl Gymoedd o dan nifer o themâu allweddol a chynllun gweithredu atodol ar gyfer y Cymoedd.

**1.2.37** Ochr yn ochr â'r strategaeth hon paratôdd y Cyngor Gynllun Adfywio Ardal y Cymoedd (VARP) ar gyfer pob Cwm. Gan fod y Cynlluniau hyn yn fwy cyfredol ac yn ymdrin â mwyafrif y materion a godwyd yn ystod cyfarfodydd diweddaraf yr Ymgynghoriad ar Strategaeth y Cymoedd, a bod cyllid ynghlwm wrthynt, maent bellach wedi cael eu mabwysiadu'n weledigaeth ar gyfer datblygu yn ardal Cymoedd y Fwrdeistref Sirol, gan ddisodli Strategaeth wreiddiol Castell-nedd Port Talbot ar gyfer Cymoedd y Gorllewin.

### Strategaeth Adfywio'r Glannau (2011)

**1.2.38** Mae Strategaeth y Glannau'n cwmpasu coridor arfordirol Castell-nedd Port Talbot o Fargam yn y dwyrain i ffiniau Abertawe yn y gorllewin, ac mae'n cynnwys tref Port Talbot, yn ogystal â nifer o aneddiadau trefol llai.

**1.2.39** Nodir y prif safleoedd datblygu canlynol yn ardal y strategaeth, a byddant yn chwarae rhan ganolog drwy ddylanwadu ar ffyniant yr ardal yn y dyfodol:

- Bae Baglan / Parc Ynni Baglan;
- Coed Darcy;
- Ardal yr Harbwr (Port Talbot);
- Green Park, y Gwaith Nwy, Ystâd Ddiwydiannol Port Talbot;
- Ffordd Fabian;
- Cyffordd 38 (yr M4), Margam;
- Aber Castell-nedd – Glanfa Mynachlog Nedd.

**1.2.40** Mae'r strategaeth yn nodi'r safleoedd twristiaeth/hamdden canlynol a allai gyfrannu at dwf ac amrywiaeth yr economi leol:

- Parc Margam;
- Glan Môr Aberafan;
- Doc Brunel.

**1.2.41** Pennir y nodau strategol canlynol:

- Nod Strategol 1: Datblygu tref Port Talbot yn ganolbwynt ar gyfer gweithgareddau masnachol, preswyl, cymdeithasol a chyflogaeth trwy adfywiad ffisegol integredig yng nghanol y dref a denu buddsoddiad newydd.
- Nod Strategol 2: Symud ymlaen i ddatblygu safleoedd adfywio strategol o bwys yn ardal Port Talbot a fydd yn denu buddsoddiadau newydd pwysig, yn creu cyfleoedd cyflogaeth, ac yn lledaenu ffyniant i'r cymunedau o'u hamgylch.

- Nod Strategol 3: Datblygu safleoedd cyflogaeth sydd eisoes yn bodoli a sefydlu rhai newydd pwysig yn ardal Port Talbot sy'n diwallu anghenion busnes modern, yn cryfhau'r economi leol ac yn sicrhau bod cyfleoedd cyflogaeth yn cael eu darparu.
- Nod Strategol 4: Datblygu safleoedd ansawdd uchel ar gyfer twristiaeth a hamdden a fydd yn denu ymwelwyr a buddsoddiadau newydd, ac yn gwella delwedd ac amgylchedd Glannau Port Talbot.
- Nod Strategol 5: Gwella'r ffabrig ffisegol yn yr ardaloedd trefol gan wella ansawdd bywyd a gwneud ardal Port Talbot yn lle deniadol i fyw, gweithio a buddsoddi ynddo.
- Nod Strategol 6: Gwella'r isadeiledd trafnidiaeth a chyfathrebu, gan sicrhau bod ardal Port Talbot yn gwneud yn fawr o'i manteision o ran lleoliad, ac yn dod â manteision i'r economi a phobl yr ardal.

**Strategaeth Tai Lleol (2015-2020)**

**1.2.42** Mae Adran 87 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 yn gofyn bod awdurdodau lleol yn cynhyrchu Strategaethau Tai Lleol sy'n cyflwyno'r materion allweddol y mae'r ddarpariaeth dai yn eu hwynebu mewn ardal awdurdod lleol. Mae tai, a chael mynediad i dai, yn agwedd sylfaenol ar fywyd, ac mae'n effeithio ar holl aelodau'r gymdeithas, beth bynnag yw eu hoed, eu hil neu eu statws. Mae'r Strategaeth Tai Lleol yn cyflwyno'r weledigaeth y cytunwyd arni ar gyfer ymdrin ag anghenion tai Castell-nedd Port Talbot yn ystod y cyfnod hyd at 2020: *'Ein Gweledigaeth yw y bydd Tai yng Nghastell-nedd Port Talbot yn briodol, yn fforddiadwy, o ansawdd da, mewn cymunedau cynaliadwy, gan gynnig dewis a chefnogaeth i bobl os bydd angen hynny arnynt'.*

**1.2.43** Yn 2011, trosglwyddodd y Cyngor ei stoc tai cymdeithasol i Gartrefi CNPT/NPT Homes, wedi i Safonau Ansawdd Tai Cymru ddod i rym. Er bod y cyfrifoldebau rheoli wedi cael eu trosglwyddo, mae'r Cyngor yn dal i gyflawni swyddogaeth tai strategol. Mae'r Strategaeth yn cysylltu â blaenoriaethau a chanlyniadau cynlluniau a strategaethau eraill perthnasol, yn arbennig y Cynllun Integredig Sengl 2013-2023, gan sicrhau bod y Cyngor yn gweithio ar y cyd i ddiwallu anghenion tai.

**1.2.44** Mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Effaith diwygio lles yng Nghastell-nedd Port Talbot;
- Y farchnad dai yng Nghastell-nedd Port Talbot, gan gynnwys demograffeg leol;
- Anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr;
- Cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy;
- Gwella amodau tai, gan gynnwys Benthyciadau Ailgylchadwy ar gyfer Eiddo Gwag, Grant Cyfleusterau i'r Anabl a Safonau Ansawdd Tai Cymru;
- Rôl y sector rhentu preifat;
- Atal digartrefedd;
- Agenda tai, iechyd a gofal cymdeithasol;
- Tai i bobl hŷn; a
- Thai ac adfywio.

**Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol (2014)**

**1.2.45** Mae Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Castell-nedd Port Talbot (CGBLl) 2014 yn offeryn ar gyfer sicrhau a ffocysu'r adnoddau angenrheidiol i ddiogelu a gwella bioamrywiaeth y Fwrdeistref Sirol. Ffocws y CGBLl yw sicrhau na cheir colled net o blith y cynefinoedd a'r rhywogaethau a restrir, ac enillion o ran hyd a lled/poblogaeth (ganfyddedig neu wirioneddol) cynefinoedd a rhywogaethau a restrir.

**1.2.46** Mae'r CGBLl yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol i ganiatáu i sefydliadau ddiogelu a gwella bioamrywiaeth yn y Fwrdeistref Sirol. Mae'r CGBLl yn symud i gyfeiriad gwahanol i'r cynlluniau traddodiadol, sy'n cael eu harwain gan dargedau, ac yn canolbwyntio ar gamau gweithredu a fydd yn cael eu llywio gan adolygiadau rheolaidd o statws cynefinoedd a rhywogaethau a'r pwysau sydd arnynt.

**Strategaeth Amgylcheddol Castell-nedd Port Talbot (2008-2026)**

**1.2.47** Diben y Strategaeth Amgylcheddol yw darparu fframwaith ar gyfer cyflawni amgylchedd glân, iach a ffyniannus, sydd yn gwella o ran llewyrch economaidd, ac y mae trigolion, busnesau ac ymwelwyr â'r Fwrdeistref Sirol yn ei werthfawrogi.

**1.2.48** Cyflwynir y strategaeth mewn pum adran, y mae pob un ohonynt yn bwysig i'r amgylchedd lleol:

- Yr Amgylchedd Naturiol: bioamrywiaeth, cefn gwlad, yr arfordir, mannau glas, cynnwys y gymuned a gwelliannau ffisegol.
- Yr Amgylchedd Adeiledig: cynllunio, adeiladau, cymdogaethau, iechyd amgylcheddol, tai, ynni, newid yn yr hinsawdd, ynni adnewyddadwy, datblygiad economaidd a thwristiaeth.
- Trafnidiaeth a Theithio: ceir, beiciau modur, cerdded, cludiant cyhoeddus, beicio, nwyddau, tanwydd amgen a mentrau.
- Cyfrifoldeb Amgylcheddol: pwrcasu cynaliadwy, mentrau cymdeithasol, penderfyniadau prynu, marciau bwyd, gwastraff, ailgylchu, eco-ysgolion ac Addysg Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang.
- Ansawdd yr Amgylchedd: awyr, tir a dŵr.

**1.2.49** Cefnogir y strategaeth gan Gynllun Gweithredu sy'n manylu ar y camau penodol fydd yn ceisio cyflawni canlyniadau arfaethedig y Strategaeth Amgylcheddol. Ar ben hynny, yn y ddogfen nodir y camau y bydd Cyngor

Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a'i bartneriaid yn gweithio tuag atynt, yn ogystal â chamau a awgrymir fel rhai y gall pawb eu cymryd.

**Cynllun Gweithredu Castell-nedd Port Talbot ar gyfer Datblygu Twristiaeth (2011-2014)**

**1.2.50** Mae'r Cynllun Gweithredu Datblygu Twristiaeth yn nodi'r camau sy'n ofynnol i ddatblygu twristiaeth ymhellach ledled Castell-nedd Port Talbot er mwyn parhau i gynyddu cyfraniad y sector i'r economi leol a'r swyddi mae'n eu creu yng Nghastell-nedd Port Talbot yn y tymor hwy. Mae'r cynllun gweithredu yn amlinellu'r prif themâu ar gyfer datblygu a strwythur ar gyfer cyflawni camau gweithredu gyda rhanddeiliaid lleol rhwng 2011 a 2014.

**1.2.51** Nod y strategaeth yw 'cynyddu cyfraniad y diwydiant twristiaeth i economi Castell-neddPort Talbot trwy ddenu buddsoddiad mewn isadeiledd twristiaeth a chreu swyddi yn y gymuned leol'.

## 1.3 Materion Allweddol Castell Nedd Port Talbot

**1.3.1** Er mwyn i'r CDLl ddatblygu gweledigaeth a strategaeth ar gyfer y dyfodol, casglwyd swm sylweddol o dystiolaeth a chynhaliwyd rhaglen helaeth o gynnwys ac ymgynghori â'r gymuned er mwyn canfod y prif faterion a'r heriau y mae'r ardal yn eu hwynebu ar hyn o bryd. Mae'r broses hon o gasglu tystiolaeth wedi arwain at nodi nifer o faterion allweddol penodol y bydd angen i'r CDLl ymdrin â hwy.



**1.3.2** Mae'r materion allweddol a nodwyd fel a ganlyn:

**KI 1:** angen ymdrin ag achosion a chanlyniadau'r newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys risg gynyddol llifogydd

**KI 2:** Gan drigolion Castell-nedd Port Talbot mae peth o'r iechyd gwaelaf yng Nghymru.

**KI 3:** Mae twf economaidd wedi marweiddio yn ystod y 10 mlynedd diwethaf.

**KI 4:** Mae lefelau isel o alw yn y farchnad yn ardaloedd y Cymoedd

**KI 5:** Mae angen cartrefi ychwanegol i wneud y canlynol: (i) darparu llety ar gyfer y boblogaeth sy'n angenrheidiol i gyfateb i'r nifer o swyddi a ragwelir; a (ii) i ymdrin â'r gostyngiad ym maint cyfartalog aelwydydd.

**KI 6:** Mae angen tai fforddiadwy ychwanegol ar draws y Fwrdeistref Sirol.

**KI 7:** Mae angen mwy o safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr.

**KI 8:** Mae diffyg yn y ddarpariaeth mannau agored mewn rhai cymunedau.

**KI 9:** Mae angen darparu digon o dir yn ystod cyfnod y CDLl i ddiwallu anghenion busnesau.

**KI 10:** Mae pryderon ynghylch ffyniant a dichonoldeb ein canolfannau trefol, rhanbarthol a lleol.

**KI 11:** Mae angen cydbwyso effaith datblygu ar gefn gwlad, y tirlun a'r arfordir, yn arbennig ecsbloetio adnoddau mwynol ac ynni adnewyddadwy.

**KI 12:** Mae angen ymdrin â'r golled sy'n parhau o ran cynefinoedd a rhywogaethau.

**KI 13:** Mae rhai ardaloedd o'r Fwrdeistref Sirol yn wynebu problemau ansawdd aer.

**KI 14:** Mae ardaloedd tir llwyd sylweddol (a ddatblygwyd yn flaenorol) y mae angen eu hadfer a'u hadfywio.

**KI 15:** Mae angen nodi safleoedd priodol ar gyfer cyfleusterau trin gwastraff newydd mewn adeiladau er mwyn ymateb i'r anghenion lleol a rhanbarthol yn y dyfodol.

**KI 16:** Mae angen gwella'r rhwydwaith priffyrdd i hwyluso datblygiad newydd, i gyflwyno cynigion adfywio allweddol, ac i wella hygyrchedd.

**KI 17:** Mae angen ymdrin ag adfeilio a cholli cymeriad yn ein haneddiadau a'n canolfannau trefol.

**KI 18:** Mae erydiad y Gymraeg yn destun pryder yn llawer o gymunedau'r Cymoedd.





Adran 2

# Y Strategaeth

# 2 Y Strategaeth

**2.0.1** Gyda dealltwriaeth o'r materion a'r heriau allweddol y mae'r Fwrdeistref Sirol yn eu hwynebu, mae'r rhan hon o'r Cynllun yn cyflwyno'r canlynol:

- Gweledigaeth;
- Amcanion; a'r
- Strategaeth (sy'n cynnwys Twf, Dosbarthiad Gofodol a Diagram Strategol).

## 2.1 Gweledigaeth

**2.1.1** Cyflwynir isod Weledigaeth y CDLl ar gyfer 2026, sef sut y rhagwelir y bydd Castell-nedd Port Talbot yn newid dros gyfnod y Cynllun.

**Gweledigaeth y CDLl**

Bydd harddwch naturiol a phwysigrwydd amgylcheddol glannau Castell-nedd Port Talbot ac ardal coridor yr arfordir yn cael eu hamddiffyn a'u cadw, tra bod ardaloedd a ddatblygwyd yn y gorffennol, rhai nad ydynt yn cael eu defnyddio'n ddigonol a rhai diolwg a fu gynt yn ddiwydiannol neu'n fasnachol yn cael eu hailddatblygu, gan drawsnewid swyddogaeth a golwg y llain arfordirol gyfan.

Bydd safleoedd allweddol yng nghanol Port Talbot, Bae Baglan, Coed Darcy a Champws Gwyddoniaeth ac Arloesedd Prifysgol Abertawe, ynghyd â chysylltiadau trafnidiaeth a chyfathrebu da, sydd hefyd yn gwella, yn yr ardal, yn helpu i ddarparu economi gystadleuol, seiliedig ar wybodaeth. Bydd aneddiadau newydd a rhai sydd wedi ehangu yn darparu tai cynaliadwy a chyflogaeth i ddiwallu anghenion cymunedau lleol a'r ardal ehangach.

Bydd ardaloedd gwledig y Fwrdeistref Sirol a chymunedau'r cymoedd yn cael eu cynnal a'u hadfywio trwy annog gweithgaredd economaidd newydd a'i ehangu, a thrwy ddarparu ar gyfer cyflogaeth gynaliadwy ar raddfa fach, yn cynnwys mentrau eisoes, megis y Cyrchfannau Twristiaeth Strategol ym Mharc Margam a Chwm Afan.

Gwneir yn fawr o fanteision adnoddau naturiol, a chaiff y dreftadaeth ddiwylliannol, hanesyddol a naturiol ei chynnal a'i gwella. Hybir twf economaidd a chydlyniant cymunedol trwy grynhoi datblygiad mewn ardaloedd allweddol er mwyn darparu manteision i ardal letach o'u hamgylch.

**2.1.2** Y weledigaeth drosfwaol hon sydd wedi tywys datblygiad y strategaeth a'r gyfres integredig o bolisïau a geir yn y Cynllun. Mae hefyd yn cyd-fynd â gweledigaeth gyffredinol yr Awdurdod a gyflwynwyd yn y Cynllun Integredig Sengl.

**2.1.3** Mae'r weledigaeth yn nodi sut bydd asedau presennol, a leolir ar hyd y llain drefol arfordirol, yn cael eu gwella a'u defnyddio i ychwanegu at ragolygon economaidd a chymdeithasol yr ardal gyfan, ochr yn ochr â gwella'r amgylchedd cyffredinol. Amlinellir rôl rhannau mwy gwledig y Fwrdeistref Sirol yn y dyfodol, ynghyd â sut bydd yr economi a chymunedau'r cymoedd yn cael eu cynnal a'u gwella.

## 2.2 Amcanion

**2.2.1** Cyflawnir gweledigaeth y CDLl trwy nifer o amcanion a fydd yn ymdrin â'r materion allweddol mae'r Fwrdeistref Sirol yn eu hwynebu. Mae'r amcanion yn hanfodol i'r CDLl ac yn sail ar gyfer datblygu polisi. Er eglurder, nodir y materion allweddol y mae pob amcan yn ymwneud â hwy.

**2.2.2** Bernir bod y pedwar amcan cyntaf yn rhai trosfwaol, yn yr ystyr eu bod yn cwmpasu llawer, ac y byddant yn hysbysu pob rhan o'r Cynllun. Mae'r Amcanion Ardal yn ymwneud â'r ddwy ardal strategaeth a nodwyd, tra bod yr amcanion sy'n weddill wedi'u grwpio o dan y themâu canlynol, a nodwyd yng Nghynllun Gofodol Cymru:

- Adeiladu Cymunedau Iach a Chynaliadwy[5];
- Hybu Economi Gynaliadwy;
- Gosod Gwerth ar ein Hamgylchedd;
- Cyflawni Hygyrchedd Cynaliadwy; a hefyd
- Parchu Unigrywiaeth.

**Amcanion Trosfwaol**

**OB 1:** Lleiafu achosion a chanlyniadau'r newid yn yr hinsawdd trwy leihau'r allyriadau nwyon tŷ gwydr ac addasu i'r newid yn yr hinsawdd trwy ystyried ei effeithiau wrth ddylunio a lleoli datblygiadau newydd.

**[KI 1 a KI 2]**

**OB 2:** Lleihau i ba raddau mae pobl yn dod i gysylltiad â phenderfynyddion iechyd gwael a darparu amgylchedd sy'n annog ffyrdd iach, actif a mwy diogel o fyw.

**[KI 2]**

**OB 3:** Darparu cymunedau cynaliadwy, diogel a hyderus, a datblygu aneddiadau bywiog, sy'n cynnal ystod a chyfuniad o gyfleusterau a gwasanaethau.

**[KI 2 a KI 5]**

**OB 4:** Mwyafu hygyrchedd ystod o gyfleusterau hamdden, adloniant, iechyd, cymdeithasol a chymunedol, yn unol â rôl a swyddogaeth aneddiadau.

**[KI 2]**

**Amcanion Ardal**

**OB 5:** Gwireddu potensial amrywiol a'r cyfleoedd sydd ar gael ar gyfer datblygu economaidd cynaliadwy ar hyd Coridor yr Arfordir, er mwyn meithrin twf economaidd, gan angori'r twf yn y mannau canlynol: Coed Darcy, Campws Gwyddoniaeth ac Arloesedd Prifysgol Abertawe, Bae Baglan a Glannau'r Harbwr.

**[KI 2 a KI 3]**

**OB 6:** Dod â bywyd newydd i ardaloedd y Cymoedd a gwella rhagolygon economaidd, gan gydnabod rôl Glyn-nedd a Phontardawe o ran darparu twf cynaliadwy.

**[KI 2 a KI 4]**

5 Ychwanegwyd y gair 'iach' i deitl y thema gyntaf i adlewyrchu pwysigrwydd mynd i'r afael â iechyd gwael yng Nghastell-nedd Port Talbot.

**Adeiladu Cymunedau Iach a Chynaliadwy**

**OB 7:** Darparu cyflenwad digonol, cyfuniad, math a deiliadaeth o dai oddi mewn i aneddiadau cynaliadwy i ddiwallu anghenion y boblogaeth a ragwelir.

**[KI 2, KI 5, KI 6 a KI 7]**

**OB 8:** Darparu unedau tai fforddiadwy ychwanegol ar draws y Fwrdeistref Sirol a sicrhau bod datblygiadau tai newydd yn gwneud cyfraniad teg, y gellir ei gyfiawnhau, tuag at ddarparu tai fforddiadwy.

**[KI 2 a KI 6]**

**OB 9:** Darparu lleiniau ychwanegol i ymateb i'r angen a nodwyd ymhlith Cymuned Sipsiwn a Theithwyr Castell-nedd Port Talbot.

**[KI 2 a KI 7]**

**OB 10:** Darparu mannau agored mwy cyfartal o fewn ac o amgylch ein haneddiadau.

**[KI 2 a KI 8]**

**Hybu Economi Gynaliadwy**

**OB 11:** Hybu ac amddiffyn portffolio amrywiol o dir cyflogaeth a chyfleoedd cyflogaeth i ddiwallu anghenion trigolion a busnesau a sbarduno twf economaidd.

**[KI 2, KI 3, KI 4 a KI 9]**

**OB 12:** Gwella a chryfhau sylfaen economaidd Castell-nedd Port Talbot er mwyn cynyddu gweithgaredd economaidd, lleihau'r gyfradd ddiweithdra yn unol â chyfartaledd Cymru, a dileu rhai o effeithiau'r gostyngiad yn y boblogaeth oedran gwaith.

**[KI 2 a KI 9]**

**OB 13:** Cynnal, gwella a datblygu hierarchaeth o ganolfannau manwerthu yn unol â'r fframwaith aneddiadau, gan gydnabod rôl flaenllaw canol trefi Castell-nedd, Port Talbot a Phontardawe.

**[KI 2 a KI 10]**

**OB 14:** Ymagweddu'n gyfannol at ddatblygu twristiaeth er mwyn gwneud yn fawr o ddiwydiant twristiaeth cynyddol Castell-nedd Port Talbot, yn fwyaf arbennig twf yng Nghymoedd Nedd ac Afan, i gynnal yr economi leol.

**[KI 3 a KI 4]**

**Gosod Gwerth ar ein Hamgylchedd**

**OB 15:** Cadw tirweddau pwysig Castell-nedd Port Talbot, ei chefn gwlad, ei harfordir sydd heb ei ddatblygu, safleoedd pwysig o ran bywyd gwyllt, cynefinoedd a geoamrywiaeth, gan sicrhau bod datblygiadau ar draws y Fwrdeistref Sirol yn parchu pob tirwedd ac yn cyfyngu gymaint â phosib ar yr effeithiau niweidiol.

**[KI 2, KI 11 a KI 12]**

**OB 16:** Ymdrin â materion ansawdd aer a lleiafu effeithiau niweidiol gweithgareddau sy'n cynhyrchu sŵn ac yn llygru.

**[KI 2 and KI 13]**

**OB 17:** Hybu defnydd effeithlon o dir a diogelu ansawdd a nifer yr asedau amgylcheddol.

**[KI 2 a KI 14]**

**OB 18:** Diogelu adnodd mwynau'r Fwrdeistref Sirol a gwneud cyfraniad cymesur i'r cyflenwad o gronfeydd mwynau sydd wrth gefn i ymateb i'r galw lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, ochr yn ochr â sicrhau y cyfyngir gymaint â phosib ar yr effeithiau niweidiol.

**[KI 11]**

**OB 19:** Gwneud cyfraniad cymesur at anghenion ynni Cymru, gyda ffocws ar ynni adnewyddadwy.

**[KI 11]**

**OB 20:** Cyflawni'r gofynion o ran darpariaeth ddigonol a phriodol ar gyfer cyfleusterau trin a gwaredu gwastraff.

**[KI 15]**

**Cyflawni Hygyrchedd Cynaliadwy**

**OB 21:** Cynyddu hygyrchedd, hybu teithio llesol ac annog newid i ddulliau trafnidiaeth mwy cynaliadwy yn achos pobl a nwyddau.

**[KI 2 a KI 16]**

**OB 22:** Lleihau effeithiau cynnydd mewn traffig a thagfeydd, gan hybu defnydd effeithiol ac effeithlon o'r rhwydwaith trafnidiaeth.

**[KI 2 a KI 16]**

**Parchu Unigrywiaeth**

**OB 23:** Amddiffyn a gwella treftadaeth hanesyddol y Fwrdeistref Sirol, ei hamgylchedd adeiledig a'i hunaniaeth.

**[KI 2 a KI 17]**

**OB 24:** Cadw a gwella prif byrth prifwythiennol y Fwrdeistref Sirol.

**[KI 2 a KI 17]**

**OB 25:** Diogelu a gwella treftadaeth ddiwylliannol a hunaniaeth yr ardal, gan gynnwys yr Iaith Gymraeg mewn mannau sy'n sensitif yn ieithyddol.

**[KI 2 a KI 18]**

## 2.3 Y Strategaeth

**2.3.1** Mae'r Strategaeth yn tywys y Cynllun ac yn darparu fframwaith trosfwaol ar gyfer cyflawni'r weledigaeth, yr amcanion a'r materion allweddol a amlinellwyd yn yr adrannau blaenorol. Defnyddir y strategaeth hon i ddarparu strwythur defnydd tir sy'n canolbwyntio ar ddarparu cymunedau cynaliadwy, llewyrchus, gan greu cyfleoedd cymdeithasol ac economaidd. Mae'r strategaeth yn deillio o roi sylw i bolisi cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, ochr yn ochr â chanolbwyntio ar faterion sy'n benodol i Gastell-nedd Port Talbot.


### Y Cyd-destun Rhanbarthol: Cynllun Gofodol Cymru (CGC)

**2.3.2** Mae Castell-nedd Port Talbot yn rhan o ardal ofodol Glannau Bae Abertawe a Chymoedd y Gorllewin, ochr yn ochr ag Abertawe a rhannau o Sir Gaerfyrddin, Pen-y-bont ar Ogwr a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Rôl Castell-nedd Port Talbot wrth gyflawni nodau, amcanion a dyheadau'r rhanbarth yw cefnogi Dinas a Sir Abertawe trwy lywio twf tuag at yr aneddiadau allweddol a nodwyd, sef Castell-nedd, Port Talbot a Phontardawe a'r cymunedau ategol yn y Cymoedd. Bydd yr hierarchaeth hon o aneddiadau rhanbarthol yn sicrhau bod strategaethau gwahanol Awdurdodau'r rhanbarth yn cydweddu â'i gilydd. Dylai twf a dosbarthiad y twf hwnnw, felly, gydweddu â'r cyd-destun rhanbarthol a chadw ato.

**2.3.3** Gyda'r nod o greu cymunedau cynaliadwy, sefydlodd y dadansoddiad a wnaed yn sgîl Astudiaeth Capasiti Trefol ac Adolygiad Aneddiadau'r Fwrdeistref Sirol Hierarchaeth Aneddiadau, a oedd yn diffinio'r ardaloedd hynny lle ceid y mannau mwyaf cynaliadwy ar gyfer twf yn y dyfodol, o ran eu rôl a'u swyddogaeth yn y cyd-destun ehangach.

**2.3.4** Yn ogystal â rhoi sylw i gyd-destun polisi'r ardal, lluniwyd y strategaeth yn sgîl y canlynol: nodweddion unigryw'r ardal; adborth yn sgîl ymgysylltu â chymunedau a rhanddeiliaid; cyfyngiadau o ran yr isadeiledd a'r amgylchedd; tueddiadau'r gorffennol; argaeledd safleoedd; twf economaidd; dichonoldeb; cyflawnadwyedd/y galw yn y farchnad a chanlyniad yr Arfarniad Cynaliadwyedd.

**Map 2.1** **Ardal Ofodol y Glannau a Chymoedd y Gorllewin**




**2.3.5** Paratowyd y CDLl mewn hinsawdd economaidd heriol, ac felly mae'n ymagweddu'n uchelgeisiol at ddatblygu yn y dyfodol, gyda'r nod o ddarparu cymdeithas lewyrchus lle gall dyraniadau a datblygiadau newydd feithrin twf economaidd cynaliadwy yng Nghastell-nedd Port Talbot. Gall holl gymunedau Castell-nedd Port Talbot helpu i gyflawni nodau'r Cynllun, ac felly mae'r strategaeth yn cydnabod ein holl gymunedau a'u swyddogaeth o fewn y Fwrdeistref Sirol.

### Y Cyd-destun Lleol: Castell-nedd Port Talbot – Coridor yr Arfordir a'r Cymoedd

**2.3.6** Ar gychwyn y broses o baratoi'r CDLl, roedd y Fwrdeistref Sirol wedi'i rhannu'n wyth Ardal Ofodol, sef dwy dref Castell-nedd a Phort Talbot ac ardaloedd amgylchynol Cwm Afan, Dyffryn Aman, Cwm Dulais, Cwm Nedd, Pontardawe a Chwm Tawe, y bernid bod gan bob un ohonynt ei hunaniaeth unigryw (gweler Map 1.1). Wrth i'r broses o baratoi'r Cynllun fynd yn ei blaen, mireiniwyd yr wyth ardal ofodol yn ddwy strategaeth ardal a fyddai'n

cynnwys Coridor yr Arfordir (oedd yn cynnwys y ddwy brif dref, sef Castell-nedd a Phort Talbot, a'r cymunedau sy'n eu cynnal); a'r Cymoedd (sef Cwm Afan, Dyffryn Aman, Cwm Dulais, Cwm Nedd, Pontardawe a Chwm Tawe).

**2.3.7** Mae 'Coridor yr Arfordir' yn cynnwys y prif ganolfannau poblogaeth, isadeiledd a chyfleusterau, ac yn elwa o fynediad hwylus i'r M4, sy'n golygu bod yr ardaloedd hynny'n fwy deniadol o ran buddsoddi ar gyfer datblygiadau busnes, masnachol a phreswyl.

**2.3.8** Wrth symud tua rhan ogleddol y Fwrdeistref Sirol, mae'r topograffi'n newid o dirlun gwastad, agored, i ddyffrynnoedd afonydd, wedi'u gwahanu gan lwyfandiroedd uchel a mynyddoedd. Yn y 'Cymoedd' mae'r cyfleoedd datblygu wedi'u lleihau ymhellach yn sgîl topograffi a mynediad i'r llwybrau trafnidiaeth prifwythiennol (y rheilffordd a'r M4).

**2.3.9** Mae'r strategaeth ar gyfer Castell-nedd Port Talbot felly yn argymell dull gwahanol o ymdrin â datblygu yn y ddwy ardal strategaeth hon o'r Fwrdeistref Sirol. Nod y strategaeth yw:

**Hwyluso twf yng Nghastell-nedd Port Talbot, gan ganolbwyntio ar Goridor yr Arfordir, ochr yn ochr ag adfywio cymunedau'r Cymoedd.**

**2.3.10** Ystyr hynny yw:

- **Canolbwyntio datblygu ar hyd coridor yr arfordir ac yn ardaloedd trefol Castell-nedd a Phort Talbot, gan gydnabod rôl bwysig yr aneddiadau hynny yn y cyd-destun ehangach;**
- **Gwneud yn fawr o fanteision diddordeb y farchnad ar hyd coridor yr arfordir, a sbarduno twf trwy ddarparu safleoedd cyflogaeth strategol ac ardaloedd adfywio strategol;**
- **Nodi Cwm Nedd Uchaf a Phontardawe fel ardaloedd twf strategol yn y Cymoedd a fydd yn creu mecanwaith ar gyfer cydlynu buddsoddiad ac yn sicrhau bod manteision twf ac adfywio yn cael eu rhannu yn fwy eang ar draws cymunedau'r cymoedd;**
- **Ymagweddu'n hyblyg at ddatblygu yng nghymunedau'r Cymoedd.**

## 2.4 Twf

**2.4.1** Seiliwyd y lefel twf ar sefyllfa economaidd yn bennaf, sy'n cydweddu â dull Dinas a Sir Abertawe o weithredu ac yn ymdrin â materion allweddol Castell-nedd Port Talbot er mwyn cyflawni gweledigaeth ac amcanion y CDLl.

**2.4.2** Mae'r senario a ddewiswyd, sy'n dibynnu i raddau helaeth ar ffactorau economaidd, yn un uchelgeisiol, ac yn ceisio mwyafu twf swyddi yn yr economi leol. Er mwyn ymdrin â materion allweddol y Fwrdeistref Sirol, mae creu cyfoeth trwy dwf swyddi yn hanfodol i gyflawni gweledigaeth y CDLl.

**2.4.3** Mae'r dull hwn wedi galluogi'r Awdurdod i ragfynegi sut bydd newidiadau economaidd dros gyfnod y Cynllun yn cyfateb i'r gofynion o ran tir cyflogaeth a nifer y tai newydd angenrheidiol i ddarparu ar gyfer y cyfanswm a ragwelir i'r boblogaeth a'r cyflenwad llafur fydd yn ofynnol. Mae hyn yn sicrhau aliniad rhwng cyflogaeth a thai, gan greu patrwm datblygu mwy cynaliadwy a fydd, yn ei dro, yn gwella cadernid y CDLl.

**2.4.4** Mae'r dull hwn wedi defnyddio rhagamcanion poblogaeth ac aelwydydd Llywodraeth Cymru 2008, a dadansoddiad manwl o'r tueddiadau gwaelodol o ran cyfraddau marwolaeth a ffrwythlondeb a maint cyfartalog aelwydydd. Ar sail senario uchelgeisiol twf swyddi (gan roi ystyriaeth i ddyhead yr Awdurdod i leihau diweithdra a chynyddu cyfraddau gweithgaredd economaidd yn unol â chyfartaledd Cymru), sbardunwyd twf poblogaeth yr ardal gan gymhareb y boblogaeth oedran gwaith a chyfanswm y boblogaeth. Bernir bod gwneud hynny yn sicrhau rhagamcanion mwy cadarn na rhai a seiliwyd ar dueddiadau yn unig, nad ydynt yn adlewyrchu'n gywir ddyheadau'r Awdurdod ar gyfer yr ardal.



**2.4.5** Mae'r twf yn y boblogaeth a'r aelwydydd yn cyd-fynd â rhagolygon economaidd Castell-nedd Port Talbot a pherfformiad cymharol economi De-orllewin Cymru yn ei chrynswth. Sbardunwyd lefel y tai yn bennaf gan y gostyngiad yn maint cyfartalog aelwydydd, ond mae wedi cael ei hybu a'i annog i raddau llawer helaethach nag yn y gorffennol er mwyn sicrhau ei fod yn diwallu anghenion y boblogaeth bresennol, ond hefyd yn annog elfen o fudo i mewn i'r Fwrdeistref Sirol. Nod y lefel twf yw sicrhau bod y Fwrdeistref Sirol yn dod yn fwy annibynnol, ac yn llai dibynnol ar ffynonellau llafur o'r tu allan, trwy wella cyfraddau gweithgaredd economaidd y trigolion.

### Newid yn yr Hinsawdd, Iechyd a'r Amgylchedd

**2.4.6** Mae'r Fwrdeistref Sirol yn ymfalchïo yn ei threftadaeth ddiwylliannol, hanesyddol a naturiol. O'r herwydd, cyfeiriwyd datblygiad i rannau o'r Fwrdeistref Sirol sydd â'r capasiti amgylcheddol i ganiatáu twf heb achosi niwed diangen i ardaloedd y gosodir gwerth hanfodol arnynt o ran diddordeb bioamrywiaeth, tirlun, hanes neu gadwraeth.

**2.4.7** Mae'n rhaid i lefel y twf sy'n angenrheidiol i gyflawni amcanion y Cynllun sicrhau cydbwysedd rhwng yr awydd i greu ffyniant economaidd ac amddiffyn amgylchedd, iechyd a lles y Fwrdeistref Sirol.

**2.4.8** Dau o blith pedwar amcan trosfwaol y Cynllun yw newid yn yr hinsawdd a iechyd, a byddant yn cael eu gwreiddio yn holl bolisïau a chynigion y Cynllun. Ochr yn ochr â chreu cymunedau cynaliadwy a darparu isadeiledd ffisegol a chymdeithasol, mae'r ddau fater strategol hwn yn ganolog i'r Cynllun.

**2.4.9** Mae'r ffactorau hyn, felly, wedi dylanwadu'n drwm ar lefel y twf. Dewiswyd dyraniadau datblygu yn unol ag egwyddorion datblygu cynaliadwy, fel eu bod mewn lleoliadau sy'n rhoi sylw, i'r graddau y mae hynny'n bosib, i faterion megis dibyniaeth ar geir preifat, perygl llifogydd, ansawdd aer a mynediad i gyfleusterau.

**2.4.10** Mae'r amgylcheddau naturiol ac adeiledig yn cynnwys nodweddion sy'n gallu effeithio ar iechyd a llesiant y boblogaeth. Gall cymdogaeth sydd wedi'i dylunio'n dda ac sydd ag adnoddau digonol a chysylltiadau da sicrhau manteision iechyd cadarnhaol. Gall sicrhau bod cysylltiadau rhwng y mannau lle mae trigolion Castell-nedd Port Talbot yn gweithio, yn byw, yn chwarae, yn ymlacio ac yn cymdeithasu yn gallu helpu i gyfrannu at greu cymunedau iach a chynaliadwy.

**2.4.11** Mae ansawdd yr amgylchedd naturiol a'r gwasanaethau naturiol sylfaenol y mae'n eu darparu yn eithriadol bwysig o safbwynt iechyd a llesiant. Bydd y strategaeth yn ceisio diogelu'r amgylchedd (ansawdd aer, dŵr a thir) ac amwynder cymunedau lleol, gan sicrhau bod lleoliad datblygiadau tai sylweddol yn rhoi sylw i'r angen am leihau cysylltiad pobl â'r elfennau hynny a all gael effaith niweidiol ar eu hiechyd, gan gynnwys lleoli datblygiadau sensitif yn ddigon pell oddi wrth ffynonellau sŵn, llygredd aer a pherygl llifogydd.

**2.4.12** Gall ansawdd yr amgylchedd adeiledig ddylanwadu ar iechyd a llesiant y boblogaeth. Mae'n bosibl y bydd cymunedau hygyrch, deniadol a diogel, sydd â chysylltiadau da a mynediad i gyfleusterau cymunedol (fel siopau, ysgolion, cyfleusterau gofal iechyd a mannau agored) yn annog lefelau uwch o weithgaredd corfforol (cerdded a beicio) a gweithgaredd cymdeithasol, a all yn ei dro wella iechyd a llesiant.

**2.4.13** Nod y strategaeth sy'n seiliedig ar gyflogaeth yw annog datblygiad economaidd ar draws y Fwrdeistref Sirol, gan ddarparu amrywiaeth o swyddi. Mae'r strategaeth yn ceisio cynyddu cyfraddau gweithgaredd economaidd, a lleihau lefelau diweithdra yn unol â chyfartaledd Cymru. Gallai darparu cyfleoedd cyflogaeth newydd hefyd arwain at fanteision iechyd cadarnhaol.

### Twf Poblogaeth, Tai ac Economaidd

**2.4.14** Ar sail y senario twf a ragwelwyd, yn bennaf yn sgîl ffactorau economaidd, o 3,850 o swyddi ar gyfer yr ardal, mae'r Cynllun yn darparu ar gyfer 7,800 o unedau preswyl newydd eraill, gan greu cynnydd o ryw 7,000 o bobl a chyfanswm poblogaeth o 147,400 erbyn 2026. Mae'r agwedd hon yn uchelgeisiol, wedi'i chysylltu â'r economi leol, ac wedi'i llunio i gyd-fynd â'r twf a ragwelir mewn gweithgaredd economaidd a'r gostyngiad ym maint cyfartalog aelwydydd, yn ogystal â helpu i ddiwallu'r angen am unedau preswyl fforddiadwy ychwanegol.

**2.4.15** Elfen hanfodol i gyflawni llwyddiant economaidd yw sicrhau cyflenwad, cyfuniad ac ystod priodol o safleoedd cyflogaeth ansawdd uchel, a all gefnogi anghenion busnes a chyflogaeth sy'n dod i'r amlwg. Ar lefel leol, mae'r twf economaidd wedi bod yn ddisymud yn ystod y 10 mlynedd diwethaf, ac nid yw'r dirwasgiad byd-eang wedi helpu yn hynny o beth. Er mwyn cyflawni dyheadau'r weledigaeth 15 mlynedd, bydd cynlluniau a phrosiectau adfywio allweddol megis Glannau'r Harbwr, Pentref Trefol Coed Darcy, a Bae Baglan yn trawsnewid yr ardal trwy ailddatblygu hen dir diwydiannol diolwg a ddefnyddiwyd yn flaenorol. Bydd y prosiectau hyn, ynghyd ag adleoli Campws Gwyddoniaeth ac Arloesedd Prifysgol Abertawe ar Ffordd Fabian, yn denu diwydiannau technoleg uchel ac yn ehangu'r gronfa sgiliau ar gyfer darpar-gyflogwyr.

**2.4.16** Aseswyd lefel y tir cyflogaeth i sicrhau bod modd darparu hynny o fewn cyfnod y Cynllun. Er mwyn cyflawni'r weledigaeth a'r strategaeth gyffredinol ar gyfer yr ardal, dyrannwyd 96 ha o dir ar gyfer cyflogaeth, sef 32 ha ar gyfer defnyddiau Dosbarth B Confensiynol a lle i ddarparu ar gyfer anghenion y sector ynni a chyfleusterau a gwasanaethau ategol sy'n cynnal ac yn cydweddu â rôl a swyddogaeth ehangach Defnyddiau Dosbarth B. Ar ben hynny, mae 19 o safleoedd cyflogaeth presennol wedi'u diogelu at ddibenion cyflogaeth.

**2.4.17** Mae Bae Baglan yn darparu safle tir llwyd mawr a all ymateb i ofynion yn awr ac yn y dyfodol mewn sectorau economaidd presennol a rhai sy'n dod i'r amlwg yn ystod cyfnod y Cynllun ac wedi hynny. Mae'n cynnwys 75 hectar o dir, ond rhagwelir na ddatblygir ond rhan ohono yng nghyfnod y Cynllun, gydag 15 hectar yn cael eu dyrannu ar gyfer defnyddiau cyflogaeth Dosbarth B confensiynol. Gellir denu ystod lawn o weithgareddau a defnyddiau i'r ardal, gan gynnwys cynlluniau sector ynni o bob maint a graddfa. Ni fydd llawer o gynigion cynhyrchu ynni yn syrthio i unrhyw ddosbarth defnydd, er enghraifft, cynlluniau Ffotofoltaig. Ni fyddai cynigion ar gyfer defnyddiau o'r fath yn cyfrannu at yr angen a ragwelir, sef 20 hectar, a bennwyd gan yr Asesiad Economaidd a'r Astudiaeth o Ddarpariaeth Tir Cyflogaeth[6], gan fod hynny'n ymwneud yn benodol â defnyddiau Dosbarth B confensiynol (masnachol, diwydiannol a storio).

**2.4.18** Gallai'r tir fod yn ddeniadol i ddiwydiannau a sectorau uchelgeisiol y dyfodol (h.y. y rhai sydd heb eu rhagweld yn y rhagolygon twf economaidd) a bydd swm y tir a ddefnyddir yn cael ei fonitro, fel y bydd y gyflogaeth a gynhyrchir, er mwyn sicrhau bod perfformiad Bae Baglan yn cyfateb i elfennau eraill o'r strategaeth (ac amcanion eraill cenedlaethol a rhanbarthol).

**2.4.19** Mae twristiaeth yng Nghastell-nedd Port Talbot wedi dod yn gyfrannwr pwysig i'r economi leol, ac mae wedi darparu amrywiaeth o gyfleoedd, yn enwedig yn ardaloedd y Cymoedd. Yn 2011, amcangyfrifwyd bod refeniw twristiaeth i Gastell-nedd Port Talbot yn rhyw £92 miliwn[7], sy'n dangos pa mor hanfodol bwysig yw'r sector hwn i gyflogaeth a chyfleoedd busnes. Gan mai yng nghymunedau'r Cymoedd y ceir y crynodiad mwyaf o gyfleusterau twristiaeth, gallai twf yn y sector hwnnw fod yn offeryn adfywio pwysig.

6 Peter Brett Associates (2012) Economic Assessment and Employment Land Provision for Swansea and Neath Port Talbot.
7 Adroddiad STEAM (2011).

**Cyflawnadwyedd a Hyblygrwydd**

**2.4.20** Mae ardaloedd helaeth o'r Fwrdeistref Sirol yn dir llwyd, diwydiannol gynt, a ddatblygwyd yn flaenorol. Nod y strategaeth, felly, yw ailddatblygu'r ardaloedd hyn trwy gynlluniau adfywio strategol. Bydd hynny'n sicrhau bod buddsoddiad yn cael ei sianelu i'r ardaloedd hyn, ac yn atal colli tir glas y Fwrdeistref Sirol yn ddiangen.

**2.4.21** Fodd bynnag, er mwyn sicrhau bod modd cyflawni'r gyfradd dwf hon dros gyfnod y Cynllun, cynhwyswyd cyfuniad o safleoedd tir llwyd a thir glas yn y cyflenwad o dir tai. Mae'r holl safleoedd wedi cael eu hasesu'n gadarn, yn unol â Methodoleg Asesu Safleoedd Ymgeisiol y Cyngor a'r Arfarniad Cynaliadwyedd.

**2.4.22** Er mwyn cyrraedd y lefel hon o dwf, ymgorfforwyd elfen o hyblygrwydd yn y cyflenwad tir tai, rhag ofn na chyflwynir safleoedd yn unol â'r disgwyl gwreiddiol. Cyfanswm y gofynion tai dros gyfnod y Cynllun (hyd at 2026) yw 8,760 uned breswyl, sy'n cynnwys elfen o hyblygrwydd.

**Isadeiledd**

**2.4.23** Mae'r CDLl yn cydnabod yr angen am sicrhau bod isadeiledd priodol eisoes yn ei le neu bod modd ei ddarparu er mwyn caniatáu'r lefel o dwf a nodwyd. Heb fuddsoddiad priodol i alluogi darparu isadeiledd gwell neu newydd, ni fydd y lefel twf a gynigiwyd yn gynaliadwy nac yn dderbyniol. Gall fod gofyn, felly, i ddatblygiad newydd ddarparu neu gyfrannu at ddarparu'r isadeiledd angenrheidiol, fel bod modd ei ddarparu o fewn cyfnod y Cynllun.

**2.4.24** Rhan annatod o'r strategaeth yw darparu isadeiledd newydd i gynnal dyraniadau a thwf yn y dyfodol. Mae'r strategaeth yn cynnal nifer o brosiectau isadeiledd allweddol sy'n hanfodol i gyflawni nifer o ddynodiadau strategol, yn cynnwys safleoedd tai, cyflogaeth ac adfywio.



**2.4.25** Bydd datblygu ffyrdd newydd pwysig yn rhoi cyfle i'r rhanbarth agor y ffordd ar gyfer y cyfleoedd a gyflwynir gan ddatblygiadau yn y dyfodol a chyflawni ei botensial llawn. Bydd datblygiadau megis Ffordd yr Harbwr (y Ffordd Ddosbarthu Ymylol); Ffordd Gyswllt Mynediad Deheuol i Goed Darcy; Ffordd Gyswllt Ynni Baglan yn darparu capasiti ychwanegol o fewn y rhanbarth i hwyluso datblygiadau a gynlluniwyd ac i feithrin twf economaidd.

## 2.5 Dosbarthiad Gofodol

**2.5.1** Mae'r adran hon yn nodi'n fras y lleoliadau a fydd yn cyflawni'r anghenion twf a datblygu ar gyfer darparu tai, cyflogaeth, manwerthu ac isadeiledd yn y dyfodol.

**2.5.2** Nodir ardaloedd trefol Castell-nedd a Phort Talbot fel aneddiadau mwyaf cynaliadwy'r Fwrdeistref Sirol, lle ceir y cyfleoedd mwyaf i leihau'r angen am deithio yn sgîl cydleoli tai, swyddi, siopau, cyfleusterau cymunedol a chludiant cyhoeddus.

**2.5.3** Yn nhrefi'r Cymoedd, nodir mai Pontardawe a Glyn-nedd yw'r aneddiadau mwyaf cynaliadwy ar gyfer canolbwyntio datblygiad er mwyn sicrhau bod manteision twf ac adfywio'n cael eu rhannu'n fwy eang ar draws cymunedau'r cymoedd. Bydd agwedd fwy hyblyg at ddatblygu yn y cymoedd, o'i gymharu â choridor yr arfordir, yn helpu i ddod â bywyd newydd i gymunedau trwy gyfleoedd manwerthu a chyflogaeth ar raddfa fach (yn cynnwys unedau bywyd/gwaith), gan geisio cynnal y boblogaeth bresennol a lleihau all-gymudo.

**2.5.4** Mae 'hierarchaeth aneddiadau' wedi nodi cymunedau sydd â chapasiti digonol i ddarparu ar gyfer datblygiad newydd oddi mewn i ffiniau dynodedig. Defnyddiwyd hyn i sicrhau dull cytbwys o reoli twf, gan gyfeirio datblygiad i'r ardaloedd ar sail y nodweddion a geir yn y gymuned honno a'u gallu i ddarparu ar gyfer twf. Mae dull o'r fath yn nodi'r aneddiadau allweddol sydd ag isadeiledd priodol, a bydd yn mwyafu'r cyfleoedd i greu aneddiadau effeithlon o ran adnoddau, sy'n cyfrannu at gynaliadwyedd amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd y Fwrdeistref Sirol. Defnyddir terfynau aneddiadau i nodi'n eglur i ble y gellir cyfeirio datblygiad.

**2.5.5** O ran cyfeiriad datblygiadau newydd, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gwelwyd y gyfran fwyaf o adeiladu tai a buddsoddi economaidd yng Nghastell-nedd Port Talbot yn cael ei chrynhoi yn ardaloedd trefol Castell-nedd a Phort Talbot. Mae'r ardaloedd trefol hyn wedi'u lleoli ar hyd coridor yr M4, gan ddarparu cyswllt strategol â'r ardal ehangach, a meithrin cysylltiadau trafnidiaeth a chyfathrebu cryf â'r Awdurdodau o amgylch.

**2.5.6** Bu'r galw am ddiwydiant a thai newydd yng nghymunedau'r Cymoedd yn is, gyda llai o fuddsoddi sector preifat, dirywiad yn y diwydiannau traddodiadol, a gostyngiad mewn rhai cyfleusterau a gwasanaethau mewn cymunedau penodol. Er gwaethaf yr elfen o ddirywiad, mae'r cymunedau hyn wedi cynnal ysbryd cymunedol cryf, ac mae ganddynt dreftadaeth ddiwylliannol a naturiol gyfoethog.

**2.5.7** Ar sail tueddiadau diweddar a ffocws y farchnad, rhagwelir y bydd mwyafrif y buddsoddi'n dal i ddigwydd ar hyd Coridor yr M4, gyda galw mwy cyfyngedig yng nghymunedau'r Cymoedd. Mae'r strategaeth felly yn canolbwyntio ar Goridor yr Arfordir ac ardaloedd y Cymoedd mewn cyd-destun gwahanol, er mwyn adlewyrchu eu gwahanol botensial o ran darparu ar gyfer datblygiadau newydd. Wrth wneud hyn, mae'r strategaeth yn darparu cydbwysedd rhwng hwyluso datblygiad economaidd, gan gydnabod Coridor yr Arfordir fel yr ardal gryfaf ar gyfer denu mewnfuddsoddi, ac ar yr un pryd sylweddoli swyddogaeth allweddol cymunedau'r Cymoedd a dod â bywyd newydd i'r ardaloedd hynny i'w gwneud yn wytnach.

**2.5.8** Mae'r etifeddiaeth yn sgîl gweithgaredd y gorffennol yn y Fwrdeistref Sirol, yn bennaf yng nghyswllt diwydiant trwm ar hyd coridor yr arfordir, wedi creu ardaloedd sylweddol o dir llwyd (y mae rhai ohonynt wedi'u halogi). Yn unol â pholisi cenedlaethol, mae'r Awdurdod wedi manteisio ar y cyfle i wneud y defnydd gorau posib o ddyraniadau tir llwyd, lle bo modd.

**2.5.9** Bydd Coridor yr Arfordir felly yn darparu lle ar gyfer nifer sylweddol o dai a chyfleoedd cyflogaeth, er mwyn hybu adfywio ardaloedd sydd wedi dioddef yn sgîl etifeddiaeth y gweithgaredd diwydiannol trwm, a dod â thwf i'r ardal gyfan.

**2.5.10** Yn y Cymoedd nodir ardaloedd twf gan gydnabod eu rôl fel canolbwyntiau gwasanaeth yng nghymunedau'r cymoedd. Bydd hyn yn hybu manteision ehangach, y gellir eu hidlo i'r ardaloedd eraill o amgylch.

**Ystyriaethau Economaidd**

**2.5.11** Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae Castell-nedd Port Talbot wedi wynebu lefelau isel o weithgaredd economaidd a lefelau uchel o ddiweithdra ymhlith y boblogaeth oedran gwaith, sy'n arwydd o weithlu cymharol fawr na fanteisiwyd arno. Mae'r strategaeth, sy'n annog datblygiad economaidd, felly yn ceisio cynyddu cyfraddau gweithgaredd economaidd a lleihau lefelau diweithdra, yn unol ag ymyriadau cynlluniedig y Cyngor. Gallai hyn, o'i gyfuno â thueddiad cenedlaethau iau yn cyflawni safonau addysg uwch, fod yn arwydd o symudiad oddi wrth sectorau traddodiadol mwyngloddio a gweithgynhyrchu, sy'n colli tir, i sectorau uwch, seiliedig ar wybodaeth.

**2.5.12** Cefnogir y symudiad hwn ymhellach gan ddatblygu Campws Gwyddoniaeth ac Arloesedd Prifysgol Abertawe ar Ffordd Fabian, adfywio Coed Darcy a Glannau'r Harbwr, a nodi safleoedd cyflogaeth strategol ym Mae Baglan a Chyffordd 38 (yr M4), Margam.

**2.5.13** Yn ogystal â'r dyraniadau cyflogaeth, mae'r CDLl hefyd yn ceisio sicrhau bod modd diwallu anghenion busnesau a thrigolion presennol trwy nodi ardaloedd cyflogaeth presennol a datblygu tir addas o'u mewn sy'n wag ac a ddatblygwyd yn flaenorol. Mabwysiadir agwedd fwy hyblyg at dwf cyflogaeth yng nghymunedau'r Cymoedd er mwyn dod â bywyd newydd i'r economi leol.

**2.5.14** Mae twristiaeth yng Nghastell-nedd Port Talbot wedi dod yn gyfrannwr pwysig i'r economi leol, ac mae wedi darparu amrywiaeth o gyfleoedd, yn enwedig yn ardaloedd y Cymoedd. Mae'r strategaeth a'r polisïau yn ceisio cynnal y diwydiant hwn trwy ymagweddu'n hyblyg at gynigion twristiaeth newydd a gwrthsefyll colli cyfleusterau presennol, lle bo modd.

**2.5.15** Cefnogir dyraniadau tai a chyflogaeth trwy nodi hierarchaeth fanwerthu sy'n gwreiddio egwyddorion datblygu cynaliadwy yn ddyfnach ac yn adlewyrchu swyddogaeth canolfannau o ran eu rôl fasnachol bresennol a'r hyn sydd ganddynt i'w gynnig o ran manwerthu.



**Ystyriaethau Cymdeithasol ac Amgylcheddol**

**2.5.16** Cyfoethogir y Fwrdeistref Sirol gan ardaloedd o harddwch naturiol, ac mae amgylchedd naturiol gwahanol, unigryw, a werthfawrogir i'r ardaloedd trefol, gwledig ac arfordirol. Mae hyn, o'i gyfuno â threftadaeth naturiol a diwylliannol gref, yn darparu cyfleoedd amrywiol ar gyfer twristiaeth, adloniant, hamdden ac ynni amgen, ac mae'n helpu i hyrwyddo ansawdd bywyd iachach a mwy bywiog i'r trigolion.

**2.5.17** Gall datblygiadau newydd gael effaith niweidiol ar yr amgylchedd, gyda'r posibilrwydd o achosi halogi, llygredd, colli cynefinoedd ac effeithio ar y tirlun. Wrth gefnogi datblygiadau newydd, mae'r CDLl yn mynd ati i gydbwyso'r angen am ddatblygu mewn modd cynaliadwy, ochr yn ochr â chyfyngu gymaint â phosib ar y niwed a allai ddigwydd i'r amgylchedd. Mae amddiffyniad o'r fath yn cynnwys cyfyngu ar ddatblygu yng nghefn gwlad agored ac mewn ardaloedd lle ceir perygl llifogydd na ellir ei liniaru, ac amddiffyn a gwella'r amgylchedd naturiol, hanesyddol ac adeiledig a thirluniau gwerth uchel.

**2.5.18** Nodir iechyd gwael fel mater allweddol i Gastell-nedd Port Talbot. Mae'r strategaeth yn cefnogi nifer o egwyddorion a fydd yn helpu i feithrin dulliau iachach, mwy egnïol o fyw, ac mae'n edrych ar fesurau i helpu i wella mynediad i gyflogaeth, gwasanaethau a chyfleusterau, ochr yn ochr ag annog teithio mwy llesol.

## 'Coridor yr Arfordir'

***(Sef Ardaloedd Gofodol Castell-nedd a Phort Talbot).***

**2.5.19** Ceir y crynodiad mwyaf o ddyraniadau tai a chyflogaeth mewn aneddiadau allweddol ar hyd Coridor yr Arfordir, gan gydnabod y rôl bwysig mae'r aneddiadau hyn yn ei chyflawni yng Nghastell-nedd Port Talbot a'r cyd-destun rhanbarthol. Mae swyddogaeth allweddol i ganol y trefi a'r ardaloedd o'u hamgylch, fel canolbwyntiau cymdeithasol, economaidd a masnachol. Bydd canolbwyntio'r datblygiadau strategol allweddol yn y mannau hyn yn mwyafu'r cyfleoedd sydd ar gael a'u potensial datblygu, ochr yn ochr â manteisio ar y rhwydweithiau trafnidiaeth a chysylltiadau strategol.

**2.5.20** Mae nifer o ddatblygiadau pwysig wedi'u cynllunio ar gyfer yr ardal hon, sy'n hanfodol bwysig wrth greu cymunedau cynaliadwy, llewyrchus, a chyflawni gweledigaeth y CDLl. Mae'r Ardaloedd Adfywio Strategol yng Nghoed Darcy a Glannau'r Harbwr, ac adeiladu Campws Gwyddoniaeth ac Arloesedd Prifysgol Abertawe ar Ffordd Fabian yn ddatblygiadau allweddol i Gastell-nedd Port Talbot a byddant yn chwarae rhan ehangach yn y gwaith o ychwanegu at ffyniant economaidd y rhanbarth, gan weithredu fel catalydd ar gyfer twf yn y dyfodol.

**2.5.21** Bydd Coed Darcy yn creu pentref trefol cynaliadwy, gan adfywio safle tir llwyd graddfa fawr. Bydd y datblygiad defnydd cymysg yn cynnwys elfen breswyl, addysg, cyflogaeth, manwerthu a chyfleusterau cymunedol eraill. Mae gwelliannau priffyrdd, fydd yn golygu creu'r ffordd fynediad newydd ddeheuol, llwybrau cludiant cyhoeddus a chysylltiadau cerdded a beicio, i gyd yn rhannau annatod o'r cynllun. Bydd ailddatblygu Glannau'r Harbwr yn cael effeithiau adfywiol pwysig ar Bort Talbot, a bydd y cynnig defnydd cymysg yn cynnwys tai, manwerthu nwyddau swmpus, defnyddiau addysg a busnes (swyddfeydd, diwydiant ysgafn a storio/ dosbarthu).

**2.5.22** Bydd y cyflenwad tai yng Nghastell-nedd a Phort Talbot yn cynnwys ailddatblygu tir llwyd, safleoedd tir glas ac ymrwymiadau sydd eisoes yn bodoli, gydag adfywio tir llwyd yn cael ei gydbwyso â rhyddhau ardaloedd tir glas. Wrth ryddhau safleoedd ar gyfer datblygu, mae'r strategaeth yn darparu safleoedd tai dichonadwy digonol sy'n ceisio mwyafu'r posibiliadau o ran tai fforddiadwy. Gan mai yng Nghastell-nedd a Phort Talbot y ceir y galw mwyaf yn y farchnad, mae'n ofynnol i'r ardaloedd hynny wneud y cyfraniad mwyaf i dai fforddiadwy.



### Yr Economi a Chyflogaeth

**2.5.23** Dyrannwyd safleoedd cyflogaeth strategol yng Nghyffordd 38 (yr M4), Margam a Bae Baglan. Maent wedi'u lleoli mewn ardal lle ceir galw uchel yn y farchnad, ar hyd coridor yr M4, ac mae ganddynt gysylltiadau trafnidiaeth ardderchog. Cefnogir y strategaeth gyflogaeth trwy'r cynigion eraill allweddol, megis Ffordd yr Harbwr (FfDdY), Ffordd Gyswllt Parc Ynni Baglan, gwell coridorau trafnidiaeth a Champws Prifysgol Abertawe ar Ffordd Fabian.

**2.5.24** Diogelir safleoedd cyflogaeth presennol, gan gydnabod y rôl y maent yn ei chwarae eisoes yn yr economi leol, ac maent yn darparu cyfle digonol ar gyfer datblygiadau mewnlenwi, a fydd yn rhoi cyfle i fusnesau sydd eisoes yn bodoli adleoli ac ehangu.

**2.5.25** Ar ben hynny, cefnogir twristiaeth ar hyd Coridor yr Arfordir, er mwyn sicrhau bod Castell-nedd Port Talbot yn dod yn gyrchfan twristiaeth sefydledig. Bydd atyniadau yn yr ardaloedd trefol megis Parc Gwledig y Gnoll, Parc Gwledig Margam, Rhaeadr Aberdulais a Glan Môr Aberafan yn cyfrannu at yr economi dwristiaeth ac yn cefnogi twristiaeth yn ardaloedd y Cymoedd trwy hyrwyddo Castell-nedd Port Talbot fel cyrchfan twristiaeth gynhwysol.

### Manwerthu

**2.5.26** Rhoddwyd canol trefi Castell-nedd a Phort Talbot ar frig yr hierarchaeth fanwerthu, gan eu bod yn darparu prif swyddogaeth, gyda'r crynodiad mwyaf o nwyddau, gwasanaethau a chyfleoedd cyflogaeth. Gan adlewyrchu eu pwysigrwydd rhanbarthol, bydd y strategaeth yn gwella bywiogrwydd a hyfywedd y canolfannau hyn. Bydd y cynllun adfywio seiliedig ar fanwerthu ar gyfer Canol Tref Castell-nedd a'r datblygiad seiliedig ar fanwerthu yn hen Ysgol Gyfun Glanafan, Port Talbot, yn gwella'r cyfleusterau ac yn gwneud canol y trefi yn gyrchfannau siopa mwy deniadol. Bydd gwelliannau i Port Talbot Parkway, cyfleuster y gyfnewidfa newydd ac ailddatblygu Glannau'r Harbwr hefyd yn gwella mynediad i Bort Talbot ac yn cynyddu swyddogaeth Canol y Dref. Bydd gwelliannau o'r fath, yn ogystal â gwelliannau diweddar i'r parth cyhoeddus, yn gwneud y canolfannau allweddol yn wytnach ac yn alluog i gystadlu'n fwy effeithiol â safleoedd manwerthu y tu allan i'r dref a chanolfannau rhanbarthol eraill.

**2.5.27** Y tu allan i ganol y prif drefi, gwasanaethir ardaloedd tai eraill ar hyd coridor yr arfordir gan ystod o ganolfannau manwerthu llai. Dynodwyd canolfannau ardal yn Llansawel, Sgiwen a Thaibach, ac mae pob un ohonynt yn darparu ystod o swyddogaethau a gwasanaethau ar gyfer yr aneddiadau o'u cwmpas.

### Trafnidiaeth Gynaliadwy

**2.5.28** Mae'r llain arfordirol yn cynnwys coridor trafnidiaeth strategol sy'n cysylltu ardaloedd o'r Fwrdeistref Sirol a'r awdurdodau cymdogol. Nodwyd nifer o fesurau i annog symudiad moddol at ddulliau trafnidiaeth mwy cynaliadwy.

**2.5.29** Bydd ailddatblygu Gorsaf Port Talbot Parkway a datblygu canolbwynt trafnidiaeth integredig cysylltiedig yn golygu bod yr orsaf yn fwy hygyrch a hawdd ei defnyddio i bawb, bydd cyfleuster parcio a theithio gwell ar gael, a bydd yn darparu cyfnewidfa effeithlon i ddefnyddwyr. Ar ben hynny, datblygir cyfleuster Parcio a Rhannu yng Nghyffordd 38 (yr M4), Margam i leihau tagfeydd ac allyriadau, a bydd yn hybu rhwydwaith trafnidiaeth cynaliadwy ac effeithlon.

**2.5.30** Bydd adeiladu Ffordd yr Harbwr (FfDdY) yn helpu i leihau'r tagfeydd ym Mhort Talbot ac ar yr M4, ac ar yr un pryd yn gweithredu fel catalydd ar gyfer adfywio ardal Glannau'r Harbwr. Ar ben hynny, bydd Ffordd Gyswllt Parc Ynni Baglan yn gwella'r isadeiledd cludiant cyhoeddus a hygyrchedd yr ardal, fel bod y safle'n gallu cyrraedd ei lawn

botensial o ran cyflogaeth. Bydd gwelliannau cludiant fel y rhain, ynghyd â Ffordd Fynediad Ddeheuol Coed Darcy, cwblhau Ffordd Amazon a llwybrau beicio, yn gwneud yr ardal yn fwy hygyrch, ac yn caniatáu i Gastell-nedd Port Talbot fod mewn sefyllfa well i fanteisio ar dwf economaidd yn y dyfodol.

**Cadw ein Hamgylchedd**

**2.5.31** Mae'r strategaeth yn cydnabod yr angen am ystyried effeithiau amgylcheddol datblygiadau a gynigir, a bydd yn sicrhau cydbwysedd rhwng twf ac ystyriaethau amgylcheddol. Mae dynodi Ardaloedd Tirlun Arbennig yn cadw'r tirluniau sydd â'r gwerth uchaf ac mae nodi Lletemau Glas yn atal trefi rhag rhedeg i'w gilydd ac yn amddiffyn cyd-destun yr ardal drefol. Mae nodi 'Pyrth Prifwythiennol' megis yr M4 a phrif lein y rheilffordd ym Margam yn y De-ddwyrain ac ar hyd yr A483 Ffordd Fabian o Abertawe yn ceisio amddiffyn ardaloedd o'r fath rhag datblygiadau amhriodol a gweledol ymwthiol.

## 'Y Cymoedd'

***(Sef Ardaloedd Gofodol Dyffryn Aman, Cwm Afan, Cwm Dulais, Cwm Nedd, Pontardawe a Chwm Tawe).***

**2.5.32** Mae gan gymunedau'r Cymoedd draddodiad hir o dreftadaeth ddiwylliannol a hunaniaeth gymunedol gref, gydag ystod eang o adnoddau naturiol. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, fodd bynnag, mae ardaloedd y Cymoedd wedi wynebu cyfnod mwy heriol, wrth i lawer o ddiwydiannau traddodiadol golli tir, ac yn sgîl iechyd gwael, amddifadedd ac allfudo.

**2.5.33** Mewn ymateb, mae angen i'r cymoedd fod yn wytnach yn economaidd trwy arallgyfeirio a chefnu ar ddiwydiannau traddodiadol amaeth a mwyngloddio, gan ddarparu cyfleoedd newydd i dyfiant, buddsoddiad a chreu swyddi/cyfoeth, ochr yn ochr â diogelu cymeriad a threftadaeth yr ardal.

**2.5.34** Mae nifer o fentrau adfywio a chyllido diweddar wedi ceisio gwrthweithio'r dirywiad a brofwyd a throi'r broses amddifadedd yn ôl. Gwelwyd canlyniadau cadarnhaol i'r cyfryw ymgyrchoedd, gyda chynnydd mewn



cyfleoedd cysylltiedig â thwristiaeth mewn ardaloedd, a chynnydd mewn rhai cyfleusterau cymunedol a hamdden. Fodd bynnag, mae ardaloedd y Cymoedd yn dal i brofi dirywiad, ac mae angen ymyrraeth lawer mwy i ddarparu dyfodol mwy llewyrchus.

**Ardaloedd Twf**

**2.5.35** Mae'r strategaeth yn ceisio dod â bywyd newydd i'r Cymoedd yn bennaf trwy nodi dwy ardal dwf, sef Pontardawe a phen uchaf Cwm Nedd. Bydd datblygiad yn yr ardaloedd hynny'n darparu twf a reolir, a fydd yn atgyfnerthu cymunedau sydd eisoes yn bodoli, gan roi sylw i rôl gymdeithasol ac economaidd yr aneddiadau hynny yn y cyd-destun ehangach.

**2.5.36** Nodir Pontardawe a phen uchaf Cwm Nedd fel aneddiadau allweddol a chefnogol yn eu tro yng Nghynllun Gofodol Cymru ac mae iddynt fantais ofodol yn sgîl eu lleoliad strategol fel canolbwyntiau gwasanaeth, lle bydd effeithiau cadarnhaol datblygiad yn cyflawni swyddogaeth adfywio ehangach yn yr ardal amgylchynol.

**2.5.37** Caiff y ddwy ardal dwf hon eu cynnal a'u hategu gan aneddiadau eraill yn yr hierarchaeth aneddiadau. Er bod mwyafrif y dyraniadau tai mawr yn troi o amgylch y pwyntiau twf, yn yr ardaloedd sy'n weddill, cyflawnir twf ar safleoedd llai, oddi mewn i'r terfynau a nodwyd ar gyfer yr aneddiadau.

***Pontardawe***

**2.5.38** Tref Pontardawe yw'r trydydd anheddiad mwyaf yn y Fwrdeistref Sirol a'r anheddiad mwyaf yn ardaloedd y Cymoedd. Mae'n cysylltu â'r M4 ar hyd yr A4067 ac yn gweithredu fel canolbwynt trafnidiaeth gyda mynediad i Gastell-nedd ac Abertawe. Mae hefyd yn borth i'r cymoedd a'r tu hwnt. Mae Pontardawe wrth droed Bannau Brycheiniog a'r Mynydd Du, ac mae yn ymyl Afon Tawe, sy'n crwydro drwy'r cwm i gyfeiriad y môr yn Abertawe.

**2.5.39** Mae Pontardawe yn gweithredu fel canol tref i gymunedau'r Cymoedd, gan ddarparu ystod amrywiol o wasanaethau manwerthu, cyfleusterau hamdden, sefydliadau addysg a chyfleoedd cyflogaeth. Bu nifer o enghreifftiau o waith adfywio yng nghanol y dref yn ddiweddar, yn cynnwys adnewyddu'r cyfleusterau presennol a gwella'r parth cyhoeddus, gan greu man cyhoeddus o ansawdd uchel y gellir ei ddefnyddio ar gyfer gwyliau a digwyddiadau'r dref, a gynhelir ar hyd y flwyddyn. Mae cynlluniau o'r fath wedi gwella hygyrchedd ac atyniad canol y dref.

**2.5.40** Mae gan y parc manwerthu yn Ynysderw, sy'n cynnig ystod o ddefnyddiau manwerthu, gysylltiadau â chanol y dref i gerddwyr, ac mae hynny'n helpu i gynnal ac ychwanegu at ei fywiogrwydd a'r hyn sydd ganddo i'w gynnig. Mae Ystâd Ddiwydiannol Alloy hefyd o fewn pellter cerdded i ganol y dref, ac mae'n cynnig ystod o ddefnyddiau cyflogaeth a chymunedol. Diogelir yr ardal hon ar gyfer

defnyddiau cyflogaeth sy'n annog, mewn egwyddor, defnyddiau cyflogaeth ar y tir a'r safleoedd sydd ar gael o fewn yr ystâd. Bydd dull mwy hyblyg o ymdrin â chynigion cyflogaeth hefyd yn helpu i adfywio'r ardal.

**2.5.41** Mae gan ardal Pontardawe y gallu i ddarparu ar gyfer datblygu tai newydd ychwanegol, ac mae'n amlwg bod galw am hynny yno. Mae'r strategaeth, felly, yn cefnogi cryn nifer o dai newydd a fydd yn adlewyrchu ei swyddogaeth a'i statws cynyddol fel tref a chanolfan fanwerthu, ac yn gweithredu fel catalydd ar gyfer buddsoddi pellach yn ardaloedd y Cymoedd. Dyrannir tai ychwanegol ym Mhontardawe ar draws yr ardal ofodol, gan ganiatáu i'r boblogaeth ehangu, cynnal twf o ran cyfleusterau manwerthu, diwydiant a chymunedol, a darparu cartrefi fforddiadwy y mae mawr angen amdanynt.

***Cwm Nedd Uchaf***

**2.5.42** Mae anheddiad Glyn-nedd, sydd mewn man strategol, wedi'i leoli ar hyd coridor trafnidiaeth allweddol, gyda'r A465 (T) yn cysylltu Ffordd Blaenau'r Cymoedd a Chanolbarth Lloegr â Chastell-nedd, Abertawe, Caerdydd a Gorllewin Cymru. Mae ei lleoliad yn caniatáu i'r dref ddarparu cysylltiadau ar draws y cymoedd, gan wasanaethu ystod o aneddiadau o Gwm Nedd a Chwm Dulais.

**2.5.43** Nod pennu'r llwybr hwn fel 'Porth Prifwythiennol' yw amddiffyn ardaloedd o'r fath rhag datblygiadau amhriodol sy'n weledol ymwthiol.

**2.5.44** Yn ei swyddogaeth bresennol fel canolbwynt mae Glyn-nedd yn darparu manwerthu allweddol, gan gynnal ystod o wasanaethau, cyfleusterau a defnyddiau hamdden. Yn sgîl hynny, dyrannwyd y ganolfan siopa bresennol fel Canolfan Ardal er mwyn cadw'r ystod eang o wasanaethau. Bydd Cynllun Adfywio Canol Tref Glyn-nedd yn gwella'r parth cyhoeddus ac yn darparu gwelliannau i olwg y dref, gan sicrhau bod y trigolion ac ymwelwyr yn ei chael yn groesawgar.

**2.5.45** Dyrannwyd safle Rhodfa'r Parc ar gyfer datblygiad adfywio seiliedig ar fanwerthu, sy'n cynnwys dyraniad tai ar gyfer 150 o unedau a siop fwyd newydd a fydd yn helpu i gynnal canol y dref, darparu cyfleoedd cyflogaeth a hybu twf ar hyd y Cwm.

**2.5.46** Mae Glyn-nedd yn cynnwys ystod o gyfleoedd cyflogaeth sy'n troi o amgylch y ganolfan fanwerthu bresennol, gweithdai pentref, y diwydiant twristiaeth a gweithrediadau mwynau sy'n dal ar waith yng Nghwm Nedd. Diogelwyd Gweithdai Pentref Glyn-nedd ar gyfer defnyddiau cyflogaeth, ac ymagweddwyd yn fwy hyblyg at gynigion cyflogaeth, er mwyn helpu i adfywio'r ardal.

**2.5.47** Mae potensial yng Nghwm Nedd Uchaf i gynnal a chynyddu diwydiannau cysylltiedig â thwristiaeth. O ganlyniad, gallai'r ardal ddatblygu canolbwynt twristiaeth ansawdd uchel, a phorth i ardaloedd eraill y cymoedd. Mae Glyn-nedd yng nghanol amrywiaeth o atyniadau twristiaeth, ac yn darparu canolfan strategol ar gyfer archwilio nifer o atyniadau ar draws yr ardal ehangach, gan gynnwys Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, y rhaeadrau a'r camlesi.

**2.5.48** Mae'r ardal yn cynnwys llawer o lwybrau cerdded a beicio deniadol sy'n caniatáu mynediad i'r tirlun a'r golygfeydd ysblennydd sydd gan yr ardal i'w cynnig, yn ogystal ag amrywiaeth o gyfleusterau chwaraeon, hamdden a chymunedol sydd eisoes yn bodoli. Mae'r ardal hefyd yn aml yn croesawu Pencampwriaeth Ralio'r Byd a Phencampwriaeth Genedlaethol Cymru.

**2.5.49** Ar ben hynny, bydd y cynllun defnydd cymysg arfaethedig, sy'n seiliedig ar dwristiaeth, yn Rheola yn darparu llety gwyliau a chyfleusterau ategol a fydd yn cynnal datblygiad yng Nglyn-nedd ymhellach, ac yn darparu manteision i'r gymuned ehangach.

**Agwedd Hyblyg at Ddatblygu**

**2.5.50** Yn sgîl eu topograffi a'u pellter o'r prif ganolfannau poblogaeth, mae cymunedau'r Cymoedd wedi dioddef dirywiad a diffyg buddsoddi. Maent yn cynnwys cymunedau sy'n agored i ddioddef dirywiad economaidd pellach, amddifadedd ac allfudo. Nod y CDLl felly yw annog agwedd fwy hyblyg at ddatblygu yn y Cymoedd, er mwyn creu cymunedau cynaliadwy, gwydn, gyda'r bwriad o atal y broses o ddiboblogi a dirywio.

**2.5.51** O ran cyflogaeth, gwelwyd lefelau cymharol isel o fuddsoddiad gan y farchnad yn ardaloedd y Cymoedd yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Wedi dweud hynny, mae busnesau eisoes yn bodoli yn y Cymoedd sy'n darparu swyddogaeth economaidd gadarnhaol ac sydd wedi parhau i ffynnu er gwaethaf y galw isel yn y farchnad a'r heriau eraill a wynebwyd gan gymunedau'r Cymoedd.

**2.5.52** Un enghraifft o lwyddiant o'r fath fu ffermydd yn arallgyfeirio i weithgareddau twristiaeth, gan sicrhau bod mwy o ymwelwyr yn dod i'r ardal a chreu swyddi. Ar ben hynny, gwelwyd cyfraddau meddiannaeth uchel yn unedau gweithdy rhai cymunedau, yn enwedig yr unedau llai, ac mae'r CDLl yn darparu fframwaith ar gyfer darparu lle i fentrau lleol a chymdeithasol ehangu a ffynnu.



**2.5.53** Sicrheir agwedd hyblyg, a bydd unedau cyflogaeth a bywyd/gwaith priodol yn dderbyniol y tu allan i derfynau aneddiadau, cyhyd â'u bod yn union gerllaw, a chaiff cynigion manwerthu eu hystyried mewn lleoliadau y tu allan i ganolfannau tref, ardal a lleol dynodedig. Nod y dull hwn o weithredu yw cynnal cyflogaeth newydd a phresennol, creu swyddi ac adfywio'r ardal.

**2.5.54** Diogelir ardaloedd cyflogaeth presennol, gan adlewyrchu eu swyddogaeth bwysig yng nghymunedau'r Cymoedd, a bydd hynny'n cynnwys safleoedd cyflogaeth nad ydynt yn rhan o'r ardaloedd twf, sef rhai yng Nghwm Afan, Cwm Dulais a Dyffryn Aman. Bydd ailddefnyddio safleoedd gwag a datblygu tir oddi mewn i ystadau hefyd yn cael ei annog mewn egwyddor. Yn unol â pholisi cenedlaethol, cefnogir gweithio gartref, mentrau gwledig ac arallgyfeirio ffermydd yn ogystal.

**Twristiaeth, Treftadaeth a Diwylliant**

**2.5.55** Mae ystod eang o atyniadau ymwelwyr ac ardaloedd o harddwch naturiol yn rhoi cyfle i Gastell-nedd Port Talbot barhau i feithrin ei diwydiant twristiaeth. Mae'r CDLl yn cydnabod hynny, ac mae'n ceisio cynnal y diwydiant hwn trwy ymagweddu'n hyblyg at gynigion twristiaeth newydd a gwrthsefyll colli cyfleusterau presennol, lle bo modd. Dyrannwyd Rheola ar gyfer datblygiad twristiaeth newydd, a fydd yn darparu llety gwyliau a chyfleusterau ategol i ddenu ymwelwyr i'r ardal.

**2.5.56** Mae Cwm Afan yn cynnig ystod o chwaraeon antur, yn arbennig Beicio Mynydd, gyda chyfleusterau a buddsoddiad diweddar gan brosiect Cognation yn galluogi Cwm Afan i dderbyn cydnabyddiaeth genedlaethol fel cyrchfan beicio mynydd, gyda thrywyddau sydd ymhlith y gorau yn y byd. Ochr yn ochr â Pharc Coedwig Afan, Pyllau Glyncorrwg a'r cysylltiadau â Pharc Margam, yr ardal hon bellach yw'r prif atyniad twristiaeth yng Nghastell-nedd Port Talbot, gyda chynydd yn nifer yr ymwelwyr sydd yn ei dro wedi arwain at ddatblygu llety ar raddfa fach yn yr ardal.

**2.5.57** Mae Bro Nedd wedi dod yn gyrchfan pwysig i dwristiaid, gyda Gwlad y Sgydau a Chamlas Nedd yn derbyn mwy o ymwelwyr a chyfleoedd ar gyfer twf. Mae Cwm Tawe, Cwm Dulais a Dyffryn Aman hefyd yn cynnig cyfleoedd, gan fod atyniadau twristiaid yn yr ardaloedd hyn, a chan eu bod yn agos at Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.


**2.5.58** Yng nghyswllt twristiaeth, mae'r strategaeth yn cefnogi gwelliannau i'r ddarpariaeth hamdden a mannau agored i ymwelwyr a thrigolion fel ei gilydd. Caiff cerdded a beicio eu hyrwyddo, a chafodd cyfleusterau eu gwella trwy greu Trac Beicio Dyffryn Aman a Thrywydd Cwm Afan sy'n cysylltu Glan Môr Aberafan â Chwm Afan, gan wella'r cyfleusterau i dwristiaid a'r cysylltiadau rhwng ardaloedd.

**2.5.59** Bu trafnidiaeth yn broblem yn rhai o gymunedau'r Cymoedd, gyda dirywiad mewn gwasanaethau cludiant cyhoeddus yn effeithio ar hygyrchedd. Mae'r pwyntiau twf a nodwyd yn darparu cysylltiadau cludiant cyhoeddus ac yn hygyrch trwy ystod o foddau trafnidiaeth, a hynny ar gyfer anghenion hamdden a beunyddiol.

**2.5.60** O ran yr Iaith Gymraeg, nodwyd cymunedau lle ceir cyfran uchel o siaradwyr Cymraeg a lle mae'r iaith yn rhan o'r dreftadaeth ddiwylliannol fel Ardaloedd Ieithyddol Sensitif. Yn yr ardaloedd hyn bydd goblygiadau datblygiadau newydd ar yr Iaith Gymraeg yn cael eu hasesu, a rhoddir ystyriaeth iddynt.



**Map 2.2** **Diagram Strategol**







Adran 3

# Polisïau Trosfwaol

# 3 Polisïau Trosfwaol

**3.0.1** Mae Polisïau SP1 i SP4 a'r polisïau manwl cysylltiedig yn bolisïau strategol trosfwaol ynghylch materion y bernir eu bod o'r pwys mwyaf i'r Fwrdeistref Sirol gyfan. Maent yn cyflwyno mesurau a weithredir trwy holl themâu a meysydd pwnc y CDLl.

## Newid yn yr Hinsawdd

### 3.0.2 Polisi Strategol SP1 Newid yn yr Hinsawdd

**Polisi SP1**

**Newid yn yr Hinsawdd**

Ymdrinnir ag achosion a chanlyniadau newid yn yr hinsawdd trwy roi'r mesurau canlynol ar waith.

Yng nghyswllt achosion newid yn yr hinsawdd:

1. Ychwanegir at effeithlonrwydd a chynaliadwyedd aneddiadau'r Fwrdeistref Sirol trwy ddatblygu aneddiadau a phatrymau anheddu mwy cydlynus ac effeithlon, ac yn sgîl hynny batrymau teithio mwy cynaliadwy;
2. Lleiafir allyriadau nwyon tŷ gwydr trafnidiaeth trwy annog cludo nwyddau/deunydd masnachol gan ddefnyddio dulliau heblaw'r ffyrdd (e.e. y rheilffordd neu'r môr);
3. Lleiheir y ddibyniaeth ar y car preifat a'r angen cyffredinol am deithio trwy hybu dulliau trafnidiaeth amgen a defnydd mwy effeithlon o gyfleusterau presennol, cydleoliad a defnydd ar y cyd o gyfleusterau;
4. Darperir ar gyfer cyfraniad priodol y Fwrdeistref Sirol i gynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel.

Yng nghyswllt canlyniadau'r newid yn yr hinsawdd:

1. Rhoddir sylw i risg gynyddol debygol o lifogydd, ac ymdrinnir â hynny drwy sicrhau bod mwy o allu i'w gwrthsefyll trwy osgoi datblygu ar dir sydd mewn perygl o ddioddef llifogydd yn y lle cyntaf, yn unol â'r dull gweithredu dilyniannol a nodwyd yn y canllawiau cenedlaethol, a hefyd mewn lleoliadau a allai gynyddu perygl llifogydd mewn mannau eraill;
2. Cyfyngir gymaint â phosibl ar ddarnio cynefinoedd a chreir cyfleoedd i gynefinoedd a rhywogaethau newid a mudo lle bynnag y bo modd.

**Amcan y CDLl: OB 1 ac OB 2**

**3.0.3** Mae'r newid yn yr hinsawdd yn debygol o effeithio ar yr amgylchedd a datblygiad Castell-nedd Port Talbot yn y dyfodol mewn amrywiaeth o ffyrdd arwyddocaol, ac ni ellir rhagweld pob un o'r rhain ar hyn o bryd. Mae angen hefyd lleihau'r nwyon tŷ gwydr a gynhyrchir i'r graddau y mae hynny'n rhesymol bosibl, er mwyn lleiafu achosion newid yn yr hinsawdd. Bernir bod y materion hyn o'r pwys mwyaf i'r CDLl, ac maent wedi dylanwadu ar bob agwedd ar ddatblygiad y Cynllun. O ganlyniad, gwelir newid yn yr hinsawdd fel mater trosfwaol y mae angen i bob maes pwnc ymdrin ag ef.

**3.0.4** Mae'r mesurau a amlinellir yn y polisi strategol ar newid yn yr hinsawdd wedi dylanwadu'n sylfaenol, felly, ar ddatblygiad y Cynllun, a byddant yn derbyn sylw ac yn cael eu gweithredu trwy ei holl bolisïau a chynigion. Dewiswyd dyraniadau datblygu yn unol ag egwyddorion datblygu cynaliadwy, fel eu bod mewn lleoliadau sy'n cyfyngu gymaint â phosibl ar y ddibyniaeth ar geir preifat, a lle gellir elwa o wasanaethau a chyfleusterau lleol, ochr yn ochr ag annog darparu cyfleusterau lleol er mwyn ymdrin ag achosion newid yn yr hinsawdd. Ar yr un pryd, rhoddwyd sylw, i'r graddau yr oedd hynny'n bosibl, i effeithiau newid yn yr hinsawdd (er enghraifft, perygl llifogydd) yn holl ddyraniadau a pholisïau'r Cynllun.

**3.0.5** Bydd disgwyl i ddatblygiadau newydd osgoi perygl llifogydd diangen a bodloni gofynion NCT 15: Datblygu a Pherygl Llifogydd. Ni chaniateir unrhyw ddatblygiad hynod fregus oddi mewn i Barth C2[8] y Map Cyngor Datblygu (DAM) ac ni fydd datblygiad yn cael ei ystyried mewn ardaloedd lle ceir perygl llifogydd ond lle gellir dangos bod y safle'n gallu cydymffurfio â'r cyfiawnhad a'r gofynion asesu a gyflwynir yn y NCT.

## Iechyd

### 3.0.6 Polisi Strategol SP2 Iechyd

**Polisi SP2**

**Iechyd**

Cyflawnir y mesurau canlynol yng nghyswllt y lefelau uchel o iechyd hir dymor gwael a salwch yng Nghastell-nedd Port Talbot:

1. Hyrwyddir darparu cymunedau cynaliadwy, diogel a hyderus trwy gydleoli swyddi a chyfleusterau a datblygu cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol yn unol â'r fframwaith aneddiadau;

   **Polisïau Allweddol Perthnasol: SC1-SC2; I1; EC1-EC6; BE1.**

2. Lle bo modd, lleiheir i ba raddau mae pobl yn dod i gysylltiad â'r elfennau hynny sy'n gallu cael effaith niweidiol ar eu hiechyd (megis eu hamgylchedd cymdeithasol, economaidd neu ffisegol) trwy ystyried effeithiau amgylcheddol a diogelwch datblygiadau newydd;

   **Polisïau Allweddol Perthnasol: H1; AH1-AH2; GT1-GT2; OS1-OS2; EN8-EN10; W1; BE1.**

3. Anogir ffyrdd iachach, mwy egnïol a mwy diogel o fyw trwy gadw ystod o gyfleusterau hamdden, adloniant, iechyd, manwerthu, cymdeithasol, diwylliannol a chymunedol hygyrch ar draws y Fwrdeistref Sirol;

   **Polisïau Allweddol Perthnasol: OS1-OS2; SC2; I1; R1-R3; BE1.**

4. Gwellir hygyrchedd rhwng cymunedau ac oddi mewn iddynt er mwyn annog teithio llesol;

   **Polisïau Allweddol Perthnasol: TR1-TR2; BE1.**

5. Hyrwyddir darparu cyfleoedd cyflogaeth newydd, er mwyn lleihau diweithdra a chyfraddau segurdod economaidd.

   **Polisïau Allweddol Perthnasol: EC1-EC6.**

**Amcan y CDLl: OB 2**

8 Gellir gweld Map Cyngor Datblygu (DAM) NCT15 o ddilyn y ddolen ganlynol: **http://data.wales.gov.uk/apps/floodmapping/**

**3.0.7** Yng Nghastell-nedd Port Talbot mae rhai materion iechyd arwyddocaol yn effeithio ar y boblogaeth. O fewn y CDLl, bernir bod iechyd yn faes pwnc trosfwaol, gan y bydd yn derbyn sylw trwy ystod o bolisïau ac ymyriadau y gall fod iddynt fanteision iechyd cadarnhaol.

**3.0.8** Fel yn achos Polisi SP1 Newid yn yr Hinsawdd, rhoddir y mesurau a amlinellir i ymdrin â materion iechyd ar waith trwy nifer o bolisïau a chynigion y Cynllun:

- **Aneddiadau Cynaliadwy** – mae datblygu cymunedau cynaliadwy, iach a chydlynus, naill ai aneddiadau newydd eu hadeiladu fel Coed Darcy neu trwy wella ac ychwanegu at aneddiadau presennol, yn elfen hanfodol o ddull gweithredu strategol y CDLl. Wrth ddiffinio 'hierarchaeth aneddiadau', cyfeirir datblygiad i'r lleoliadau mwyaf cynaliadwy, gan helpu i gynnal y gwasanaethau a'r cyfleusterau presennol sydd ar gael a hefyd ddarparu cyfle i gyflwyno gwasanaethau a chyfleusterau ychwanegol er budd y gymuned ehangach. Gall cymdogaeth sydd wedi'i dylunio'n dda, sydd ag adnoddau digonol a chysylltiadau da, ddarparu manteision iechyd cadarnhaol;
- **Dyraniadau Tai** – mae lleoliad y prif ddatblygiadau tai yn rhoi sylw i'r angen am leihau cysylltiad pobl â'r elfennau hynny a all gael effaith niweidiol ar eu hiechyd, gan gynnwys lleoli datblygiadau sensitif yn ddigon pell oddi wrth ffynonellau sŵn, llygredd aer a pherygl llifogydd. Ymhellach, mae tai newydd yn cael eu codi i fodloni safonau amgylcheddol llym er mwyn cynyddu effeithlonrwydd ynni;
- **Amddiffyn Cyfleusterau Cymunedol** – anogir ffyrdd iachach, mwy egnïol a mwy diogel o fyw trwy bolisïau sy'n ceisio cadw ystod o gyfleusterau hamdden, adloniant, iechyd, cymdeithasol, diwylliannol a chymunedol hygyrch ar draws y Fwrdeistref Sirol. Hefyd anogir cyfleusterau aml-ddefnydd a chydleoli cyfleusterau newydd iechyd a chymunedol;
- **Darparu a Diogelu Mannau Agored** – mae polisïau'n ceisio sicrhau bod yr holl drigolion yn gallu cyrchu mannau agored digonol trwy sicrhau bod datblygiad newydd yn ymdrin ag anghenion lleol a bod mannau agored sydd eisoes yn bodoli yn cael eu cadw a'u hamddiffyn. Mae darpariaeth o'r fath yn cynnwys cyfleusterau ar gyfer chwaraeon awyr agored, cyfleusterau chwarae i blant, mannau agored anffurfiol, mannau glas a rhandiroedd;
- **Hygyrchedd** – mae polisïau'n ceisio gwella hygyrchedd rhwng cymunedau, gan annog teithio llesol lle bynnag y bo modd. Mae gofyn bod datblygiadau newydd yn cael eu gwasanaethu gan opsiynau trafnidiaeth cynaliadwy a'u bod yn hwyluso cysylltedd elfennau presennol a datblygiad newydd, drwy ddarparu cysylltiadau llwybr troed/beicio lle bo hynny'n ymarferol;
- **Cyflogaeth** – mae polisïau'n ceisio darparu cyfleoedd cyflogaeth newydd i leihau diweithdra a chyfraddau segurdod economaidd; a'r
- **Amgylchedd** – mae ansawdd yr amgylchedd a'r anghenion naturiol sylfaenol y mae'n darparu ar eu cyfer yn eithriadol bwysig o safbwynt iechyd a llesiant. Mae polisïau felly yn ceisio diogelu'r amgylchedd ac amwynder cymunedau lleol. Amddiffynnir ansawdd aer, dŵr, a thir, a'r amgylchedd yn gyffredinol. Yn arbennig, mae polisïau'n ceisio sicrhau nad yw datblygiadau'n cynyddu nifer y bobl sy'n dod i gysylltiad â lefelau sylweddol o lygredd.



## Cymunedau Cynaliadwy

### 3.0.9 Polisi Strategol SP3 Cymunedau Cynaliadwy

**Polisi SP3**

**Cymunedau Cynaliadwy**

Hybir darparu cymunedau cynaliadwy, iach a chydlynus a chadwraeth cefn gwlad trwy wneud y canlynol:

1. Diffinio cymunedau cynaliadwy a lleoliadau ar gyfer datblygu trwy nodi hierarchaeth aneddiadau sy'n adlewyrchu rôl a swyddogaeth aneddiadau;
2. Terfynau aneddiadau a ddiffiniwyd, y caniateir datblygiad sy'n cyd-fynd â'r hierarchaeth aneddiadau oddi mewn iddynt mewn egwyddor;
3. Gwrthsefyll datblygu amhriodol y tu allan i derfynau anheddiad.

**Amcanion y CDLl: OB2, OB 3 ac OB 4**

**3.0.10** Mae datblygu cymunedau cynaliadwy, naill ai aneddiadau newydd eu hadeiladu megis Coed Darcy, neu trwy wella a datblygu aneddiadau sydd eisoes yn bodoli, yn elfen hanfodol o ddull strategol y CDLl o weithredu. Seiliwyd Polisi SP3 ar adolygiad cynhwysfawr o aneddiadau, gan ganfod rôl gyfredol a swyddogaeth pob anheddiad unigol, a nodi'r berthynas weithredol rhwng aneddiadau, a sefydlu rolau posibl pob anheddiad yn y dyfodol.

**3.0.11** Roedd y dadansoddiad yn darparu'r dystiolaeth ar gyfer diffinio Hierarchaeth Aneddiadau, sy'n nodi'r ardaloedd hynny sy'n darparu'r lleoliadau mwyaf cynaliadwy ac sy'n gallu darparu'n fwy priodol ar gyfer twf o ran eu swyddogaeth. Mae Tabl 3.1 yn cyflwyno Hierarchaeth Aneddiadau'r Fwrdeistref Sirol.

**Tabl 3.1 Hierarchaeth Aneddiadau Castell-nedd Port Talbot**

| Haen yr Hierarchaeth | Rôl a Swyddogaeth | Anheddiad |
|---|---|---|
| Tref | Aneddiadau rhanbarthol bwysig sy'n darparu'r ystod ehangaf a mwyaf amrywiol o swyddogaethau. Maent wedi'u lleoli ar y rhwydwaith ffyrdd strategol, ac maent yn gwbl hygyrch trwy amrywiaeth o opsiynau trafnidiaeth. | Castell-nedd (yn cynnwys Melincryddan) / Port Talbot (yn cynnwys Felindre) / Pontardawe (yn cynnwys Trebannws, Rhydyfro ac Ynysmeudwy) |
| Canolbwynt Ardal | Aneddiadau sydd â chysylltiadau trafnidiaeth da ac ystod eang o swyddogaethau sy'n gwasanaethu'r cymunedau uniongyrchol a'r rhai oddi amgylch. | Llansawel / Sgiwen / Taibach / Glyn-nedd (yn cynnwys Pontwalby) |
| Canolbwynt Lleol Mawr | Aneddiadau sydd â chysylltiadau cludiant cyhoeddus digonol, gyda chlystyrau o un uned fanwerthu neu fwy a gwasanaethau lleol, ynghyd ag un neu fwy o gyfleusterau cymunedol a darpariaeth o ran cyflogaeth. | Bryncoch / Cimla / Mynachlog Nedd / Baglan / Aberafan / Rhosydd Baglan / Sandfields / Margam / Cwmafan (yn cynnwys Ynysygwas) / Resolfen / Creunant (yn cynnwys Treforgan, Pen-y-bont ac Ynyswen) / Gwaun Cae Gurwen (yn cynnwys Cae Newydd) / Ystalyfera |
| Canolbwynt Lleol Bach | Aneddiadau sydd â chysylltiadau cludiant cyhoeddus digonol, ac o leiaf un siop a/neu nifer o gyfleusterau cymunedol. | Aberdulais / Llangatwg / Cilffriw / Longford / Tonna / Bryn / Coed Hirwaun / Yr Alltwen / Cwmgwrach / Rhos / Onllwyn a Banwen / Blaendulais / Cwmgors / Brynaman Isaf / Tai'r Gwaith / Cilmaengwyn a Godre'r Graig / Cwmllynfell / Cwmtwrch / Cymer / Croeserw / Glyncorrwg / Blaengwynfi ac Abergwynfi / Tonmawr |
| Pentref | Aneddiadau sydd ag o leiaf un cyfleuster cymunedol a chysylltiadau cludiant cyhoeddus digonol. | Twyni Crymlyn / Jersey Marine / Llandarcy / Ynysygerwyn / Goetre / Oakwood / Gelli-nudd / Clun / Melincwrt / Abergarwed / Pant-y-Ffordd / Pontrhydyfen ac Efail Fach / Dyffryn (yn cynnwys Trecynon) |
| Anheddiad Noswylio | Aneddiadau sydd heb fawr ddim cyfleusterau, os o gwbl, a wasanaethir gan fawr ddim cludiant cyhoeddus, os o gwbl. | Dyffryn Church / Ten Acre Wood / Eglwys Nunydd a Pharc Dewi Sant / Pen-y-Bryn / Fforest Goch / Cilybebyll / Cyd Terrace / Glyncastell / Ynysarwed / Penrhiwfawr / Cwm Ifan Bach / Abercregan |

**3.0.12 Polisi SC1 Terfynau Anheddiad**

**Polisi SC1**

**Terfynau Aneddiadau**

Bydd datblygiad oddi mewn i derfynau anheddiad sy'n gymesur o ran graddfa a ffurf i rôl a swyddogaeth yr anheddiad fel y nodwyd yn yr Hierarchaeth Aneddiadau yn dderbyniol mewn egwyddor.

Y tu allan i derfynau anheddiad, caniateir datblygiad o dan yr amgylchiadau canlynol yn unig:

1. Mae'n enghraifft o ddefnydd cyflogaeth cynaliadwy ar raddfa fach yn ymyl terfyn anheddiad; neu
2. Mae'n enghraifft o uned(au) gwaith/bywyd sy'n union gyfagos i derfyn anheddiad yn Ardal Strategaeth y Cymoedd yn unig; neu
3. Mae'n enghraifft o ehangu busnes presennol ar raddfa fach neu o drawsnewid adeilad sydd eisoes yn bodoli mewn modd addas; neu
4. Mae'n enghraifft o gyfnewid annedd presennol mewn modd priodol; neu
5. Mae'n safle sy'n eithriad o ran tai fforddiadwy; neu
6. Mae'n annedd menter wledig briodol; neu
7. Mae'n 'Ddatblygiad un Blaned' priodol; neu
8. Mae'n gynnig twristiaeth gynaliadwy neu arallgyfeirio fferm sy'n addas mewn lleoliad cefn gwlad; neu
9. Mae'n gysylltiedig â darparu cyfleustodau cyhoeddus, isadeiledd a chyfleusterau rheoli gwastraff na ellir yn rhesymol eu lleoli rywle arall; neu
10. Mae'n gysylltiedig ag amaethyddiaeth, coedwigaeth, mwynau neu gynhyrchu ynni; neu
11. Mae'n ymwneud â darparu llety priodol ar gyfer Sipsiwn/Teithwyr; neu
12. Mae'n enghraifft o ddarparu Man Agored a chyfleusterau ategol ar raddfa fach yn ymyl terfyn yr anheddiad.

Lle caniateir datblygiad y tu allan i derfynau anheddiad, rhaid lleoli unrhyw adeiladau newydd yn ymyl adeiladau neu aneddiadau sydd eisoes yn bodoli lle bynnag y bo modd, a rhaid iddynt fod o raddfa a ffurf briodol.

**3.0.13** Mae pob anheddiad wedi cael eu hasesu o ran eu gallu i ddarparu ar gyfer datblygiad newydd a'u potensial o safbwynt ehangu. O ganlyniad, ac eithrio aneddiadau noswylio, mae terfynau diffiniedig i bob anheddiad, ac mae mwy o gyfle i ymgorffori datblygiad yn achos aneddiadau sy'n uwch yn yr hierarchaeth. Mae terfynau aneddiadau yn offeryn pwysig ar gyfer rheoli ffurf a maint yr ardal drefol. Maent yn diffinio'r ardaloedd y caniateir datblygiad sy'n cydweddu â rôl a swyddogaeth yr anheddiad oddi mewn iddynt mewn egwyddor; maent yn caniatáu ar gyfer datblygiad a fyddai'n cyfrannu at greu a chynnal cymunedau cynaliadwy, yn unol â'r strategaeth; maent yn atal aneddiadau rhag llifo i'w gilydd, datblygiadau llinyn a datblygiad darniog, yn ogystal ag atal datblygu amhriodol yng nghefn gwlad.

**3.0.14** Oddi mewn i derfynau aneddiadau, bydd y rhan fwyaf o fathau o ddatblygiad yn dderbyniol mewn egwyddor, cyhyd â'u bod yn cydymffurfio â'r holl bolisïau perthnasol, ac yn gymesur o ran graddfa a ffurf â rôl a swyddogaeth yr anheddiad. Er enghraifft, nid yw cynigion ar raddfa fwy, megis datblygiadau sy'n cynnwys mwy nag ychydig o aneddiadau neu ddefnyddiau a fydd yn denu neu'n lletya niferoedd sylweddol o bobl, yn debygol o fod yn dderbyniol ond mewn canolfannau mwy neu drefi lle mae cyfleusterau ac isadeiledd trafnidiaeth digonol. Mewn ardaloedd y tu allan i derfynau aneddiadau rheolir datblygu yn llawer llymach, ac fel arfer ni chaiff ei ganiatáu ond o dan yr amgylchiadau a nodir yn y polisi.

**3.0.15** Oherwydd eu diffyg cyfleusterau, ni fernir bod aneddiadau noswylio yn lleoliadau cynaliadwy ar gyfer y rhan fwyaf o fathau o ddatblygiad, ac o ganlyniad nid oes ganddynt derfynau aneddiadau penodedig. Bydd cynigion ar gyfer datblygu oddi mewn i aneddiadau noswylio yn cael eu trin fel datblygu y tu allan i derfynau aneddiadau o dan Bolisi SC1. Bydd disgwyl i gynigion ar gyfer datblygu y tu allan i derfynau aneddiadau, y gellir eu cyfiawnhau o dan delerau Polisi SC1, gael eu lleoli yn ymyl datblygiad sydd eisoes yn bodoli lle bynnag y bo modd, o ddewis fel rhan neu yn ymyl aneddiadau noswylio lle bo hynny'n briodol.

**3.0.16** Asesir a yw cynigion datblygu penodol yn briodol neu'n addas y tu allan i derfynau aneddiadau drwy gyfeirio at y polisïau pwnc perthnasol o fewn y cynllun hwn ac mewn polisïau cenedlaethol.

**3.0.17** Mae 'Defnydd cyflogaeth' yn cyfeirio at ddefnyddiau sy'n darparu cyfleoedd cyflogaeth sylweddol, fel y nodir ym Mholisi EC3.

**3.0.18** Mae 'Datblygiad Un Blaned' yn cyfeirio at ddatblygiad sydd, drwy ei effaith isel, naill ai'n ychwanegu at ansawdd yr amgylchedd neu heb fod yn ei leihau'n sylweddol. Diffinnir hyn yn llawn ym Mholisi Cynllunio Cymru, sydd hefyd yn cyflwyno'r amgylchiadau cyfyngedig sy'n golygu y gellir caniatáu datblygiadau o'r fath yng nghefn gwlad agored.

**3.0.19 Polisi SC2 Amddiffyn Cyfleusterau Cymunedol Presennol**

**Polisi SC2**

**Amddiffyn Cyfleusterau Cymunedol Presennol**

Ni chaniateir unrhyw gynigion a fyddai'n arwain at golli cyfleuster cymunedol pwysig sydd eisoes yn bodoli ond lle gellir dangos:

1. Nad oes angen y cyfleuster; neu
2. Nad yw'r defnydd presennol yn ymarferol bellach.

**3.0.20** Mae cyfleusterau cymunedol yn rhan hanfodol o fywyd cymuned, a gallant helpu i greu cymunedau cydlynus lle gall pobl gwrdd a chyfranogi mewn amrywiaeth o weithgareddau, gan wneud cyfraniad hanfodol i sicrhau cynaliadwyedd cymunedau. Mae pwysigrwydd mannau cyfarfod yn hanfodol i iechyd a lles, ac yn helpu i greu cymuned lle mae'r trigolion yn teimlo eu bod wedi'u cynnwys yn hytrach na'u hynysu.

**3.0.21** At ddibenion y polisi hwn, gellir diffinio unrhyw gyfleuster sy'n cyflawni diben yn y gymuned fel cyfleuster

cymunedol, yn cynnwys neuaddau cymuned, llyfrgelloedd, siopau lleol neu bentref, tafarndai ac addoldai. Lle bo cyfleuster yn cyflawni (neu wedi cyflawni) swyddogaeth bwysig neu ganolog ym mywyd y gymuned leol, gwrthsefir unrhyw newid i ddefnydd nad yw'n gymunedol oni ellir dangos nad yw'r cyfleuster yn ymarferol bellach neu nad oes ei angen ar y gymuned, ac nad oes posibilrwydd y gellid defnyddio'r adeilad at ddefnydd amgen neu gymunedol a rennir.

**3.0.22** Bydd y math o dystiolaeth sy'n ofynnol yn amrywio yn ôl y math o gyfleuster sydd dan sylw, ond gallai gynnwys manylion pam nad yw'r adeilad yn cael ei ddefnyddio bellach, pa ddarpariaeth amgen sydd ar gael yn lleol, pa opsiynau cymunedol eraill sydd wedi cael eu hystyried ar gyfer yr adeilad, a thystiolaeth i ddangos bod ymdrechion rhesymol wedi'u gwneud i farchnata'r cyfleuster ar werth neu ar brydles ar gyfer ei ddefnydd presennol.

## Isadeiledd

**3.0.23 Polisi Strategol SP4 Isadeiledd**

> **Polisi SP4**
>
> **Isadeiledd**
>
> Disgwylir i ddatblygiadau wneud defnydd effeithlon o'r isadeiledd sydd eisoes yn bodoli a, lle bo gofyn, wneud darpariaeth ddigonol ar gyfer isadeiledd newydd, gan sicrhau nad oes effeithiau niweidiol ar yr ardal a'r gymuned.
>
> Lle bo angen, ceisir Rhwymedigaethau Cynllunio i sicrhau bod effeithiau datblygiadau'n derbyn sylw llawn er mwyn sicrhau bod y datblygiad yn dderbyniol.
>
> **Amcanion y CDLl: OB 2, OB 3, OB 4, OB 7, OB 8 ac OB 10**

**3.0.24** Mae isadeiledd cymdeithasol, economaidd, diwylliannol a ffisegol, yn elfennau sydd eisoes yn bodoli a rhai arfaethedig, yn hanfodol er mwyn rhoi'r CDLl ar waith yn llwyddiannus. Mae darparu isadeiledd newydd, yn ogystal â diogelu, gwella a defnyddio'r isadeiledd sydd eisoes ar gael yn effeithlon, yn eithriadol o bwysig wrth ddarparu datblygiadau newydd a gynigiwyd yn y CDLl.

**3.0.25** Mae'r isadeiledd sydd eisoes yn bodoli yn hanfodol er mwyn cynnal ein cymunedau'n effeithiol a sicrhau y diwellir anghenion a dyheadau. Bydd yr awdurdod yn ceisio sicrhau bod yr isadeiledd presennol, a fydd yn aml ar ffurf cyfleusterau cymunedol a chymdeithasol, yn cael ei amddiffyn. Rhoddir pwyslais ar ddefnydd effeithlon o'r isadeiledd presennol, a lle bo angen, bydd yr awdurdod yn ceisio sicrhau gwelliannau i'r cyfleusterau sydd eisoes yn bodoli.

**3.0.26 Polisi I1 Gofynion Isadeiledd**

> **Polisi I1**
>
> **Gofynion Isadeiledd**
>
> Yn ogystal â'r gwelliannau isadeiledd sy'n angenrheidiol i sicrhau bod datblygiad yn dderbyniol o ran iechyd, diogelwch ac amwynder, gall fod gofyn sicrhau gwaith neu gyllid ychwanegol er mwyn lliniaru effaith datblygiad newydd, lle bo hynny'n briodol.
>
> Bydd y gofynion hyn yn cynnwys ystyried y canlynol a darparu'n briodol ar eu cyfer:
>
> - Tai fforddiadwy;
> - Mannau agored a chyfleusterau hamdden;
> - Isadeiledd yr iaith Gymraeg (mewn Ardaloedd Ieithyddol Sensitif);
> - Cyfleusterau cymunedol, yn cynnwys canolbwyntiau cymunedol;
> - Buddiannau bioamrywiaeth, amgylcheddol a chadwraeth;
> - Gwella mynediad i gyfleusterau a gwasanaethau, gan gynnwys darparu llwybrau cerdded a beicio;
> - Gwelliannau i'r amgylchedd adeiledig a hanesyddol a'r parth cyhoeddus;
> - Cludiant cymunedol a chyhoeddus;
> - Addysg a hyfforddiant.

**3.0.27** Mae'r polisi'n cyflwyno'r egwyddor gyffredinol y bydd disgwyl i unrhyw gynnig ar gyfer datblygiad newydd ddiwallu'r anghenion isadeiledd y mae'n eu creu. Mae'n rhestru'r ystod eang o faterion y mae angen ymdrin â hwy.

**3.0.28** Unwaith byddwn wedi ymdrin â'r isadeiledd hanfodol sy'n angenrheidiol er mwyn i gynllun fynd rhagddo (megis mynediad a gwasanaethu), bydd y flaenoriaeth a roddir i ddarparu gwahanol fathau o isadeiledd a manteision cymunedol yn amrywio yn ôl nifer o ffactorau.



**3.0.29** Bydd gan wahanol gymunedau yn y Fwrdeistref Sirol anghenion unigryw a phenodol ar draws amrywiaeth o gategorïau isadeiledd, a all newid neu esblygu dros amser. Ar ben hynny, bydd y flaenoriaeth a roddir i wahanol fathau o isadeiledd yn amrywio yn ôl graddfa a math y datblygiad a'r polisïau penodol sy'n berthnasol iddo. Ni fernir felly ei bod yn briodol pennu blaenoriaethau cyson neu ddi-symud yn achos y gofynion isadeiledd y gellir eu defnyddio i ragnodi'r math o gyfraniad sydd i'w ddarparu gan y datblygwr.

**3.0.30** Mae disgwyl, fodd bynnag, y bydd y gofyniad o ran rhwymedigaethau cynllunio yn ceisio ymdrin â materion allweddol y Cynllun, ac y bydd darparu tai fforddiadwy yn hollbwysig. Rhoddir manylion pellach a gwybodaeth yn y Canllaw Cynllunio Atodol ar Rwymedigaethau Cynllunio.

**3.0.31** Bydd yr Awdurdod yn ystyried dichonoldeb ariannol y cynnig datblygu a chostau'r isadeiledd newydd neu well a gynigir. Lle bo angen, bydd yr Awdurdod yn gofyn bod datblygwyr yn darparu gwybodaeth ariannol i ddangos lefel dichonoldeb datblygiad penodol.

**Ardoll Isadeiledd Cymunedol (CIL)**

**3.0.32** Ardoll yw'r CIL y gall awdurdodau lleol ddewis ei godi ar ddatblygiadau newydd yn eu hardal. Lluniwyd yr ardoll i fod yn decach, yn gyflymach ac yn fwy tryloyw na'r system flaenorol o gytuno ar rwymedigaethau cynllunio rhwng Cynghorau lleol a datblygwyr o dan Adran 106 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

**3.0.33** Pennir yr ardoll (os yw'n angenrheidiol ac yn ddichonadwy), gan yr awdurdod lleol, a chaiff ei seilio ar faint a math y datblygiad newydd. Gellir ei ddefnyddio i gynnal datblygiad trwy gyllido isadeiledd y mae'r Cyngor a'r gymuned leol am ei chael, megis cynlluniau ffyrdd newydd neu fwy diogel, gwelliannau i barciau neu ganolfan iechyd newydd.

**3.0.34** Daeth CIL i rym ym mis Ebrill 2010 a bydd iddo oblygiadau ar gyfer ystod a natur y cyfraniadau a geisir trwy rwymedigaethau cynllunio yn ystod cyfnod y Cynllun, gan na chaniateir cyfuno 5 neu fwy o rwymedigaethau cynllunio ar ôl mis Ebrill 2015.

**3.0.35** Mae'r Awdurdod wedi asesu'r holl isadeiledd hanfodol sy'n angenrheidiol i gyflawni'r strategaeth. Ar yr adeg hon, sicrhawyd cyllid trwy fecanweithiau eraill y tu allan i gylch gorchwyl CIL, ac felly nid oes angen crynhoi cyfraniadau i helpu i'w gyflawni. Er mai hwn fydd y dull ar hyn o bryd, bydd yr Awdurdod yn parhau i fonitro'r sefyllfa, ynghyd â'r canllawiau a'r ddeddfwriaeth sy'n dod i'r amlwg yng nghyswllt CIL ar hyd cyfnod y CDLl. Bydd unrhyw benderfyniad a wneir gan yr Awdurdod yn y dyfodol i baratoi atodlen taliadau CIL yn disodli Polisi SP4 Isadeiledd a Pholisi I1 Gofynion Isadeiledd, ac adlewyrchir hynny mewn adolygiad o'r Cynllun.

**3.0.36** Byddai unrhyw ystyriaethau o'r fath yn cael eu hasesu gan astudiaeth i ymchwilio i botensial dichonoldeb mabwysiadu atodlen taliadau CIL a fyddai'n golygu bod modd sicrhau darparu isadeiledd trwy ddefnyddio amodau cynllunio, cytundebau cyfreithiol, neu trwy atodlen taliadau CIL. O ganlyniad, bydd angen i'r Cyngor ailystyried y dull o ymdrin â chyfraniadau a geisir trwy rwymedigaethau cynllunio ar gyfer isadeiledd sy'n angenrheidiol i gyflawni cynigion safle-benodol. Lle bo datblygiadau'n golygu bod angen gwella isadeiledd presennol neu greu isadeiledd newydd, megis gwelliannau priffyrdd, hybu teithio llesol, cyfraniadau i gyfleoedd cyflogaeth, darpariaeth addysg, yr Iaith Gymraeg, gwelliannau amgylcheddol neu welliannau i'r parth cyhoeddus a mannau agored, bydd y rhain yn ofynnol fel rhan o'r datblygiad, a cheir esboniad manylach yn y Canllawiau Cynllunio Atodol ar y Rhwymedigaethau Cynllunio.







Adran 4

# Polisïau Ardal

# 4 Polisïau Ardal

**4.0.1** Gweithredir y strategaeth trwy bolisïau ardal fydd yn ymwneud ag Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir ac Ardal Strategaeth y Cymoedd. Mae'r rhain yn cyflwyno'r gwahanol ddulliau o ymdrin â'r ddwy ardal strategaeth, sy'n ofynnol er mwyn sicrhau bod y strategaeth gyffredinol yn cael ei gwireddu, sef crynhoi datblygiad ar hyd coridor yr arfordir, gan adfywio ardal y Cymoedd ar yr un pryd.

### Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir

**4.0.2 Polisi Strategol SP5 Datblygiad yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir**

**Polisi SP5**

**Datblygiad yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir**


Yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir, bydd twf a datblygiad cynaliadwy yn cael eu hyrwyddo er lles y Fwrdeistref Sirol gyfan, ochr yn ochr ag amddiffyn a gwella cymeriad ac amgylchedd yr ardal. Cyflawnir hyn trwy'r mesurau canlynol ardal-benodol:

1. Darparu ar gyfer mwyafrif y datblygiadau preswyl newydd ar hyd Coridor yr Arfordir;
2. Dyrannu Ardaloedd Adfywio Strategol yng Nghoed Darcy (Castell-nedd) a Glannau'r Harbwr (Port Talbot);
3. Dyrannu Safleoedd Cyflogaeth Strategol ym Mae Baglan a Chyffordd 38 (yr M4) Margam;
4. Diogelu defnyddiau a safleoedd cyflogaeth sydd eisoes yn bodoli at ddibenion cyflogaeth;
5. Hyrwyddo cynlluniau adfywio defnydd cymysg yng Nghanol Tref Castell-nedd, Canol Tref Port Talbot a Glan Môr Aberafan;
6. Datblygu Campws Prifysgol ar Ffordd Fabian;
7. Rheoli ffurf a chyd-destun trefol trwy ddynodi Lletemau Glas;
8. Gwella'r ddarpariaeth cludiant cyhoeddus a phreifat, gan gynnwys y cynlluniau canlynol:
   (a) Gwelliannau priffyrdd ym Mharc Ynni Baglan, Coed Darcy, Ffordd Amazon a Ffordd yr Harbwr;
   (b) Cyfnewidfa newydd a gwelliannau i'r orsaf reilffordd ym Mhort Talbot;
   (c) Cynllun Parcio a Rhannu yng Nghyffordd 38 (yr M4) Margam.

**Amcan y CDLl: OB 5**

**4.0.3** Mae Polisi SP5 yn nodi sut cymhwysir y strategaeth o hwyluso twf yng Nghastell-nedd Port Talbot yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir. Fe'i gweithredir trwy bolisïau penodol ar gyfer yr Ardaloedd a'r Cynlluniau Adfywio a pholisïau pwnc perthnasol.

**4.0.4** O fewn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir, mae dwy Ardal Adfywio Strategol (AAS) yn darparu cyfleoedd i ailddatblygu ac adfywio ardaloedd sylweddol o dir llwyd ar raddfa fawr, a datblygir y rhain dros gyfnod y CDLl a'r tu hwnt iddo. Bydd yr Ardaloedd hyn yn gwneud cyfraniad sylweddol i gyflawni'r strategaeth, byddant yn hybu twf economaidd, yn cyflawni amcanion y cynllun, ac maent yn hanfodol i gyflawni prif gynigion adfywio'r Awdurdod. Maent wedi'u lleoli'n strategol yn ardaloedd trefol Castell-nedd a Phort Talbot ac fe'u cynigiwyd ar gyfer datblygiad defnydd cymysg er mwyn hybu adfywio sylweddol a fydd yn dod â manteision ehangach i Gastell-nedd Port Talbot.



**4.0.5 Polisi SRA1 Ardal Adfywio Strategol Coed Darcy**

**Polisi SRA1**

**Ardal Adfywio Strategol Coed Darcy**

Dynodwyd Ardal Adfywio Strategol yng Nghoed Darcy, Castell-nedd, ar gyfer datblygu pentref trefol sy'n cynnwys y dyraniadau canlynol:

| Cyfeirnod | Defnydd | Maint |
|---|---|---|
| H1/LB/5 | Preswyl | 4,000 o unedau, 2,400 yng nghyfnod y Cynllun |
| EC1/3 | B1 Busnes | 41,200 m sg |

**4.0.6** Rhoddwyd caniatâd cynllunio amlinellol i Bentref Trefol Coed Darcy yn 2008. Ar ôl ei gwblhau, bydd y datblygiad yn cynnwys rhyw 4,000 o anheddau, 41,200 m.sg. o ddefnydd busnes, hyd at 3,000 m.sg. o arwynebedd llawr manwerthu (i ddarparu ar gyfer anghenion y Pentref Trefol), datblygiadau eraill masnachol, cyfleusterau addysg a chymunedol a'r isadeiledd cysylltiedig.

**4.0.7** Mae cysyniad y pentref trefol yn ceisio cyflawni'r ystod lawn o fathau o ddatblygiad er mwyn cydweddu â'r elfen dai, gan greu cymuned gynaliadwy sy'n golygu bod modd i'r trigolion gyrchu cyfleusterau, gwasanaethau a chyfleoedd cyflogaeth gerllaw.

**4.0.8** Mae'r gwelliannau i'r ffyrdd sy'n ofynnol i hwyluso'r datblygiad yn cynnwys y Ffordd Fynediad Ddeheuol (TR1/2) a gwelliannau i Gyffordd 43 o'r M4 (TR1/4).

**4.0.9** Bydd datblygiad Pentref Trefol Coed Darcy yn cael ei gyflwyno'n raddol dros gyfnod y Cynllun a'r tu hwnt. Mae Map 1 y n rhoi syniad o'r cynigion cyffredinol ar gyfer AAS Coed Darcy.



**Map 4.1** **Prif Gynllun Coed Darcy**




### 4.0.10 Polisi SRA2 Ardal Adfywio Strategol Glannau'r Harbwr

**Polisi SRA2**

**Ardal Adfywio Strategol Glannau'r Harbwr**

Dynodwyd Ardal Adfywio Strategol yng Nglannau'r Harbwr, Port Talbot, ar gyfer datblygiad defnydd cymysg yn cynnwys y dyraniadau canlynol:

| Cyfeirnod | Defnydd | Maint |
|---|---|---|
| H1/17 | Preswyl | 385 o unedau |
| EC1/4 | Cyflogaeth | 7 ha |
| R1/3 | A1 Nwyddau Cymhariaeth Swmpus | 3.37 ha |

**4.0.11** Mae AAS Glannau'r Harbwr yn ardal tir llwyd helaeth a fu gynt yn ddociau, gerllaw canol tref Port Talbot. Mae'n darparu cyfle pwysig ar gyfer datblygiad cynhwysfawr defnydd cymysg mewn lleoliad canolog cynaliadwy, ac mae'r prosiect ailddatblygu'n cael ei hyrwyddo gan yr Awdurdod Lleol ar y cyd â datblygwyr sector preifat. Mae'r prosiect yn cynnwys yr elfennau canlynol:

- Adeiladu Ffordd yr Harbwr (Ffordd Ddosbarthu Ymylol);
- Gweithrediad parhaus y dociau a'r harbwr llanw;
- Amrywiaeth o gyfleoedd datblygu preswyl, hamdden a manwerthu cymysg;
- Potensial ar gyfer datblygiadau busnes a masnachol o ansawdd uchel ar gyfer defnyddwyr diwydiannol a swyddfa ar raddfa fach gan fanteisio i'r eithaf ar agosrwydd y safle i ganol y dref; ac
- Adfywiad amgylcheddol yr ardal.

**4.0.12** Effeithir ar ardal ddyrannu Glannau'r Harbwr gan berygl llifogydd, gan y nodwyd bod rhannau sylweddol oddi mewn i Barth C ar y Map Cyngor Datblygu[9]. Bydd gofyn bod yr holl gynigion datblygu oddi mewn i ddyraniad Glannau'r Harbwr yn dangos eu bod yn cydweddu â pholisi cenedlaethol sy'n ymwneud â risg llifogydd, fel y nodwyd yn NCT15, gan gynnwys darpariaeth ar gyfer mynediad ac ymadawiad mewn argyfwng, gan ddilyn cynllun gwacáu cytunedig.


**4.0.13** Er mwyn cefnogi adfywiad yr ardal a sicrhau eglurder ynghylch cyfyngiadau safleoedd, cyhoeddir prif gynllun ar ffurf Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA). Bydd y prif gynllun yn rhoi arweiniad ar y math o ddatblygiad mae'r Cyngor yn barnu ei fod yn briodol oddi mewn i Lannau'r Harbwr a chanol y dref, yn cynnwys unedau preswyl, manwerthu nwyddau swmpus, defnyddiau addysg a busnes (swyddfeydd, diwydiant ysgafn a storio/dosbarthu). Cyflwynir y cyfnodau a'r amserlenni a ragwelir ar gyfer y datblygiad, gan roi sylw i'r sefyllfa bresennol, faint o waith paratoi sy'n angenrheidiol ar y safle, ac ystyriaethau perygl llifogydd. Nid yw mwyafrif y lleiniau datblygu a nodwyd yn y prif gynllun oddi mewn i ardaloedd lle ceir perygl llifogydd, ac mae'r rhai sydd yn yr ardaloedd hynny yn cynnwys digon o dir Parth A[10] i ddarparu ar gyfer y datblygiad a ragwelir.

**4.0.14** Mae rhai darnau o dir eisoes wedi cael eu datblygu, yn cynnwys Cyfleuster Ymchwil a Datblygu a Chanolfan Gyfiawnder. Mae Ffordd yr Harbwr bellach wedi'i chwblhau, ac mae'n darparu cysylltiadau trafnidiaeth gwych o'r safle i'r M4.

**4.0.15** Mae Map 4.2 yn rhoi syniad o'r cynigion cyffredinol ar gyfer yr AAS.

9 Ardal seiliedig ar amlinelliad Cyfoeth Naturiol Cymru o lifogydd eithafol sydd â thebygolrwydd 0.1% neu fwy o ddioddef llifogydd.
10 Ardala ddiffniwyd fel un lle nad oes fawr ddim perygl, os o gwbl, y ceir llifogydd llanw/arfordirol.

**Map 4.2** **Prif Gynllun Glannau'r Harbwr**






**4.0.16 Polisi CCRS1 Cynllun Adfywio Coridor yr Arfordir**

**4.0.17** O fewn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir mae tri chynllun adfywio defnydd cymysg allweddol, sy'n ganolog i gyflawni'r strategaeth ar gyfer yr ardal.

**Polisi CCRS1**

**Cynlluniau Adfywio Coridor yr Arfordir**

Dynodwyd cynlluniau adfywio defnydd cymysg yn y lleoliadau canlynol:

| Cyfeirnod | Lleoliad | Dyraniadau | Defnyddiau |
|---|---|---|---|
| CCRS1/1 | Ailddatblygu Canol Tref Castell-nedd | H1/7 | Preswyl |
| | | R1/1 | Manwerthu |
| CCRS1/2 | Ysgol Gyfun Glanafan, Port Talbot | H1/16 | Preswyl |
| | | R1/2 | Manwerthu |
| CCRS1/3 | Lido Afan a thir y tu ôl i Ysgol Tywyn, Sandfields | H1/18 | Preswyl Twristiaeth/ Hamdden |

**4.0.18** Mae'r cynlluniau wedi'u lleoli yng nghanol trefi Castell-nedd a Phort Talbot ac ar Lan Môr Aberafan. Byddant yn helpu i wella a chynnal twf a datblygiad coridor yr arfordir.

***Cynllun Adfywio Defnydd Cymysg Canol Tref Castell-nedd***

**4.0.19** Mae cynllun adfywio Canol Tref Castell-nedd yn ailddatblygiad sylweddol sy'n cynnwys safle swyddfeydd y Cyngor gynt, maes parcio ar lefel y stryd, Llys yr Ynadon, maes parcio aml-lawr a dwy siop fanwerthu oddi tano, ynghyd â thir arall o amgylch.

**4.0.20** Dyrannwyd y safle fel cynllun defnydd cymysg seiliedig ar fanwerthu, a fydd yn cynnwys elfen fechan o dai (rhyw 50 o unedau). Mae'r safle'n agos iawn at galon hanesyddol Castell-nedd ac yn cynnig cyfle i ailddatblygu'r safle mewn modd cydweddus, a darparu cyfleusterau i wella hyfywedd Canol y Dref, tra bydd y llety preswyl ychwanegol yn gwneud yr ardal yn fwy bywiog.

***Cynllun Adfywio Defnydd Cymysg Ysgol Gyfun Glanafan, Port Talbot***

**4.0.21** Mae safle Ysgol Gyfun Glanafan ar Heol yr Orsaf, Port Talbot, yn wynebu un o brif strydoedd siopa Canol y Dref, ac mae'n cynnwys safle Ysgol Gyfun Glanafan, sy'n cael ei hadleoli. Dyrannwyd y tir yn safle defnydd cymysg gan gynnwys darpariaeth ar gyfer rhyw 50 o unedau preswyl, gyda manwerthu ar y llawr gwaelod, yn wynebu Heol yr Orsaf.

**4.0.22** Mae'r safle mewn man canolog i Ganol Tref Port Talbot a bydd ei ddatblygu yn cynnal poblogaeth yr ardal drefol, yn estyn twf, ac yn darparu rhagor o boblogaeth i gynnal Port Talbot. Bydd hefyd yn helpu i adfywio Canol y Dref trwy ddarparu wyneblun newydd bywiog ar un o'r prif strydoedd siopa.

***Cynllun Adfywio Defnydd Cymysg Lido Afan, Glan Môr Aberafan***

**4.0.23** Mae safle Lido Afan yn cynnwys ardal y Lido gynt a'r tir gerllaw ar yr ochr draw i Channel View, y tu ôl i Ysgol Tywyn, sy'n cael ei ddefnyddio fel maes parcio dros dro. Bydd lle ar y safle i ryw 150 o unedau preswyl. Oherwydd lleoliad y safle ar lan y môr, mae cyfleoedd i wella'r cyfleusterau twristiaeth a hamdden lleol fel rhan o'r cynllun. Bydd ceisiadau am ddatblygiadau twristiaeth, hamdden ac elfennau cysylltiedig yn cael eu hasesu yn ôl rhinweddau'r cynigion, er mwyn sicrhau bod graddfa'r cynlluniau'n briodol ac yn cydweddu â'r ardal o'u hamgylch.

**4.0.24** Rhoddir manylion pellach am y dyraniadau uchod yn y penodau pwnc a'r polisïau perthnasol.

**4.0.25 Polisi CCUC1 Campws y Brifysgol ar Goridor yr Arfordir**

> **Polisi CCUC1**
>
> **Campws y Brifysgol ar Goridor yr Arfordir**
>
> Mae tir wedi'i ddyrannu ar Ffordd Fabian ar gyfer datblygu Campws Gwyddoniaeth ac Arloesedd Prifysgol Abertawe, sy'n cynnwys cyfleusterau academaidd i'r brifysgol, ymchwil a datblygu, a llety preswyl i'r myfyrwyr.

**4.0.26** Mae Campws Gwyddoniaeth ac Arloesedd Prifysgol Abertawe yn ddatblygiad pwysig yng Nghastell-nedd Port Talbot a gallai hybu twf yn yr ardal leol a hefyd o fewn y Ddinas-Ranbarth.

**4.0.27** Rhoddwyd Caniatâd Cynllunio Amlinellol ym mis Awst 2012 ar gyfer y Campws Gwyddoniaeth ac Arloesedd i Brifysgol Abertawe, gyda chyfleusterau academaidd, defnyddiau preswyl y brifysgol, a gofod diwydiannol/ymchwil a datblygu (Dosbarth Defnydd B1). Wedi hynny cymeradwywyd materion neilltuedig ar gyfer Cyfnod 1 ym mis Rhagfyr 2012. Bydd yn cynnwys lle ar gyfer lletya hyd at 4,000 o fyfyrwyr preswyl amser llawn, a bydd cyfleusterau academaidd ar gyfer cyfanswm o hyd at 5,100 o fyfyrwyr.

**4.0.28** Mae gweddill y safle'n caniatáu ar gyfer ehangu pellach ar y cyfleuster integredig hwn ar ffurf campws ymchwil/addysg, ac fe allai hefyd ymestyn y tu hwnt i ffiniau'r Awdurdod i'r gorllewin. Gwelir y datblygiad fel un pwysig o ran cyflawni dyheadau ac egwyddorion allweddol twf sosio-economaidd yn y rhanbarth, fel y nodwyd yng Nghynllun Gofodol Cymru, gan weithredu fel cyfrannwr pwysig i'r economi wybodaeth trwy ddarparu campws arloesedd lle gellir sicrhau integreiddio llawn rhwng addysg uwch ac ymchwil a datblygu.

**4.0.29** Bydd ceisiadau am wasanaethau a chyfleusterau ategol yn cael eu hasesu ar sail rhinweddau'r cynnig, er mwyn sicrhau bod y cynlluniau ar raddfa briodol ac yn cydweddu â swyddogaeth y campws. Gall cyfleusterau o'r fath gynnwys manwerthu ar raddfa fach, gwasanaethau masnachol a chyfleusterau Ymchwil a Datblygu ychwanegol.

**Ardal Strategaeth y Cymoedd**

**4.0.30 Polisi Strategol SP6 Datblygiad yn Ardal Strategaeth y Cymoedd**

> **Polisi SP6**
>
> **Datblygiad yn Ardal Strategaeth y Cymoedd**
>
> Yn Ardal Strategaeth y Cymoedd, bydd yr economi a'r cymunedau lleol yn cael eu gwella a'u hadfywio, a bydd yr amgylchedd unigryw yn cael ei amddiffyn trwy'r mesurau canlynol ardal-benodol:
>
> 1. Nodi Pontardawe a Chwm Nedd Uchaf fel Ardaloedd Twf Strategol (ATS);
> 2. Sicrhau darpariaeth ar gyfer mwyafrif datblygiadau preswyl newydd y Cymoedd yn yr ATS a nodwyd;
> 3. Diogelu safleoedd a defnyddiau cyflogaeth;
> 4. Hyrwyddo cynllun adfywio defnydd cymysg yng Nglyn-nedd;
> 5. Gwneud gwelliannau i'r parth cyhoeddus yng nghanol trefi Glyn-nedd a Phontardawe;
> 6. Nodi Rheola fel safle twristiaeth a diogelu'r amwynderau twristiaeth allweddol;
> 7. Ymdrin yn hyblyg ag annog defnyddiau cyflogaeth, gan gynnwys unedau bywyd/gwaith[11];
> 8. Ymdrin yn hyblyg ag annog cynigion manwerthu ar raddfa fach;
> 9. Amddiffyn hunaniaeth ddiwylliannol, gan gynnwys ardaloedd sy'n bwysig i'r iaith Gymraeg.
>
> **Amcan y CDLl: OB 6**

**4.0.31** Mae Polisi SP6 yn cyflwyno'r prif fesurau a gyflawnir i weithredu'r strategaeth o adfywio ardaloedd y Cymoedd. Mae'r strategaeth wedi'i seilio ar wella gwydnwch economaidd, gan annog twristiaeth, cyflogaeth ar raddfa fach a datblygiadau economaidd eraill, arallgyfeirio o ddiwydiannau traddodiadol, a nodi ardaloedd twf lle caiff datblygiad ei grynhoi, gyda'r nod o ledaenu effeithiau'r adfywio ar draws ardal ehangach.



**4.0.32** O fewn Ardal Strategaeth y Cymoedd, nodwyd dwy Ardal Twf Strategol (ATS), sef Pontardawe a Glyn-nedd. Mae'r rhain yn ardaloedd twf ehangach na'r AAS a nodwyd yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir ac maent yn cynnwys nifer o ddyraniadau ar draws pob ATS.

***Ardal Twf Strategol Pontardawe***

**4.0.33** Pontardawe yw'r anheddiad mwyaf yn Ardal Strategaeth y Cymoedd ac mae'n cynnwys cyfleusterau ac amwynderau digonol i gynnal twf ychwanegol sylweddol yn ystod cyfnod y Cynllun. Bydd y twf hwn yn ardal ehangach Pontardawe yn helpu i gynnal a gwella'r dref a'i hamwynderau manwerthu a diwylliannol, yn ogystal â chynnal a hybu datblygiad economaidd ar draws Cwm Tawe a Dyffryn Aman.

**4.0.34** Mae Tabl 4.1 yn cyflwyno'r dyraniadau perthnasol yn y Cynllun a fydd yn darparu'r twf angenrheidiol ar gyfer yr ardal.

11 Yn wahanol i weithio gartref, diffinnir unedau 'bywyd/gwaith' fel eiddo sydd wedi'u llunio'n benodol ar gyfer defnydd deuol, gan gyfuno gofod preswyl a chyflogaeth. Yn hytrach na meddu ar ddosbarth defnydd penodol (e.e. B1 – cyflogaeth neu C3 – preswyl), byddai'r datblygiad yn cael ei ystyried yn un 'sui generis' oherwydd ei fod yn cael ei ystyried yn un uned gynllunio.

**Tabl 4.1 Dyraniadau Ardal Twf Strategol Pontardawe**

| Cyfeirnod | Dyraniad | Arwynebedd y Safle (ha) | Amcangyfrif o nifer yr Unedau |
|---|---|---|---|
| | Tai | | |
| H1/24 | Bryn Morgrug (Cyfnod 2), Yr Alltwen | 2.4 | 52 |
| H1/25 | Heol Ynysymond, Yr Alltwen | 3.8 | 50 |
| H1/26 | Ysgol Cwmtawe (Cyfnod 2), Pontardawe | 1.3 | 32 |
| H1/27 | Waun Sterw / Waun Penlan, Rhydyfro | 3.9 | 115 |
| H1/28 | Fferm Bryn Brych, Rhos | 6.0 | 150 |
| H1/29 | Parc Ynysderw | 1.2 | 50 |
| H1/LB/30 | Bryn Morgrug (Cyfnod 1), Yr Alltwen | 2.4 | 56 |
| H1/LB/31 | Ysgol Cwmtawe (Cyfnod 1), Pontardawe | 2.6 | 80 |
| H1/LB/32 | Stryd Holly, Pontardawe | 0.8 | 45 |
| H1/LB/33 | Waun Penlan, Rhydyfro | 0.8 | 19 |
| H1/LB/34 | Glan yr Afon (Cyfnod 2), Ynysmeudwy | 0.5 | 15 |
| **Cyfeirnod** | **Dyraniad** | **Cyfanswm Maint (ha)** | **Tir Gwag (ha)** |
| | Cyflogaeth | | |
| EC2/18 | Ystâd Ddiwydiannol Alloy, Pontardawe | 12.0 | 0.2 |

***Ardal Twf Strategol Cwm Nedd Uchaf***

**4.0.35** Glyn-nedd yw'r anheddiad allweddol ym mhen uchaf Cwm Nedd ac mae ganddo gysylltiadau da â phen uchaf Cwm Dulais a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, yn ogystal â Chastell-nedd ac Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir ar hyd Ffordd Ddeuol yr A465 (T). Bydd twf sylweddol yn Ardal Glyn-nedd/Cwm Nedd Uchaf felly o fudd i'r ardal ehangach ac yn gwella cynaliadwyedd ac atyniad Glyn-nedd a Resolfen. Mae'r ardal mewn sefyllfa dda i elwa o ddatblygiadau twristiaeth, yn enwedig y rhai sy'n gysylltiedig â 'Gwlad y Sgydau' a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

**4.0.36** Mae Tabl 4.2 yn cyflwyno'r dyraniadau perthnasol yn y Cynllun a fydd yn darparu'r twf angenrheidiol ar gyfer yr ardal.

**Tabl 4.2 Dyraniadau Ardal Twf Strategol Cwm Nedd Uchaf**

| Cyfeirnod | Dyraniad | Arwynebedd y Safle (ha) | Amcangyfrif o nifer yr Unedau |
|---|---|---|---|
| | Tai | | |
| H1/23 | Rhodfa'r Parc, Glyn-nedd | 13.2 | 150 |
| H1/LB/27 | Heol y Glyn, Glyn-nedd | 2.7 | 81 |
| H1/LB/28 | Y Neuadd Les, Glyn-nedd | 0.8 | 17 |
| H1/LB/29 | Rhodfa Ynys y Nos, Glyn-nedd | 0.5 | 16 |
| **Cyfeirnod** | **Dyraniad** | **Cyfanswm Maint (ha)** | **Tir Gwag (ha)** |
| | Cyflogaeth | | |
| EC2/16 | Parc Cyflenwyr Bro Nedd, Cwm Nedd | 14.2 | 1.2 |
| EC2/17 | Gweithdai Pentref Glyn-nedd, Glyn-nedd | 0.4 | 0 |
| | Manwerthu | | |
| R1/4 | Rhodfa'r Parc, Glyn-nedd | | |
| | Twristiaeth | | |
| TO3/1 | Ystâd Rheola, Glyn-nedd | | |

**4.0.37** Yn ogystal â'r Ardaloedd Twf Strategol, nodwyd cynllun adfywio defnydd cymysg yng Nglyn-nedd.

**4.0.38 Polisi VRS1 Cynllun Adfywio'r Cymoedd**

**Polisi VRS1**

**Cynllun Adfywio'r Cymoedd**

Dynodwyd Cynllun Adfywio Defnydd Cymysg yn y lleoliad canlynol:

| Cyfeirnod | Lleoliad | Dyraniadau | Defnyddiau |
|---|---|---|---|
| VRS1/1 | Rhodfa'r Parc, Glyn-nedd | H1/23 | Preswyl |
| | | R1/4 | Manwerthu |

**4.0.39** Yn Ardal Twf Strategol Cwm Nedd Uchaf, mae Cynllun Adfywio Defnydd Cymysg Rhodfa'r Parc yng Nglyn-nedd yn allweddol i gyflawni'r strategaeth twf yn yr ardal, a bernir mai dyma'r cyfle gorau i'r dref dyfu. Mae'n safle ar raddfa sylweddol yn agos at ganol y dref, ac mae felly'n allweddol i dwf y dref a sut bydd yn newid yn y dyfodol. Rhagwelir cyfuniad o ddefnyddiau preswyl a manwerthu: bydd yn ofynnol i unrhyw ddatblygiad manwerthu newydd fodloni gofynion polisi (gan gynnwys y prawf manwerthu dilyniannol). Disgwylir felly i unrhyw safle datblygu manwerthu newydd fod yn briodol ar gyfer anghenion yr ardal ac wedi'i leoli yn ymyl y ganolfan fanwerthu bresennol. Ymgorfforwyd y cynigion hyn yn y dyraniadau uchod. Cyflwynir Canllawiau Cynllunio Atodol ynghylch cynllun Rhodfa'r Parc.

**4.0.40** Rhoddir manylion pellach am y dyraniadau uchod yn y penodau pwnc a'r polisïau perthnasol.






## Adran 5
# Polisïau Pynciol

# 5 Polisïau Pynciol

**5.0.1** Cyflwynir polisïau pynciol y Cynllun yn yr adrannau canlynol:

- Cymunedau a Thai;
- Yr Economi;
- Yr Amgylchedd ac Adnoddau;
- Trafnidiaeth a Mynediad; a
- Diwylliant a Threftadaeth.

**5.0.2** O fewn yr adrannau hyn, ceir polisïau strategol a manwl. Mae'r polisïau strategol (h.y. y rhai â chyfeirnodau SP) yn nodi'r mesurau a gyflawnir i weithredu'r strategaeth ac mae'r Polisïau Manwl (h.y. y rhai â chyfeirnodau pynciol) yn cyflwyno'r dulliau a ddefnyddir wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.

## 5.1 Cymunedau a Tai

***"Adeiladu Cymunedau Iach a Chynaliadwy"*** [12]

**Tai**

### 5.1.1 Polisi Strategol SP7 Gofynion Tai

**Polisi SP7**

**Gofynion Tai**

Er mwyn darparu'r 7,800 annedd newydd sy'n ofynnol i fodloni'r Strategaeth Twf seiliedig ar elfennau Economaidd, darperir ar gyfer datblygu 8,760 o anheddau ychwanegol rhwng 2011 a 2026, gan gynnwys lwfans hyblygrwydd o 12.31%.

**Amcan y CDLl: OB 2 ac OB 7**

**5.1.2** Mae'r strategaeth yn ceisio cyflawni twf yn y boblogaeth i ymateb i'r lefel o dwf economaidd a ragwelir yn ystod cyfnod y CDLl, gan gymryd i ystyriaeth hefyd yr amcan o gynyddu gweithgaredd economaidd a lleihau diweithdra, yn unol â chyfartaledd Cymru. Ar ben hynny, mae'r twf a ragwelir yn adlewyrchu'r newidiadau demograffig a gyflwynwyd yn rhagamcanion Llywodraeth Cymru (LlC) 2008, trwy ddefnyddio ffigur 2011 yn ddyddiad sylfaen, a chynnwys fel ffactor y gostyngiad a ragwelwyd yn nifer y trigolion oedran gwaith yn y boblogaeth a'r lleihad ym maint cyfartalog aelwydydd, er mwyn sicrhau bod modd diwallu anghenion tai trigolion hen a newydd yn ystod cyfnod y CDLl.



**5.1.3** Mae'r CDLl yn darparu fframwaith ar gyfer datblygu 8,760 o unedau preswyl ychwanegol. Mae hyn yn fwy na'r angen a nodwyd am dai, er mwyn darparu lwfans hyblygrwydd o 12.31%, rhag ofn na fydd safleoedd yn cael eu cyflwyno yn unol â'r disgwyl.

**Tabl 5.1 Cyfanswm y Gofynion Tai**

| | Rhagdybiaethau | Nifer yr Unedau |
|---|---|---|
| Angen Tai Sylfaenol (gan gynnwys darpariaeth Eiddo Gwag) | Y Senario Twf Economaidd a Ffafrir ar gyfer ymateb i'r angen a ragwelir, sef 3850 o swyddi[1] | 7,800 |
| Lwfans Hyblygrwydd | Lwfans ar gyfer methiant i gyflwyno safleoedd yn unol â'r disgwyl | 960 |
| | **Cyfanswm y Gofynion Tai** | **8,760** |

1. Cyfeirier at Adroddiad Asesiad Economaidd a Darparu Tir Cyflogaeth (2012) PBA.

**5.1.4** Mae nifer o gydrannau i'r cyflenwad tai (8,760 o unedau).

**5.1.5 Safle-Benodol** - nodir y safleoedd hyn fel dyraniadau 'safle-benodol' ar y Map o'r Cynigion, er mwyn darparu elfen o sicrwydd ar gyfer cymunedau lleol a'r diwydiant datblygu ynghylch graddfa a lleoliad y datblygiad newydd. Fe'u diffinnir fel 'safleoedd mawr' a gallant ddarparu isafswm o 10 uned. Maent yn cynnwys:

- Dyraniadau Tai - safleoedd tai sydd newydd eu nodi neu safleoedd ar gyfer defnydd cymysg, yn cynnwys elfen dai.
- Safleoedd Banc Tir Tai - safleoedd sydd â chaniatâd cynllunio ar gyfer tai neu ar gyfer defnydd cymysg, yn cynnwys tai, ar ddyddiad sylfaen y CDLl (h.y. 1af Ebrill 2011).

12 Mae polisïau pynciol y CDLl wedi'u grwpio o dan bump o themâu Cynllun Gofodol Cymru. Er mwyn pwysleisio pwysigrwydd mynd i'r afael â iechyd gwael, sy'n fater allweddol yng Nghastell-nedd Port Talbot, ychwanegwyd y gair 'iach', at y thema gyntaf.

**5.1.6 Lwfansau** - ni nodir y safleoedd hyn yn benodol yn y Cynllun, ond cyfrifir am y cyfraniad y bydd disgwyl iddynt ei wneud trwy ymgorffori lwfans i'r ddarpariaeth dai gyffredinol. Cyfrifwyd y safleoedd hyn ar sail tueddiadau'r gorffennol, yr hierarchaeth aneddiadau a chanlyniadau'r astudiaeth capasiti trefol. Maent yn cynnwys:

- Safleoedd ar Hap - safleoedd yn cynnwys 10 uned breswyl neu fwy, a all fod yn safleoedd a ddatblygwyd yn flaenorol sy'n dod ar gael yn annisgwyl yn ystod cyfnod y Cynllun.
- Safleoedd Bach - safleoedd sydd â chapasiti ar gyfer llai na 10 uned breswyl, sef tir sydd heb ei ddatblygu'n flaenorol yn bennaf a safleoedd bychain ar hap (nas rhagwelwyd).

**Tabl 5.2 Cydrannau Gofynion Tai**

| Categori | Is-Gategori | Nifer yr Unedau |
|---|---|---|
| Safle-Benodol | Banc Tir | 3,972 |
| | Dyraniadau Newydd | 3,153 |
| Lwfansau | Safleoedd ar Hap Mawr | 825 |
| | Safleoedd Bach | 810 |
| | **Cyfanswm** | **8,760** |

**5.1.7** Yn unol â Pholisi SP3 Cymunedau Cynaliadwy, Polisi SP5 Datblygiad yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir ac SP6 Datblygiad yn Ardal Strategaeth y Cymoedd, bydd y CDLl yn bennaf yn darparu datblygiadau tai ar hyd Coridor yr Arfordir, ochr yn ochr ag adfywio cymunedau'r Cymoedd trwy ganolbwyntio twf ym Mhontardawe a Chwm Nedd Uchaf (yn cynnwys Glyn-nedd, Resolfen a Rheola).

**5.1.8** Cyflwynir y tir a nodwyd ar gyfer datblygiad preswyl ym Mholisi H1.

**Tabl 5.3 Dosbarthiad y Ddarpariaeth Tai Gyffredinol**

| Ardal Ofodol | Banc Tir | Dyraniadau Newydd | Safleoedd ar Hap | Safleoedd Bach | Cyfanswm y Ddarpariaeth | Cyfran |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Castell-nedd | 2,890 | 1,075 | 290 | 210 | 4,465 | 51.0% |
| Port Talbot | 476 | 1,249 | 260 | 100 | 2,085 | 23.8% |
| Cwm Afan | | | 39 | 65 | 104 | 1.2% |
| Dyffryn Aman | | | 39 | 70 | 109 | 1.2% |
| Cwm Dulais | 105 | | 33 | 70 | 208 | 2.4% |
| Cwm Nedd | 114 | 150 | 68 | 85 | 417 | 4.8% |
| Pontardawe | 215 | 449 | 80 | 135 | 879 | 10.0% |
| Cwm Tawe | 172 | 230 | 16 | 75 | 493 | 5.6% |
| **Cyfanswm** | **3,972** | **3,153** | **825** | **810** | **8,760** | **100%** |



### **5.1.9** Safleoedd Tai Polisi H1

**Polisi H1**

**Safleoedd Tai**

Nodwyd tir ar gyfer datblygiad preswyl yn y lleoliadau canlynol:

| CORIDOR YR ARFORDIR | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ardal Ofodol** | **Cyfeirnod** | **Enw'r Safle** | **Anheddiad** | **Amcangyfrif o Nifer yr Unedau** | **Arwynebedd y Safle (ha)** |
| Castell-nedd | H1/1 | Cartref Gofal Gorffwysfa | Bryncoch | 15 | 0.6 |
| | H1/2 | Estyniad i Barc Leiros | Bryncoch | 200 | 12.2 |
| | H1/3 | Heol Groves (Cyfnod 2) | Cimla | 42 | 1.2 |
| | H1/4 | Ocean View | Jersey Marine | 81 | 2.7 |
| | H1/5 | Ysgol Isaf Dŵr y Felin | Longford | 100 | 3.3 |
| | H1/6 | Cartref Gofal Hafod House | Castell-nedd | 12 | 0.4 |
| | H1/7*# | Ailddatblygu Canol Tref Castell-nedd | Castell-nedd | 50 | 3.7 |
| | H1/8 | Gelli Crymlyn (Cyfnod 2) | Sgiwen | 75 | 2.8 |
| | H1/9 | Gelli Crymlyn (Cyfnod 3) | Sgiwen | 150 | 5.6 |
| | H1/10 | Wern Goch | Sgiwen | 50 | 3.4 |
| | H1/11 | Heol Castell-nedd / Heol Fairyland | Tonna | 300 | 11.6 |
| | H1/LB/1 | Waunceirch | Bryncoch | 13 | 0.3 |
| | H1/LB/2 | Heol Groves (Cyfnod 1) | Cimla | 34 | 1.2 |
| | H1/LB/3 | Cilgant Elba | Twyni Crymlyn | 50 | 3.9 |
| | H1/LB/4 | Ardal 1, Pentref Trefol Coed Darcy | Llandarcy | 157 | 3.8 |
| | H1/LB/5‡ | Pentref Trefol Coed Darcy | Llandarcy | 2,400 | 248.1 |
| | H1/LB/6 | Eaglesbush, Melincryddan | Castell-nedd | 50 | 2.5 |
| | H1/LB/7 | Garthmor (Cyfnod 2), Melincryddan | Castell-nedd | 34 | 1.1 |
| | H1/LB/8 | Heol Llansawel | Castell-nedd | 28 | 0.4 |
| | H1/LB/9 | The Ropewalk | Castell-nedd | 12 | 0.1 |
| | H1/LB/10 | Barrons Court | Mynachlog Nedd | 15 | 0.6 |
| | H1/LB/11 | Heol Cardonnel | Sgiwen | 16 | 0.5 |
| | H1/LB/12 | Gelli Crymlyn (Cyfnod 1) | Sgiwen | 81 | 3.3 |

| CORIDOR YR ARFORDIR | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ardal Ofodol** | **Cyfeirnod** | **Enw'r Safle** | **Anheddiad** | **Amcangyfrif o Nifer yr Unedau** | **Arwynebedd y Safle (ha)** |
| Port Talbot | H1/12 | Ysgol Blaenbaglan (tir y tu ôl iddi) | Baglan | 141 | 5.9 |
| | H1/13 | Hawthorn Close | Cwmafan | 100 | 4.0 |
| | H1/14 | Western Logs | Cwmafan | 130 | 5.9 |
| | H1/15 | Coleg Castell-nedd Port Talbot (Campws Margam) | Margam | 70 | 1.8 |
| | H1/16* | Ysgol Gyfun Glanafan | Port Talbot | 50 | 0.8 |
| | H1/17‡# | Glannau'r Harbwr | Port Talbot | 385 | 10 |
| | H1/18*# | Lido Afan a thir y tu ôl i Ysgol Tywyn | Sandfields | 150 | 3.1 |
| | H1/19 | Clwb Cymdeithasol Bay View | Sandfields | 23 | 0.3 |
| | H1/20 | Rhodfa Purcell | Sandfields | 115 | 3.5 |
| | H1/21 | Cartref Gofal Morfa Afan | Sandfields | 10 | 0.5 |
| | H1/22# | Heol Tir Morfa | Sandfields | 75 | 1.8 |
| | H1/LB/13 | Fferm Blaenbaglan | Baglan | 160 | 10.2 |
| | H1/LB/14 | Thorney Road | Baglan | 10 | 0.4 |
| | H1/LB/15 | Stycyllwen | Baglan | 24 | 0.8 |
| | H1/LB/16 | Abbottsmoor | Rhosydd Baglan | 42 | 1.2 |
| | H1/LB/17 | Farteg Fawr | Bryn | 25 | 2.2 |
| | H1/LB/18 | Copperminers | Cwmafan | 90 | 2.6 |
| | H1/LB/19 | Forest Lodge Lane | Cwmafan | 12 | 1.6 |
| | H1/LB/20 | Groeswen | Margam | 39 | 0.9 |
| | H1/LB/21# | Heol yr Orsaf | Port Talbot | 14 | 0.1 |
| | H1/LB/22 | Adeiladau'r Royal, Heol Talbot | Port Talbot | 46 | 0.2 |
| | H1/LB/23 | Heol y Dyffryn | Taibach | 14 | 0.2 |
| | | | **CYFANSWM CORIDOR YR ARFORDIR** | **5,690** | **371.2** |

| Y CYMOEDD | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ardal Ofodol** | **Cyfeirnod** | **Enw'r Safle** | **Anheddiad** | **Amcangyfrif o Nifer yr Unedau** | **Arwynebedd y Safle (ha)** |
| Cwm Dulais | H1/LB/24 | Maes Marchog | Banwen | 16 | 0.6 |
| | H1/LB/25 | Cartref Gofal Glyn Dulais | Creunant | 21 | 0.8 |
| | H1/LB/26 | Heol Y Waun | Blaendulais | 68 | 1.9 |
| †Cwm Nedd | H1/23** | Rhodfa'r Parc | Glyn-nedd | 150 | 13.2 |
| | H1/LB/27 | Heol Y Glyn | Glyn-nedd | 81 | 2.7 |
| | H1/LB/28 | Y Neuadd Les | Glyn-nedd | 17 | 0.8 |
| | H1/LB/29 | Rhodfa Ynys y Nos | Glyn-nedd | 16 | 0.5 |
| †Pontardawe | H1/24 | Bryn Morgrug (Cyfnod 2) | Yr Alltwen | 52 | 2.4 |
| | H1/25 | Heol Ynysymond | Yr Alltwen | 50 | 3.8 |
| | H1/26 | Ysgol Cwmtawe (Cyfnod 2) | Pontardawe | 32 | 1.3 |
| | H1/27 | Waun Sterw / Waun Penlan, Rhydyfro | Pontardawe | 115 | 3.9 |
| | H1/28 | Fferm Bryn Brych | Rhos | 150 | 6.0 |
| | H1/29# | Parc Ynysderw | Pontardawe | 50 | 1.2 |
| | H1/LB/30 | Bryn Morgrug (Cyfnod 1) | Yr Alltwen | 56 | 2.4 |
| | H1/LB/31 | Ysgol Cwmtawe (Cyfnod 1) | Pontardawe | 80 | 2.6 |
| | H1/LB/32# | Stryd Holly | Pontardawe | 45 | 0.8 |
| | H1/LB/33 | Waun Penlan, Rhydyfro | Pontardawe | 19 | 0.8 |
| | H1/LB/34 | Glan Yr Afon (Cyfnod 2), Ynysmeudwy | Pontardawe | 15 | 0.5 |
| Cwm Tawe | H1/30 | Compair / GMF | Ystalyfera | 70 | 3.3 |
| | H1/31 | Golchfa Tirbach | Ystalyfera | 160 | 7.0 |
| | H1/LB/35 | Golwg Y Mynydd | Godre'r Graig | 64 | 2.5 |
| | H1/LB/36 | Graig Newydd (Cyfnod 1) | Godre'r Graig | 42 | 1.2 |
| | H1/LB/37 | Graig Newydd (Cyfnod 2) | Godre'r Graig | 66 | 1.9 |
| | | | **CYFANSWM Y CYMOEDD** | **1,435** | **62.1** |
| | | | **CYFANSWM H1** | **3,153** | **127.2** |
| | | | **CYFANSWM H1/LB** | **3,972** | **306.1** |
| | | | **CYFANSWM CYFFREDINOL** | **7,125** | **433.3** |

**Allwedd:**
**H1** Dyraniad Tai (h.y. safle tai sydd newydd ei nodi). **H1/LB** Safle Banc Tir Tai (h.y. safle gyda chaniatâd cynllunio ar gyfer tai neu ar gyfer defnydd cymysg yn cynnwys tai ar ddyddiad sylfaen y CDLl, sef 1af Ebrill 2011).
‡ Ardal Adfywio Strategol (AAS). * Cynllun Adfywio Coridor yr Arfordir. † Ardal Twf Strategol. ** Cynllun Adfywio'r Cymoedd. # Datblygiad Dwysedd Uwch.

**5.1.10** Seiliwyd graddfa'r cynigion newydd ar arfarniad o'r lleoliadau i bennu eu haddasrwydd i ddarparu ar gyfer twf, gan roi sylw i'w capasiti cymdeithasol a ffisegol presennol, presenoldeb cyfyngiadau amgylcheddol, ac i ba raddau y gall datblygiad ddarparu, neu wneud iawn am, yr isadeiledd cymdeithasol neu ffisegol ychwanegol sy'n angenrheidiol.

**5.1.11** Yn unol â'r strategaeth, bydd y rhan fwyaf o'r ddarpariaeth dai yn ystod cyfnod y Cynllun (2011-2026) yn digwydd oddi mewn i ardaloedd trefol Castell-nedd a Phort Talbot, gan gynnwys yr 'Ardaloedd Adfywio Strategol' a 'Chynlluniau Adfywio Coridor yr Arfordir'.

**5.1.12** Yn Ardal Strategaeth y Cymoedd, caiff cymunedau eu hadfywio trwy'r ardaloedd twf strategol a nodwyd ym Mhontardawe a phen uchaf Cwm Nedd, gan adlewyrchu eu rôl fel canolfannau pwysig o ran gweithgaredd masnachol, manwerthu, twristiaeth a chysylltiedig â mwynau, er mwyn ysgogi 'effaith crychdonnau' yng nghymunedau amgylchynol y cymoedd.

**5.1.13** Defnydd effeithlon o dir yn elfen bwysig o'r strategaeth. Mae'n adnodd prin, ac mae'n rhaid ei ddefnyddio'n effeithiol ac mewn modd cynaliadwy. Gellir cael hyd i'r polisi ynghylch gofynion dwysedd yn y polisi Dylunio (BE 1). Mae nifer arfaethedig yr unedau a nodwyd ar gyfer pob safle yn y tabl uchod yn ddangosol, ac mae wedi'i seilio naill ai ar fanylion a gynhwyswyd mewn cais cynllunio neu friff datblygu, neu lle na ddarparwyd manylion, mae nifer y tai yn cynrychioli asesiad y Cyngor o nifer priodol o unedau, ar sail 35 annedd yr hectar (dph) yn yr ardaloedd trefol a 30 annedd yr hectar yn ardaloedd y cymoedd. Mae safleoedd mewn mannau cynaliadwy, yn agos at nodau trafnidiaeth ac ystod eang o gyfleusterau, lle mae teithio ar droed, ar feic ac ar gludiant cyhoeddus yn ddigon hwylus, wedi cael eu nodi fel safleoedd lle mae datblygiad dwysedd uwch (40+ dph) yn debygol o fod yn briodol, a bydd yn cael ei annog.

**5.1.14** Arfarnwyd y safleoedd tai arfaethedig i sicrhau bod eu datblygu'n cyd-fynd â'r strategaeth. Mae'r safleoedd hefyd wedi cael eu cymharu yn erbyn ystod o faterion a allai o bosibl gyfyngu ar ddatblygiadau, gan gynnwys y ddarpariaeth gyfredol, arfaethedig a gofynnol o ran isadeiledd. Mae'r broses hon yn arddangos cyflawnadwyedd safleoedd tai unigol a gynigiwyd, ond hefyd mae cydgrynhoi asesiadau safleoedd unigol yn dangos bod modd darparu digon o dai newydd yn ystod cyfnod y Cynllun i ddiwallu'r angen am dai.

**5.1.15** Bydd y safleoedd tai arfaethedig yn caniatáu ar gyfer datblygu tai newydd dros holl gyfnod y Cynllun. Ni ddisgwylir y bydd yr holl safleoedd ar gael i'w datblygu ar unwaith. Bydd statws safleoedd unigol yn newid dros amser wrth i amgylchiadau esblygu, ac er bod nifer sylweddol o safleoedd yn darparu tai newydd ym mlynyddoedd cynnar y CDLl, bydd safleoedd eraill yn elwa o ganiatâd cynllunio sy'n bodoli, ond sydd heb ei weithredu. Ar ben hynny, mae dyraniadau newydd sydd heb dderbyn caniatâd cynllunio hyd yma. Bydd statws y safleoedd yn cael ei asesu dros amser i sicrhau cydgyfeiriant â'r camau a ragwelir o ran datblygiad.

**5.1.16** Mae Atodiad A yn darparu disgrifiadau cryno o'r safleoedd tai a gynigir, ynghyd â throsolwg o'r materion cyflawni a gweithredu safle-benodol, gan gynnwys gwybodaeth, lle bo hynny'n hysbys, ynghylch cyfyngiadau'r safle/mesurau lliniaru/gwneud iawn angenrheidiol a'r gofynion A106/seilwaith posibl y bydd eu hangen er mwyn cyflwyno'r safleoedd ar gyfer datblygiad.

**5.1.17** Mae'r fframwaith monitro wedi cael ei sefydlu, a bydd yn caniatáu ar gyfer monitro'n fanwl sut darperir tai newydd dros amser. Bydd allbynnau'r broses hon yn cael eu hymgorffori yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol.



**Tai Fforddiadwy**

**5.1.18 Polisi Strategol SP8 Tai Fforddiadwy**

**Polisi SP8**
**Tai Fforddiadwy**

Darperir ar gyfer 1,200 o unedau tai fforddiadwy yng Nghastell-nedd Port Talbot dros gyfnod y Cynllun (2011-2026) trwy'r mesurau canlynol:

1. Pennu trothwyon a thargedau sy'n gofyn bod datblygiadau tai yn cyfrannu at ddarparu tai fforddiadwy; a
2. Darparu fframwaith ar gyfer pennu safleoedd eithriad tai fforddiadwy.

**Amcan y CDLl: OB 2 ac OB 8**

**5.1.19** Un o swyddogaethau allweddol y CDLl yw darparu ar gyfer gofynion tai Castell-nedd Port Talbot trwy gyflenwad a chymysgedd priodol o fathau o dai er mwyn darparu safon tai fforddiadwy a derbyniol ar gyfer pob grŵp yn y gymdeithas, yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru. Mae ymateb i'r angen am dai fforddiadwy, felly, yn elfen hanfodol o'r strategaeth.

**5.1.20** Roedd Polisi Strategol SP7 yn manylu ar gyfanswm y gofynion tai ar gyfer cyfnod y CDLl, sef 7,800 o anheddau newydd. O'r anheddau hyn, bydd 1,200 yn 'fforddiadwy'.

**5.1.21** Diffinnir tai fforddiadwy yn TAN 2 (2006) fel *'tai lle mae systemau diogel yn eu lle i sicrhau eu bod ar gael i'r rheiny sy'n methu â fforddio tai ar y farchnad agored, a hynny wrth i'r preswylwyr cyntaf eu meddiannu ac yn achos preswylwyr dilynol'*. Mae dau brif fath o dai fforddiadwy, fel y diffinnir gan TAN 2:

- **Tai Cymdeithasol ar Rent:** a ddarperir gan awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig lle mae lefelau'r rhent yn rhoi ystyriaeth i ganllawiau rhenti Llywodraeth Cymru a'r rhenti meincnod;

- **Tai Canolradd:** lle mae'r prisiau neu'r rhenti yn uwch nag eiddo tai cymdeithasol ar rent, ond yn is na phrisiau neu renti tai ar y farchnad. Gall hyn gynnwys cynlluniau rhannu ecwiti.

**5.1.22** Mae tai canolradd yn wahanol i dai cost isel ar y farchnad, gan fod yr olaf yn dai preifat i'w gwerthu neu eu rhentu ar y farchnad agored, ac nid yw'r Awdurdod Lleol yn rheoli eu meddiannaeth. Nid yw Llywodraeth Cymru yn ystyried tai cost isel ar y farchnad fel tai fforddiadwy at ddiben y system cynllunio defnydd tir.

**5.1.23** Nododd yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol yn 2012 fod angen 3,100 o unedau fforddiadwy yng Nghastell-nedd Port Talbot dros gyfnod y CDLl, sy'n cyfateb i 39% o'r angen tai cyffredinol a ragwelir.

**5.1.24** Mae'r system gynllunio yn ddull pwysig o ddarparu tai fforddiadwy trwy rwymedigaethau ac amodau cynllunio. Er y bydd y system gynllunio yn darparu cyfraniad sylweddol, ni fydd yn gallu diwallu'r angen cyfan dros gyfnod y Cynllun, gan fod angen ystyried dichonoldeb datblygiadau tai a pha gyfraniad y gellir ei gyflawni'n ymarferol. Fodd bynnag, bydd y CDLl yn ceisio mwyafu'r ddarpariaeth tai fforddiadwy trwy bennu trothwyon a fydd yn cynyddu gymaint â phosib y cyfraniadau at ddarpariaeth fforddiadwy heb gael effaith niweidiol ar ddichonoldeb datblygiad, ac o ganlyniad ar y cyfraddau adeiladu.

**5.1.25** Mae gwybodaeth bellach am Dai Fforddiadwy ar gael yn yr Astudiaeth Dichonoldeb Tai Fforddiadwy (2012) a'r Canllawiau Cynllunio Atodol ar Dai Fforddiadwy.

**5.1.26 Polisi AH1 Tai Fforddiadwy**

**Polisi AH1**
**Tai Fforddiadwy**

Bydd gofyn bod pob datblygiad tai newydd, gan gynnwys addasiadau, ar safleoedd sy'n darparu ar gyfer 3 uned neu fwy, yn cyfrannu at y ddarpariaeth tai fforddiadwy.

Chwilir am Dargedau Canran Tai Fforddiadwy yn yr ardaloedd gofodol canlynol.

Coridor yr Arfordir:

- Castell-nedd - 25%
- Port Talbot - 25%

Y Cymoedd:

- Pontardawe - 10%

Bydd yr union gyfraniad sydd i'w ddarparu o ran tai fforddiadwy yn dibynnu ar amgylchiadau pob cynnig a dichonoldeb y cynllun.

Gweithredir y ddarpariaeth tai fforddiadwy trwy ddefnyddio amodau cynllunio, rhwymedigaethau a/neu gytundebau cyfreithiol rhwng y Cyngor, Datblygwyr a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.

**5.1.27** Sefydlwyd y trothwyon a'r targedau canran ar sail canfyddiadau Astudiaeth Dichonoldeb Tai Fforddiadwy 2012, a fu'n profi dichonoldeb datblygiadau tai yng Nghastell-nedd Port Talbot a'u gallu i gynnal tai fforddiadwy. Mae'r astudiaeth yn darparu methodoleg gadarn a fu'n rhoi sylw i ystod o brofion senario ar draws ardaloedd gofodol yn y Fwrdeistref Sirol, gan gynnal profion lefel uchel ar werth gweddilliol amrywiaeth o fathau o ddatblygiad, asesu ystod o ddwyseddau tai a thargedau canran tai fforddiadwy, ac edrych ar sut gall newidiadau posibl yn ystod cyfnod y Cynllun, megis addasu gwerthoedd y farchnad, newidiadau i'r ddeddfwriaeth, a chyfraniadau amrywiol gan LCC, ddylanwadu ar dai fforddiadwy.

**5.1.28** Ar sail canran o gyfanswm nifer yr unedau, bydd gofyn darparu tai fforddiadwy ar gyfradd o 25% yn ardaloedd gofodol Castell-nedd a Phort Talbot ac ar gyfradd o 10% ym Mhontardawe. Mae ardal ofodol Pontardawe yn cynnwys wardiau etholiadol Trebannws, Alltwen, Rhos a Phontardawe sydd, o'u cyfuno, yn cynnwys yr aneddiadau canlynol: Pontardawe, Trebannws, Rhydyfro, Ynysmeudwy, Alltwen, Gelli-nudd, a Rhos. Canfu'r Astudiaeth Dichonoldeb nad oedd ardaloedd y Cymoedd yn cefnogi darparu tai fforddiadwy, ac felly ni cheisir cyfraniad yn yr ardaloedd hynny.

**5.1.29** Cymhwysir targedau tai fforddiadwy i unrhyw gais cynllunio preswyl cymwys ar gyfer 3 uned neu fwy (boed ar gyfer caniatâd amlinellol neu lawn, newid defnydd, addasu neu is-rannu). Rhoddir caniatâd cynllunio ar sail amodau neu gytundebau cyfreithiol/rhwymedigaethau sy'n gofyn (o ddewis) bod unedau fforddiadwy'n cael eu darparu ar y safle (gan gynnwys math a nifer) neu fel arall gyllid cyfatebol ar gyfer tai fforddiadwy mewn mannau eraill, yn amodol ar gytundeb gyda'r ymgeiswyr, yr Awdurdod a'r LCCiaid.

**5.1.30** Lle bo safleoedd wedi'u his-rannau a bod nifer yr unedau ar unrhyw ran o'r safle a rannwyd yn is na'r trothwy gofynnol, bydd yn dal yn ofynnol i bob rhan o'r datblygiad gyfrannu at ofynion tai fforddiadwy y safle cyfan, pwy bynnag sy'n berchen ar y safle. Bydd y dull hwn hefyd yn berthnasol lle cyflwynir ceisiadau cynllunio yn raddol dros gyfnod o amser, neu lle bo'r datblygiad yn digwydd fesul cam.

**5.1.31** Mae'r Cyngor yn cydnabod y gall fod amgylchiadau eithriadol lle byddai cyflawni'r canrannau targed o bosib yn golygu nad oedd datblygiad yn economaidd ddichonadwy. O dan amgylchiadau o'r fath, bydd gofyn bod yr Awdurdod yn cael tystiolaeth gan y datblygwr i ddangos cyfyngiadau economaidd dilys yn effeithio ar ddichonoldeb economaidd y safle, a hynny trwy gyflwyno arfarniad dichonoldeb ariannol manwl. Os caiff yr Awdurdod ei fodloni bod y datblygwr wedi gallu dangos, trwy ddarparu tystiolaeth gadarn, nad yw'r ddarpariaeth o ran tai fforddiadwy a nodwyd ym Mholisi AH 1 yn ddichonadwy, gellir cytuno ar gyfraniadau llai neu raddol, neu gellir dileu'r gofyniad i ddarparu tai fforddiadwy.

**5.1.32** Bydd y polisi tai fforddiadwy a'i gyflawni yn cael ei fonitro'n flynyddol, a bydd yn destun adolygiad llawn dros gyfnod y Cynllun os bernir bod hynny'n angenrheidiol.

**5.1.33** Cyflwynir rhagor o wybodaeth am ofynion tai fforddiadwy'r CDLl yn y CCA ar Dai Fforddiadwy.

**5.1.34 Polisi AH2 Safleoedd Eithriad Tai Fforddiadwy**

**Polisi AH2**
**Safleoedd Eithriad Tai Fforddiadwy**

Caniateir safleoedd tai bach fforddiadwy (9 uned ac o dan hynny) y tu allan i derfynau penodedig aneddiadau lle bodlonir yr holl feini prawf canlynol, lle bo hynny'n berthnasol:

1. Mae tystiolaeth yn bodoli ar ffurf arolwg anghenion tai lleol (neu trwy gyfeirio at ddata ynghylch yr angen am dai amgen) bod angen lleol gweladwy dilys am lety o'r fath;
2. Dangosir na ellir diwallu'r angen am dai fforddiadwy yn foddhaol oddi mewn i derfynau aneddiadau presennol, ac mae'r datblygiad wedi'i leoli yn ymyl anheddiad sydd eisoes yn bodoli;
3. Mae'r safle ar gyfer tai fforddiadwy yn unig ac mae trefniadau clir, digonol i sicrhau y bydd manteision tai fforddiadwy yn cael eu diogelu ar gyfer y meddianwyr cychwynnol a'r rhai dilynol.

**5.1.35** Mae safleoedd eithriad yn fodd i ddarparu tai fforddiadwy mewn ardaloedd lle mae angen sydd heb ei ddiwallu. Er y bydd tai bob amser yn cael eu darparu mewn aneddiadau cynaliadwy ac oddi mewn i derfynau penodedig aneddiadau o ddewis, gall fod achlysuron ar hyd cyfnod y Cynllun pryd y gall ffactorau, megis argaeledd tir, olygu bod rhaid ceisio tai fforddiadwy y tu allan i derfynau aneddiadau. O dan amgylchiadau felly, bydd y polisi hwn yn caniatáu i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ddarparu unedau fforddiadwy mewn ardaloedd lle mae angen wedi'i nodi na ellir ei fodloni o fewn yr aneddiadau sydd eisoes yn bodoli.

**5.1.36** Rhaid i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig fedru cyfiawnhau'n llawn ryddhau'r cyfryw safleoedd trwy arddangos tystiolaeth ddilys o'r angen lleol, na ellir ei ddiwallu o fewn yr anheddiad sydd eisoes yn bodoli. Bydd gofyn bod ymgeiswyr yn dangos na ellir diwallu'r angen yn yr ardal oddi mewn i ddyraniadau tai y CDLl yn yr ardal honno nac o fewn terfynau aneddiadau sydd eisoes yn bodoli.

**5.1.37** At ddibenion y polisi hwn, ystyr 'angen lleol' fydd pobl sy'n byw naill ai o fewn yr ardal, neu sydd â chysylltiadau teuluol yn yr ardal, ac y mae angen tai fforddiadwy arnynt. Rhaid i ddatblygiadau gynnwys dim mwy na 9 annedd, bod ar raddfa briodol, cysylltu â'r anheddiad presennol, bod o fewn cyrraedd i gyfleusterau a gwasanaethau, a pheidio ag achosi unrhyw niwed i gymeriad na thirlun yr ardal amgylchynol.

**5.1.38** Wrth ganiatáu datblygiadau tai fforddiadwy yn y lleoliadau hyn, pennir amodau a fydd yn gosod rhwymedigaeth ar y datblygiad i sicrhau bod yr unedau fforddiadwy'n parhau ar gael am byth, er mwyn diwallu'r angen am dai fforddiadwy.

**Sipsiwn a Theithwyr**

**5.1.39 Polisi Strategol SP9 Sipsiwn a Theithwyr**

**Polisi SP9**
**Sipsiwn a Theithwyr**

Darperir ar gyfer 20 o leiniau i Sipsiwn a Theithwyr trwy'r mesurau canlynol:

1. Dyrannu safle; a
2. Darparu fframwaith i asesu cynigion ar gyfer Safleoedd ychwanegol i Sipsiwn a Theithwyr.

**Amcan y CDLl: OB 2 ac OB 9**

**5.1.40** Mae gan Gastell-nedd Port Talbot gymuned sefydledig o Sipsiwn a Theithwyr. Er mwyn sicrhau bod y CDLl yn darparu cymysgedd a chyflenwad digonol o lety dros gyfnod y Cynllun, rhoddwyd sylw i anghenion y boblogaeth Sipsiwn a sut mae'r galw am lety Sipsiwn a Theithwyr yn debygol o ddatblygu dros gyfnod y Cynllun.

**5.1.41** Bu'r Astudiaeth o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Castell-nedd Port Talbot 2012 yn asesu anghenion presennol y Gymuned Sipsiwn a Theithwyr ac yn rhagweld eu hangen am lety ychwanegol dros gyfnod y CDLl. Ar sail canlyniadau'r astudiaeth hon, mae'r CDLl wedi darparu lleiniau ychwanegol ac wedi cyflwyno fframwaith a fydd yn golygu bod modd asesu dyraniadau ar gyfer darparu safleoedd newydd yn y dyfodol mewn modd teg a rhesymol.

**5.1.42 Polisi GT1 Safle Sipsiwn a Theithwyr**

**Polisi GT1**
**Safle Sipsiwn a Theithwyr**

Dyrannwyd y safle canlynol ar gyfer darparu 11 llain i Sipsiwn a Theithwyr:

| Cyfeirnod | Safle |
|---|---|
| GT1 | Cae Garw, Margam |

**5.1.43** Nododd yr Astudiaeth o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Castell-nedd Port Talbot 2012 fod angen 20 llain preswyl ychwanegol dros gyfnod y Cynllun, a bod angen 11 o'r rheiny yn ystod tymor byr i ganolig y CDLl, hyd at 2022. Darperir yr 11 llain yma trwy ehangu'r safle presennol, sefydledig i Sipsiwn a Theithwyr yng Nghae Garw, Margam.

**5.1.44** Mae'r Cyngor yn bwriadu monitro'r angen am leiniau a'r nifer sy'n eu defnyddio yn fanwl trwy'r Adroddiad Monitro Blynyddol a bydd yn adolygu'r galw am 9 llain ychwanegol yn ail ran cyfnod y Cynllun (wedi 2023) trwy'r fframwaith monitro. Yn unol â Deddf Tai (Cymru) 2014, bydd y Cyngor yn cynnal Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr newydd (GTAA) bob pum mlynedd, ac oni bai bod diweddaru'r asesiad yn nodi bod yr angen wedi newid, bydd y 9 llain sy'n weddill a nodwyd yn astudiaeth 2012 yn eu lle erbyn 2026.

**5.1.45** Ceir dadansoddiad llawn ac esboniad ar y broses o ddarparu'r safle, gan gynnwys costau, y gwaith y mae angen ei wneud, cyllido ac amserlenni, yn y Cynllun Gweithredu.

**5.1.46 Polisi GT2 Cynigion ar gyfer Safleoedd Newydd i Sipsiwn a Theithwyr**

**Polisi GT2**

**Cynigion ar gyfer Safleoedd Newydd i Sipsiwn a Theithwyr**

Ni chaniateir safleoedd a/neu leiniau i ddarparu llety ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr sy'n byw yn y Fwrdeistref Sirol neu sy'n galw heibio ond pan fodlonir yr holl feini prawf canlynol, lle bônt yn berthnasol:

1. Caniateir safleoedd y tu allan i derfynau anheddiad dim ond lle dangoswyd nad oes safleoedd na lleiniau addas ar gael oddi mewn i'r canlynol:

   (a) y Safle a ddyrannwyd ar gyfer Sipsiwn yng Nghae Garw (GT1), neu mewn safleoedd eraill awdurdodedig sydd eisoes yn bodoli i Sipsiwn a Theithwyr yng Nghastell-nedd Port Talbot; neu

   (b) oddi mewn i derfynau aneddiadau sydd eisoes yn bodoli.
2. Mae'r safle mewn lleoliad cynaliadwy, o fewn pellter rhesymol i gyfleusterau cymunedol (yn cynnwys addysg) a chysylltiadau trafnidiaeth, gan gynnwys llwybrau cerdded a beicio;
3. Mae gan y safle neu byddai gan y safle safon dda o gyfleustodau, yn cynnwys cyflenwad dŵr, pŵer, draeniad, gwaredu carthffosiaeth, gwaredu gwastraff (storio a chasglu), a mannau chwarae diogel i blant;
4. Ni fydd y safle'n niweidio amwynderau preswyl na'r amgylchedd;
5. Gall y safle ddarparu ar gyfer defnyddiau busnes o'r cartref lle bo gofyn, heb gael effaith niweidiol ar amwynder a chymeriad yr ardal;
6. Gall y safle ddarparu ar gyfer mynediad diogel, cyfleus i'r rhwydwaith priffyrdd, ac ni fyddai'n peryglu diogelwch ar y priffyrdd. Hefyd gall ddarparu cynllun priodol, o ran lleiniau, parcio a symud cerbydau, adeiladau amwynder, ardaloedd wyneb caled a mannau agored.

**5.1.47** Yn ogystal â'r ddarpariaeth a wnaed i ddiwallu'r angen a nodwyd am leiniau Sipsiwn a Theithwyr, mae Polisi GT2 yn darparu fframwaith polisi ar gyfer asesu unrhyw geisiadau am safleoedd ychwanegol yn y dyfodol.

**5.1.48** Yn unol â'r polisi, asesir ceisiadau unigol ar sail rhinweddau'r safle dan sylw, a bydd angen iddynt ddangos eu bod o safon briodol i ganiatáu i drigolion y safle gael mynediad i gyfleusterau sylfaenol a byw mewn cymunedau diogel, cynaliadwy.

**5.1.49** Bydd gofyn bod cynigion yn dangos na fyddai diogelwch cerddwyr na diogelwch ar y priffyrdd yn dioddef yn sgîl lleoliad a chynllun y safle, a mynediad iddo. Ar ben hynny, bydd angen i gynigion ddangos bod y safle'n gallu darparu safon dda o gyfleusterau a mynediad at gyfleustodau, gan gynnwys cyflenwad dŵr digonol, pŵer, draeniad, gwaredu gwastraff a gwaredu carthffosiaeth er mwyn sicrhau na fydd datblygu'r safle yn peryglu iechyd dynol a lles y trigolion.

**5.1.50** Lle bo angen, bydd gofyn bod y safle'n gallu darparu ar gyfer defnyddiau busnes o'r cartref heb amharu ar amwynder neu gymeriad yr ardal. Gall hyn gynnwys darparu cyfleusterau a lle digonol ar gyfer gweithgareddau busnes o'r fath.

**Mannau Agored**

**5.1.51 Polisi Strategol SP10 Mannau Agored**

**Polisi SP10**

**Mannau Agored**

Trefnir darpariaeth er mwyn sicrhau bod yr holl drigolion yn cael mynediad i Fannau Agored digonol trwy'r mesurau canlynol:

1. Sicrhau bod y datblygiad newydd yn ymateb i anghenion lleol:
2. Cadw ac amddiffyn Mannau Agored sydd eisoes yn bodoli.

**Amcan y CDLl: OB 2 ac OB 10**

**5.1.52** Y strategaeth yw mynd i'r afael ag anghydraddoldebau yn y ddarpariaeth Mannau Agored, lle bo modd, trwy'r system gynllunio, gan gadw a gwella'r ddarpariaeth bresennol, a gofyn bod datblygiadau newydd yn darparu ar gyfer Mannau Agored lle bo angen. Mae'r term 'Mannau Agored' yn cyfeirio at ofod hamdden sy'n hygyrch i'r cyhoedd, ac mae'n cynnwys meysydd chwarae, caeau chwaraeon a chyrtiau; mannau chwarae i blant, cyfleusterau i blant hŷn, mannau agored anffurfiol, mannau glas, parciau a rhandiroedd.

**5.1.53** Mae Mannau Agored yn darparu cyfleoedd ar gyfer ffyrdd mwy egnïol o fyw, ac ynghyd â gwella llwybrau cerdded a beicio, mae'n helpu i greu amgylchedd mwy actif.



**5.1.54 Polisi OS1 Darparu Mannau Agored**

**Polisi OS1**

**Darparu Mannau Agored**

Lle bo diffyg meintiol o ran chwaraeon awyr agored, chwarae i blant, mannau anffurfiol neu randiroedd, ceisir darpariaeth, gan gynnwys gofynion cynnal a chadw, yng nghyswllt pob datblygiad preswyl newydd sy'n cynnwys 3 annedd neu fwy, ar sail y safonau canlynol:

| Mannau Agored | Safon |
|---|---|
| Chwaraeon Awyr Agored | 1.6 hectar am bob 1,000 o boblogaeth |
| Chwarae i Blant | 0.25 hectar am bob 1,000 o boblogaeth |
| Mannau Anffurfiol | 0.55 hectar am bob 1,000 o boblogaeth |
| Rhandiroedd | 0.19 hectar am bob 1,000 o boblogaeth |

Yn achos cynigion cyflogaeth neu ddatblygiad masnachol dros 1,000 m.sg., ceisir darpariaeth ar gyfer amwynderau cysylltiedig.

**5.1.55** Bydd cymhwyso'r safonau hyn yn sicrhau bod pob datblygiad preswyl newydd lle ceir 3 uned neu fwy yn gwneud cyfraniad at y ddarpariaeth Mannau Agored ar gyfer meddianwyr y dyfodol.

**5.1.56** Mae'r Asesiad Mannau Agored yn nodi'r ddarpariaeth bresennol ar gyfer y gwahanol gategorïau o Fannau Agored fesul ward (neu fesul ardal ofodol yn achos rhandiroedd). Lle bo diffyg yn y ddarpariaeth, bydd angen sicrhau'r ddarpariaeth ofynnol ar gyfer y categori penodol hwnnw. Lle bo diffygion lluosog, asesir pa gategorïau y dylid rhoi blaenoriaeth iddynt.

**5.1.57** Bydd darparu Mannau Agored yn ofynnol yn achos datblygiadau cyflogaeth yn ogystal â rhai preswyl, fel bod gweithwyr yn medu cyrchu amwynderau awyr agored yn agos at y gweithle, er budd i'w hiechyd a'u lles. Gan fod poblogaeth y Fwrdeistref Sirol yn profi ystod o broblemau iechyd, cymerir pob cyfle i gynyddu cyfranogiad mewn gweithgareddau hamdden iach.

**5.1.58** Lle bo Mannau Agored digonol gerllaw i ddatblygiad, ond bod hygyrchedd gwael, gellir ceisio sicrhau cysylltiadau mynediad gwell yn hytrach na darparu Mannau Agored.

**5.1.59 Polisi OS2 Amddiffyn Mannau Agored sydd eisoes yn Bodoli**

**Polisi OS2**

**Amddiffyn Mannau Agored sydd eisoes yn Bodoli**

Ni chaniateir unrhyw gynigion a fyddai'n arwain at golli Man Agored sydd eisoes yn bodoli ond lle gellir dangos y canlynol:

1. Nad oes angen y Man Agored bellach; a
2. Nad oes ddiffyg darpariaeth yn y categori hwnnw o fannau agored yn y ward, cyn y datblygiad nac o ganlyniad iddo; a
3. Na fyddai'r safle'n addas i ddarparu math amgen o Fan Agored, y mae diffyg ohono.

Neu:

Gellir dangos bod modd darparu cyfleusterau cyfatebol neu well ar safle amnewidiol addas a hygyrch, a fyddai'n gwasanaethu'r gymuned leol llawn cystal.

**5.1.60** Mae Mannau Agored yn bwysig i'r gymuned a gallant fod yn rhan annatod o gymunedau a'u cymeriad. Gall colli hyd yn oed ardaloedd bychain gael effaith ar yr ardal leol, yn enwedig lle bo diffyg eisoes neu lle nad oes cyfleusterau amgen ar gael yn hwylus i'r gymuned yr effeithiwyd arni gan golli'r cyfleuster. Er bod polisi cenedlaethol yn amddiffyn meysydd chwaraeon, mae'r polisi hwn yn ceisio amddiffyn pob man agored. Bydd angen i unrhyw gynigion i'w datblygu fodloni'r meini prawf penodedig sy'n ceisio sicrhau bod yr holl opsiynau posibl wedi cael eu hasesu cyn ystyried defnydd arall ar gyfer Man Agored.

**5.1.61** Bydd y dystiolaeth am yr angen yn amrywio yn ôl y cyfleuster dan sylw, ond gallai gynnwys manylion pam nad yw'r man agored yn cael ei ddefnyddio bellach, pryd y cafodd ei ddefnyddio ac ar gyfer beth, pa ddarpariaeth amgen sydd ar gael yn lleol, a pha opsiynau mannau agored eraill sydd wedi cael eu hystyried ar gyfer y tir. Bydd trafod gyda'r Awdurdod Cynllunio cyn cyflwyno cais yn helpu i nodi pa wybodaeth y dylid ei darparu fesul achos.

**5.1.62** Gall fod achlysuron lle gellir sicrhau darpariaeth amgen mewn ardal leol, a fydd yn darparu cyfleusterau cyfatebol neu well ar safle amgen, ond rhaid i'r ddarpariaeth amgen honno hefyd fod yn gwbl hygyrch ac o fewn pellter cerdded i'r trigolion a wasanaethir gan y cyfleuster presennol.

**5.1.63** Ceir rhagor o fanylion am y dull sydd i'w fabwysiadu yng nghyswllt Mannau Agored yn y Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA).



## 5.2 Yr Economi

***"Hybu Economi Gynaliadwy"***

**Cyflogaeth**

**5.2.1 Polisi Strategol SP11 Twf Cyflogaeth**

**Polisi SP11**

**Twf Cyflogaeth**

Bydd defnyddiau cyflogaeth presennol yn cael eu cynnal a'u diogelu, ac anogir datblygiadau cyflogaeth newydd a rhai sy'n ehangu trwy'r mesurau canlynol:

1. Dyrannir 96 ha o dir at ddibenion cyflogaeth a busnes ar gyfer datblygu o fewn cyfnod y Cynllun yn Ardal Strategol Coridor yr Arfordir er mwyn diwallu anghenion cyflogaeth a datblygu economaidd;
2. Ceir darpariaeth gyflogaeth ychwanegol yn yr Ardaloedd Adfywio Strategol fel rhan o ddatblygiad cynaliadwy, defnydd cymysg yn y lleoliadau hynny;
3. Diogelir ardaloedd cyflogaeth presennol ar gyfer defnyddiau cyflogaeth;
4. Diogelir safleoedd sy'n cael eu defnyddio mewn modd priodol a chyfreithlon ar gyfer cyflogaeth ar hyn o bryd at ddibenion cyflogaeth;
5. Anogir defnyddiau cyflogaeth mewn egwyddor oddi mewn i derfynau aneddiadau;
6. Yn Ardal Strategaeth y Cymoedd, ymagweddir yn hyblyg at gynigion cyflogaeth ac unedau 'bywyd/gwaith' oddi mewn i derfynau aneddiadau neu'n union gerllaw.

**Amcanion y CDLl: OB 2, OB 11 ac OB 12**

**5.2.2** Nododd yr Asesiad Economaidd a'r Astudiaeth ar Ddarparu Tir Cyflogaeth gan Peter Brett Associates (PBA) ar ran Dinas a Sir Abertawe a Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot (2012) gynnydd a ragwelir o 3,850 o swyddi dros gyfnod y CDLl, gyda gofyn yn sgîl hynny am 20 ha o dir ar gyfer defnyddiau B. Mae hyn yn cynnwys angen net a ragwelir o 34,000 m.sg. o arwynebedd llawr defnydd B. Er mwyn cyflawni'r gofyniad hwn mae'r CDLl wedi nodi dau Safle Cyflogaeth Strategol ym Mae Baglan a Chyffordd 38 (yr M4) Margam. Lleolir y safleoedd hyn ar Goridor yr Arfordir, sef yr ardal lle ceir y galw uchaf yn y farchnad, gyda mynediad hwylus i'r rhwydweithiau ffyrdd a nwyddau strategol.

**5.2.3** Mae'r safle cyflogaeth strategol ym Mae Baglan yn cynnwys rhyw 75 hectar o dir, ond rhagwelir na ddatblygir ond rhan o'r safle yn ystod cyfnod y Cynllun, ac y bydd yr ardal yn parhau i ddiwallu anghenion defnyddiau cyflogaeth ac anghenion y sector ynni y tu hwnt i oes y CDLl. Ni ellir is-rannu'r safle'n hwylus, a byddai ei ddyrannu ar gyfer defnyddiau eraill yn tanseilio'i atyniad marchnad ar gyfer cyflogaeth. Mae'r ardal gyfan, felly, wedi'i dyrannu, gan gydnabod yr uchelgais dymor hir ac i hwyluso hyblygrwydd. Mae'r llain hon o dir yn cynnwys 15 hectar o ddefnyddiau cyflogaeth Dosbarth B confensiynol[13]. Rhagwelir y bydd cyfran o'r safle'n cael ei ddatblygu ar gyfer defnyddiau ategol er mwyn cynnal swyddogaeth ehangach yr ardal gyflogaeth, ac i fodloni anghenion y sector ynni.

**5.2.4** Yn ogystal â'r ddarpariaeth hon, caiff defnyddiau cyflogaeth eu hymgorffori yn y ddwy Ardal Adfywio Strategol. Er y bydd y tir yng Nghoed Darcy yn darparu cyflogaeth yn lleol ar gyfer trigolion y datblygiadau newydd, ac yn gyffredinol yn gwella cynaliadwyedd y pentref trefol, bydd Glannau'r Harbwr yn darparu tir ar gyfer defnyddwyr diwydiannol a swyddfa ar raddfa fach, gan wneud yn fawr o fantais bod yn agos at ganol y dref. Mae rhai darnau o dir eisoes wedi cael eu datblygu, yn cynnwys Cyfleuster Ymchwil a Datblygu a Chanolfan Gyfiawnder.

**5.2.5** Mae gan y Fwrdeistref Sirol nifer o ardaloedd cyflogaeth eisoes, y mae 19 ohonynt wedi'u diogelu at ddibenion cyflogaeth. Bydd y safleoedd hyn, ynghyd â thir a safleoedd cyflogaeth presennol mewn mannau eraill yn parhau i chwarae rhan bwysig yn y gwaith o gynnal yr economi leol. Byddant yn cael eu diogelu at ddibenion cyflogaeth lle bynnag y bo hynny'n briodol, gan gynnwys categorïau defnydd ehangach na'r rhai a geir yn Nosbarth B, megis caffis ategol, meithrinfeydd dydd a gwasanaethau masnachol sy'n darparu cyfleoedd cyflogaeth ac amwynderau angenrheidiol.

**5.2.6** Er mwyn helpu i ddod â bywyd newydd i ardaloedd y Cymoedd, ymagweddir yn fwy hyblyg, gyda chyflogaeth briodol ac unedau 'Bywyd/Gwaith' yn dderbyniol mewn egwyddor y tu allan i derfynau aneddiadau, cyhyd â'u bod yn union gerllaw.

**5.2.7 Polisi EC1 Dyraniadau Cyflogaeth**

**Polisi EC1**

**Dyraniadau Cyflogaeth**

Dyrannwyd y safleoedd canlynol ar gyfer defnyddiau cyflogaeth:

| Cyfeirnod | Safle | Maint | Dosbarth o Ddefnydd a Ganiateir |
|---|---|---|---|
| EC1/1+ | Bae Baglan | 75 ha*, y mae 15ha ohono wedi'i ddyrannu ar gyfer Dosbarth Defnydd B | B1, B2 a B8[14] |
| EC1/2+ | Cyffordd 38 (yr M4), Margam | 6 ha | B1, B2 a B8 |
| EC1/3 | Tir o fewn AAS Coed Darcy | 4 ha | B1 |
| EC1/4 | Tir o fewn AAS Glannau'r Harbwr | 7 ha | B1 |
| | **Cyfanswm** | **32 ha** | |

**Allwedd:**

+ Safleoedd a Ffafrir ar gyfer Cyfleusterau Trin Gwastraff mewn Adeiladau.

* Tir Cyflogaeth i ddiwallu anghenion y sector ynni ac unrhyw gyfleusterau a gwasanaethau ategol sy'n cynnal ac yn cydweddu â rôl a swyddogaeth ehangach Defnyddiau Dosbarth B. Rhagwelir y bydd y dyraniad cyflogaeth yn diwallu'r anghenion ar gyfer Defnyddiau Dosbarth B ac anghenion y sector ynni y tu hwnt i oes y CDLl.

13 Defnyddiau sy'n syrthio i ddosbarthiadau defnydd B1, B2 a B8.
14 Ceir diffiniad o'r Dosbarthiadau Defnydd yn y Rhestr Eirfa.

***Safle Cyflogaeth Strategol Bae Baglan***

**5.2.8** Safle tir llwyd yw Bae Baglan a bydd yn darparu nifer sylweddol o swyddi dros gyfnod y CDLl a'r tu hwnt iddo. Mae'n gynnig datblygu tymor hir, ac mae cynnydd wedi'i wneud eisoes o ran cyflwyno'r safle ar gyfer datblygu.

**5.2.9** Mae gan y safle fynediad strategol i brif lein y rheilffordd, yr A48 a'r M4, ac mae'r cysylltiadau ffyrdd wedi cael eu gwella ymhellach drwy agor Ffordd yr Harbwr a ffordd gyswllt Parc Ynni Baglan. Bydd y safle'n darparu ystod o fathau a meintiau o unedau cyflogaeth, gan gynnwys unedau deor ategol sy'n gysylltiedig â Champws Gwyddoniaeth ac Arloesedd Prifysgol Abertawe yn Ffordd Fabian, bydd yn darparu cyfle ar gyfer diwydiannau gweithgynhyrchu, a bydd yn helpu i ddiwallu angen rhanbarthol. Cyflwynir Canllawiau Cynllunio Atodol i gefnogi darparu safle Bae Baglan.

**5.2.10** Mae'r dyraniad yn cynnwys 75 hectar o dir cyflogaeth, sy'n adlewyrchu potensial amlwg y safle i ddarparu ar gyfer gofynion tir mawr a chanolig, a mentrau a fydd yn diwallu anghenion cyflogaeth y Fwrdeistref Sirol y tu hwnt i gyfnod y Cynllun. Fodd bynnag, rhagwelir na chyflwynir ond rhan o'r safle yn ystod cyfnod y Cynllun. Mae'r llain hon o dir yn cynnwys 15 hectar at ddibenion cyflogaeth Dosbarth B confensiynol, gyda lle i ddiwallu anghenion y sector ynni ac unrhyw gyfleusterau a gwasanaethau ategol sy'n cynnal ac yn cydweddu â rôl a swyddogaeth ehangach Defnyddiau B. Mae hyn yn cyfateb i ddadansoddiad PBA o'r safle, sy'n esbonio *'y bernir nad yw'n addas ar gyfer defnydd amgen, oherwydd y byddai hynny'n tanseilio ei atyniad i'r farchnad o ran cyflogaeth. Ni theimlir bod graddfa fawr y safle yn wendid, gan y bydd angen isadeiledd a marchnata ar gyfer y safle hwn, p'un a ydynt (sic) yn fawr neu'n fach.'* (PBA 2012: 105). Ar ben hynny, nid oes ffiniau y gellir eu hamddiffyn o fewn y safle, ac nid oes modd hwylus i'w rannu ymhellach yn ddarnau llai o dir i'w dyrannu yn y CDLl.

**5.2.11** Yn ogystal â defnyddiau cyflogaeth confensiynol, byddai Bae Baglan yn gallu cipio prosiectau buddsoddi mawr iawn a rhai symudol, gan gynnwys cynhyrchu ynni a data a chynlluniau technoleg yn y sectorau sy'n dod i'r amlwg. Mae caniatâd cynllunio'n bodoli ar gyfer arae ffotofoltaig (PV) ym Mae Baglan eisoes, ac mae'r cysyniad hwn yn debygol o gael ei estyn dros gyfnod y cynllun i helpu i gyflawni amcanion LlC a'r Cyngor o ran ynni adnewyddadwy. Mae gweithgaredd ynni yn rhan o'r dosbarthiad defnydd tir 'sui generis' ac yn ôl PBA ni fyddai'n briodol pennu dyraniadau ar gyfer defnyddiau cysylltiedig â mwyngloddio ac ynni yn y dyraniadau cyflogaeth yn y dyfodol - dylid ystyried pob achos neu ganiatâd ar sail ei rinweddau ei hun pan gaiff ei gyflwyno gan y farchnad. Darperir hyblygrwydd a chwmpas digonol, felly, o fewn y dyraniad i ddarparu ar gyfer defnyddiau o'r fath (e.e. cynlluniau ffotofoltaig a phrosiectau ynni o wastraff).

**5.2.12** Rhagwelir y bydd y safle'n cael ei ddatblygu yn ystod y tymor canolig i hir, gyda 15 hectar ohono'n cael ei ddatblygu ar gyfer defnyddiau Gofod B. O ystyried potensial y safle ar gyfer hwyluso twf economaidd yn y Ddinas-Ranbarth a'i allu i ddarparu ar gyfer ystod eang o ddefnyddiau, rhagwelir mai'r 15 hectar o Ofod B fydd yr isafwm o ran datblygiad Defnydd B dros gyfnod y Cynllun. Bydd y safle'n cael ei fonitro'n fanwl, gan sicrhau, petai'r galw a ragwelir am y safle yn newid, y gellid ymdrin â hynny trwy adolygu'r Cynllun. Adroddir am geisiadau dros ben y 15 hectar yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol, a chânt eu hadolygu yn ôl y galw ochr yn ochr â chreu swyddi a lefel gyffredinol y tir cyflogaeth.

***Safle Cyflogaeth Strategol Cyffordd 38 (yr M4) Margam***

**5.2.13** Mae'r dyraniad Cyflogaeth Strategol yng Nghyffordd 38 yn gorwedd i'r de o Ffordd yr Harbwr ac yn ymyl yr A48 a'r M4, ac felly mae'n elwa o gysylltiadau trafnidiaeth ardderchog ar y ffyrdd. Mae'r safle'n agos at nifer o weithrediadau cyflogaeth a diwydiant sydd eisoes yn bodoli.

**5.2.14** Mae Ffordd yr Harbwr yn rhedeg i'r gogledd o'r dyraniad arfaethedig, gan wella'r cysylltiadau trafnidiaeth i'r safle. Rhagwelir y bydd y safle'n cael ei gyflawni yn y tymor byr.

**5.2.15** Mae Bae Baglan a Chyffordd 38 (yr M4) wedi cael eu hasesu ac fe'u nodwyd fel lleoliadau a ffafrir ar gyfer cyfleusterau trin gwastraff mewn adeilad (Gweler Polisi W1).

**5.2.16** Yn ogystal â'r dyraniadau Cyflogaeth Strategol, bydd yr Ardaloedd Adfywio Strategol yng Nghoed Darcy a Glannau'r Harbwr hefyd yn cynnal twf a defnyddiau cyflogaeth dros gyfnod y CDLl. Cyfyngir y defnyddiau i B1 er mwyn hybu datblygiad cynaliadwy, defnydd cymysg a chyd-fynd â swyddogaeth breswyl amlwg y datblygiadau unigol.



### 5.2.17 Polisi EC2 Ardaloedd Cyflogaeth Presennol

**Polisi EC2**

**Ardaloedd Cyflogaeth Presennol**

Er mwyn amddiffyn swyddogaeth gyflogaeth ardaloedd cyflogaeth y Fwrdeistref Sirol, cyfyngir defnyddiau ar y safleoedd canlynol yn unol â Pholisi EC3:

| Cyfeirnod | Safle |
|---|---|
| EC2/1* | Ffordd Fabian |
| EC2/2 | Gweithdai Pentref Lon-las, Castell-nedd |
| EC2/3 | Parc Busnes Mynachlog Nedd, Castell-nedd |
| EC2/4 | Glanfa Mynachlog Nedd, Castell-nedd |
| EC2/5* | CMB Melincryddan / Ystâd Ddiwydiannol Heol Milland, Castell-nedd |
| EC2/6* | Parc Ynni Baglan |
| EC2/7* | Ystâd Ddiwydiannol Baglan, Port Talbot |
| EC2/8 | Endeavour Close, Port Talbot |
| EC2/9+ | Ystâd Ddiwydiannol Cynffig, Port Talbot |
| EC2/10* | Cei Llewelyn, Port Talbot |
| EC2/11* | Gwaith Dur Tata, Margam |
| EC2/12 | Ystâd Ddiwydiannol Croeserw, Cwm Afan |
| EC2/13* | Gweithdai Glyncorrwg, Cwm Afan |
| EC2/14* | Gweithdai ac Ystâd Ddiwydiannol Cwmgors, Dyffryn Aman |
| EC2/15* | Parc Busnes Creunant, Cwm Dulais |
| EC2/16* | Parc Cyflenwyr Bro Nedd, Cwm Nedd |
| EC2/17* | Gweithdai Pentref Glyn-nedd, Cwm Nedd |
| EC2/18 | Ystâd Ddiwydiannol Alloy, Pontardawe |
| EC2/19* | Ffatri Compair / GMF gynt, Ystalyfera, Cwm Tawe |

**Allwedd:**

* Safleoedd sy'n gorwedd o fewn ardaloedd lle ceir perygl llifogydd a nodwyd yn TAN 15.
+ Safleoedd a Ffafrir ar gyfer Cyfleusterau Trin Gwastraff mewn Adeiladau.

**5.2.18** Amddiffynnir ardaloedd cyflogaeth presennol ar draws y Fwrdeistref Sirol, a chyfyngir datblygiad yn y dyfodol i ddefnyddiau cyflogaeth, fel y nodir ym Mholisi EC3. Bydd hyn yn cynnwys tir a safleoedd gwag yn yr ardaloedd cyflogaeth hyn, lle caniateir datblygiadau mewnlenwi priodol.

**5.2.19** Mae'r safleoedd wedi'u lleoli'n dda ac mae perthynas dda rhyngddynt ac aneddiadau ac isadeiledd sydd eisoes yn bodoli. Gallent, felly, leihau'r angen i drigolion deithio ymhellach i ffwrdd i gyrchu cyfleoedd cyflogaeth. Bydd eu hamddiffyn yn sicrhau bod amrywiaeth o safleoedd, o ran maint, lleoliad a defnyddiau posib, yn cael ei gadw dros gyfnod y Cynllun ac yn caniatáu ar gyfer anghenion busnesau presennol a'r 'sefyllfa naturiol o gyfnewid' a geir yn yr economi. Bydd cyfran helaeth o'r tir hwn yn darparu lle ehangu ar gyfer meddianwyr presennol, er enghraifft defnyddiau Inter-tissue. Mae'r tir cyflogaeth sydd ar gael mewn gwirionedd o fewn y safleoedd hyn, felly, yn gyfyngedig, gan y bydd mwyafrif y tir yn darparu hyblygrwydd ar gyfer defnyddwyr presennol.



### 5.2.20 Polisi EC3 Defnyddiau Ardal Gyflogaeth

**Polisi EC3**

**Defnyddiau Ardal Gyflogaeth**

O fewn ardaloedd cyflogaeth a ddyrannwyd a rhai presennol, oni nodir fel arall a lle bo'n briodol, cyfyngir ar y defnyddiau fel a ganlyn:

- Defnyddiau yn nosbarthiadau B1, B2 a B8;
- Cyfleusterau neu wasanaethau ategol sy'n cynnal ac yn cydweddu â rôl a swyddogaeth ehangach y prif ddefnydd cyflogaeth;
- Gwasanaethau masnachol heb gysylltiad â dosbarth B.

Bydd gofyn bod datblygiadau'n dangos nad yw'r cynigion yn achosi unrhyw effeithiau niweidiol ar weithrediad cyffredinol yr ardal gyflogaeth ac eiddo masnachol a phreswyl cymdogol, bod modd cyfiawnhau'r cynnig yn gynaliadwy yn y lleoliad hwn, a'i fod yn briodol o ran graddfa a ffurf i rôl a swyddogaeth yr ardal gyflogaeth.

**5.2.21** Er mwyn ysgogi twf yn yr economi, caniateir cymysgedd ehangach o ddefnyddiau ar y safleoedd a ddyrannwyd a'r ardaloedd cyflogaeth presennol. Mae'r rhain yn debygol o fod yn wasanaethau masnachol a defnyddiau cydweddus (heblaw defnyddiau y byddai'n well eu lleoli mewn canolfan fanwerthu). Caniateir y rhain lle na fyddant yn cael effaith niweidiol ar weithrediad cyffredinol yr ystâd ac eiddo masnachol a phreswyl cymdogol. Gall y defnyddiau derbyniol gynnwys gweithgareddau megis cyfleusterau atgyweirio a chynnal a chadw cerbydau masnachol, crèches, caffis ac ati.

**5.2.22** Oddi mewn i safleoedd diwydiannol trwm, megis Gwaith Dur Tata, byddai'r mathau o gyfleusterau neu wasanaethau ategol priodol yn wahanol i'r hyn a geid ar ystadau cyflogaeth cyffredinol neu barciau cyflogaeth. Yn sgîl eu natur ddiwydiannol drom, gallai'r mathau o wasanaethau ategol priodol gynnwys cynhyrchu ynni a

phŵer, a chynigion adennill a throsglwyddo gwastraff nad ydynt yn rhan o'r dosbarthiadau defnydd B traddodiadol. Rhoddir ystyriaeth ffafriol i ddefnyddiau o'r fath lle byddai'r cynigion yn cefnogi swyddogaeth gyffredinol yr ardal gyflogaeth, heb achosi unrhyw effaith niweidiol ar yr ardal o safbwynt cyflogaeth nac achosi niwed annerbyniol i amwynder eiddo cymdogol.

**5.2.23 Polisi EC4 Amddiffyn Defnyddiau Cyflogaeth Presennol**

> **Polisi EC4**
> **Amddiffyn Defnyddiau Cyflogaeth Presennol**
>
> Ni chaniateir cynigion a fyddai'n golygu colli tir neu adeiladau sy'n cael eu defnyddio ar gyfer cyflogaeth ar hyn o bryd, fel y diffinnir ym Mholisi EC3 a/neu o fewn yr ardaloedd cyflogaeth presennol a nodwyd ym Mholisi EC2, ond lle bodlonir y meini prawf canlynol:
>
> 1. Dangosir nad yw defnyddiau cyflogaeth yn ddichonadwy nac yn briodol yn y lleoliad hwn bellach; neu
> 2. Byddai parhau i'w ddefnyddio at ddibenion cyflogaeth yn cael effeithiau annerbyniol ar yr amgylchedd, amwynder lleol neu ddefnyddiau cyfagos; neu
> 3. Gellir ailddatblygu'r gofod presennol at ddibenion cyflogaeth sy'n cyflawni lefel uwch o gyflogaeth, wedi'i gyfuno â defnyddiau eraill priodol.

**5.2.24** Cydnabyddir y gallai datblygu at ddibenion cyflogaeth ar rai safleoedd droi'n annichonadwy yn ystod Cyfnod y Cynllun, wrth i'r economi barhau i newid. Er mwyn sicrhau hyblygrwydd yng nghyswllt ailddefnyddio safleoedd o'r fath yn briodol, nod y polisi yw darparu sail ar gyfer asesu ceisiadau i newid ardaloedd, tir a safleoedd cyflogaeth presennol i ddefnyddiau heblaw cyflogaeth. Bydd hyn yn galluogi'r Awdurdod Lleol i reoli a threfnu rhyddhau safleoedd cyflogaeth diangen i ddefnyddiau eraill.

**5.2.25** Bydd gofyn i'r ymgeisydd ddangos nad yw defnyddiau cyflogaeth fel y nodwyd ym Mholisi EC3 bellach yn ddichonadwy nac yn briodol yn y lleoliad hwnnw. Bydd y math o dystiolaeth sy'n ofynnol yn amrywio yn ôl y defnydd a'r amgylchiadau, ond gall gynnwys manylion pam nad yw'r tir/safle'n cael ei ddefnyddio bellach a thystiolaeth i ddangos bod ymdrechion rhesymol wedi'u gwneud i'w farchnata ar gyfer ei werthu neu ei brydlesu gyda'r defnydd presennol.

**5.2.26 Polisi EC5 Defnyddiau Cyflogaeth yn y Cymoedd**

> **Polisi EC5**
> **Defnyddiau Cyflogaeth yn y Cymoedd**
>
> Yn Ardal Strategaeth y Cymoedd, caniateir cynigion ar gyfer defnyddiau cyflogaeth fel y diffiniwyd ym Mholisi EC3 y tu allan i derfynau aneddiadau lle:
>
> 1. Mae'r safle yn union yn ymyl terfyn yr anheddiad, oni bai bod y cynnig yn ymwneud â thir llwyd; a
> 2. Mae'r safle mewn lleoliad cynaliadwy, a gellir ei gyrchu trwy ddefnyddio dulliau trafnidiaeth cynaliadwy; a
> 3. Mae gwasanaethau ar y safle, neu gellir eu darparu'n hwylus; a
> 4. Ni fyddai datblygiad yn cael effaith niweidiol ar amwynderau eiddo masnachol neu breswyl cymdogol, yr amgylchedd, y tirlun na diogelwch ar y priffyrdd; a
> 5. Byddai'r datblygiad yn gymesur o ran ffurf a graddfa â rôl a swyddogaeth yr anheddiad neu'r ardal.

**5.2.27** Nod Polisi Cenedlaethol yw hybu arallgyfeirio gwledig, ac mae'n nodi y dylid lleoli safleoedd datblygu newydd ar gyfer defnyddiau cyflogaeth, mewn lleoliadau gwledig, fel arfer o fewn neu yn ymyl ffiniau aneddiadau, o ddewis lle ceir darpariaeth cludiant cyhoeddus sefydledig.

**5.2.28** Nod y strategaeth yw lleihau diweithdra, cynyddu gweithgaredd economaidd a lleihau'r niferoedd sy'n cymudo'n bell i'r gwaith er mwyn gwella hyfywedd economaidd y Fwrdeistref Sirol. Ymagweddir yn fwy hyblyg, felly, yn Ardal Strategaeth y Cymoedd, gan ganiatáu defnyddiau cyflogaeth yn ymyl terfyn anheddiad, yn amodol ar ystyriaethau cynaliadwyedd ac amwynder. Bydd mabwysiadu agwedd hyblyg yn ardal y Cymoedd yn cynyddu nifer ac ystod y cyfleoedd cyflogaeth mewn cymunedau, ac felly'n sicrhau bod y boblogaeth leol yn gallu cyrchu mwy o swyddi.

**5.2.29** Fel yn achos yr ardaloedd cyflogaeth presennol ystyrir cymysgedd ehangach o ddefnyddiau na'r dosbarthiadau defnydd traddodiadol B1, B2 a B8, gan gydnabod bod anghenion busnesau'n newid, ac y byddant yn parhau i newid dros gyfnod y CDLl, a bod rhaid ymagweddu'n fwy hyblyg yn ardaloedd y Cymoedd.

**5.2.30 Polisi EC6 Unedau Bywyd/Gwaith**

> **Polisi EC6**
> **Unedau Bywyd/Gwaith**
>
> Caniateir unedau bywyd/gwaith priodol yn Ardal Strategaeth y Cymoedd, yn unol â'r meini prawf canlynol:
>
> 1. Bod y safle'n gorwedd o fewn neu'n union yn ymyl terfyn yr anheddiad; a
> 2. Nad yw rhaniad canraddol arwynebedd y llawr yn llai na 60% i waith; a
> 3. Bod yr arwynebedd llawr bywyd/gwaith yn ymyl arwynebedd llawr yr annedd; a
> 4. Bod y busnes yn cael ei gynnal gan un o feddianwyr y safle; a
> 5. Bod cynllun busnes yn cael ei gyflwyno fel rhan o'r broses o wneud cais cynllunio, gan ddangos bod y defnydd cyflogaeth arfaethedig yn ddichonadwy yn y tymor hir; a
> 6. Na fyddai'r datblygiad yn cael effaith niweidiol ar amwynderau eiddo cymdogol, yr amgylchedd, y tirlun na diogelwch ar y priffyrdd.
>
> Ni chaniateir trosi unedau bywyd/gwaith i ddefnyddiau heblaw cyflogaeth oni ellir dangos nad yw defnydd cyflogaeth yn ddichonadwy bellach.

**5.2.31** Yn wahanol i weithio gartref, diffinnir unedau bywyd/gwaith fel eiddo a luniwyd yn benodol at ddefnydd deuol, gan gyfuno lle preswyl a chyflogaeth. Dylai'r lle cyflogaeth fod yn addas at amrywiaeth o ddefnyddiau, er mwyn caniatáu ar gyfer newid a hyblygrwydd yn y dyfodol heb orfod gwneud gwaith addasu mawr. Yn hytrach na pherthyn i ddosbarth defnydd penodol (e.e. B1 yn achos cyflogaeth neu C3 yn achos preswyl), bernid bod y datblygiad yn un sui generis oherwydd ei fod yn cael ei ystyried yn un uned gynllunio. Mae unedau bywyd/gwaith yn ffynonellau pwysig o arwynebedd llawr cyflogaeth ar gyfer busnesau bach a chwmnïau sy'n cychwyn, maent yn darparu cyflogaeth leol ac yn lleihau'r angen am deithio.

**5.2.32** Er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i weithredu ym maes cyflogaeth, bydd yn ofynnol bod isafswm o 60% o arwynebedd llawr yr eiddo yn cael ei ddefnyddio at ddibenion cyflogaeth. Rhaid i gynigion ar gyfer unedau bywyd/gwaith sicrhau bod yr amgylchedd byw yn cadw gwerth amwynder digonol ac nad yw gweithgaredd yn y gweithle yn cael effaith niweidiol ar amwynder meddianwyr eiddo preswyl cymdogol ac arferion gweithredu unrhyw fusnesau masnachol.

**5.2.33** Gwrthsefir unrhyw newid defnydd o uned bywyd/gwaith i ddibenion heblaw cyflogaeth oni ellir dangos nad yw defnydd cyflogaeth yn ddichonadwy bellach ac nad oes posibilrwydd i'r adeilad gael ei ddefnyddio at y diben hwnnw. Bydd y math o dystiolaeth sy'n ofynnol yn dibynnu ar amgylchiadau'r achos, ond gall gynnwys manylion pam nad yw'r adeilad mewn defnydd cyflogaeth bellach, pa opsiynau cyflogaeth eraill sydd wedi cael eu hystyried, a thystiolaeth i ddangos bod ymdrechion rhesymol wedi'u gwneud i farchnata'r safle i'w werthu neu ei brydlesu fel uned bywyd/gwaith.

## Manwerthu

### **5.2.34** Polisi Strategol SP12 Manwerthu

> **Polisi SP12**
> **Manwerthu**
>
> Bydd gwelliant ym mywiogrwydd, dichonoldeb ac atyniad canolfannau manwerthu Castell-nedd Port Talbot, a bydd darpariaeth manwerthu'r Fwrdeistref Sirol yn cael ei hamddiffyn, ei chynnal a'i datblygu trwy'r mesurau canlynol:
>
> 1. Nodi hierarchaeth fanwerthu y caiff defnyddiau manwerthu a chymysg priodol eu hamddiffyn a'u hannog oddi mewn iddi;
> 2. Rheoli defnyddiau manwerthu amhriodol sydd y tu allan i'r hierarchaeth a nodwyd;
> 3. Dyrannu safleoedd at ddibenion manwerthu;
> 4. Mabwysiadu agwedd hyblyg at gynigion manwerthu ar raddfa fach yn Ardal Strategol y Cymoedd.
>
> **Amcan y CDLl: OB 2 ac OB 13**




**5.2.35** Y strategaeth yw cynnal canolfannau manwerthu presennol y Fwrdeistref Sirol trwy amddiffyn ac annog darpariaeth fanwerthu mewn lleoliadau priodol, ynghyd â chaniatáu defnyddiau cydweddus a fydd yn ychwanegu at ganolfannau manwerthu, ochr yn ochr â gwrthsefyll cynigion manwerthu y tu allan i'r canol.

**5.2.36** Diffiniwyd hierarchaeth fanwerthu sy'n cydnabod rôl a swyddogaeth benodol yr hyn sydd gan y Fwrdeistref Sirol i'w gynnig ar hyn o bryd o ran manwerthu. Yn unol â chanllawiau cenedlaethol, dylai pob cynnig manwerthu newydd fod yn rhan o'r hierarchaeth fanwerthu, neu gydweddu â hi, gan osod canol trefi yn gyntaf a chydnabod rôl fwy lleol canolfannau ardal a lleol. Cyflwynir yr hierarchaeth fanwerthu yn y tabl isod.

**Tabl 5.4 Hierarchaeth Fanwerthu Castell-nedd Port Talbot**

| Haen yn yr Hierarchaeth | Canolfan |
|---|---|
| Canol Tref | Castell-nedd<br>Port Talbot<br>Pontardawe |
| Canolfan Ardal | Sgiwen<br>Llansawel<br>Taibach<br>Glyn-nedd |
| Canolfan Leol | Gwaun Cae Gurwen<br>Ystalyfera<br>Creunant<br>Resolfen<br>Croeserw<br>Heol Jiwbili, Cwmafan<br>Fairwood Drive / Lodge Drive, Baglan<br>Heol Pentwyn, Baglan<br>Fairway, Sandfields<br>Margam |

**5.2.37** Cefnogir canol y trefi gan rwydwaith o ganolfannau ardal a lleol ar draws y Fwrdeistref Sirol. Mae'r rhain fel arfer yn cynnig ystod o nwyddau cyfleuster a chymhariaeth, yn ogystal â gwasanaethau sy'n diwallu anghenion y boblogaeth leol, gan gynnwys cyfleusterau iechyd a Swyddfeydd Post. Eu rôl yw galluogi trigolion i gyflawni eu hanghenion beunyddiol, ac maent yn aml yn ffocws i'r gymuned, gyda chyfleusterau cymunedol wedi'u lleoli o fewn neu yn ymyl y ffiniau manwerthu.

**5.2.38** **Polisi R1 Dyraniadau Manwerthu**

**Polisi R1**

**Dyraniadau Manwerthu**

Dyrannwyd y safleoedd canlynol ar gyfer datblygiadau manwerthu:

| Cyfeirnod | Safle |
|---|---|
| R1/1 | Cynllun Adfywio Canol Tref Castell-nedd |
| R1/2 | Ysgol Gyfun Glanafan, Port Talbot |
| R1/3 | Glannau'r Harbwr |
| R1/4 | Rhodfa'r Parc, Glyn-nedd |

***Canol Tref Castell-nedd***

**5.2.39** Mae'r dyraniadau'n darparu ar gyfer yr angen am fanwerthu a nodwyd gan Astudiaeth Fanwerthu Castell-nedd Port Talbot[15]. Dengys yr astudiaeth fod cynnydd o 30% yng nghyfran y farchnad o siopa nwyddau cymhariaeth yng Nghastell-nedd yn debygol o gael ei gyflawni dros gyfnod y CDLl, ar sail y rhagdybiaeth y bydd ansawdd a nifer y cyfleusterau newydd yn cynyddu, gan leihau'r teithiau siopa ac atal gwariant rhag cael ei golli y tu allan i'r dref. Bydd datblygu Cynllun Adfywio Canol Tref Castell-nedd, y mae cyllid yn ei le ar ei gyfer, yn golygu bod modd cyflawni hyn. Bydd y tir a ddyrannwyd ar gyfer Cynllun Adfywio Canol Tref Castell-nedd yn darparu ar gyfer y cyfan, neu fwyafrif mawr, o'r arwynebedd llawr ychwanegol net a ragwelwyd ar gyfer nwyddau cymhariaeth a chyfleuster yng Nghastell-nedd. Ar ben hynny, gallai'r cynllun roi cyfle hefyd i adleoli gweithredwyr A1 presennol er mwyn rhyddhau lle manwerthu ar gyfer unedau hamdden/bwyd a diod, i'w cyflwyno o fewn y craidd manwerthu cynradd. Mae yma botensial hefyd i ddarparu ar gyfer defnyddiau canol tref pwysig eraill megis arwynebedd llawr manwerthu A2 ac A3 a defnyddiau hamdden.



***Canol Tref Port Talbot***

**5.2.40** Ym Mhort Talbot nododd yr astudiaeth fod y canol eisoes yn cadw cyfran uchel o'r gwariant nwyddau cyfleuster, ac felly barnwyd mai dull cyfran gyson o'r farchnad oedd yn briodol, gan y nodwyd nad oedd lle i ddarparu mwy o arwynebedd llawr ar gyfer nwyddau cyfleuster yn y tymor byr i ganolig. Nodwyd peth capasiti o ran nwyddau cymhariaeth a swmpus (1,200 m.sg. yn cynnwys 600 m.sg. ar gyfer arwynebedd llawr nwyddau swmpus erbyn 2026) ac mae hen safle Ysgol Glanafan ar Heol yr Orsaf, Port Talbot wedi'i ddyrannu fel datblygiad seiliedig ar Fanwerthu a fydd yn cynnwys unedau preswyl.

***Glannau'r Harbwr***

**5.2.41** Dyrannwyd tir o fewn Ardal Adfywio Strategol Glannau'r Harbwr ar gyfer nwyddau cymhariaeth swmpus, yn unol â'r Canllawiau Cynllunio Atodol. Disgwylir i'r datblygiad manwerthu fod mor agos â phosibl at ganol y dref, ac o ganlyniad bydd yn safle ar gyrion y canol. Ar hyn o bryd mae cysylltedd gwael â chanol y dref, ac fel rhan o unrhyw gynnig datblygu, bydd yn rhaid gwella cysylltiadau a rhoi mesurau ar waith i oresgyn rhwystrau ffisegol (yn cynnwys ffyrdd a leiniau'r rheilffordd) er mwyn sicrhau integreiddio a theithiau cysylltiedig i ganol y dref.

***Glyn-nedd***

**5.2.42** Yng Nglyn-nedd nodwyd capasiti arwynebedd llawr dangosol o 660 m.sg. net ar gyfer nwyddau cyfleuster, a fyddai'n caniatáu ar gyfer darparu siop fwyd newydd maint cymedrol i wasanaethu'r dalgylch lleol. Byddai hyn yn helpu i leihau colli gwariant. Dyrannwyd tir, felly, at ddibenion manwerthu fel rhan o'r datblygiad defnydd cymysg yng Nglyn-nedd (Gweler CCA Rhodfa'r Parc). Bydd disgwyl i'r elfen fanwerthu fod mor agos â phosib at y ganolfan ranbarthol bresennol, gan ganiatáu cyfuno teithiau. Dylai'r siop werthu nwyddau cyfleuster yn bennaf, gyda dyraniad llai o arwynebedd llawr ar gyfer nwyddau cymhariaeth.

**5.2.43** **Polisi R2 Cynigion mewn Canolfannau Manwerthu**

**Polisi R2**

**Cynigion mewn Canolfannau Manwerthu**

1. O fewn y Canolfannau Manwerthu dynodedig, caniateir defnyddiau a fyddai'n ychwanegu at fywiogrwydd, dichonoldeb ac atyniad y ganolfan, gan gynnwys defnyddiau yn nosbarthiadau[16] A a D lle bo'r:

   (a) Cynnig yn integreiddio â chynllun, cymeriad manwerthu a llif cerddwyr y ganolfan, ac yn eu cryfhau; a

   (b) Heb fod yn peryglu defnydd effeithiol o loriau uwch; ac

   (c) Ei fod yn cynnal strydlun siopa bywiog a deniadol.

2. Ni chaniateir cynigion ar gyfer ailddatblygu neu weddnewid safleoedd manwerthu, masnachol, hamdden na chymunedol i ddefnyddiau llawr gwaelod nad ydynt yn cydymmffurfio â phwynt 1 o'r polisi hwn mewn canolfan fanwerthu, ond lle:

   (a) Dangosir nad yw'r defnydd presennol yn ddichonadwy neu'n briodol bellach yn y lleoliad; a

   (b) Na fyddai'r cynnig yn achosi colli archfarchnad, siop, caffi neu dafarn sydd o bwys mewn perthynas â darparu cyfleusterau i wasanaethu'r gymuned;

   Neu:

   (c) Byddai'r cynnig yn arwain at ailddatblygu tir/safleoedd adfeiliedig, diolwg, nas defnyddir yn ddigonol a rhai gwag at ddefnyddiau amgen a fyddai'n dod â manteision sylweddol yn gymdeithasol, yn gymunedol neu o ran adfywio.

3. O fewn y Prif Strydoedd Siopa dynodedig yng Nghastell-nedd a Phort Talbot, ni chaniateir defnyddiau llawr gwaelod heblaw Dosbarth A1 (Siopau) ond lle:

15 GVA (2013) Astudiaeth Fanwerthu Castell-nedd Port Talbot.
16 Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987.

a) Mae'r cynnig yn rhan o Ddosbarth A2 (Gwasanaethau Ariannol a Phroffesiynol) neu Ddosbarth A3 (Bwyd a Diod); ac

(b) Nid yw'r cynnig yn golygu bod unrhyw ddefnydd heblaw A1 yn rhy amlwg; ac

(c) Nid yw'r cynnig ar ei ben ei hun a/neu ar y cyd â chynigion ac ymrwymiadau eraill yn arwain at:

(i) Effaith niweidiol sylweddol ar swyddogaeth fanwerthu'r Prif Strydoedd Siopa; neu

(ii) Ostyngiad pwysig yn nifer a dosbarthiad y siopau o fewn yr wyneblun manwerthu y bydd yn ei feddiannu ac o fewn y Prif Strydoedd Siopa'n gyffredinol.

4. O fewn Canolfannau Manwerthu Ardal a Lleol, gwrthsefir cynigion a fyddai'n golygu bod un defnydd yn oramlwg, ac yn peryglu bywiogrwydd, dichonoldeb ac atyniad y Ganolfan Fanwerthu.

**5.2.44** Diffinnir ffiniau canolfannau manwerthu Trefol, Ardal a Lleol ar y Map o'r Cynigion. O fewn y canolfannau manwerthu, bernir bod cymysgedd cyfyngedig o ddefnyddiau'n briodol, yn unol â chanllawiau cenedlaethol. Mae defnyddiau oddi mewn i ddosbarthiadau A (sy'n ymgorffori A1 Siopau, A2 Gwasanaethau Ariannol a Phroffesiynol ac A3 Bwyd a Diod) a D (sy'n ymgorffori D1 Sefydliadau Amhreswyl a D2 Cynnull a Hamdden) yn debygol o fod yn dderbyniol mewn egwyddor, ynghyd â chynigion eraill nad ydynt o reidrwydd yn perthyn i ddosbarth defnydd diffiniedig, ond a fyddai'n briodol o fewn y ganolfan ac yn ychwanegu ati. Yn ogystal â siopau, gall hyn gynnwys adloniant, bwytai, a defnyddiau cymunedol a hamdden, fel y nodir yn y polisi. Fel arfer, disgwylir i ddatblygiadau newydd mewn canolfannau manwerthu gynnal blaenlun siop ac arddangosfa yn null manwerthu ar y llawr gwaelod, er na fydd hynny bob amser yn briodol. Fodd bynnag, ym mhob achos, dylid dylunio defnyddiau neu adeiladau newydd er mwyn cynnal amgylchedd siopa ansawdd uchel i'r cyhoedd.

**5.2.45** Er mwyn cynnal y canolfannau manwerthu, gwrthsefir cyflwyno defnyddiau a fyddai'n gwanhau swyddogaeth fanwerthu'r ganolfan a'i bywiogrwydd, ei dichonoldeb a'i hatyniad. Bydd disgwyl i unrhyw gynigion o'r fath ddangos nad yw'r defnydd presennol yn ddichonadwy bellach ac nad yw'r safle'n cyflawni angen cymunedol arwyddocaol o bwys na fyddai'n cael ei ddiwallu o fewn y ganolfan fel arall. Bydd disgwyl fel arfer i ymgeiswyr ddangos bod ymdrechion rhesymol wedi'u gwneud i farchnata'r eiddo ar gyfer ei werthu neu ei brydlesu at ddibenion manwerthu, masnachol, hamdden neu gymunedol priodol.

**5.2.46** Diffinnir yr ardaloedd manwerthu craidd yng Nghastell-nedd a Phort Talbot trwy nodi prif strydoedd siopa, ac oddi mewn i'r rhain bernir mai ystod fwy cyfyngedig o ddefnyddiau sy'n briodol, er mwyn cynnal amgylchedd siopa bywiog, deniadol. Nodwyd prif strydoedd siopa yng Nghastell-nedd a Phort Talbot er mwyn adlewyrchu'r rhannau o ganol y trefi lle mae defnyddiau A1 yn arbennig o amlwg a lle bernir bod cadw defnyddiau A1 yn ffactor allweddol o ran amddiffyn a gwella bywiogrwydd, dichonoldeb ac atyniad canol y trefi. Er y cydnabyddir y gall cyfuniad ehangach o ddefnyddiau yng nghanol trefi, gan gynnwys gwerthwyr tai, banciau a chaffis, ychwanegu at y swyddogaeth siopa a chynyddu bywiogrwydd, gall y rhain hefyd greu wynebluniau marw, peri colli arwynebedd llawr manwerthu, a gwneud y ganolfan yn llai deniadol. Gwrthsefir cynigion a fyddai'n arwain at or-amlygrwydd niweidiol o ddefnyddiau heblaw A1, er enghraifft os cynigir defnydd o'r fath nesaf at uned arall nad yw'n manwerthu neu mewn lleoliad amlwg lle byddai'n newid cymeriad canfyddedig y brif ardal siopa.

**5.2.47** Mae pryderon mewn rhai achosion bod canolfannau manwerthu llai mewn perygl o ddioddef effaith niweidiol yn sgîl crynodiad gormodol o ddefnyddiau heblaw manwerthu sydd, er eu bod o bosib yn dderbyniol mewn canolfan yn unigol, yn cael effaith gronnol sy'n tanseilio'i gweithrediad cyffredinol a'i hatyniad. Mae defnyddiau Dosbarth A2 ac A3 (yn arbennig cludfwyd poeth) wedi peri pryder mewn rhai achosion, ac o ganlyniad mae'r polisi'n ceisio cyfyngu ar nifer y cyfryw ddefnyddiau i osgoi effeithiau niweidiol gor-amlygrwydd.

**5.2.48 Polisi R3 Cynigion Manwerthu y tu allan i'r Canol**

**Polisi R3**

**Cynigion Manwerthu y tu allan i'r Canol**

Ni chaniateir cynigion ar gyfer datblygiadau manwerthu newydd neu arwynebedd llawr manwerthu ychwanegol oddi mewn i derfynau aneddiadau ond y tu allan i'r Canolfannau Manwerthu neu'r dyraniadau manwerthu a ddiffiniwyd ond lle:

1. Dangosir bod angen am y datblygiad; a
2. Ni ellir darparu ar gyfer y datblygiad mewn canolfan fanwerthu a ddiffiniwyd, ac mae wedi'i leoli yn unol â'r dull dilyniannol; a
3. Ni fydd bywiogrwydd a dichonoldeb canolfannau manwerthu presennol yn cael ei danseilio, o roi sylw i effeithiau cronnol datblygiadau manwerthu eraill a gymeradwywyd, datblygiadau a gwblhawyd yn ddiweddar, ac ymrwymiadau yn y cynllun; a
4. Ni fyddai'r cynnig yn tanseilio hierarchaeth fanwerthu'r Cyngor nac unrhyw gynlluniau adfywio y mae'r Cyngor wed'u cymeradwyo'n ffurfiol;

Neu:

5. Mae'r cynnig o fewn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir ac ar gyfer uned fanwerthu newydd, newid defnydd neu estyniad, sy'n creu safle 100m² o arwynebedd llawr gros neu lai, a dangoswyd ei fod yn gwasanaethu anghenion y gymdogaeth leol; neu
6. Mae'r cynnig o fewn Ardal Strategaeth y Cymoedd ac yn uned fanwerthu newydd, yn newid defnydd neu'n estyniad sy'n creu safle 200m² o arwynebedd llawr gros neu lai.

**5.2.49** Y diffiniad o Ganolfannau Manwerthu yw'r Canolfannau Tref, Ardal a Lleol a nodwyd, heb gynnwys unrhyw Barciau Manwerthu sydd eisoes yn bodoli. Bydd cynigion ar gyfer datblygiadau manwerthu y tu allan i'r canolfannau manwerthu a ddiffiniwyd yn cael eu rheoli'n fanwl, yn unol â pholisi cenedlaethol, er mwyn sicrhau bod y canolfannau manwerthu'n cael eu cefnogi a'u gwella

gymaint â phosib. Bydd y polisi'n berthnasol i newidiadau defnydd, estyniadau, trawsnewid, neu gael gwared ar amodau neu rwymedigaethau cyfreithiol yn achos busnes sydd eisoes yn bodoli ac adnewyddu caniatâd. Dim ond siopau bach fydd yn gwasanaethu'r gymdogaeth leol a ganiateir y tu allan i ganolfannau manwerthu.

**5.2.50** Er mwyn adfywio ardaloedd y Cymoedd, ymagweddir yn fwy hyblyg at geisiadau am siopau yn yr ardaloedd hynny. Mae hyn yn cyd-fynd â pholisi cenedlaethol, sy'n nodi y dylid ymagweddu'n gadarnhaol at geisiadau am drawsnewid eiddo addas mewn pentrefi yn siopau ac am estyn siopau pentref, gyda golwg ar wella'u dichonoldeb.

### Twristiaeth

**5.2.51 Polisi Strategol SP13 Twristiaeth**

> **Polisi SP13**
> **Twristiaeth**
>
> Hyrwyddir ffyniant economaidd Castell-nedd Port Talbot trwy annog twf parhaus yn y sector twristiaeth trwy:
>
> 1. Annog datblygu twristiaeth gynaliadwy, ansawdd uchel;
> 2. Ymagweddu'n hyblyg at ddatblygu a thrawsnewid i greu cyfleusterau twristiaeth;
> 3. Lle bo hynny'n briodol, gwrthsefyll cynigion a fyddai'n arwain at golli cyfleusterau twristiaeth;
> 4. Cefnogi cynigion twristiaeth trwy ddyrannu tir ar gyfer datblygu twristiaeth.
>
> **Amcan y CDLl: OB 14**

**5.2.52** Mae twristiaeth yng Nghastell-nedd Port Talbot yn ddiwydiant sydd ar gynnydd, ac mae'n gwneud cyfraniad hanfodol a dilys i'r economi leol. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae Castell-nedd Port Talbot wedi gweld cryn fuddsoddi yn y diwydiant hwn, sydd wedi cryfhau'r isadeiledd twristiaeth, a chynyddu a gwella cyfleusterau a gwasanaethau twristiaeth. Mae hyn, yn ei dro, wedi creu cynnydd blynyddol yn nifer yr ymwelwyr â'r ardal. Mae gan y Cyngor gynllun gweithredu ar gyfer twristiaeth sy'n cydnabod cyfraniad y diwydiant hwn i'r economi leol ac yn hybu twf at y dyfodol. Mae'r CDLl yn cefnogi hyn trwy ymagweddu'n hyblyg at gynigion twristiaeth newydd a gwrthsefyll colli cyfleusterau presennol, lle bo modd.

**5.2.53** Bydd y polisïau'n caniatáu hyblygrwydd o ran lleoliad cyfleusterau ac yn amddiffyn cyfleusterau presennol lle bo hynny'n briodol. Lle defnyddir agwedd hyblyg, bydd gofyn bod cynlluniau'n dangos eu bod yn gynaliadwy o ran lleoliad a hygyrchedd, ac nad ydynt yn cael effaith niweidiol ar yr amgylchedd.

**5.2.54 Polisi TO1 Datblygu Twristiaeth yng Nghefn Gwlad**

> **Polisi TO1**
> **Datblygu Twristiaeth yng Nghefn Gwlad**
>
> Ni chaniateir cynigion twristiaeth y tu allan i derfynau anheddiad ond lle bodlonir yr holl feini prawf canlynol:
>
> 1. Dangosir bod y cynnig yn ddichonadwy ac yn cyfrannu at ansawdd a chynaliadwyedd economaidd y diwydiant twristiaeth;
> 2. Dangosir naill ai bod rhaid i'r cynnig gael ei leoli yng nghefn gwlad neu na ellid darparu ar ei gyfer mewn anheddiad sydd eisoes yn bodoli;
> 3. Ni fyddai'r cynnig yn cael effaith niweidiol ar y tirlun, ecoleg a threftadaeth ddiwylliannol, ac ni fyddai'n cael effaith niweidiol ar amwynder cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol neu breswyl yr ardal;
> 4. Nid yw'r cynnig yn creu lefelau annerbyniol o draffig cerbydau nac yn peryglu diogelwch ar y priffyrdd, a gellir darparu mynediad trwy amrywiaeth o ddulliau cludiant.

**5.2.55** Mae'r polisi hwn yn cynnig hyblygrwydd o ran darparu cyfleusterau twristiaeth newydd, ansawdd uchel y tu allan i derfynau aneddiadau mewn lleoliadau na fyddent fel arfer yn cael eu hystyried ar gyfer datblygu. Gan fod crynodiad mawr o'r cyfleusterau twristiaeth yn ardal y Cymoedd, bydd caniatáu datblygu y tu allan i derfynau aneddiadau yn rhoi cyfle i'r sector twristiaeth dyfu a chyfrannu at adfywio cymunedau'r Cymoedd.

**5.2.56** Bydd gofyn bod cynigion yn dangos eu bod yn economaidd ddichonadwy, y byddant yn hybu datblygu cynaliadwy, ac yn ychwanegu at dwf economaidd y sector twristiaeth. Mae potensial yn ardaloedd y Cymoedd, gyda'u lleoliad gwledig, i barhau i adeiladu ar y diwydiant twristiaeth cynyddol, a gallant integreiddio arallgyfeirio gwledig i gynlluniau twristiaeth. Gall y dystiolaeth sy'n ofynnol i gyd-fynd â cheisiadau gynnwys cynlluniau busnes a data lleol, gan gynnwys gwybodaeth am niferoedd ymwelwyr presennol a'r rhagolygon ar gyfer yr ardal, yn ogystal ag asesiad o sefyllfa'r datblygiad arfaethedig yn y farchnad dwristiaeth gyfredol.

**5.2.57** Bydd rhai cynigion, yn sgîl eu natur gynhenid, yn galw am leoliad yng nghefn gwlad, a gallant gynnwys gweithgareddau megis golff, pysgota a beicio mynydd. Bydd angen dylunio gweithgareddau o'r fath mewn modd sy'n sicrhau bod yr effaith amgylcheddol yn cael ei hasesu'n llawn a'i chyfyngu gymaint â phosibl.

**5.2.58 Polisi TO2 Amddiffyn Cyfleusterau Twristiaeth Presennol**

> **Polisi TO2**
> **Amddiffyn Cyfleusterau Twristiaeth Presennol**
>
> Ni chaniateir trawsnewid na newid defnydd cyfleusterau twristiaeth i ddefnydd preswyl ond lle dangosir nad yw twristiaeth neu ddefnyddiau eraill sy'n cynhyrchu cyflogaeth yn ddichonadwy bellach.

**5.2.59** Mae Twristiaeth yn hanfodol i'r economi leol, yn enwedig yn rhai o ardaloedd y Cymoedd. Er mwyn amddiffyn cyfleusterau twristiaeth a lleiafu unrhyw golli safleoedd neu niwed i'r economi leol, gwrthsefir cynigion i drawsnewid i ddefnydd preswyl.

**5.2.60** Bydd angen i unrhyw gynnig ar gyfer trawsnewid neu newid defnydd cyfleuster twristiaeth i ddefnydd preswyl ddangos nad yw defnyddiau twristiaeth neu

gyflogaeth yn ddichonadwy bellach ac nad oes potensial i ddefnyddio'r safle at y dibenion hynny. Bydd y math o dystiolaeth sy'n ofynnol yn cynnwys manylion pam nad yw'r safle'n addas at ddefnydd twristiaeth bellach, pa opsiynau cyflogaeth eraill a ystyriwyd, a thystiolaeth i ddangos bod ymdrechion rhesymol wedi'u gwneud i farchnata'r safle er mwyn ei werthu neu ei brydlesu ar gyfer ei ddefnydd presennol.

**5.2.61 Polisi TO3 Adfywio Seiliedig ar Dwristiaeth**

**Polisi TO3**
**Adfywio Seiliedig ar Dwristiaeth**

Dyrannwyd y safle canlynol ar gyfer datblygiad seiliedig ar dwristiaeth:

| Cyfeirnod | Safle |
|---|---|
| TO3/1 | Ystâd Rheola, Glyn-nedd |

**5.2.62** Dyrannwyd tir ar gyfer ailddatblygu darn o dir llwyd ar Ystâd Rheola, Glyn-nedd. Bydd y datblygiad hwn, sy'n seiliedig ar dwristiaeth, yn cynnwys hyd at 100 uned o lety gwyliau, hyd at 350 m.sg. o safleoedd manwerthu a hyd at 1,000 m.sg o gyfadeiladau hamdden gyda mynediad cysylltiedig, llwybrau troed, gwelliannau ecolegol, tirweddu, triniaethau ffiniol a gwasanaethau.

**5.2.63** Mae Ystâd Rheola, a ddynodwyd fel Parc a Gardd Hanesyddol, wedi'i leoli yng nghanol Cwm Nedd, ac mae ganddi dreftadaeth hanesyddol gyfoethog o hyd fel ystâd wledig o ddechrau'r 19eg ganrif. Mae'r safle'n cynnwys Tŷ Rheola, adeilad rhestredig Gradd II, sydd mewn tirlun a pharcdir neilltuol, ynghyd â safle hen Waith Alwminiwm. Dyrannwyd y rhan hon o'r ystâd, sy'n dir llwyd, a'r ardaloedd cysylltiedig ar gyfer cynnig cynaliadwy, seiliedig ar dwristiaeth, a fydd yn sicrhau bod yr ystâd hanesyddol yn cael ei chadw a'i hadfer.

**5.2.64** Mae'r ailddatblygu hefyd yn gyfle i ganiatáu mynediad cyhoeddus i'r ystâd ar gyfer y gymuned leol ac ymwelwyr, a bydd yn helpu i ehangu ymhellach y diwydiant twristiaeth sydd ar gynnydd yng Nghwm Nedd. Bydd y cynllun o fudd i'r economi leol ac yn cyfrannu at ddatblygu Ardal Twf Strategol Cwm Nedd Uchaf.

**5.2.65 Polisi TO4 Llwybrau Cerdded a Beicio**

**Polisi TO4**
**Llwybrau Cerdded a Beicio**

| Cyfeirnod | Safle |
|---|---|
| TO4/1 | Llwybr Arfordir Cymru |
| TO4/2 | Trywyddau Beicio Mynydd Cognation |
| TO4/3 | Llwybr Taith Fawr y Ddraig |

Gwrthsefir unrhyw gynigion a fyddai'n atal eu gweithrediad neu'n cael unrhyw effaith negyddol yn hynny o beth

**5.2.66** Llwybr arfordirol di-dor yw Llwybr Arfordir Cymru, ac mae'n cwmpasu traethlin cyfan Cymru, gan wella mynediad i bobl leol ac ymwelwyr â'r ardal. Yng Nghastell-nedd Port Talbot, rhannwyd y llwybr yn ddwy adran, gyda'r llwybr ucheldir, sy'n rhyw 26km o hyd, yn dilyn trywydd lefel uchel, mwy mewndirol, a'r llwybr iseldir, sy'n rhyw 25km o hyd, yn aros yn nes at yr arfordir a glan y môr. Mae'r dewis hwn o lwybrau'n cynnig amrywiaeth o deithiau cerdded gyda golygfeydd trawiadol a chyfleoedd i brofi byd natur, gan adlewyrchu cymeriad amrywiol a nodweddion diddorol Castell-nedd Port Talbot.

**5.2.67** Mae Parc Coedwig Afan wedi ennill enw da ar lefel fyd-eang am feicio mynydd, ac mae'n denu ymwelwyr o bob rhan o'r DU. Partneriaeth yw prosiect Cognation rhwng Llywodraeth Cymru, tri awdurdod lleol, sy'n cynnwys Castell-nedd Port Talbot, a Chyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r prosiect yn buddsoddi mewn cyfleusterau beicio mynydd mewn nifer o leoliadau er mwyn gwella ac adnewyddu trywyddau a chyfleusterau presennol a chreu nifer o drywyddau newydd. Bydd trywyddau beicio mynydd Cognation a'r cyfleusterau cysylltiedig yn cynnal ac yn cefnogi twf yn y diwydiant twristiaeth yng Nghastell-nedd Port Talbot, ond yn arbennig yng Nghwm Afan. Nodwyd tir ar gyfer gweithredu'r Trywydd i rai Dibrofiad, Parc Beicio Afan, Dolen Gyfylchi a'r Wal, Trywydd Penhydd, Trywydd Blade a Thrywydd Beicio Mynydd Margam, fel y nodwyd ar y Map o'r Cynigion.

**5.2.68** Llwybr 472km o hyd (293 milltir) yw Trywydd Taith Fawr y Ddraig, yn estyn o Ogledd Cymru i'r De, ac mae'n cynnig cryn gyfleoedd i wella twristiaeth yn y Fwrdeistref Sirol. Mae'r trywydd yn addas ar gyfer rhai ar gefn ceffyl, beicwyr a cherddwyr, ac mae rhyw 47km ohono (29 milltir) oddi mewn i Gastell-nedd Port Talbot. Mae'n cyrraedd y Fwrdeistref Sirol o'r Gogledd yn Nyffryn Cellwen, ac yn anelu tua'r De-ddwyrain ar hyd taith lawn golygfeydd trwy Fro Nedd, Cwm Afan a Choedwig Margam. Mae'r trywydd yn dod i ben i'r Dwyrain o Barc Margam, yn ymyl yr A48.

**5.2.69** Gwrthsefir unrhyw gynigion a fyddai'n cael effaith niweidiol ar y llwybrau a nodwyd, er enghraifft trwy atal eu gweithrediad neu eu defnydd, oni wneir addasiadau i osgoi unrhyw effeithiau niweidiol.



## 5.3 Yr Amgylchedd ac Adnoddau

***"Gosod Gwerth ar ein Hamgylchedd"***

**Cefn Gwlad a'r Arfordir sydd heb ei Ddatblygu**

**5.3.1 Polisi Strategol SP14 Cefn Gwlad a'r Arfordir sydd heb ei Ddatblygu**

**Polisi SP14**
**Cefn Gwlad a'r Arfordir sydd heb ei Ddatblygu**

Bydd cefn gwlad a'r arfordir sydd heb ei ddatblygu, gan gynnwys tirlweddau, morweddau a thir amaethyddol, yn cael eu hamddiffyn, a lle bo hynny'n ymarferol, eu gwella trwy'r mesurau canlynol:

1. Amddiffyn cefn gwlad agored trwy reoli datblygiad amhriodol y tu allan i derfynau aneddiadau;
2. Amddiffyn yr arfordir sydd heb ei ddatblygu trwy reoli datblygiadau amhriodol;
3. Dynodi ac amddiffyn Ardaloedd Tirlun Arbennig;
4. Dynodi ac amddiffyn Lletemau Glas.

**Amcan y CDLl: OB 15**

**5.3.2** Mae gan Gastell-nedd Port Talbot amrywiaeth o dirweddau a morweddau gwahanol, cyferbyniol. Yn ôl Asesiad tirlun LANDMAP Castell-nedd Port Talbot[17] mae tua hanner y Fwrdeistref Sirol yn cynnwys tirluniau daearegol 'lefel uchel' neu 'neilltuol', gwerthuswyd llawer o'r haen weledol ac agwedd synhwyraidd fel un o bwysigrwydd lleol neu 'gymedrol', gyda gwerthoedd 'uchel' yn cael eu cymhwyso i ardaloedd llwyfandir ac arfordirol, rhoddir gwerthoedd 'uchel' a 'neilltuol' i'r cynefinoedd tirlun, ac mae mwyafrif y Fwrdeistref Sirol yn 'uchel' neu'n 'neilltuol' o ran haen yr agwedd ddiwylliannol.

**5.3.3** Er bod astudiaeth fanwl wedi'i chynnal o dirluniau'r Fwrdeistref Sirol[18] sy'n argymell ardaloedd y dylid eu hamddiffyn yn benodol am eu gwerth tirweddol neu i atal aneddiadau rhag rhedeg i'w gilydd (h.y. Ardaloedd Tirlun Arbennig a Lletemau Glas), mae'r strategaeth yn ceisio amddiffyn pob ardal gefn gwlad lle bo hynny'n briodol.

**5.3.4** Nod y polisi strategol yw diogelu cefn gwlad, tirweddau ac arfordir heb ei ddatblygu yn y Fwrdeistref Sirol, cefnogi mentrau gwledig, gan gynnwys gweithgaredd twristiaeth a hamdden, a chrynhoi datblygiad mewn mannau cynaliadwy. Defnyddir ystod o bolisïau manwl i weithredu hyn, gan gynnwys rhai sy'n ymwneud â mwynau, gwastraff, ynni adnewyddadwy a'r polisi Terfynau Aneddiadau.

**5.3.5 Polisi EN1 Arfordir sydd heb ei Ddatblygu**

**Polisi EN1**
**Arfordir sydd heb ei Ddatblygu**

Ni chaniateir cynigion datblygu ar yr arfordir sydd heb ei ddatblygu ond lle dangosir bod lleoliad ar yr arfordir yn angenrheidiol, nad oes modd darparu ar gyfer y datblygiad ar y rhan o'r arfordir sydd wedi'i datblygu, a bod y cynnig yn ymwneud â'r canlynol:

1. Rheoli a/neu gynnal amddiffynfeydd arfordirol neu lifogydd neu brosesau arfordirol; neu
2. Rheoli a/neu gynnal sianeli morol/mynediad i borthladd ac isadeiledd arall cysylltiedig; neu
3. Darparu mynediad priodol i adloniant, hamdden neu isadeiledd angenrheidiol arall.

**5.3.6** Gellir diffinio ardal gymharol gyfyngedig o arfordir Castell-nedd Port Talbot fel tir sydd heb ei ddatblygu, ac mae llawer ohono wedi'i amddiffyn gan ddynodiadau cadwraeth natur, megis Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Twyni Crymlyn. Mae'r rhan o'r arfordir y mae'r polisi'n cyfeirio ato wedi'i ddiffinio ar y Map o'r Cynigion ac mae'n cynnwys yr ardal o amgylch aber Afon Nedd, y twyni tywod a'r corsydd heli ym Mae Baglan a Thwyni Crymlyn.

**5.3.7** O fewn yr ardal a nodwyd, ystod gyfyngedig o ddatblygu yn unig sy'n debygol o fod yn dderbyniol, a hynny yng nghyswllt gwaith angenrheidiol i gynnal amddiffynfeydd a sianeli morol, a darpariaeth ar gyfer hamdden, y dylid ei chyfyngu'n gyffredinol i ddarpariaeth ar raddfa fach ar gyfer mynediad lle bo hynny'n briodol.

Bydd y dynodiad arfordir heb ei ddatblygu yn caniatáu hyblygrwydd wrth ymateb i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol, yn arbennig o ran caniatáu addasu darpariaethau Cynllun Rheoli'r Traethlin yng nghyswllt mesurau a reolir. Bydd hefyd yn helpu i amddiffyn ardaloedd sy'n bwysig yn weledol ac o ran bioamrywiaeth.

**5.3.8 Polisi EN2 Ardaloedd Tirlun Arbennig**

**Polisi EN 2**

**Ardaloedd Tirlun Arbennig**

Er mwyn amddiffyn ardaloedd lle ceir tirlun o ansawdd arbennig, dynodwyd yr Ardaloedd Tirlun Arbennig canlynol:

| Cyfeirnod | Ardal Tirlun Arbennig |
|---|---|
| EN2/1 | Mynydd y Garth |
| EN2/2 | Cwm Dulais |
| EN2/3 | Bro Nedd |
| EN2/4 | Margam |
| EN2/5 | Mynydd y Gelli |
| EN2/6 | Foel Trawsnant |

Ni chaniateir datblygiadau o fewn yr Ardaloedd Tirlun Arbennig dynodedig ond lle dangosir na fydd effeithiau negyddol arwyddocaol ar y nodweddion a arweiniodd at ddynodi'r Ardal Tirlun Arbennig.

**5.3.9** Fel y nodwyd uchod, cynhaliwyd astudiaeth o dirluniau'r Fwrdeistref Sirol[19]. Nodwyd Ardaloedd Tirlun Arbennig trwy ddefnyddio Meini Prawf Dynodi ATA a geir yn Nodyn Cyfarwyddyd 1 Cyngor Cefn Gwlad Cymru 1 (2008), gan ddefnyddio data'r LANDMAP. Mae'r LANDMAP yn gwahanu'r tirlun yn bum ardal bynciol: tirlun daearegol, cynefinoedd tirlun, gweledol a synhwyraidd, tirlun hanesyddol a thirlun diwylliannol, ac mae'n caniatáu nodi tirluniau ansawdd uchel.

17 Asesiad Tirlun LANDMAP Castell-nedd Port Talbot - White Consultants (2004).
18 Gwasanaethau Ymgynghoriaeth ar gyfer Darparu Cyngor ar y Tirlun - TACP (2011).
19 Gwasanaethau Ymgynghoriaeth ar gyfer Darparu Cyngor ar y Tirlun - TACP (2011).

**5.3.10** Mae hyn wedi arwain at nodi chwe Ardal Tirlun Arbennig, a ddynodwyd er mwyn amddiffyn ansawdd uchel y tirlun, fel y nodir ar y Map o'r Cynigion. Mae'r astudiaeth yn nodi'r rhesymau dros ddynodi, prif nodweddion y tirlun, a'r materion polisi a rheolaeth allweddol sy'n berthnasol i bob ATA.

**5.3.11** Er na waherddir datblygiad yn yr Ardaloedd Tirlun Arbennig, amddiffynnir yr ardaloedd hyn cyn belled â phosibl rhag unrhyw ddatblygiad a fyddai'n niweidio eu nodweddion unigryw. Cyflwynir Canllawiau Cynllunio Atodol i ddarparu gwybodaeth bellach ynghylch y dull a ddefnyddir ar gyfer ymdrin â chynigion datblygu oddi mewn i Ardaloedd Tirlun Arbennig, ac i gyflwyno'r nodweddion a'r priodweddau sydd wedi arwain at ddynodi pob un o'r ardaloedd hynny. Bydd yn rhaid, felly, i geisiadau am ddatblygiadau yn yr ardaloedd hyn gydymffurfio â safonau dylunio uchel.

**5.3.12** Rhagwelir mai datblygiadau mwynau ac ynni adnewyddadwy yw'r cynigion amlycaf a allai gael effeithiau sylweddol. Yn achos datblygiadau ynni adnewyddadwy, bydd angen dangos bod yr elfennau cyfansoddiadol wedi cael eu llunio a'u lleoli er mwyn cyfyngu gymaint â phosib ar yr elfennau gweledol ymwthiol a'r effeithiau niweidiol ar y tirlun, tra bydd disgwyl i ddatblygiadau mwynau ddarparu sgrinio neu fyndio yn ystod y cyfnod gweithredol a chynllun adfer safle sy'n dychwelyd y tirlun, i'r graddau y mae hynny'n ymarferol bosib, i'w ffurf a'i olwg gwreiddiol pan fydd y gwaith wedi'i gwblhau.

**5.3.13** Yn achos adeiladau unigol, dylid lleoli'r rhain fel arfer oddi mewn i gwrtil adeilad sydd eisoes yn bodoli, cyfadeilad fferm neu grŵp arall o adeiladau, neu'n union yn ymyl terfyn anheddiad lle bynnag y bo modd. Yn achos grwpiau o adeiladau newydd, dylid eu lleoli yn ymyl terfyn yr anheddiad lle bo hynny'n briodol, a dylai graddfa, ffurf a dyluniad y datblygiad arfaethedig gadw a, lle bo modd, gwella nodweddion trawiadol neu unigryw yr Ardal Tirlun Arbennig.

**5.3.14** Lle cânt eu cymeradwyo, bydd disgwyl i bob datblygiad fodloni'r safonau dylunio uchaf, gan gynnwys defnyddio deunyddiau a thirlunio priodol, rhoi sylw manwl i'r lleoliad, a chadw, lle bynnag y bo modd, nodweddion tirlun pwysig megis ffiniau caeau, waliau, perthi a choed, er mwyn cadw a/neu wella'r nodweddion arbennig a fu'n achos dros ddynodi'r Ardal Tirlun Arbennig.

**5.3.15 Polisi EN3 Lletemau Glas**

**Polisi EN 3**

**Lletemau Glas**

Er mwyn atal aneddiadau rhag rhedeg i'w gilydd ac i amddiffyn cyd-destun ardaloedd trefol, nodwyd Lletemau Glas yn y mannau canlynol:

| Cyfeirnod | Lletem Las |
|---|---|
| EN3/1 | Yr Alltwen / Rhos / Bryncoch / Mynachlog Nedd / Parc Leiros |
| EN3/2 | Sgiwen / Gellifedw |
| EN3/3 | Castell-nedd / Tonna / Cimla / Efail Fach |
| EN3/4 | Cors Crymlyn / Twyni Crymlyn / Llandarcy |
| EN3/5 | Margam |

O fewn yr ardaloedd hyn ceir rhagdybiaeth yn erbyn datblygiadau amhriodol.

**5.3.16** Roedd yr astudiaeth tirlun y cyfeiriwyd ati uchod yng nghyswllt Ardaloedd Tirlun Arbennig hefyd yn rhoi sylw i Letemau Glas. Mae Lletemau Glas yn wahanol i Ardaloedd Tirlun Arbennig yn yr ystyr eu bod yn bennaf yn offeryn cynllunio i atal trefi rhag rhedeg i'w gilydd ac i amddiffyn cyd-destun ardaloedd adeiledig, yn hytrach nag amddiffyn tirluniau ansawdd uchel yn benodol.

**5.3.17** Roedd yr astudiaeth yn argymell bod y pum Lletem Las bresennol yn cael eu cadw heb eu newid i raddau helaeth, ac eithrio mân newidiadau i ffiniau, er mwyn rhoi sylw i ddatblygiadau a dyraniadau arfaethedig lle roedd hynny'n briodol.

**5.3.18** O fewn y Lletemau Glas dynodedig, ni chaniateir datblygu amhriodol ond o dan amgylchiadau eithriadol iawn. Ceir diffiniad o 'datblygu amhriodol' ym Mholisi Cynllunio Cymru, ac mae'n cyfeirio at bob math o ddatblygiad heblaw rhai gweithgareddau hanfodol neu y gellir eu cyfiawnhau y mae angen eu lleoli yn yr ardal, ac estyniadau ar raddfa fach neu arallgyfeirio ffermydd.

**5.3.19** Ar wahân i'r mathau hynny o ddatblygiad a ddiffinnir yn benodol fel rhai amhriodol, bernir bod unrhyw ddatblygiad arall a fyddai'n peryglu natur agored y Lletem Las yn amhriodol. Gall dynodi Lletemau Glas ddarparu cyfleoedd ar gyfer hamdden a mynediad i gefn gwlad, cynnal buddiannau bioamrywiaeth, amaeth a chefn gwlad, gwella tir sydd wedi dadfeilio, darparu sinciau carbon a lliniaru effeithiau ynysoedd gwres trefol.

**5.3.20 Polisi EN4 Anheddau Amnewid yng Nghefn Gwlad**

**Polisi EN4**

**Anheddau Amnewid yng Nghefn Gwlad**

Ni chaniateir amnewid anheddau y tu allan i derfynau anheddiad ond pan fodlonir yr holl feini prawf canlynol:

1. Dangosir bod i'r adeilad ddefnydd cyfredol cyfreithlon fel annedd parhaol;
2. Lleolir yr annedd amnewid, y dull amgáu, yr ardd, y lle parcio a'r nodweddion eraill cysylltiedig, oddi mewn i gwrtil yr adeilad sydd i'w ddisodli;
3. Mae graddfa, ffurf, lleoliad, dyluniad, deunyddiau a thirweddu'r adeilad yn addas yn ei gyd-destun a/neu yng nghyd-destun yr adeilad y mae'n ei ddisodli, ac ni fyddai'n cael effaith niweidiol annerbyniol ar gymeriad yr ardal;
4. Ni fyddai cadwraeth adeiladau presennol sydd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol yn cael ei beryglu;
5. Mae'r annedd wreiddiol yn cael ei chlirio ac mae'r tir yn cael ei adfer yn briodol cyn i'r annedd newydd gael ei meddiannu.

**5.3.21** Mae amnewid neu ailadeiladu annedd gyfreithlon sydd eisoes yn bodoli yng nghefn gwlad y tu allan i derfynau anheddiad yn debygol o fod yn dderbyniol lle bydd y cynnig yn cadw a, lle bo hynny'n bosibl, yn gwella buddiannau bioamrywiaeth lleol, cefn gwlad a'r tirlun. Lle bo hynny'n briodol, anogir cyfleoedd i ddarparu dyluniad ansawdd uchel sy'n parchu arddull a graddfa anheddau lleol, ond a all fod yn arloesol. Mae maint, swmp a lleoliad yr adeilad arfaethedig yn debygol o gael dylanwad sylweddol ar nodweddion gweledol a thirlun yr ardal, ac ni ddylai'r cynigion fel arfer fod dros 20% yn fwy na dimensiynau cyffredinol neu gynnwys ciwbig yr adeilad gwreiddiol, na newid lleoliad yr adeilad gwreiddiol yn sylweddol.

**5.3.22 Polisi EN5 Trawsnewid ac Estyn Adeiladau sydd Eisoes yn Bodoli yng Nghefn Gwlad**

**Polisi EN5**
**Trawsnewid ac Estyn Adeiladau sydd Eisoes yn Bodoli yng Nghefn Gwlad**

Ni chaniateir addasu, estyn na thrawsnewid adeiladau addas sydd eisoes yn bodoli y tu allan i derfynau diffiniedig anheddiad at ddibenion preswyl, cyflogaeth neu dwristiaeth ond lle:

1. Mae'r adeilad presennol yn gadarn yn strwythurol, a gellir ei drawsnewid heb waith addasu neu ailadeiladu allanol sylweddol.
2. Yn achos newidiadau i ddefnydd preswyl yn unig:
   (a) Gellir dangos nad oes defnyddiau amgen dichonadwy a fydd yn sicrhau bod yr adeilad yn cael ei gadw; a
   (b) Bod yr adeilad yn werthfawr yn bensaernïol a/neu'n hanesyddol.
3. Yn achos estyniadau preswyl, nad yw'r estyniad yn creu cynnydd anghymesur ym maint, graddfa a chrynswth yr adeilad.

**5.3.23** Bydd angen i adeiladau yng nghefn gwlad sydd i gael eu trawsnewid at ddefnyddiau amgen fod yn addas at y diben arfaethedig ac o ran eu golwg yng nghyswllt eu hamgylchiadau, y tirlun ehangach a chefn gwlad yn gyffredinol, a dylent fod yn gadarn, gyda modd eu trawsnewid i'r defnydd arfaethedig heb waith ailadeiladu sylweddol. Ymdrinnir â chynigion sy'n cynnwys newidiadau sylweddol i'r adeilad gwreiddiol yn unol â'r polisi ar gyfer datblygiadau newydd y tu allan i derfynau anheddiad.

**5.3.24** Gall defnyddio adeiladau diwydiannol, masnachol neu amaethyddol at ddibenion preswyl gael effaith niweidiol ar yr economi leol, ac ni fyddant yn dderbyniol, felly, ond lle bo'r trawsnewid yn hwyluso cadw adeilad pwysig. Mae'r rhain yn debygol o fod yn adeiladau sefydledig sylweddol sydd â chryn rinweddau pensaernïol neu hanesyddol, a bydd angen i ddatblygwyr ddangos bod ymdrechion rhesymol wedi'u gwneud i farchnata'r safle er mwyn ei werthu neu ei brydlesu at ddibenion creu cyflogaeth.

**5.3.25** Dylid cyfyngu ar faint estyniadau i adeiladau sydd naill ai yn anheddau sydd eisoes yn bodoli yng nghefn gwlad, neu sy'n adeiladau sy'n cael eu trawsnewid yn anheddau, er mwyn sicrhau na cheir effaith niweidiol ar ffurf a chymeriad yr adeilad gwreiddiol. Bydd maint yr estyniad sy'n debygol o fod yn dderbyniol yn dibynnu ar amgylchiadau pob achos unigol, ond ni ddylai estyniadau fel arfer fod dros 20% yn fwy na dimensiynau cyffredinol neu gynnwys ciwbig yr adeilad gwreiddiol.



**Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth**

**5.3.26 Polisi Strategol SP15 Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth**

**Polisi SP15**
**Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth**

Bydd cynefinoedd a rhywogaethau pwysig a safleoedd o ddiddordeb daearegol yn cael eu hamddiffyn, eu cadw, eu gwella a'u rheoli trwy gyfrwng y mesurau canlynol:

1. Nodi'r safleoedd canlynol o fewn y Fwrdeistref Sirol a ddynodwyd yn Rhyngwladol ac yn Genedlaethol, fel bod modd eu hamddiffyn:
   (a) Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) a Safleoedd Ramsar;
   (b) Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA);
   (c) Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol (GNC).
3. Nodi ac amddiffyn safleoedd o bwysigrwydd rhanbarthol a lleol;
4. Amddiffyn nodweddion treftadaeth naturiol pwysig.

**Amcan y CDLl: OB 15**

**5.3.27** Ochr yn ochr â'r amrywiaeth o wahanol dirluniau ar draws y Fwrdeistref Sirol, mae amrywiaeth eang o wahanol gynefinoedd a rhywogaethau, o draethau arfordirol a thwyni tywod i rostiroedd ucheldir a gweunydd, gan gynnwys aber afonydd, tir ffermio a choetir a choedwigoedd helaeth.

**5.3.28** Mae tri safle sy'n gorwedd yn rhannol oddi mewn i Gastell-nedd Port Talbot yn destun dynodiad Ewropeaidd ar gyfer cadwraeth natur (safleoedd Natura 2000 a Ramsar) ac mae eraill ymhellach i ffwrdd hefyd y gallai datblygiadau o fewn y Fwrdeistref Sirol effeithio arnynt. Amddiffynnir y safleoedd hyn o dan ddeddfwriaeth Ewrop a'r DU, ac ni chaniateir unrhyw gynigion a allai gael effaith niweidiol ac eithrio o dan amgylchiadau penodol a chyfyngedig iawn. Bydd cynigion sy'n debygol o gael effaith sylweddol

ar unrhyw un o'r safleoedd hyn yn destun Arfarniad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC) i sicrhau nad achosir unrhyw niwed. Mae'r CDLl wedi bod yn destun ARhC[20].

**5.3.29** Mae 20 Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) yn y Fwrdeistref Sirol, gan gynnwys pedwar sydd wedi'u dynodi'n rhannol neu'n llwyr am resymau daearegol. Mae'r safleoedd hyn o bwysigrwydd cenedlaethol ac yn cael eu hamddiffyn gan bolisi cenedlaethol, gyda rhagdybiaeth yn erbyn datblygiadau sy'n debygol o achosi unrhyw ddifrod. Cyflwynir y Polisi sy'n ymwneud â safleoedd a ddynodwyd ar lefel Ryngwladol a Chenedlaethol ym Mholisi Cynllunio Cymru a dogfennau cysylltiedig.

**5.3.30** Yn ogystal â'r ardaloedd a ddynodwyd yn ffurfiol, mae llawer o ardal y Fwrdeistref Sirol yn cynnwys cynefinoedd a rhywogaethau a ddylai gael eu cadw a'u gwella. Nod strategaeth a pholisïau bioamrywiaeth y CDLl yw sicrhau bod bioamrywiaeth yn derbyn ystyriaeth lawn ym mhob penderfyniad cynllunio.

**5.3.31 Polisi EN6 Safleoedd Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth pwysig**

**Polisi EN6**
**Safleoedd Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth pwysig**

Ni chaniateir cynigion datblygu a fyddai'n effeithio ar Safleoedd Geoamrywiaeth o Bwysigrwydd Rhanbarthol (RIGS), Gwarchodfeydd Natur Lleol (LNRs), Safleoedd o Ddiddordeb Cadwraeth Natur (SINCs), safleoedd sy'n bodoli meini prawf SINC neu safleoedd sy'n cynnal y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol (CGBLl) neu gynefinoedd neu rywogaethau Adran 42, ond lle:

1. Maent yn cadw a, lle bo modd, yn gwella pwysigrwydd treftadaeth naturiol y safle; neu
2. Ni ellid lleoli'r datblygiad yn rhesymol rywle arall, ac mae manteision y datblygiad yn gorbwyso pwysigrwydd treftadaeth naturiol y safle.

Bydd angen cytuno ar fesurau lliniaru a/neu wneud iawn lle na ellir osgoi effeithiau niweidiol.



**5.3.32** Safleoedd a nodwyd yn lleol yw Safleoedd Geoamrywiaeth o Bwysigrwydd Rhanbarthol (RIGS), Gwarchodfeydd Natur Lleol (LNRs), a Safleoedd o Ddiddordeb Cadwraeth Natur (SINCs), sy'n bodloni meini prawf cytunedig o ran eu pwysigrwydd bioamrywiaeth neu geoamrywiaeth, tra bod y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol yn nodi cynefinoedd a rhywogaethau sy'n flaenoriaeth. Cynefinoedd a Rhywogaethau Adran 42 yw'r rhai a restrir gan Lywodraeth Cymru fel y rhai pwysicaf at ddibenion diogelu amrywiaeth biolegol o dan ddarpariaethau Adran 42 o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006[21].

**5.3.33** Nodwyd 2 RIGS o fewn y Fwrdeistref Sirol[22] a manylir ar y rhain yn y Canllawiau Cynllunio Atodol. Mae nodi SINCs yn broses barhaus, a dangosir y safleoedd a nodwyd hefyd yn y CCA, ynghyd â'r meini prawf a ddefnyddiwyd ar gyfer eu dynodi. Mae'r polisi felly yn ymwneud â SINCs a nodwyd, a safleoedd sy'n bodloni meini prawf SINC.

**5.3.34** Lle na ellir osgoi niwed i safleoedd bioamrywiaeth, bydd mesurau lliniaru effeithiol yn ofynnol, er mwyn sicrhau nad oes gostyngiad yng ngwerth cyffredinol yr ardal neu'r nodwedd. Lle nad yw mesurau lliniaru'n bosibl, fel arfer bydd mesurau gwneud iawn yn ofynnol, i wrthweithio'r niwed gymaint ag sy'n ymarferol bosibl. Fodd bynnag, bernir mai dim ond pan fo popeth arall wedi methu y dylid troi at fesurau gwneud iawn.

**5.5.35** Bydd y CCA Bioamrywiaeth yn nodi sut dylid rhoi ystyriaeth i fioamrywiaeth yn y broses gynllunio, a bydd hefyd yn rhoi manylion y trefniadau ar gyfer darparu mesurau gwneud iawn oddi ar y safle os bydd angen.

**5.3.36 Polisi EN7 Nodweddion Naturiol Pwysig**

**Polisi EN7**
**Nodweddion Naturiol Pwysig**

Ni chaniateir cynigion datblygu a fyddai'n cael effaith niweidiol ar nodweddion naturiol sy'n bwysig yn ecolegol neu'n weledol, megis coed, coetir, perthi/ffiniau caeau, cyrsiau dŵr neu byllau, ond lle:

1. Rhoddwyd sylw llawn i'r nodweddion perthnasol yn nyluniad y datblygiad, gyda mesurau'n cael eu rhoi yn eu lle i sicrhau eu bod yn cael eu cadw a'u hamddiffyn lle bynnag y bo modd; neu
2. Mae gwerth a rôl bioamrywiaeth y nodwedd berthnasol wedi cael eu hystyried, a lle na ellir osgoi colled, cytunwyd ar fesurau lliniaru.

**5.3.37** Yn ogystal â SINCs dynodedig a safleoedd sy'n bodloni'r meini prawf SINC, mae nodweddion tirlun lleol niferus sy'n bwysig ar gyfer bioamrywiaeth, megis coed, coetir, perthi a ffiniau eraill rhwng caeau, cyrsiau dŵr, gwlyptir a phyllau a lonydd glas. Gall y nodweddion hyn weithredu fel 'coridorau' neu 'gerrig camu' sy'n cysylltu ardaloedd o bwysigrwydd bioamrywiaeth ac yn caniatáu i rywogaethau symud. Gall fod swyddogaethau niferus i lawer o'r nodweddion hyn, gan eu bod yn cyflawni rolau pwysig fel llwybrau troed neu lwybrau beicio sy'n cysylltu aneddiadau, fel mannau agored i hamdden, ac fel nodweddion gweledol/tirlun yn ogystal â'u rôl bioamrywiaeth. Dylai nodweddion ac ardaloedd o'r fath gael eu cadw a'u gwella lle bynnag y bo modd.

20 Arfarniad Rheoliadau Cynefinoedd (Awst 2013).
21 **http://www.biodiversitywales.org.uk/biodiversityinwales-2.aspx**
22 Safleoedd Geoamrywiaeth: Archwiliad RIGS De Cymru (R Kendall ac A Humpage – British Geological Survey 2012).

## Amddiffyn yr Amgylchedd

**5.3.38 Polisi Strategol SP16 Amddiffyn yr Amgylchedd**

**Polisi SP16**
**Amddiffyn yr Amgylchedd**

Bydd ansawdd aer, dŵr a daear a'r amgylchedd yn gyffredinol yn cael eu hamddiffyn a, lle bo hynny'n ymarferol, eu gwella trwy gyfrwng y mesurau canlynol:

1. Sicrhau nad yw cynigion yn cael effeithiau niweidiol arwyddocaol ar ansawdd dŵr, daear nac aer ac nad ydynt yn cynyddu lefelau llygredd yn sylweddol;
2. Ffafrio datblygu safleoedd tir llwyd yn hytrach na thir glas lle bo hynny'n briodol a bod modd ei gyflawni;
3. Sicrhau nad yw datblygiadau'n cynyddu nifer y bobl sy'n dod i gysylltiad â lefelau sylweddol o lygredd.

**Amcanion y CDLl: OB 2, OB 16 ac OB 17**

**5.3.39** Mae ansawdd yr amgylchedd a'r anghenion naturiol sylfaenol y mae'n darparu ar eu cyfer yn eithriadol o bwysig ar gyfer iechyd a lles dynol, a gall effeithio ar ansawdd bywyd mewn ffyrdd hanfodol. Mae etifeddiaeth gweithgareddau'r gorffennol yn yr ardal, yn bennaf yng nghyswllt diwydiant trwm, wedi'i gyfuno â diwydiant y presennol, trafnidiaeth a phwysau datblygu, i gyd yn effeithio ar yr amgylchedd, ac mae angen ystyried yr effeithiau hynny ac ymdrin â hwy lle bo modd. Gall ansawdd aer, halogi'r ddaear a'i sefydlogrwydd ac ansawdd adnoddau dŵr i gyd effeithio ar gynigion datblygu yn y Cynllun, a dioddef effeithiau yn eu sgîl, ynghyd â lefelau o lygredd golau a lefelau sŵn. Strategaeth y Cynllun yw amddiffyn a gwella'r amgylchedd gymaint â phosib, ac mae Polisi SP16 yn cyflwyno'r dull a ddefnyddir i wneud hynny.

**5.3.40** Yng nghyswllt llygredd amgylcheddol, mae ystod eang o systemau a threfniadau rheoli a rhoi caniatâd y mae'n rhaid i ddatblygiadau a gweithrediadau gydymffurfio â hwy, ar wahân i system Cynllunio Gwlad a Thref. Ni ellir dyblygu'r gofynion hyn yn y Cynllun nac ym maes rheoli datblygu, ond rhoddwyd sylw iddynt wrth ddatblygu cynigion a pholisïau'r Cynllun a bydd angen eu hadlewyrchu mewn penderfyniadau cynllunio.

**5.3.41 Polisi EN8 Llygredd a Sefydlogrwydd Tir**

**Polisi EN8**
**Llygredd a Sefydlogrwydd Tir**

Ni chaniateir cynigion a fyddai'n debygol o gael effaith niweidiol annerbyniol ar iechyd, bioamrywiaeth a/neu amwynder lleol neu a fyddai'n golygu bod pobl yn dod i gysylltiad â risg annerbyniol yn sgîl y canlynol:

- Llygredd Aer;
- Llygredd Sŵn;
- Llygredd Golau;
- Halogiad;
- Ansefydlogrwydd Tir;
- Llygredd Dŵr (yn cynnwys dŵr daear).

Ni fydd cynigion a fyddai'n creu problemau newydd neu'n gwaethygu problemau presennol y manylir arnynt uchod yn dderbyniol oni chynhwysir mesurau lliniaru i leihau risg niwed i iechyd y cyhoedd, bioamrywiaeth a/neu amwynder lleol i lefel dderbyniol.

**5.3.42** Gall llygredd o bob math achosi niwed sylweddol i iechyd dynol, bioamrywiaeth, ansawdd bywyd ac amwynder preswyl, a bwriad Polisi EN8 yw sicrhau na fydd datblygiadau'n peri i broblemau presennol waethygu, yn achosi problemau newydd, nac yn golygu bod mwy o bobl yn dod i gysylltiad rheolaidd â lefelau llygredd annerbyniol o unrhyw fath. Mae'r polisi'n cyfeirio at effeithiau neu risg annerbyniol, a bydd sut dehonglir hynny yn dibynnu ar y math o lygredd dan sylw a'r effeithiau tebygol.

**5.3.43** Yng nghyswllt ansawdd aer, pennir amcanion ar gyfer ystod o lygryddion[23] a mesurir ansawdd aer Castell-nedd Port Talbot yn erbyn yr amcanion hynny mewn amrywiaeth o safleoedd ar draws y Fwrdeistref Sirol. Mae'r monitro hwn wedi nodi ardaloedd sy'n destun pryder mewn rhai mannau trefol canolog, gydag achosion o fynd dros y trothwy yn ardal Margam / Taibach yn arwain at gyhoeddi Ardal Rheoli Ansawdd Aer (ARhAA) yn 2001.

**5.3.44** Bydd gofyn bod cynigion datblygu a allai o bosibl arwain at dorri unrhyw amcan ansawdd aer neu gyfrannu at hynny ddangos (trwy ymarferion modelu neu wybodaeth dechnegol arall briodol, gan gynnwys rhoi ystyriaeth i effeithiau cronnol) na fydd hyn yn digwydd. Er y byddai'r darpariaethau'n berthnasol ar draws y Fwrdeistref Sirol, mae datblygiadau yng nghyffiniau'r ARhAA a fyddai'n creu allyriadau uniongyrchol ychwanegol i'r atmosffer neu a allai gael effeithiau anuniongyrchol, er enghraifft trwy greu traffig ychwanegol sylweddol, yn enghraifft o gynnig o'r fath. Os na ellir cyflawni'r gofyniad hwn, naill ai gyda neu heb fesurau lliniaru, ni fydd y cynnig yn dderbyniol o dan delerau'r polisi.

**5.3.45** Yn ardal ganolog Port Talbot yn arbennig, gallai gweithrediadau yn ystod cyfnod adeiladu datblygiadau arwain at achosion o fynd dros y trothwy o ran amcanion ansawdd aer sy'n ymwneud â gronynnau. Gall hyn ddibynnu o bosib ar amodau tywydd lleol neu atmosfferig, a'r math o weithrediadau sydd dan sylw. Mae Polisi EN9 yn cyflwyno gofynion penodol ar gyfer datblygiadau yn ardal ganolog Port Talbot a darperir rhagor o wybodaeth am y pwnc hwn yn y Canllawiau Cynllunio Atodol.

**5.3.46** Yng nghyswllt sŵn, ni ddylid lleoli cynigion a allai fod yn swnllyd yn agos at ddefnyddiau sensitif (megis ysbytai, ysgolion a thai) ac ni ddylid lleoli datblygiadau newydd sensitif i sŵn yn ymyl defnyddiau swnllyd presennol (yn cynnwys diwydiant ac isadeiledd trafnidiaeth presennol neu arfaethedig), oni ellir dangos bod modd ymdrin â'r effeithiau niweidiol trwy fesurau lliniaru a ymgorfforwyd yn y dyluniad. Lle bo lefelau sŵn yn debygol o fod yn broblem sylweddol, gall fod gofyn i ddatblygwyr ddarparu gwybodaeth i ddangos nad oes niwsans yn debygol o gael ei achosi trwy gynyddu lefelau sŵn mewn lleoliadau sensitif os bydd y datblygiad yn mynd rhagddo. Mae Polisi EN10 yn ymdrin â Mannau Tawel dynodedig.

23 Strategaeth Ansawdd Aer Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon (DEFRA 2007).

**5.3.47** Gall llygredd golau fod yn broblem lle gallai gael effaith niweidiol ar yr amgylchedd naturiol neu hanesyddol, ar iechyd ac amwynder pobl neu ar fywyd gwyllt a chynefinoedd. Bydd angen cydbwyso'r pryderon hyn yn erbyn yr angen am wella diogelwch a diogeledd a chaniatáu cynnal chwaraeon, hamdden a gweithgareddau eraill. Lle gallai cynigion goleuo achosi effeithiau niweidiol, bydd mesurau lliniaru'n ofynnol, i sicrhau bod eu heffaith yn cael ei chyfyngu gymaint â phosib.

**5.3.48** Mae rhai o ddyraniadau a chynigion tir llwyd y Cynllun yn ymgorffori tir sydd wedi'i halogi yn sgîl defnyddiau diwydiannol yn y gorffennol. Mewn llawer o achosion mae mesurau adfer wedi cael eu cyflawni neu ar waith fel rhan o'r broses ddatblygu. Mewn achosion eraill, lle bo halogi'n debygol neu lle canfyddir ei fod yn bresennol, bydd gofyn darparu gwybodaeth yn dangos lefel a math yr halogiad sy'n bresennol a chynigion ar gyfer adfer a lliniaru i ddangos nad achosir unrhyw effeithiau niweidiol ar unrhyw gyfnod o'r datblygiad oddi mewn i'r safle na'r tu allan. Ar ben hynny, gall datblygiadau a gweithrediadau sy'n cynnwys clirio prysgwydd a symud pridd o'r safle gynnwys goblygiadau o ran ymlediad rhywogaethau ymwthiol, y mae rhai ohonynt (megis canclwm Siapan a balsam Himalaya) yn destun mesurau rheoli trwyddedau Cyfoeth Naturiol Cymru fel rhan o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd (1990).

**5.3.49** Mewn achosion lle ceir tystiolaeth y gallai safle fod yn ansefydlog, neu y gallai datblygiad achosi problemau sefydlogrwydd, gall fod gofyn i ddatblygwyr gynnal ymchwiliad arbenigol neu asesiad i ddangos bod modd i'r datblygiad fynd rhagddo'n ddiogel, heb gael effeithiau niweidiol. Fodd bynnag, mewn achosion o'r fath y datblygwr a/neu'r tirfeddiannwr sy'n gyfrifol, ac wedi hynny'n atebol, am ddatblygiad a meddiannaeth diogel y safle.

**5.3.50** Bydd disgwyl i ddatblygiadau leiafu unrhyw effeithiau niweidiol ar ansawdd dŵr, a gall fod angen gwybodaeth ychwanegol mewn achosion lle gallai fod problemau yng nghyswllt ansawdd dŵr sydd eisoes yn wael neu'r ffaith y gallai datblygiad achosi llygredd. Bydd gofyn bod datblygiadau'n sicrhau nad achosir llygredd trwy ddraeniad.

**5.3.51 Polisi EN9 Datblygiadau yn Ardal Ganolog Port Talbot**

**Polisi EN9**

**Datblygiadau yn Ardal Ganolog Port Talbot**

Bydd gofyn bod datblygiadau yn ardal ganolog Port Talbot, a allai arwain at dorri'r amcanion ansawdd aer yn ystod y cyfnod adeiladu, yn cael eu cyflawni yn unol â Chynllun Rheoli Adeiladwaith a gyflwynir fel rhan o'r broses gynllunio, ac y cytunir arno gan y Cyngor.

**5.3.52** Gallai adeiladu datblygiadau mawr yn ardal ganolog Port Talbot, gan gynnwys (ond heb eu cyfyngu i'r) rhai yn AAS Glannau'r Harbwr, o bosib arwain at dorri'r amcanion ansawdd aer yn yr ardal o amgylch (gan gynnwys yn ARhAA Margam/Taibach). Mae'r brif risg yn ymwneud â chynnydd mewn gronynnau atmosfferig yn sgîl gweithgareddau adeiladu. O ganlyniad, bydd gofyn bod unrhyw ddatblygiadau o'r fath yn cyflwyno Cynllun Rheoli Adeiladwaith yn manylu ar y mesurau sydd i'w rhoi ar waith i osgoi'r posibilrwydd hwn. Dylai'r Cynllun Rheoli Adeiladwaith nodi'r gweithrediadau adeiladu a allai achosi effaith ar ansawdd yr aer a mesurau i atal y cyfryw effeithiau. Gall y rhain gynnwys mesurau i leiafu, i'r graddau y mae hynny'n bosibl, y llwch a gynhyrchir, addasu'r gweithgareddau mwyaf llygrol neu eu cyflwyno'n raddol ac atal unrhyw weithgareddau llygrol ar adegau pan fo risg arbennig o lygru'r aer. Cyflwynir manylion pellach am y gofynion hyn mewn Canllawiau Cynllunio Atodol.



**5.3.53 Polisi EN10 Mannau Tawel**

**Polisi EN10**

**Mannau Tawel**

Er mwyn amddiffyn mannau tangnefeddus mewn ardaloedd trefol, nodwyd y 'Mannau Tawel' canlynol:

| Cyfeirnod | Man Tawel |
|---|---|
| EN10/1 | Adfeilion Mynachlog Nedd, Castell-nedd |
| EN10/2 | Parc Mount Pleasant, Castell-nedd |
| EN10/3 | Parc Sgiwen, Castell-nedd |
| EN10/4 | Coedydd Shelone, Castell-nedd |
| EN10/5 | Gerddi Victoria, Castell-nedd |
| EN10/6 | Maes yr Eglwys, Castell-nedd |
| EN10/7 | Parc Coffa Talbot, Port Talbot |
| EN10/8 | Parc Vivian, Port Talbot |
| EN10/9 | Parc Baglan, Port Talbot |
| EN10/10 | Parc y Brenin Siôr V, Pontardawe |

Gwrthsefir cynigion datblygu a fyddai'n cael effeithiau annerbyniol ar y nodweddion a arweiniodd at y dynodiad.

**5.3.54** Dynodwyd y Mannau Tawel a restrwyd gan Lywodraeth Cymru o dan Reoliadau Sŵn Amgylcheddol (Cymru). Maent yn fannau agored cyhoeddus o fewn yr ardal drefol sydd â gwerth amwynder lleol sy'n cyfiawnhau eu hamddiffyn rhag ymyriad sŵn, ac maent yn gymharol dawel yn ôl safonau trefol o ran y canfyddiad ohonynt a'u sefyllfa wirioneddol.

**5.3.55** Nodwyd y pum 'colofn', neu faen prawf, canlynol ar gyfer tangnefedd trefol:

- Sainlun;
- Presenoldeb natur;
- Nodweddion gweledol / esthetig;
- Ymdeimlad o ddiogelwch personol;
- Diwylliant a rhyddid y lle.

**5.3.56** Mae'r tri cyntaf yn feini prawf sy'n uniongyrchol gysylltiedig â thawelwch canfyddedig, tra bod y ddau arall yn feini prawf nad oes cysylltiad uniongyrchol rhyngddynt â thawelwch canfyddedig, ond a all serch hynny dynnu oddi wrth y manteision iechyd a lles a gyfleir fel arall gan dawelwch.

**5.3.57** Mae'r polisi'n amddiffyn Mannau Tawel rhag cynnydd sylweddol mewn sŵn neu effeithiau eraill yn sgîl datblygiad a fyddai'n niweidio'r meini prawf hyn. Lle cynigir datblygiad yn agos at Fan Tawel, caiff ei asesu yng nghyswllt ei effeithiau ar 'golofnau' tangnefedd trefol, a bydd gofyn iddo sicrhau nad oes effeithiau niweidiol sylweddol.




**Mwynau**

**5.3.58 Polisi Strategol SP17 Mwynau**

> **Polisi SP17**
> **Mwynau**
>
> Gwneir cyfraniad cymesur at ddiwallu'r galw cenedlaethol, rhanbarthol a lleol am gyflenwad parhaus o fwynau, ar yr un pryd â chydbwyso effaith datblygiad ar yr amgylchedd a chymunedau. Cyflawnir hyn trwy wneud y canlynol:
>
> 1. Cynnal isafswm cyflenwad o agregau ar hyd cyfnod y Cynllun;
> 2. Diogelu adnoddau a ganfuwyd o lo, cerrig caled, tywod a graean;
> 3. Hyrwyddo defnydd effeithlon o agregau ac annog y defnydd mwyaf posibl o ddeunyddiau amgen cyn defnyddio agregau crai;
> 4. Sicrhau na fydd datblygiad mwynau yn cael effaith annerbyniol ar yr amgylchedd ac amwynder trigolion lleol;
> 5. Cyfyngu gymaint â phosibl ar y gwrthdaro rhwng defnyddiau tir sensitif a gweithrediadau mwynau trwy nodi parthau clustogi o amgylch safleoedd mwynau a pharthau amddiffynol o amgylch aneddiadau.
>
> **Amcan y CDLl: OB 18**

**5.3.59** Adnodd naturiol a therfynedig yw mwynau ac maent yn sylfaenol er mwyn sicrhau ffyniant ac ansawdd bywyd y genedl. Er bod glo yn ffynhonnell hollbwysig o gyflenwad ynni sy'n caniatáu cynhyrchu trydan a gwres, tywod, graean a cherrig mâl sy'n darparu'r deunyddiau crai i'r diwydiant adeiladu fedru codi a chynnal adeiladau, trafnidiaeth ac isadeileddau eraill.

**5.3.60** Yn unol â chanllawiau cenedlaethol a rhanbarthol, mae'r strategaeth yn ceisio rheoleiddio'r ecsbloetio ar adnoddau mwynau, er mwyn gwneud cyfraniad cymesur at ddiwallu'r galw cenedlaethol, rhanbarthol a lleol am fwynau, ochr yn ochr â sicrhau cydbwysedd derbyniol, cynaliadwy ag amddiffyn yr amgylchedd a chymunedau lleol.

**5.3.61** O ran cynnal cyflenwad o gerrig mâl ar hyd cyfnod y Cynllun, cyflawnir hynny trwy'r ddwy chwarel bresennol yn y Gilfach (Castell-nedd) a Chwm Nant Lleici (Pontardawe), sydd fel ei gilydd wedi'u nodi ar y Map o'r Cynigion.

**5.3.62** Ar hyn o bryd, mae cyfanswm ffigur y banc tir ar gyfer Castell-nedd Port Talbot yn fwy na digon i fodloni gofynion yr Awdurdod ei hun yn unol â'r Datganiad Technegol Rhanbarthol (DTRh).

**5.3.63** Hyrwyddir defnydd effeithlon o agregau, a lle bo hynny'n berthnasol, anogir gwneud y defnydd mwyaf posibl o ddeunyddiau amgen o ffynonellau masnachol a dymchwel yn hytrach nag echdynnu agregau crai. Diogelir adnoddau mwynau hefyd rhag mathau eraill o ddatblygiad parhaol a fyddai naill ai yn golygu nad oedd modd eu defnyddio, neu'n rhwystro eu hechdynnu.

**5.3.64** Ni ellir cloddio am fwynau ond lle maent i'w canfod, ac mae hynny'n aml yn arwain at wrthdaro gyda defnyddiau tir eraill ac ystyriaethau amgylcheddol. O ran cydbwyso ecsbloetio mwynau a'r angen am amddiffyn yr amgylchedd ac amwynder trigolion lleol, mae'r CDLl yn nodi ble byddai gweithrediadau glo ar yr wyneb yn annerbyniol ac yn darparu meini prawf clir ar gyfer asesu pob cynnig yn y dyfodol yn yr ardaloedd hynny lle gellid echdynnu. Nodwyd parthau clustogi hefyd ar y Map o'r Cynigion er mwyn sefydlu pellter gwahanu rhwng defnyddiau tir a allai wrthdaro.

**5.3.65 Polisi M1 Datblygu mewn Ardaloedd Diogelu Mwynau**

**Polisi M1**
**Datblygu mewn Ardaloedd Diogelu Mwynau**

Ni chaniateir cynigion datblygu mewn ardaloedd diogelu mwynau ond lle gellir dangos:

1. Nad oes i'r mwyn dan sylw unrhyw werth na gwerth posibl bellach; neu
2. Y gellir echdynnu'r mwyn yn foddhaol cyn i'r datblygiad ddigwydd; neu
3. Yn achos datblygiad dros dro, y gellir ei weithredu ac adfer y safle o fewn yr amserlen erbyn pryd y mae'n debygol y bydd angen y mwyn; neu
4. Mae angen gor-redol am y datblygiad; neu
5. Ni fyddai graddfa a lleoliad y datblygiad yn cael effaith sylweddol ar y posibilrwydd o weithio'r adnodd.

**5.3.66** Mae Castell-nedd Port Talbot yn cynnwys adnoddau mwynau helaeth, gyda'r Fwrdeistref Sirol gyfan, fwy neu lai, yn gorwedd uwchben adnoddau glo ac agregau. Gan mai adnoddau terfynedig yw mwynau, mae'n bwysig diogelu mynediad at ddyddodion mwynau y gallai fod eu hangen ar gymdeithas yn y dyfodol. Nid yw hyn o reidrwydd yn arwydd y derbynnir eu gweithio, nac y rhoddir caniatâd i echdynnu.

**5.3.67** Dangosir yr ardaloedd i'w diogelu ar y Map o'r Cynigion ac amddiffynnir ardaloedd o'r fath rhag mathau eraill o ddatblygiad parhaol a fyddai naill ai'n golygu nad oedd modd eu defnyddio neu'n rhwystro eu hechdynnu.

**5.3.68** Yn y mwyafrif o enghreifftiau, gall datblygiad fynd rhagddo o fewn ardaloedd a ddiogelwyd cyhyd â bod y datblygwyr yn gallu dangos mai ansawdd gwael sydd i'r adnodd, neu bod y cyflenwad yn brin, y gellir ei echdynnu'n foddhaol cyn i'r datblygiad ddigwydd, bod angen gor-redol am y datblygiad, neu na fyddai graddfa a lleoliad y datblygiad yn cael unrhyw effaith sylweddol ar y posibilrwydd o weithio'r adnodd.

**5.3.69 Polisi M2 Gweithrediadau Glo ar yr Wyneb**

**Polisi M2**
**Gweithrediadau Glo ar yr Wyneb**

Bernir bod gweithrediadau glo ar yr wyneb yn annerbyniol mewn egwyddor lle bônt:

1. O fewn 500 metr i anheddiad (oni fydd y Cyngor yn barnu bod amgylchiadau eithriadol);
2. O fewn i unrhyw ardaloedd o bwysigrwydd amgylcheddol Rhyngwladol a Chenedlaethol, neu'n cael effaith niweidiol arnynt;
3. O fewn i unrhyw ardaloedd o bwysigrwydd diwylliannol Rhyngwladol a Chenedlaethol, neu'n cael effaith niweidiol arnynt

**5.3.70** Mae'r polisi'n nodi ble byddai gweithrediadau glo ar yr wyneb yn annerbyniol o ran egwyddor, a nodir yr ardaloedd hyn ar y Map o'r Cynigion. Mae gweithrediadau glo ar yr wyneb yn cynnwys gwaith glo brig, a'r cyfleusterau hynny ar yr wyneb a gysylltir â mwyngloddio o dan ddaear. Yng nghyswllt maen prawf 1, dangosir Parthau Diogelu Aneddiadau ar y Map o'r Cynigion. Mae'r rhain wedi'u lluniadu bellter o 500m o amgylch holl aneddiadau Castell-nedd Port Talbot, yn ogystal â rhoi sylw i'r aneddiadau hynny mewn awdurdodau cymdogol sydd o fewn 500m i'r ffin.

**5.3.71** Byddai angen i unrhyw gynigion ar gyfer gweithrediadau glo ar yr wyneb o fewn 500 metr i aneddiadau ddangos bod modd cyfiawnhau'n llawn amgylchiadau eithriadol fel y nodir yn Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 2: Glo (MTAN2)[24].

**5.3.72** Mae'r polisi'n berthnasol i bob anheddiad a nodwyd yn yr Hierarchaeth Aneddiadau[25], gan gynnwys y rhai a nodwyd fel Aneddiadau Noswylio. O ran effaith gweithrediadau glo ar yr wyneb ar grwpiau o eiddo neu anheddau unigol a leolir y tu allan i aneddiadau, bydd unrhyw gynigion yn y dyfodol yn cael eu hystyried a'u hasesu yn erbyn y meini prawf a bennwyd ym Mholisi M4.

**5.3.73** Rhoddir sylw arbennig hefyd i unrhyw effaith niweidiol posibl ar Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA), Safleoedd Ramsar, Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol (GNC), tirluniau, parciau neu erddi hanesyddol a Pharciau Gwledig.

**5.3.74 Polisi M3 Datblygu mewn Parthau Clustogi Mwynau**

**Polisi M3**
**Datblygu mewn Parthau Clustogi Mwynau**

Ni chaniateir cynigion datblygu mewn parthau clustogi ond lle gellir dangos:

1. Na fydd hynny'n peri na ellir defnyddio'r adnodd mwynau; a
2. Na fydd gweithrediadau mwynau'n cael effaith niweidiol ar y cynigion.

**5.3.75** Nodir parthau clustogi o amgylch safleoedd mwynau presennol ac arfaethedig, ac fe'u dangosir ar y Map o'r Cynigion. Yn unol â chanllawiau cenedlaethol, cymhwysir y parthau clustogi canlynol gan adlewyrchu'r gwahaniaeth yn natur ymwthiol y math o weithrediad echdynnu: Glo (500 metr), Chwareli Cerrig Caled (200 metr) a Thywod a Graean (100 metr).

**5.3.76** Prif nod y parth clustogi yw amddiffyn y gwaith mwynau a ganiatawyd neu a gynigiwyd rhag defnyddiau newydd sensitif megis datblygiadau preswyl, ysbytai ac ysgolion, trwy sefydlu pellter gwahanu rhwng y defnyddiau tir hynny a allai wrthdaro. O fewn y parth clustogi, gwrthsefir unrhyw ddatblygiad newydd a fyddai'n peryglu echdynnu o gronfeydd a ganiateir yn y dyfodol neu weithrediad y safle.

**5.3.77** Gallai datblygiadau eraill, gan gynnwys diwydiant, swyddfeydd a pheth datblygu ategol sy'n gysylltiedig â gweithio mwynau, llai sensitif i effaith gweithrediadau mwynau, fod yn dderbyniol o fewn y parth clustogi.

24 Paragraff 49 Nodyn Cyngor Technegol ar Fwynau 2: Glo (Llywodraeth Cymru - 2009).
25 Polisi SP3 Cymunedau Cynaliadwy - Tabl 3.1 Hierarchaeth Aneddiadau Castell-nedd Port Talbot.

**5.3.78 Polisi M4 Meini Prawf ar gyfer Asesu Datblygiad Mwynau**

**Polisi M4**
**Meini Prawf ar gyfer Asesu Datblygiad Mwynau**

Ni chaniateir cynigion ar gyfer echdynnu mwynau a datblygiad cysylltiedig ond pan fodlonir yr holl feini prawf canlynol, lle bônt yn berthnasol:

1. Ymchwiliwyd i fodolaeth y mwyn a'i brofi;
2. Cynhaliwyd asesiad sy'n dangos na fyddai'n ymarferol cyflenwi'r mwyn o ffynonellau eilaidd;
3. Dangosir bod modd cyflawni mesurau i leihau i lefelau derbyniol, a lle bo'n bosib osgoi, difrod neu aflonyddu i'r amgylchedd ac amwynder defnyddiau tir cymdogol neu eiddo unigol;
4. Gellir dangos na fyddai'r datblygiad yn peryglu diogelwch ar y priffyrdd;
5. Cyflwynir cynigion priodol, derbyniol ar gyfer:
   (a) Echdynnu'r mwyn yn effeithiol ac yn gynaliadwy;
   (b) Parhad, dull a chyfnodau'r gweithrediadau;
   (c) Rheoli gwastraff mwynol;
   (d) Gwaith adfer; ac
   (e) Ôl-ddefnydd buddiol ac ôl-ofal.

**5.3.79** Mae'r polisi'n cyflwyno'r meini prawf ar gyfer pob cynnig ar gyfer echdynnu mwynau a datblygiad cysylltiedig, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â datblygiad newydd, estyniadau i weithrediadau sydd eisoes yn bodoli, ailweithio tomenni mwynau am eu cynnwys mwynol, echdynnu methan o'r gwelyau glo, echdynnu nwy siâl ac unrhyw geisiadau am adolygu mwynau.

**5.3.80** Bydd angen i gynigion ddangos na fyddai'r datblygiad yn creu unrhyw effeithiau annerbyniol ar yr amgylchedd. Rhoddir sylw arbennig i'r effaith bosibl ar y tirlun, cadwraeth natur a buddiannau bywyd gwyllt y safle a'r tir cyfagos, ardaloedd o bwysigrwydd hanesyddol, diwylliannol ac archaeolegol, buddiannau amaethyddol, llygredd neu aflonyddu ar gyflenwad neu ddraeniad dŵr daear neu arwyneb, sefydlogrwydd tir y safle a'r tir cyfagos ac ansawdd aer a'r posibilrwydd y gellid cael allyriadau nwy o'r mwyngloddiau.

**5.3.81** Bydd angen hefyd i'r cynigion ddangos na fyddai'r datblygiad yn creu unrhyw effeithiau annerbyniol ar amwynder defnyddiau tir cymdogol neu eiddo unigol. Rhoddir sylw arbennig i'r posibilrwydd o greu sŵn, llwch, ffrwydriadau a dirgryniad yn sgîl y dulliau o weithio, amwynder gweledol, iechyd, mynediad a'r traffig a gynhyrchir ar y ffordd i'r safle ac oddi yno, llifogydd a pherygl llifogydd ac achosion o dorri ar draws hawliau tramwy cyhoeddus neu ffyrdd.

**5.3.82** Yn unol â pholisi cynllunio cenedlaethol bydd Asesiad Effaith ar Iechyd (AEI) yn ofynnol, lle bo hynny'n briodol. Mae'n debygol y bydd hyn yn ffurfio rhan o unrhyw Ddatganiad Amgylcheddol a gyflwynir gyda'r cynnig.

**5.3.83** O ran gwaith adfer, dylid trefnu cyfnodau'r cynigion fel eu bod yn cychwyn cyn gynted â phosib a, lle bo hynny'n briodol, bydd y Cyngor yn annog gwaith adfer graddedig. Mae Deddf Cyngor Sir Gorllewin Morgannwg 1987 yn galluogi'r Awdurdod i ychwanegu amod cynllunio sy'n gofyn bod unrhyw Gorfforaeth Lo nad yw'n Brydeinig (a'i holynwyr) yn talu bond ariannol er mwyn sicrhau gwaith adfer ac ôl-ofal.

**5.3.84** Lle rhoddir caniatâd cynllunio ar gyfer cloddio am lo, felly, bydd yr Awdurdod yn gofyn bod bond ariannol yn cael ei adneuo, neu sicrwydd ariannol arall a fydd yn gallu sicrhau gwaith tirlunio, adfer ac ôl-ofal boddhaol. Ym mhob achos arall lle bo'r Awdurdod o blaid rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad mwynau, bydd yr Awdurdod, lle bo hynny'n briodol, yn ceisio cytundebau i sicrhau gwaith adfer ac ôl-ofal boddhaol, fel arfer trwy Gytundebau Adran 106.

**5.3.85** Gallai'r ôl-ddefnyddiau priodol gynnwys amaeth, coedwigaeth/coetir ac amwynder. Ffafrir creu tirweddau sy'n nodweddiadol o'r ardal a chynefinoedd blaenoriaeth a nodwyd yn y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol (CGBLl).

**5.3.86** Yn aml defnyddir Cyfraniadau Datblygwyr i sicrhau math ar fudd ar gyfer y cymunedau lleol yr effeithir arnynt fwyaf gan weithrediadau mwynau o'r fath. Gall hyn gynnwys cyfraniadau tuag at ddatblygu cyfleusterau cymunedol newydd, gwella rhai sydd eisoes yn bodoli, neu greu cyflogaeth leol yn ystod y cyfnodau adeiladu a gweithredu.

**5.3.87** Bydd yr Awdurdod, felly, yn annog ac yn hwyluso, lle bo'n briodol, defnyddio Cyfraniadau o'r fath gan Ddatblygwyr.

**Ynni Adnewyddadwy ac Ynni Carbon Isel**

**5.3.88 Polisi Strategol SP18 Ynni Adnewyddadwy ac Ynni Carbon Isel**

**Polisi SP18**
**Ynni Adnewyddadwy ac Ynni Carbon Isel**

Gwneir cyfraniad cymesur at gyrraedd targedau ynni adnewyddadwy cenedlaethol a thargedau effeithlonrwydd ynni, ochr yn ochr â chydbwyso effaith datblygiad ar yr amgylchedd a chymunedau. Cyflawnir hyn trwy wneud y canlynol:

1. Annog, lle bo hynny'n briodol, pob math ar ynni adnewyddadwy a datblygiadau technoleg carbon isel
2. Annog arbed ynni a mesurau effeithlonrwydd ym mhob cynnig datblygu newydd sylweddol;
3. Sicrhau na fydd datblygiad yn cael effaith annerbyniol ar yr amgylchedd ac amwynder trigolion lleol.

**Amcan y CDLl: OB 19**

**5.3.89** O ganlyniad i bryder cynyddol ynghylch cynhyrchu nwyon tŷ gwydr a goblygiadau hynny o ran y newid yn yr hinsawdd, ynghyd ag argaeledd adnoddau ynni, mae cynhyrchu ynni o adnoddau adnewyddadwy a'r angen am wneud defnydd effeithlon o ynni wedi dod yn fwyfwy pwysig. Yn unol â chanllawiau cenedlaethol, felly, mae'r strategaeth yn ceisio cyflawni cyfraniad cymesur at gyrraedd targedau ynni adnewyddadwy cenedlaethol Cymru a'r targedau effeithlonrwydd ynni.

**5.3.90** Gall datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel gynnwys cynlluniau megis Ffermydd Gwynt ar y Lan, Ynni o Wastraff (YoW), Gwres a Phŵer Cyfunedig (GPhC), Biomas, Hydro-Bŵer a thechnolegau Solar. Er yr anogir datblygiadau mewn egwyddor, o ganlyniad i'r posibiliadau sylweddol yng Nghastell-nedd Port Talbot ar gyfer datblygu ffermydd gwynt, mae'r CDLl yn ceisio rheoleiddio ecsbloetio ynni adnewyddadwy, ochr yn ochr â sicrhau cydbwysedd derbyniol, cynaliadwy ag amddiffyn yr amgylchedd ac amwynder cymunedau lleol. Mae'r CDLl yn darparu meini prawf clir ar gyfer asesu pob cynnig yn y dyfodol.

**5.3.91** Er mwyn lleihau'r angen cyffredinol am gynhyrchu trydan, anogir mesurau arbed ynni ac effeithlonrwydd ym mhob datblygiad newydd.



**5.3.92 Polisi RE1 Meini Prawf ar gyfer Asesu Datblygiadau Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel**

**Polisi RE1**

**Meini Prawf ar gyfer Asesu Datblygiadau Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel**

Ni chaniateir cynigion ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy ac ynni carbon isel ond yn amodol ar y meini prawf canlynol:

1. Bydd disgwyl bod datblygiadau ffermydd gwynt ar raddfa fawr (>25MW) yn cael eu lleoli oddi mewn i ffiniau'r Ardaloedd Chwilio Strategol a fireiniwyd.
2. Caniateir cynigion ar gyfer ffermydd gwynt o unrhyw faint y tu allan i'r AChSoedd dim ond lle dangosir na fydd effaith annerbyniol ar amwynder gweledol neu gymeriad y tirlun yn sgîl nifer, graddfa, maint, dyluniad a lleoliad tyrbinau a seilwaith cysylltiedig.
3. Bydd gofyn bod datblygiadau ffermydd gwynt ar raddfa fach (<5MW) yn dangos bod yr effeithiau wedi'u cyfyngu i raddfa leol.
4. Bydd gofyn bod pob cynnig ar gyfer datblygiad ynni adnewyddadwy neu ynni carbon isel yn dangos:
   (a) Bod mesurau wedi cael eu cymryd i leiafu'r effeithiau ar amwynder gweledol a'r amgylchedd naturiol;
   (b) Na fydd effeithiau annerbyniol ar amwynder preswyl;
   (c) Na fydd y datblygiad yn peryglu diogelwch ar y briffordd;
   (d) Na fyddai'r datblygiad yn ymyrryd â radar, systemau rheoli traffig yn yr awyr, cysylltiadau telegyfathrebu, derbyniad teledu, cyfathrebu radio a chyfathrebiadau'r gwasanaethau brys; a
   (e) Bod cynigion boddhaol yn eu lle i adfer y safle fel sy'n briodol.

**5.3.93** Mae'r polisi'n cyflwyno meini prawf ar gyfer asesu pob cynnig ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel, gan gynnwys rhai sy'n ymwneud â ffermydd gwynt mawr (>25MW), canolig (5-25MW) a graddfa fach (<5MW) ar y lan, YoW, GPhC, Biomas, Hydro-Bŵer a thechnoleg Solar.

**5.3.94** Mae Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 8: Ynni Adnewyddadwy yn nodi saith Ardal Chwilio Strategol (AChS) ledled Cymru lle gellid darparu ar gyfer datblygiadau fferm wynt ar raddfa fawr (>25MW). Mae dwy AChS (AChS E ac AChS F) wedi'u lleoli mewn mannau amlwg yng Nghastell-nedd Port Talbot, a phennwyd targedau capasiti ar gyfer y ddwy. Comisiynodd Castell-nedd Port Talbot, ynghyd â chonsortiwm o bedwar Awdurdod Cynllunio Lleol arall, astudiaeth i ddiwygio'r AChS, ac roedd canlyniad yr astudiaeth yn argymell y lleoliadau gorau a mwyaf priodol o fewn yr AChS o ran materion tirlun, amgylcheddol a thechnegol. Nodir yr ardaloedd diwygiedig ar y Map o'r Cynigion.

**5.3.95** O fewn yr AChS diwygiedig, bydd yr awdurdod yn ceisio gwneud yn fawr o'r capasiti gosodedig derbyniol, a byddai'n ceisio atal cynlluniau a allai gyfyngu arno. Byddai ffermydd gwynt ar raddfa ganolig (5-25MW) felly yn dderbyniol o bosibl, cyhyd ag nad oeddent yn cyfyngu ar gapasiti cynhyrchu'r AChS.

**5.3.96** Y tu allan i'r AChS diwygiedig, bydd yr Awdurdod yn ymdrin â chynlluniau o'r fath fesul achos. Gallai ffermydd gwynt bach neu gymunedol (llai na 5MW) fod yn dderbyniol ar draws y Fwrdeistref Sirol, ond bydd angen iddynt ddangos y byddai unrhyw effaith yn cael ei chyfyngu i'r raddfa leol. Rhoddir sylw arbennig i effaith weledol gronnol bosib y cynnig, o'i gyfuno â datblygiadau eraill ar raddfa fwy sydd eisoes yn bodoli, sydd wedi derbyn caniatâd, neu a gynigiwyd, gan adlewyrchu'r effaith sylweddol y gellid ei hachosi ar dirweddau a chymunedau'r Fwrdeistrefol Sirol yn sgîl datblygu yn yr AChS diwygiedig.

**5.3.97** Bydd angen i bob cynllun ddangos na fyddai'r cynnig yn achosi unrhyw effeithiau annerbyniol ar yr amgylchedd ac amwynder trigolion neu gymunedau lleol. Rhoddir sylw arbennig i'r effaith bosibl ar y tirlun, y treflun

neu'r morlun, cadwraeth natur, buddiannau bywyd gwyllt, ardaloedd o bwysigrwydd hanesyddol a diwylliannol a'r potensial o ran llygredd, sŵn, llwch, dirgryniad, golau a adlewyrchir a chryndod cysgodion.

**5.3.98** Yn aml defnyddir Cyfraniadau Datblygwyr i sicrhau math ar fuddiant i'r cymunedau lleol hynny yr effeithir fwyaf arnynt gan gynigion datblygu o'r fath. Gall hyn gynnwys manteision ariannol ar ffurf cymhorthdal biliau cyfleustodau, cyfraniadau tuag at ddatblygu cyfleusterau cymunedol newydd, gwella'r rhai presennol, neu greu cyflogaeth leol yn ystod y cyfnodau adeiladu a gweithredu.

**5.3.99** Bydd yr Awdurdod, felly, yn annog ac yn hwyluso, lle bo'n briodol, defnyddio Cyfraniadau o'r fath gan Ddatblygwyr.

**5.3.100 Polisi RE2 Ynni Adnewyddadwy ac Ynni Carbon Isel mewn Datblygiadau Newydd**

**Polisi RE2**

**Ynni Adnewyddadwy ac Ynni Carbon Isel mewn Datblygiadau Newydd**

Anogir cynlluniau sy'n cysylltu â ffynonellau presennol o ynni adnewyddadwy, rhwydweithiau gwresogi ardal ac sy'n ymgorffori technoleg di-garbon/carbon isel ar y safle (gan gynnwys technolegau microgynhyrchu).

Bydd gofyn bod y cynigion canlynol yn cyflwyno Asesiad Ynni i bennu dichonoldeb y cynllun a, lle gwelir ei fod yn ymarferol bosibl, byddai gofyn iddynt roi'r cynllun ar waith:

(a) Datblygiad preswyl ar gyfer 100 annedd neu fwy;

(b) Datblygiad gydag arwynebedd llawr o 1000 m sg neu fwy.

**5.3.101** Anogir cynigion datblygu sy'n ymgorffori cynlluniau sy'n cynhyrchu ynni adnewyddadwy ac ynni carbon isel. Mae'r Awdurdod wedi cwblhau 'Asesiad Ynni Adnewyddadwy' sy'n gwerthuso'r posibiliadau o fewn Castell-nedd Port Talbot i gynhyrchu trydan a gwres trwy amrywiol dechnolegau ynni adnewyddadwy.

**5.3.102** Lle bo hynny'n briodol, bydd angen i geisiadau datblygu gael eu cyflwyno gydag 'Asesiad Ynni' sy'n ymchwilio i'r posibiliadau o ran ymgorffori cyfarpar di-garbon a charbon isel ar y safle, a sefydlu cysylltiadau â ffynonellau presennol o ynni adnewyddadwy. Dylid archwilio hefyd gyfleoedd i gysylltu â rhwydweithiau gwresogi ardal a, lle bo'n briodol, rhannu ynni adnewyddadwy gyda'r cyhoedd ehangach.

**5.3.103** Bydd gofyn bod yr asesiad yn nodi sut gall y cynnig wneud cyfraniad at gynyddu lefelau'r ynni a gynhyrchir o ffynonellau adnewyddadwy a charbon isel. Yn sgîl eu graddfa a'r posibilrwydd o gyrchu gwres gwastraff, gallai cynigion datblygu yng Nglannau'r Harbwr a Bae Baglan ym Mhort Talbot gyflwyno cyfleoedd sylweddol i ddatblygu cynlluniau o'r fath.

**5.3.104** Cyflwynir manylion pellach am y gofynion hyn yn y Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel.

**Gwastraff**

**5.3.105 Polisi Strategol SP19 Rheoli Gwastraff**

**Polisi Strategol SP19**

**Rheoli gwastraff**

Darperir ar gyfer sefydlu rhwydwaith integredig o gyfleusterau rheoli gwastraff trwy'r mesurau canlynol:

1. Parhau i drin y deilliannau gwastraff yn y Ganolfan Adennill Deunyddiau ac Ynni;
2. Nodi safleoedd a ffafrir ar gyfer capasiti trin gwastraff oddi mewn i adeiladau;
3. Parhau i waredu gwastraff gweddilliol nad yw'n beryglus a gwastraff anadweithiol ar Safle Tirlenwi Pwllfawatkin;
4. Sicrhau bod darpariaeth ar gyfer rheoli gwastraff mewn modd cynaliadwy ym mhob datblygiad newydd.

**Amcan y CDLl: OB 20**

**5.3.106** Yn unol â chanllawiau cenedlaethol, nod y strategaeth yw mabwysiadu dull cynaliadwy o reoli gwastraff a chyfrannu at lunio darpariaeth ar gyfer rhwydwaith integredig digonol o gyfleusterau rheoli gwastraff.

**5.3.107** O ran capasiti trin gwastraff, bydd y Ganolfan Adennill Deunyddiau ac Ynni (MREC) yn parhau i drin cyfran sylweddol o ddeilliannau gwastraff y Fwrdeistref Sirol. Nodir y safle ar y Map o'r Cynigion.

**5.3.108** Mae datblygiadau ym myd technoleg a chyflwyno deddfwriaeth, polisïau ac arferion newydd yn golygu nad yw llawer o gyfleusterau rheoli gwastraff / adennill adnoddau modern yn edrych yn wahanol i unrhyw adeilad diwydiannol arall ar y tu allan, ac ar y tu mewn maent yn cynnwys prosesau diwydiannol neu weithgareddau cynhyrchu ynni nad ydynt yn wahanol i lawer o brosesau diwydiannol modern eraill o ran eu gweithrediad neu eu heffaith. Am y rheswm hwn, bernir bod llawer o safleoedd cyflogaeth 'diwydiant cyffredinol' defnydd tir dosbarth B2 presennol yn lleoliadau addas ar gyfer y genhedlaeth newydd o gyfleusterau trin gwastraff mewn adeiladau.

**5.3.109** Er bod potensial i ddatblygiadau cysylltiedig â gwastraff ddigwydd ar unrhyw safleoedd cyflogaeth B2 a restrwyd o dan Bolisïau EC1 ac EC2, nodir lleoliadau a ffafrir y cyfeirir cynigion atynt ar gyfer cyfleusterau trin gwastraff newydd mewn adeiladau. Mae'r CDLl hefyd yn darparu meini prawf clir yr asesir pob cynnig yn y dyfodol yn eu herbyn.

**5.3.110** O ran tirlenwi, bydd gwaredu gwastraff gweddilliol nad yw'n beryglus a gwastraff anadweithiol yn parhau ar Safle Tirlenwi Pwllfawatkin, a nodir y safle ar y Map o'r Cynigion. Mae'r capasiti sy'n weddill ar y safle yn ddigonol i ddarparu ar gyfer y galw a ragwelir yn awr ac yn y dyfodol dros gyfnod y Cynllun ac wedi hynny. Gwrthsefir, felly, ddatblygu rhagor o safleoedd tirlenwi.

**5.3.111** Mae'r polisi hefyd yn ceisio sicrhau bod datblygiadau newydd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer storio, ailgylchu a rheoli gwastraff. Bydd hyn yn annog lleihau gwastraff, ei ailgylchu, ei gompostio, a'i wahanu yn y ffynhonnell. Bydd lleiafu neu ailddefnyddio gwastraff

a gynhyrchwyd wrth ddatblygu'r safle, gan gynnwys gwastraff dymchwel, yn lleihau swm y gwastraff y mae'n rhaid ei reoli a'i waredu yn y pen draw.

**5.3.112 Polisi W1 Cyfleusterau Trin Gwastraff mewn Adeiladau**

**Polisi W 1**

**Cyfleusterau Trin Gwastraff mewn Adeiladau**

1. Bydd darpariaeth ar gyfer cyfleusterau trin gwastraff newydd mewn adeiladau yn cael ei ffafrio ar y safleoedd canlynol:

| Cyfeirnod | Safle |
|---|---|
| W1/1(a) | Bae Baglan |
| W1/1(b) | Cyffordd 38 (yr M4), Margam |
| W1/1(c) | Ystâd Ddiwydiannol Cynffig, Port Talbot |

2. Ni chaniateir cynigion ar gyfer trin, prosesu, storio a dosbarthu gwastraff ond pan fodlonir yr holl feini prawf canlynol, lle bônt yn berthnasol:

   (a) Mae'r cynnig yn adlewyrchu trefn blaenoriaeth yr hierarchaeth wastraff gymaint â phosibl;

   (b) Cyflawnir y cynnig oddi mewn i adeilad a godwyd at y diben neu adeilad presennol a addaswyd yn briodol, oni ellir dangos bod rhaid cyflawni rhan neu'r cyfan o'r gwaith arfaethedig yn yr awyr agored;

   (c) Gellir dangos na fyddai'r datblygiad yn peryglu diogelwch ar y priffyrdd;

   (d) Dangosir bod modd cymryd mesurau i leihau i lefelau derbyniol, a lle bo modd, osgoi difrod neu aflonyddu ar yr amgylchedd ac amwynder defnyddiau tir cymdogol neu eiddo unigol;

   (e) Cyflwynir cynigion rheoli safle priodol, derbyniol ar gyfer holl gyfnod y datblygiad.

   (f) Cefnogir y cynnig gan Asesiad Cynllunio Gwastraff priodol.

**5.3.113** Mae'r polisi'n nodi dewis o safleoedd a ffafrir fel rhai sy'n addas ar gyfer cyfleusterau trin gwastraff mewn adeiladau sydd â chapasiti i wasanaethu'r angen rhanbarthol (h.y. mwy nag un ardal awdurdod lleol) yn ogystal â'r angen lleol. Nodir y safleoedd ar y Map o'r Cynigion.

**5.3.114** At ddibenion y polisi hwn, mae'r cyfleusterau mewn adeiladau'n cynnwys compostio mewn llestr, triniaeth thermol yn cynnwys hylosgi gan adennill ynni, pyrolysis, nwyeiddio, treuliad anaerobig, triniaeth fecanyddol a biolegol a chyfleusterau ailgylchu deunyddiau.

**5.3.115** Mae'r safleoedd a ffafrir yn cynnig tir sydd ar gael neu safleoedd gwag, isadeiledd da ar y safle, agosrwydd at yr M4/y rhwydwaith ffyrdd strategol a phosibiliadau o ran cyd-leoli cyfleusterau ynni o wastraff a defnyddiau tir eraill sy'n defnyddio ynni. Mae'r tir sydd ar gael ar y safleoedd yn darparu ystod o leiniau gwahanol faint a fydd, gyda'i gilydd, yn ddigonol i ddarparu ar gyfer yr anghenion trin gwastraff mewn adeiladau a ragwelir yn y dyfodol ac anghenion pob math arall o dwf cyflogaeth a ragwelir dros gyfnod y Cynllun.



**5.3.116** Yn sgîl agosrwydd cymharol y safleoedd i Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Cors Crymlyn ac ACA Cynffig, mae'n debygol y bydd angen Arfarniad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC) ar lefel prosiect i gyd-fynd ag unrhyw gynnig datblygu. Bydd angen rhoi sylw arbennig i'r angen am gyfyngu ar allyriadau er mwyn sicrhau nad oes effaith sylweddol ar y dynodiadau dan sylw.

**5.3.117** Mae'r polisi hefyd yn cyflwyno meini prawf ar gyfer asesu pob cais am drin, prosesu, storio a dosbarthu gwastraff, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â datblygiadau newydd ac estyniadau i weithrediadau sydd eisoes yn bodoli.

**5.3.118** Bydd llawer o safleoedd cyflogaeth / ardaloedd diwydiannol presennol yn lleoliadau addas ar gyfer y genhedlaeth newydd o gyfleusterau trin gwastraff mewn adeiladau. Fodd bynnag, mae rhai mathau o gyfleusterau rheoli gwastraff yn anaddas ar gyfer lleoliadau o'r fath yn sgîl y gofynion lle a'u hanghydnawsedd â defnyddiau cymdogol (e.e. compostio rhenciau agored a gweithrediadau tirlenwi).

**5.3.119** Rhaid i gynigion datblygu ddangos bod y broses drin yn adlewyrchu trefn blaenoriaeth yr hierarchaeth wastraff gymaint â phosibl. Bydd yr ystyriaeth a roddir i'r hierarchaeth yn cael ei phwyso a'i mesur yn erbyn yr ystyriaethau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ehangach sy'n berthnasol i'r cynnig. Yn unol â pholisi cenedlaethol, rhoddir sylw arbennig hefyd i sut mae cynigion yn cydweddu â chysyniad y Gosodiad Priodol Agosaf ac egwyddorion Hunangynhaliaeth.

**5.3.120** Yn achos cyfleusterau ar raddfa ranbarthol, rhaid i gynigion ddangos bod gan y lleoliad gysylltiad agos â choridorau trafnidiaeth allweddol, ei fod yn elwa o fynediad iddynt a'i fod, lle bynnag y bo hynny'n ymarferol, yn defnyddio dulliau trafnidiaeth cynaliadwy megis y rheilffordd neu ddŵr. Dylai cynigion ddangos hefyd bod cyfleoedd i gydleoli a rhwydweithio cyfleusterau YoW gyda defnyddiau tir sy'n defnyddio ynni megis systemau gwresogi dosbarth neu ddefnyddwyr ynni diwydiannol mawr wedi cael eu harchwilio'n llawn.

**5.3.121** Yn unol â chanllawiau cenedlaethol, bydd rhaid cael Asesiad Cynllunio Gwastraff (WPA) i gefnogi pob cais am gyfleuster gwastraff a ddosbarthir fel cyfleuster gwaredu, adennill neu ailgylchu. Dylai'r WPA fod yn briodol ac yn gymesur ar gyfer natur, maint a graddfa'r datblygiad a gynigir, gan gynnwys yr holl wybodaeth berthnasol.

**5.3.122** Bydd Asesiad Effaith ar Iechyd (AEI) yn ofynnol, lle bo hynny'n briodol. Mae'n debygol y bydd hyn yn ffurfio rhan o unrhyw Ddatganiad Amgylcheddol a gyflwynir gyda'r cynnig.

**5.3.123** Bydd angen i bob cynnig ddangos na fyddent yn achosi effeithiau annerbyniol i'r amgylchedd nac i amwynder trigolion neu gymunedau lleol. Rhoddir sylw arbennig i'r effaith bosib ar gadwraeth natur a buddiannau bywyd gwyllt y safle a'r tir cyfagos, llygredd neu aflonyddu ar ddŵr daear neu arwyneb ac aer, mynediad a'r traffig a gynhyrchir ar y ffordd i'r safle ac oddi yno, a'r potensial i greu sŵn, llwch, dirgryniad ac arogl yn sgîl y gweithrediad.

**5.3.124 Polisi W2 Gollwng Gwastraff Anadweithiol ar Dir Amaethyddol**

**Polisi W2**
**Gollwng Gwastraff Anadweithiol ar Dir Amaethyddol**

Bydd cynigion ar gyfer gollwng gwastraff anadweithiol ar dir amaethyddol yn cael eu caniatáu dim ond pan fodlonir yr holl feini prawf canlynol, lle bônt yn berthnasol:

1. Gellir dangos nad oes cyfleoedd ailddefnyddio neu ailgylchu ymarferol ar gyfer y cyfryw ddeunydd;
2. Gellir dangos bod y cynnig yn angenrheidiol at ddibenion amaeth, bod y deunydd gwastraff yn addas at y diben, ac y defnyddir yr isafswm deunydd i gyflawni'r canlyniad terfynol gofynnol;
3. Gellir dangos y byddai nodweddion amaethyddol y tir yn cael eu gwella'n sylweddol trwy ollwng y gwastraff, a bod ffurf derfynol y tir wedi'i dirweddu'n briodol ac yn cydweddu â lefelau'r tir o amgylch ar hyn o bryd;
4. Gellir cyflawni mesurau i leihau i lefelau derbyniol, a lle bo modd osgoi, difrod ac aflonyddu ar yr amgylchedd ac amwynder defnyddiau tir cymdogol neu eiddo unigol.



**5.3.125** Mae deunyddiau anadweithiol yn adnoddau gwerthfawr, ac felly dylid ymchwilio i'r cyfleoedd ar gyfer eu hailddefnyddio a'u hailgylchu. Gall gwastraff anadweithiol gynnwys deunydd megis pridd, briciau a choncrid.

**5.3.126** Yn aml gellir derbyn cynigion ar gyfer gollwng gwastraff anadweithiol ar dir amaethyddol at ddibenion adennill tir a/neu i hwyluso sylfaen ar gyfer datblygiad adeiledig. Gan nad yw deunyddiau anadweithiol yn cael eu hailddefnyddio a'u hailgylchu, mewn llawer o achosion, i sicrhau'r defnyddiau mwyaf buddiol, mae'r polisi'n ceisio sefydlu dull cynaliadwy o ymdrin â gweithgareddau o'r fath er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd ac amwynder defnyddiau tir cymdogol ac eiddo unigol yn cael eu hamddiffyn, a bod ailddefnyddio deunydd o'r fath yn cael ystyriaeth lawn.

**5.3.127** Bydd angen i gynigion ddangos na fyddent yn achosi unrhyw effeithiau annerbyniol ar yr amgylchedd nac ar amwynder trigolion neu gymunedau lleol. Rhoddir sylw arbennig i'r effaith bosibl ar y tirlun, cadwraeth natur a buddiannau bywyd gwyllt y safle a thir cyfagos, llygredd neu aflonyddu ar y cyflenwad dŵr daear neu arwyneb neu ddraeniad, ardaloedd o bwysigrwydd hanesyddol, diwylliannol ac archaeolegol, tebygolrwydd cynhyrchu llygredd neu halogiad, llifogydd a pherygl llifogydd, mynediad a'r traffig a gynhyrchir ar y ffordd i'r safle ac oddi yno, a'r potensial i greu sŵn, llwch a dirgryniad yn sgîl y dulliau gweithio.

**5.3.128 Polisi W3 Rheoli Gwastraff mewn Datblygiad Newydd**

**Polisi W3**
**Rheoli Gwastraff mewn Datblygiad Newydd**

Bydd angen i gynigion ar gyfer datblygiadau newydd adeiledig ddangos eu bod wedi darparu ar gyfer dylunio, cynllun, storio a rheoli'r gwastraff a gynhyrchir gan y datblygiad yn ystod y cyfnod adeiladu a phan gaiff ei feddiannu.

Bydd gofyn bod y cynigion canlynol yn cynhyrchu Cynlluniau Rheoli Gwastraff Safle:

(a) Datblygiad preswyl ar gyfer 50 annedd neu fwy;

(b) Datblygiad diwydiannol neu fasnachol a fyddai'n cynhyrchu dros 1000 tunnell o wastraff y flwyddyn;

(c) Datblygiad a fyddai'n cynhyrchu gwastraff peryglus.

**5.3.129** Mae'r polisi hwn yn ymwneud â phob datblygiad adeiledig newydd, yn cynnwys rhai preswyl, diwydiannol, masnachol a manwerthu. Mae ystyried anghenion rheoli gwastraff unrhyw gynnig yn gynnar yn hanfodol, er mwyn sicrhau bod cynllunio ar gyfer gwastraff yn cael ei ystyried o'r cychwyn cyntaf.

**5.3.130** Lle bo hynny'n briodol, bydd Cynlluniau Rheoli Gwastraff Safle yn ofynnol, a fyddai'n nodi sut yr ymdrinnir â'r gwastraff. Bydd angen cynnal asesiad o'r gwastraff a gynhyrchir gan y datblygiad ar adeg y cais cynllunio.

## 5.4 Trafnidiaeth a Mynediad

***"Cyflawni Hygyrchedd Cynaliadwy"***

**Trafnidiaeth**

**5.4.1 Polisi Strategol SP20 Y Rhwydwaith Trafnidiaeth**

**Polisi SP20**
**Y Rhwydwaith Trafnidiaeth**

Datblygir y system a'r isadeiledd trafnidiaeth mewn modd diogel, effeithlon a chynaliadwy trwy gyflawni'r mesurau canlynol:

1. Rhoi prosiectau trafnidiaeth allweddol a chynlluniau ategol a nodwyd yn y Cynllun Trafnidiaeth ar y Cyd ar waith;
2. Hybu cysylltedd a mynediad at gludiant cyhoeddus trwy wella'r cyfleusterau bws a rheilffordd;
3. Cefnogi gwelliannau i'r rhwydwaith cerdded a beicio;
4. Hyrwyddo cynlluniau parcio a rhannu ar hyd llwybrau priffyrdd allweddol;
5. Hyrwyddo defnydd effeithlon a chysylltiadau â'r rhwydwaith trafnidiaeth trwy nodi hierarchaeth ffyrdd;
6. Cyfyngu ar ddatblygiadau a fyddai'n cael effaith annerbyniol ar ddiogelwch ar y priffyrdd;
7. Gofyn bod cynigion datblygu'n cael eu dylunio i ddarparu mynediad diogel, effeithlon, a hybu trafnidiaeth gynaliadwy;
8. Gofyn bod darpariaeth briodol o ran parcio;
9. Hwyluso symud nwyddau mewn modd heblaw ar y ffyrdd.

**Amcanion y CDLl: OB 2, OB 21 ac OB 22**

**5.4.2** Nod y strategaeth yw cefnogi a datblygu'r rhwydwaith trafnidiaeth er mwyn hwyluso symud pobl a nwyddau yn ddiogel ac yn effeithiol o fewn y Fwrdeistref Sirol, lleihau dibyniaeth ar geir preifat, a gwella cysylltedd ag ardaloedd cymdogol.

**5.4.3** Bydd gweithredu prosiectau trafnidiaeth allweddol yn cynnwys Ffordd yr Harbwr (FfDdY), Ffordd Fynediad Ddeheuol Coed Darcy a'r canolbwynt trafnidiaeth integredig ym Mhort Talbot yn helpu i hwyluso'r twf demograffig ac economaidd a ragwelir, yn ogystal â chaniatáu defnydd mwy effeithlon o'r rhwydwaith.

**5.4.4** Er mwyn lleihau'r angen am deithio a chyfyngu ar effeithiau negyddol twf traffig, bydd y CDLl yn helpu i ddatblygu rhwydwaith cludiant cyhoeddus a llwybrau beicio a cherdded sydd wedi'i ddylunio'n ystyriol, o ansawdd uchel, ac sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda, o fewn cymunedau a rhyngddynt. Bydd y Cynllun yn cefnogi gweithrediad llwybrau cerdded a beicio newydd arfaethedig ac yn rhoi ystyriaeth ffafriol i gynigion a fydd yn gwella'r rhwydwaith cerdded a beicio a chludiant cyhoeddus a chymunedol.

**5.4.5** Bydd gofyn ymgorffori darpariaeth barcio ar gyfer cerbydau modur a beiciau mewn datblygiadau, gan ganolbwyntio'n arbennig ar ddiwallu anghenion trigolion. Ar ben hynny, bydd cyfleusterau parcio a rhannu'n darparu cyfle i rannu ceir, gan leihau'r traffig ar y ffyrdd at ddibenion hamdden a chymudo.

**5.4.6** Mae pennu hierarchaeth ffyrdd yn nodi'r llwybrau pwysicaf yn y Fwrdeistref Sirol, gan restru'r prif goridorau lle ceir symud, ac amlygu ffyrdd lleol sydd â phwysigrwydd arwyddocaol.

**5.4.7** Mae'r rhwydwaith Cynradd yn cynnwys traffordd yr M4, Cefnffordd yr A465 a'r A483. Dyma'r llwybrau sy'n hanfodol os yw Castell-nedd Port Talbot i fedru gweithredu'n rhanbarthol a nhw yw'r prif rwydwaith ar gyfer symud pobl a nwyddau, gan eu bod yn cludo traffig sylweddol. Mae'r rhwydwaith Craidd yn cynnwys yr A48, yr A4109, yr A4107, yr A474, yr A4067, yr A4221 a'r A4069. Nodir y llwybrau hyn yn y Cynllun Trafnidiaeth ar y Cyd fel Rhwydwaith Rhanbarthol o Briffyrdd Strategol, a nhw yw'r prif ffyrdd sy'n darparu llwybrau allweddol trwy'r Fwrdeistref Sirol.

**5.4.8** Mae gwasanaeth da hefyd yng Nghastell-nedd Port Talbot o ran dewisiadau trafnidiaeth heblaw ffyrdd. Mae'r brif lein reilffordd o Lundain i Abertawe yn darparu cysylltiadau da ar draws De Cymru, ac mae i gael ei huwchraddio a'i thrydaneiddio yn ystod cyfnod y Cynllun, gan olygu y gallai'r gwasanaethau wella, tra bydd y cynigion ar gyfer Gorsaf Port Talbot Parkway a'r gyfnewidfa drafnidiaeth yn gwella teithio lleol a rhanbarthol ymhellach. Mae posibiliadau sylweddol o ran symud nwyddau gan ddefnyddio'r harbwr, y dociau, glanfeydd yr afon a'r rheilffordd, a fydd yn helpu i leihau tagfeydd ar y ffyrdd a'r effeithiau ar yr amgylchedd. Cefnogir dewisiadau heblaw trafnidiaeth ar y ffyrdd lle bynnag y bo modd.

**5.4.9 Polisi TR1 Cynigion Trafnidiaeth**

**Polisi TR 1**
**Cynigion Trafnidiaeth**

Nodir y cynlluniau trafnidiaeth allweddol canlynol:

**Gwelliannau i'r Rhwydwaith Priffyrdd**

| Cyfeirnod | Safle |
|---|---|
| TR1/1 | Ffordd Gyswllt Parc Ynni Baglan |
| TR1/2 | Ffordd Fynediad Ddeheuol Coed Darcy |
| TR1/3 | Ffordd Amazon (Cyfnod 2) |
| TR1/4 | Gwelliannau i Gyffordd 43 o'r M4 |
| TR1/5 | Ffordd yr Harbwr (FfDdY) |

**Gwelliannau i'r Orsaf Cludiant Cyhoeddus**

| Cyfeirnod | Safle |
|---|---|
| TR1/6 | Canolbwynt Trafnidiaeth Integredig (Port Talbot) |

**Llwybrau Cerdded a Beicio**

| Cyfeirnod | Safle |
|---|---|
| TR1/7 | Llwybr Beicio Dyffryn Aman |
| TR1/8 | Trywydd Cwm Afan (Port Talbot i Gwm Afan) |

**Safle Parcio a Rhannu**

| Cyfeirnod | Safle |
|---|---|
| TR1/9 | Cyffordd 38 (yr M4), Margam |

Gwrthsefir unrhyw gynigion a fyddai'n atal gweithrediad y cynlluniau hyn, neu'n cael effaith niweidiol arnynt.

***Gwelliannau i'r Rhwydwaith Priffyrdd***

**5.4.10** Bydd y cynlluniau priffyrdd hyn yn darparu gwelliannau i rwydwaith priffyrdd Castell-nedd Port Talbot ac yn cefnogi twf demograffig ac economaidd yn y dyfodol. Bydd gweithredu cynlluniau o'r fath yn helpu i liniaru tagfeydd ar y ffyrdd, yn gwella hygyrchedd, ac yn hanfodol wrth ddarparu isadeiledd priodol i gynnal nifer o safleoedd cyflogaeth, preswyl ac adnewyddu'r Cynllun.

**5.4.11** Mae ffordd gyswllt newydd Parc Ynni Baglan yn rhan o'r Coridor Bysiau rhwng Port Talbot ac Abertawe. Mae'r prosiect hwn yn creu ffordd drwodd i gysylltu dau gyfnod Parc Ynni Baglan, ac ar yr un pryd yn cadw'r cysylltiad nwyddau ar y rheilffordd ac yn gwella'r isadeiledd cludiant cyhoeddus, fel bod modd i wasanaethau lifo trwy ddwy ran y safle. Bydd y prosiect hefyd yn golygu bod modd i'r Parc gyflawni ei botensial cyflogaeth, a dod yn fwy deniadol i ddarpar fusnesau, gan ddarparu isadeiledd a allai fod o gymorth i dwf economaidd a chyflogaeth yn yr ardal hon yn y dyfodol.

**5.4.12** Bydd adeiladu Ffordd Fynediad Ddeheuol Coed Darcy yn darparu cysylltiad rhwng Coed Darcy a Ffordd Fabian, ac yn golygu bod modd cyflawni'r safle adfywio strategol yng Nghoed Darcy mewn modd effeithiol ac effeithlon.

**5.4.13** Adeiladu Cyfnod 2 Ffordd Amazon fydd y cam olaf yn y gwaith o adeiladu Ffordd Amazon. Bydd y ffordd yn gweithredu fel prif ddolen cludiant cyhoeddus rhwng Pentref Trefol Coed Darcy a Chanol Dinas Abertawe.

**5.4.14** Mae angen cyfres o welliannau graddol i Gyffordd 43 (yr M4) i hwyluso Datblygiad Pentref Trefol Coed Darcy, a bydd cyflwyno'r gwelliannau'n raddol yn darparu capasiti ychwanegol ar gyfer pob lefel olynol yn y datblygiad. Enghreifftiau o'r gwelliannau hyn yw ychwanegu lonydd at y lôn gerbydau o amgylch y cylchfan ac wrth ymuno ac ef, a rheoli'r cyffyrdd o amgylch y cylchfan â signalau.

**5.4.15** Ffordd yr Harbwr (FfDdY) yw'r prosiect trafnidiaeth mwyaf yng Nghymru ers adeiladu'r M4, ac mae'n cynnwys creu dolen gyswllt 4.8km o gyffordd 38 yr M4 ym Margam i mewn i Bort Talbot a Glannau'r Harbwr. Bydd y gwaith adeiladu hwn yn helpu i leihau tagfeydd, lleihau nifer y teithiau lleol ar yr M4, a darparu dolen gyswllt hanfodol a fydd yn medru hwyluso twf yn y dyfodol.

***Gwelliannau i'r Orsaf Cludiant Cyhoeddus***

**5.4.16** Mae gan Gastell-nedd Port Talbot rwydwaith trenau a bysiau sefydledig, er bod rhai elfennau o'r rhwydwaith bysiau wedi'u lleihau yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn sgîl diffyg cyllid. Mae'r cynllun cyfnewidfa gludiant arfaethedig ym Mhort Talbot yn cynnwys gwelliannau a newidiadau i Orsaf Port Talbot Parkway a datblygu canolbwynt trafnidiaeth integredig er mwyn darparu cyfnewidfa ar gyfer gwahanol ddulliau cludiant.

***Llwybrau Cerdded a Beicio***

**5.4.17** Diogelir tir ar gyfer creu Llwybr Beicio Dyffryn Aman lle bo hynny'n gorwedd o fewn y Fwrdeistref Sirol. Mae'r cynllun hwn yn rhan o brosiect ar y cyd gan Gastell-nedd Port Talbot a Sir Gaerfyrddin, sy'n golygu cwblhau trywydd cerdded a beicio gwledig rhwng Cwmllynfell a Rhydaman.

**5.4.18** Bydd Trywydd Cwm Afan yn darparu rhwydwaith diogel, deniadol o lwybrau cerdded a beicio, gan gysylltu Glan Môr Aberafan â Phort Talbot, Cwmafan, Pontrhydyfen, Parc Coedwig Afan a chymunedau Cymer a Glyncorrwg. Bydd y traciau hyn, ynghyd â'r rhwydwaith arfaethedig o lwybrau a phontydd, yn golygu bod modd i drigolion ac ymwelwyr deithio rhwng cyrchfannau allweddol, cyrchu gwasanaethau, a hefyd byddant yn ddolen i ddwy gyrchfan allweddol i dwristiaid, Coedwig Afan a Glan Môr Aberafan. Mae gwaith ar rai rhannau wedi'i gynnwys ym Mhrosiect Connect 2 Sustrans.

***Safle Parcio a Rhannu***

**5.4.19** Darparwyd ar gyfer cyfleuster Parcio a Rhannu yng nghilfan yr A48 wrth Gyffordd 38 yr M4, Margam. Gall cyfleusterau Parcio a Rhannu fod yn gyfle i ddefnyddwyr ceir gwrdd, parcio a pharhau â'u taith mewn un car. Gall darpariaeth o'r fath leihau llygredd a thagfeydd, a darparu manteision megis costau tanwydd is i ddefnyddwyr, ac felly ddarparu mwy o ddewis a hygyrchedd i drigolion. Fodd bynnag, ni fydd y cyfryw gynlluniau'n ddichonadwy ond os gellir eu darparu mewn amgylchedd diogel a sicr.

**5.4.20** Mae gweithrediad effeithiol y cynllun yn bwysig ar gyfer twf Castell-nedd Port Talbot yn y dyfodol, ac felly ni chaniateir unrhyw gynigion datblygu a fyddai'n llesteirio neu'n cael unrhyw effaith negyddol ar y cynllun.

**5.4.21 Polisi TR2 Dylunio Datblygiad Newydd a Mynediad iddo**

**Polisi TR2**
**Dylunio Datblygiad Newydd a Mynediad iddo**

Ni chaniateir cynigion datblygu ond pan fodlonir yr holl feini prawf canlynol, lle bônt yn berthnasol:

1. Nid yw'r datblygiad yn peryglu defnydd diogel, effeithiol ac effeithlon o'r rhwydwaith priffyrdd ac nid yw'n cael effaith niweidiol ar ddiogelwch ar y priffyrdd nac yn creu lefelau annerbyniol o ran cynhyrchu traffig;
2. Darperir lefelau priodol o gyfleusterau parcio a beicio ac mae'r trefniadau mynediad ar gyfer y safle'n caniatáu ar gyfer symudiadau diogel unrhyw gerbydau gwasanaeth sy'n gysylltiedig â'r defnydd arfaethedig;
3. Gellir cyrraedd y datblygiad trwy ystod o ddulliau teithio, gan gynnwys cludiant cyhoeddus a llwybrau cerdded a beicio diogel;
4. Darperir Asesiadau Trafnidiaeth a Chynlluniau Teithio ar gyfer datblygiadau sy'n debygol o greu cryn dipyn o draffig.

**5.4.22** Bydd gofyn bod datblygiadau newydd yn dangos na fyddant yn cael effaith niweidiol ar y rhwydwaith priffyrdd presennol ac na fydd traffig na thagfeydd yn codi i lefelau annerbyniol.

**5.4.23** O ran y rhwydwaith Cynradd, ni fydd mynediad newydd uniongyrchol fel arfer yn briodol oni ellir dangos bod rhaid cael mynediad newydd i hwyluso mentrau adfywio ehangach, a bydd disgwyl i unrhyw ddatblygiad ddangos na fydd y cynnig yn amharu ar lif y traffig na diogelwch ar y briffordd. O ran y rhwydwaith Craidd, yn gyffredinol bydd cyfyngu ar ddarparu parcio ar y stryd, mynediad newydd uniongyrchol o'r blaen, a symudiadau troi, er sicrhau diogelwch ar y briffordd a symudiad effeithlon traffig.

**5.4.24** Gyda golwg ar greu cymunedau mwy cynaliadwy, dylai fod modd cyrraedd cynigion datblygu newydd mewn sawl modd, nid dim ond mewn ceir preifat. Mae cerdded, beicio a chludiant cyhoeddus yn chwarae rhan bwysig o ran lleihau nifer y teithiau byrrach a wneir yn y car a chyfrannu at nod y Cynllun o ddarparu rhwydwaith trafnidiaeth cynaliadwy a mwy integredig. Lle bo hynny'n briodol, bydd gofyn bod datblygiadau newydd yn dangos sut maent yn cysylltu ag aneddiadau cyfagos sydd eisoes yn bodoli.

**5.4.25** Mae'r Awdurdod wedi pennu safonau parcio a mynediad y bydd gofyn i ddatblygiadau eu bodloni, yn unol â Safonau Parcio Cymdeithas Syrfëwyr Sirol Cymru 2008. Yn sgîl natur a nodweddion amrywiol y Fwrdeistref Sirol, mae'r Awdurdod wedi rhannu'r ardal yn barthau parcio, gyda safonau parcio penodol ar gyfer pob parth. Ceir manylion llawn yn y Canllawiau Cynllunio Atodol.

**5.4.26** Bydd gofyn bod datblygiadau mwy yn cyflwyno Asesiad Trafnidiaeth, yn unol â'r canllawiau cenedlaethol. Bydd angen i'r Asesiad Trafnidiaeth nodi beth fydd effeithiau trafnidiaeth y datblygiad, a chyflwyno mesurau ar gyfer ymdrin â'r effeithiau a ragwelir ar drafnidiaeth, gan nodi sut gellir lliniaru unrhyw effeithiau negyddol.

**5.4.27 Polisi TR3 Diogelu Isadeiledd Rheilffordd nad yw'n cael ei Ddefnyddio**

**Polisi TR3**

**Diogelu Isadeiledd Rheilffordd nad yw'n cael ei Ddefnyddio**

Diogelir isadeiledd rheilffordd nad yw'n cael ei ddefnyddio neu sy'n ddiangen, a gwrthsefir datblygiad a fyddai'n rhwystro ei ailagor neu ei ailddefnyddio at ddibenion trafnidiaeth, oni ellir dangos nad yw ailagor neu ailddefnyddio o'r fath yn ymarferol nac yn angenrheidiol.

**5.4.28** Mae gan Gastell-nedd Port Talbot nifer o leiniau rheilffordd diangen neu nad ydynt yn cael eu defnyddio, y gellid eu hailddatblygu yn goridorau trafnidiaeth. Yn unol â pholisi cynllunio cenedlaethol, bydd isadeiledd nad yw'n cael ei ddefnyddio yn cael ei ddiogelu lle gellid rhagweld yn rhesymol bod modd ei ailddefnyddio ar gyfer cludiant, neu lle mae'n briodol ei ddatblygu i greu llwybr cerdded a beicio. Ni chaniateir datblygiad a fyddai'n llesteirio ailagor neu ailddefnyddio posibl, oni ddangosir nad yw'r llwybr yn addas at ddefnydd cludiant yn y dyfodol.

**5.4.29 Polisi TR4 Diogelu Cyfleusterau Cludo Nwyddau**

**Polisi TR 4**

**Diogelu Cyfleusterau Cludo Nwyddau**

Diogelir y canlynol ar gyfer cludo nwyddau:

| Cyfeirnod | Safle |
|---|---|
| TR4/1 | Harbwr Llanw Port Talbot |
| TR4/2 | Dociau Port Talbot |
| TR4/3 | Glanfeydd Presennol a Phosibl |
| TR4/4 | Cysylltiadau Rheilffordd a Seidinau sydd eisoes yn bodoli |

Gwrthsefir cynigion a fyddai'n rhwystro defnyddio'r uchod at ddibenion trafnidiaeth, oni ellir dangos nad yw defnyddio'r llwybr i symud nwyddau yn ymarferol nac yn angenrheidiol.

**5.4.30** Yn sgîl cyfansoddiad daearyddol a diwydiannau hanesyddol y Fwrdeistref Sirol, mae gan Gastell-nedd Port Talbot amrywiaeth o ddulliau cludo nwyddau. Mae Harbwr Llanw Port Talbot, Dociau Port Talbot, glanfeydd Afon Nedd a nifer o gysylltiadau rheilffordd a seidinau yn gyfleusterau nwyddau pwysig sy'n weithredol yn y Fwrdeistref Sirol, a gellid eu defnyddio'n fwy ac mewn modd mwy amrywiol.

**5.4.31** Yn unol â pholisi cenedlaethol, mae'r polisi yn hybu integreiddio a chydlynu cynllunio defnydd tir a thrafnidiaeth, drwy sicrhau bod darpariaeth ddigonol ar gyfer storio a chyfleusterau prosesu mwynau ar gael yn y dociau a'r terfynellau rheilffordd. Nodir Harbwr Llanw Port Talbot, Dociau Port Talbot, y glanfeydd presennol a phosibl, a'r cysylltiadau rheilffordd a'r seidinau pwysig ar y Map o'r Cynigion. Diogelir y rhain, gan gydnabod eu rôl bwysig yn cynnal yr economi leol ac yn caniatáu cludo nwyddau mewn modd heblaw ar y ffyrdd, gan leihau tagfeydd ac allyriadau.

**5.4.32** Gwrthsefir unrhyw ddatblygiad a fyddai'n peryglu defnydd o harbwr, dociau, glanfeydd a chysylltiadau a seidinau rheilffordd Castell-nedd Port Talbot yn awr neu yn y dyfodol ar gyfer cludo nwyddau, oni ddangosir bod y llwybr yn anaddas ar gyfer cludiant.



## 5.5 Diwylliant a Threftadaeth

***"Parchu Unigrywiaeth"***

**Yr Amgylchedd Adeiledig a'r Dreftadaeth Hanesyddol**

**5.5.1 Polisi Strategol SP21 Yr Amgylchedd Adeiledig a'r Dreftadaeth Hanesyddol**

**Polisi Strategol SP21**
**Yr Amgylchedd Adeiledig a'r Dreftadaeth Hanesyddol**

Bydd yr amgylchedd adeiledig a'r dreftadaeth hanesyddol, lle bo hynny'n briodol, yn cael eu diogelu a'u gwella trwy gyflwyno'r mesurau canlynol:

1. Annog safonau dylunio o ansawdd uchel ym mhob cynnig datblygu;
2. Amddiffyn pyrth prifwythiennol rhag datblygiadau ymwthiol ac amhriodol;
3. Diogelu nodweddion o bwysigrwydd hanesyddol a diwylliannol;
4. Nodi'r safleoedd dynodedig canlynol fel bod modd eu hamddiffyn a'u gwella lle bo hynny'n briodol:
   (a) Tirluniau o Ddiddordeb Hanesyddol;
   (b) Parciau a Gerddi Hanesyddol;
   (c) Ardaloedd Cadwraeth;
   (d) Henebion Cofrestredig;
   (e) Adeiladau Rhestredig a'u cwrtil.

**Amcanion y CDLl: OB 2, OB 23 ac OB 24**

**5.5.2** Mae amgylchedd adeiledig a ffurf drefol Castell-nedd Port Talbot yn amrywiol ac yn unigryw, gyda nodweddion pwysig yn parhau o bob cyfnod, o gynhanes ymlaen, gan gynnwys bryngaerau a thwmpathau claddu o Oes yr Haearn, isadeiledd milwrol o oes y Rhufeiniaid, ac adeiladau eglwysig a thyddynod o'r cyfnod canoloesol.

**5.5.3** Mae tref Castell-nedd yn cadw cymeriad tref farchnad draddodiadol, tra bod prif gymeriad mwyafrif trefi a phentrefi eraill y Fwrdeistref Sirol yn deillio o dreftadaeth ddiwydiannol yr ardal, o waith mwyngloddio a gwaith metel y chwyldro diwydiannol cynnar hyd at ddiwydiannau dur a phetrogemegol graddfa fawr yr 20fed ganrif. Cydnabyddir treftadaeth hanesyddol yr ardal trwy ystod o ddynodiadau, a amddiffynnir gan mwyaf gan bolisïau cenedlaethol. O fewn y Fwrdeistref Sirol, mae dau Dirlun dynodedig o Ddiddordeb Hanesyddol, chwe Pharc a Gardd Hanesyddol, chwe Ardal Gadwraeth, 92 Heneb a 391 o Adeiladau Rhestredig.

**5.5.4** Oddi mewn i ardaloedd cadwraeth, bydd cynigion datblygu yn derbyn sylw yn unol â pholisi a chanllawiau cenedlaethol, sy'n cynnwys mesurau rheoli ychwanegol ynghylch dymchwel a chlirio coed, a gyflwynwyd yn Neddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990. Bydd y Cyngor yn paratoi arfarniad cymeriad ardal gadwraeth ar gyfer pob ardal gadwraeth, a fydd yn amlinellu'r elfennau sy'n cyfrannu at gymeriad arbennig neu ddiddordeb hanesyddol yr ardal, a bydd yn darparu fframwaith cadarn ar gyfer ei reoli a'i wella yn y dyfodol. Wrth ddelio gyda cheisiadau, rhoddir sylw llawn i effeithiau cynigion ar gymeriad yr ardal gadwraeth, fel y nodwyd yn yr Arfarniad perthnasol o'r Ardal Gadwraeth, gan geisio sicrhau bod yr holl gynigion yn cydweddu â'r angen am ddiogelu neu wella cymeriad, golwg a chyd-destun yr ardal, fel y'u nodwyd.

**5.5.5** Dros amser mae rôl a swyddogaeth aneddiadau wedi bod yn newid, wrth i lawer o ddiwydiannau sefydledig gael eu colli, ac yn sgîl hynny collwyd cymeriad ac adeiladau trawiadol, yn cynnwys siopau, capeli ac eglwysi y bu ganddynt rolau swyddogaethol pwysig, yn ogystal â rhai gweledol.

**5.5.6** Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r Fwrdeistref Sirol wedi denu ystod newydd o gyfleoedd cyflogaeth a diwydiant, yn cynnwys diwydiannau twristiaeth a gwasanaeth, gan arwain at batrymau datblygu newydd megis ystadau diwydiannol a pharciau busnes, yn enwedig ar hyd coridor yr arfordir. Mae'r amgylchedd naturiol hefyd yn parhau yn ffynhonnell bwysig o gyflogaeth, gyda datblygiadau mwynau ac ynni adnewyddadwy megis ffermydd gwynt yn cyflwyno mathau newydd o amgylchedd adeiledig, sy'n newid y tirlun.

**5.5.7** Mae pryderon hefyd fod ardaloedd o amgylch y prif fynedfeydd neu 'byrth' i'r Fwrdeistref Sirol wedi dioddef datblygu amhriodol sydd wedi creu delwedd waelach i'r ardal gyfan. Mae'r polisi strategol, felly, yn ceisio cadw a gwella amgylchedd adeiledig a threftadaeth y Fwrdeistref Sirol gyfan, gan gynnwys y 'pyrth' a nodwyd.



### **5.5.8** Polisi BE1 Dylunio

**Polisi BE1**
**Dylunio**

Disgwylir i bob cynnig datblygu arddangos dyluniad o ansawdd uchel sy'n rhoi ystyriaeth lawn i'r cyd-destun naturiol, hanesyddol a'r amgylchedd adeiledig, ac yn cyfrannu at greu mannau deniadol, cynaliadwy.

Ni chaniateir cynigion datblygu ond pan fodlonir yr holl feini prawf canlynol, lle bônt yn berthnasol:

1. Mae'n gwella ac yn cydweddu â golwg a chymeriad y safle, yr adeilad neu'r ardal o ran lleoliad, golwg, graddfa, uchder, crynswth a sut yr ymdrinnir â gweddluniau;
2. Mae'n parchu cyd-destun y safle a'i le yn y tirlun lleol, gan gynnwys ei effaith ar y pyrth prifwythiennol pwysig i mewn i'r Fwrdeistref Sirol, ei effeithiau ar y treflun a'r dreftadaeth leol o ran hanes a diwylliant, ac yn rhoi sylw i dopograffi'r safle a nenlinellau neu gribau amlwg;
3. Mae'n defnyddio deunyddiau priodol ar gyfer y cyd-destun ac yn ymgorffori tirweddu a sgrinio caled a meddal lle bo hynny'n briodol;
4. Ni fyddai'n cael effaith niweidiol sylweddol ar ddiogelwch y priffyrdd, amwynder meddianwyr tir cyfagos na'r gymuned;
5. Caiff nodweddion lleol pwysig (yn cynnwys adeiladau, amwynderau, mannau glas ac isadeiledd glas, bioamrywiaeth a chysylltedd ecolegol) eu cadw a'u gwella cyn belled ag y bo modd;
6. Mae'n cyflawni ac yn creu lleoedd a mannau cyhoeddus deniadol, diogel, gan roi sylw i egwyddorion 'Diogel trwy Ddyluniad' (gan gynnwys, lle bo hynny'n briodol, wyliadwriaeth naturiol, gwelededd, amgylcheddau wedi'u goleuo'n dda a mannau lle mae'r cyhoedd yn symud o gwmpas);
7. Mae'n chwarae rhan lawn yn y gwaith o gyflawni a gwella rhwydwaith trafnidiaeth a chyfathrebu integredig, gan hybu buddiannau cerddwyr, beicwyr a chludiant cyhoeddus, ac yn sicrhau cysylltiadau â'r gymuned o'u hamgylch sydd eisoes yn bodoli;
8. Mae'n defnyddio adnoddau, gan gynnwys tir ac ynni, mor effeithlon â phosibl trwy:
   (a) Gwneud y defnydd gorau a mwyaf effeithlon o'r tir sydd ar gael trwy sicrhau dwysedd priodol, gan roi sylw i gymeriad a golwg yr ardal, fel arfer isafswm o 35 annedd fesul hectar yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir neu isafswm o 30 annedd fesul hectar yn Ardal Strategaeth y Cymoedd;
   (b) Sicrhau nad yw cynllun a ffurf y datblygiad yn atal defnydd rhesymol o dir arall cyfagos;
   (c) Datblygu tir llwyd yn hytrach na thir glas lle bo modd;
   (d) Lleiafu natur agored adeiladau, ochr yn ochr â mwyafu'r enillion solar.
9. Mae ei systemau draenio wedi'u llunio i gyfyngu ar y dŵr ffo arwyneb a pherygl llifogydd, ac atal llygredd;
10. Mae cynllun a dyluniad y datblygiad yn enghraifft o ddylunio cynhwysol trwy sicrhau amgylcheddau di-rwystr, er mwyn caniatáu mynediad i bawb a sicrhau darpariaeth lawn i bobl ag anableddau.

**5.5.9** Mae dyluniad datblygiadau newydd yn ddylanwad pwysig ar gadwraeth a gwella cymeriad ardal, ac ar ansawdd bywyd pobl. Mae'r polisi'n ymdrin â phryderon a godwyd ynghylch dadfeilio a cholli cymeriad, ac amcanion y Cynllun ynghylch treftadaeth adeiledig a naturiol y Fwrdeistref Sirol. Ei nod yw sicrhau y bydd cynigion datblygu yn cydweddu â'r ardal yn gyffredinol ac yn ei gwella, gan gynnwys ei phyrth prifwythiennol, ei threfluniau, ei thirlun a'i morlun, ac yn cadw'r cymeriad presennol lle bo hynny'n ddymunol.

**5.5.10** 'Pyrth Prifwythiennol' yw'r ardaloedd hynny yn ymyl ffin y Fwrdeistref Sirol sy'n amlwg wrth gyrraedd Castell-nedd Port Talbot neu ymadael, ac maent yn helpu i ddiffinio cymeriad a delwedd yr ardal. Mae pryderon bod datblygiadau blaenorol yn yr ardaloedd hyn wedi cael effaith niweidiol ar olwg yr ardal leol, ac yn sgîl hynny, ar yr argraff gyntaf a greir ar ymwelwyr a delwedd gyffredinol y Fwrdeistref Sirol.

**5.5.11** Dadansoddwyd y prif lwybrau y mae pobl yn eu defnyddio i gyrraedd Castell-nedd Port Talbot ac ymadael. Ymhlith y llwybrau hynny mae'r M4 a'r brif lein reilffordd ym Margam yn y de-ddwyrain a Lôn-las yn y gogledd-orllewin, ar hyd yr A483 Ffordd Fabian o Abertawe a chefnffordd Blaenau'r Cymoedd, yr A465 yng Nglyn-nedd. Ymhlith y llwybrau eraill, llai pwysig, mae'r A474 a'r A4069 i mewn i Ddyffryn Aman, yr A4067 i mewn i Gwm Tawe, yr A4107 i mewn i Gwm Afan a llwybrau o Faesteg.

**5.5.12** Oddi mewn i ardaloedd y pyrth hyn, bydd gofyn bod datblygiadau newydd yn rhoi ystyriaeth lawn i'w heffaith weledol o'r prifwythiennau trafnidiaeth, gan roi sylw gofalus i'w lleoliad, eu dyluniad, eu golwg, eu crynswth a'u graddfa er mwyn cyfyngu gymaint â phosib ar unrhyw ymwthio gweledol, a lle bo hynny'n briodol, ychwanegu at agweddau gweledol yr ardal.

**5.5.13** Dylid dylunio systemau draenio i sicrhau nad yw datblygiadau'n cael unrhyw effeithiau niweidiol ar yr amgylchedd dŵr nac ar berygl llifogydd. Fel arfer bydd hynny'n golygu defnyddio technegau Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS).

**5.5.14** Er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r tir sydd ar gael, dylid dylunio datblygiadau, lle bo modd, i fwyafu'r llety a ddarperir, ond gan barhau'n gydweddus â'r ardal o amgylch. Ni chaniateir datblygiad o dan y lefelau dwysedd preswyl a bennwyd oni ellir dangos bod cyfyngiadau sylweddol yn gysylltiedig â safle sy'n atal datblygiad ar y lefelau a bennwyd, neu lle byddai datblygiad o'r dwysedd a bennwyd yn cael effaith niweidiol ar gymeriad neu olwg yr ardal leol neu'n golygu bod un o nodweddion pwysig y safle'n cael ei golli. Mewn lleoliadau canolog lle ceir mynediad da i wasanaethau, cyfleusterau a chysylltiadau

cludiant cyhoeddus, bydd datblygiadau dwysedd uwch yn briodol. Mae Polisi H1 yn nodi'r safleoedd preswyl hynny a ddyrannwyd lle bernir bod dwysedd uwch yn briodol, a lle bydd hynny'n cael ei annog.

**5.5.15** Lle bo hynny'n briodol, bydd gofyn bod datblygiadau newydd yn dangos sut maent yn cysylltu â chymunedau cyfagos sydd eisoes yn bodoli. Er mwyn cyflawni cymunedau cynaliadwy a hybu hygyrchedd, bydd angen ystyried cysylltedd rhwng cymunedau a chyfleusterau, a gallai fod angen cynnwys llwybrau i gynnal yr egwyddorion hynny mewn cynigion datblygu.

**5.5.16** Mae dylunio da yn cynnwys rhoi sylw i amwynder cyffredinol, yn ogystal â golwg, hygyrchedd a defnydd o adnoddau. Lle bo safle i gael ei ddatblygu gyda chyfuniad o ddeunyddiau, bydd angen rhoi ystyriaeth ofalus i'r rhyngweithio a'r berthynas rhwng y defnyddiau, er mwyn sicrhau eu bod yn gydweddus ac yn integreiddio â'i gilydd a'r defnyddiau cyfagos sydd eisoes yn bodoli.

**5.5.17** Mae dyluniad manwl adeiladau, o'r crynswth cyffredinol i'r deunyddiau gorffen, yn cyflawni rôl bwysig a dylai roi sylw i gyd-destun y safle a'i wella, gan gynnwys adeiladau eraill, mannau agored a thopograffi. Mae tirweddu'n cael effaith bwysig ac mae'n rhan arwyddocaol o'r broses ddylunio gyffredinol. Gall dyluniad a chynllun datblygiad newydd hefyd gael effaith sylweddol ar ddiogelwch y cyhoedd ac ofn troseddu. Mae'n ofynnol bod yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn ystyried atal troseddu ac anhrefn, a dylai dyluniad datblygiadau helpu i leihau'r cyfleoedd ar gyfer troseddu, anhrefn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

**5.5.18** Rhoddir rhagor o wybodaeth am ystyriaethau dylunio yn y Canllawiau Cynllunio Atodol.




**5.5.19 Polisi BE2 Adeiladau o Bwysigrwydd Lleol**

**Polisi BE2**
**Adeiladau o Bwysigrwydd Lleol**

Ni chaniateir cynigion datblygu a fyddai'n effeithio ar adeiladau sydd o bwysigrwydd hanesyddol, pensaernïol neu ddiwylliannol lleol ond lle:

1. Maent yn cadw ac yn gwella, lle bo hynny'n briodol, yr adeilad a'i gyd-destun; neu
2. Dangosir na ellid darparu'n rhesymol ar gyfer y datblygiad heb effeithio ar yr adeilad neu ei gyfnewid ac mae'r rhesymau am y datblygiad yn gorbwyso pwysigrwydd treftadaeth y safle.

**5.5.20** Ar draws y Fwrdeistref Sirol, mae llawer o enghreifftiau o adeiladau sy'n chwarae rhan bwysig yn y broses o ddiffinio cymeriad llefydd, ond nad ydynt yn haeddu cael eu cynnwys yn y rhestr statudol o adeiladau sydd o bwysigrwydd pensaernïol neu hanesyddol.

**5.5.21** Gall adeiladau fod yn arwyddocaol am resymau pensaernïol, gan roi cymeriad ac ymdeimlad o le i ganolfannau ac aneddiadau lleol, neu gallant fod o bwysigrwydd hanesyddol neu ddiwylliannol lleol arbennig. Lle bo modd, dylai datblygiadau geisio cydweddu ag adeiladau o'r fath a'u hymgorffori a'u haddasu oddi mewn i gynlluniau lle bo hynny'n briodol.

**5.5.22** Llunnir rhestr o'r 'Adeiladau o Bwysigrwydd Lleol' fel rhan o'r broses o baratoi Canllawiau Cynllunio Atodol a bydd yn cynnwys manylion ynghylch elfennau diddorol pob adeilad.

**5.5.23 Polisi BE3 Y Rhwydwaith Camlesi**

**Polisi BE3**
**Y Rhwydwaith Camlesi**

1. Er mwyn amddiffyn a chadw'r rhwydwaith camlesi, diogelir y rhannau canlynol o'r camlesi:
   (a) Camlas Abertawe yn Nhrebannws, o ffin y fwrdeistref sirol hyd at ymyl ddeheuol y meysydd chwarae;
   (b) Camlas Abertawe o Ganol Tref Pontardawe mor bell â Godre'r Graig;
   (c) Camlas Tenant;
   (d) Camlas Castell-nedd o Lansawel mor bell â Phont Ysgwrfa, Aberpergwm.

Gwrthsefir cynigion a fyddai'n peryglu cadw, adfer a gweithredu'r rhannau hyn o gamlesi sy'n cael eu diogelu. Bydd angen i gynigion ddangos na fyddent yn cael effaith niweidiol ar gyd-destun camlesi nac yn atal nac yn gwrthweithio defnyddio'r camlesi ar gyfer hamdden a chyflenwad dŵr;

2. Bydd disgwyl i ddatblygiadau sy'n effeithio ar leoliadau lle cafodd rhannau o'r gamlas eu draenio, eu mewnlenwi, eu sianelu, eu rhwystro neu eu gwahanu oddi wrth weddill y rhwydwaith, ond lle gellid eu hadfer yn y dyfodol, roi sylw i linell hanesyddol y gamlas ac osgoi cyflwyno adeiladau neu strwythurau a fyddai'n atal ei hadfer.

**5.5.24** Mae'r rhwydwaith camlesi yn rhan bwysig o dreftadaeth hanesyddol y Fwrdeistref Sirol ac mae hefyd yn bwysig am resymau hamdden, bioamrywiaeth a thirlun. Mae tair prif gamlas yng Nghastell-nedd Port Talbot, sef camlesi Nedd, Tenant ac Abertawe. Mae rhannau sylweddol o'r camlesi hyn bellach wedi eu hadfer fel bod modd mordwyo arnynt, ac maent yn rhan o rwydwaith ehangach o goridorau glas sy'n annog cerdded a beicio, gan ddenu ymwelwyr i'r ardal. Serch hynny, mae bylchau yn y rhwydwaith lle collwyd llinell y gamlas, er enghraifft trwy fewnlenwi neu sianelu, neu lle na ellir mordwyo



oherwydd rhwystrau megis pontydd isel. Mae'r Cyngor yn cefnogi mewn egwyddor ddyheadau i adfer ac ailsefydlu rhannau pellach o'r gamlas ac i gysylltu'r tair prif gamlas er mwyn creu system ddyfrffyrdd integredig, gan gydnabod manteision posibl hynny, a fyddai'n cynnwys gwella diddordebau hamdden a thwristiaeth.

**5.5.25** Mae'r polisi'n ceisio amddiffyn y camlesi lle bo hynny'n briodol, yn enwedig mewn ardaloedd lle gallai datblygiad beryglu eu defnydd a'u hadferiad yn y dyfodol. Diogelir rhannau sy'n weddill o'r gamlas a rhannau lle gellid yn ymarferol ei hadfer gan y polisi, a sicrheir felly nad yw datblygiadau yn y dyfodol yn cael effaith niweidiol arnynt. Nodir rhannau felly o'r camlesi ar y Map o'r Cynigion.

**5.5.26** Mae'r rhannau o'r camlesi lle mae adfer yn ymddangos yn llai tebygol ar hyn o bryd, ond lle gallai fod yn ymarferol yn y dyfodol, hefyd yn cael eu hamddiffyn gan y polisi, er mwyn sicrhau nad yw datblygiadau newydd yn achosi unrhyw rwystr ffisegol. Mae'r rhannau hyn o'r gamlas yn cynnwys:

(a) O Feysydd Chwarae Pontardawe, Trebannws, i allanfa/fynedfa ogleddol yr isffordd o dan yr A474 ym Mhontardawe;

(b) O'r allanfa/fynedfa ogleddol i Warchodfa Natur Camlas Abertawe, Godre'r Graig i Woodmans Terrace, Ystalyfera; a

(c) Chamlas Nedd o Bont Ysgwrfa, Aberpergwm i Manor Drive, Glyn-nedd.

**Yr Iaith Gymraeg**

**5.5.27 Polisi Strategol SP22 Yr Iaith Gymraeg**

**Polisi SP22**
**Yr Iaith Gymraeg**

Bydd yr Iaith Gymraeg yn cael ei diogelu a'i hybu yn yr ardaloedd canlynol, sy'n sensitif yn ieithyddol:

1. Dyffryn Aman.
2. Cwm Tawe.
3. Pontardawe.
4. Cymuned y Creunant yng Nghwm Dulais.

**Amcan y CDLl: OB 25**

**5.5.28** Ar y cyfan mae gan Gastell-nedd Port Talbot ganran is o siaradwyr Cymraeg na chyfartaledd Cymru. Serch hynny, y mae ardaloedd o fewn y Fwrdeistref Sirol lle mae'r iaith yn rhan annatod o wead y gymdeithas ac yn elfen bwysig yn ei bywyd beunyddiol. Er bod lefelau uchel iawn o siaradwyr Cymraeg yn yr ardaloedd hyn, mae erydiad yr iaith yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi bod yn destun pryder mawr yn y cymunedau hyn.

**5.5.29** Roedd Bwrdd yr Iaith Gymraeg[26] gynt wedi pennu a dynodi 'Ardal Datblygu Iaith' yng Nghastell-nedd Port Talbot, a oedd yn cynnwys cymunedau Brynaman Isaf, Gwaun Cae Gurwen, Cwmllynfell, Ystalyfera a Godre'r Graig. Mae'r ardal hon o arwyddocâd ieithyddol arbennig, gan mai'r Gymraeg yw prif iaith bywyd beunyddiol. Fodd bynnag, o ganlyniad i ffactorau sosio-economaidd, mae integriti'r iaith o dan fygythiad.

26 Diddymwyd Bwrdd yr Iaith Gymraeg ym mis Mawrth 2012. Mae mwyafrif swyddogaethau'r Bwrdd bellach wedi cael eu trosglwyddo i Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg.

**5.5.30** Ar ben hynny, mae nifer o gymunedau eraill lle mae cyfran uchel o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg, a bernir bod yr iaith yn rhan annatod o fywyd beunyddiol yn y cymunedau hynny hefyd. Nod y strategaeth, felly, yw ceisio diogelu integriti'r Gymraeg yn yr ardaloedd a nodwyd yn y polisi, lle mae 25% neu fwy o'r boblogaeth yn siarad yr iaith.

**5.5.31 Polisi WL1 Datblygiad mewn Ardaloedd Ieithyddol Sensitif**

**Polisi WL1**
**Datblygiad mewn Ardaloedd Ieithyddol Sensitif**

Bydd gofyn bod y cynigion datblygu canlynol yn yr ardaloedd ieithyddol sensitif a nodwyd yn cyflwyno Cynllun Gweithredu Ieithyddol yn nodi'r camau a gymerir i amddiffyn, hybu a gwella sefyllfa'r iaith Gymraeg:

(a) Datblygiad preswyl ar gyfer 10 annedd neu fwy;

(b) Datblygiad manwerthu, masnachol neu ddiwydiannol gyda chyfanswm arwynebedd llawr o 1,000 m sg neu fwy.

**5.5.32** Mae data diweddar o'r Cyfrifiad wedi dangos gostyngiad sylweddol yn nifer y siaradwyr Cymraeg mewn ardaloedd ieithyddol sensitif yn ystod y degawdau diwethaf. Cynhaliwyd astudiaeth[27] i asesu effaith bosib datblygiad tai mawr ar integriti'r iaith mewn ardal o'r fath. Mae hyn yn ymwneud â gallu cymuned i dderbyn y cynnydd posib yn nifer y bobl ddi-Gymraeg mewn ardal, ac a fyddai hynny'n effeithio ar gymeriad a chydbwysedd ieithyddol cymuned. Daeth yr astudiaeth i'r casgliad fod modd i ddatblygiadau ar raddfa fwy gael effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg.

**5.5.33** Lle bo hynny'n briodol, bydd angen i gynigion datblygu gael eu cyflwyno ochr yn ochr â Chynllun Gweithredu Ieithyddol yn nodi'r camau a gymerir i amddiffyn a hybu'r Gymraeg a gwella ei sefyllfa. Bydd caniatâd cynllunio yn destun amodau neu gytundeb cyfreithiol sy'n gofyn bod argymhellion y Cynllun Gweithredu Ieithyddol yn cael eu rhoi ar waith. Cynghorir trafodaeth gynnar gyda'r Awdurdod. Gallai mesurau o'r fath gynnwys enghreifftiau megis:

- Cymorth a chyllid i ysgolion lleol cyfrwng Cymraeg i ddarparu ar gyfer y bobl ddi-Gymraeg ychwanegol;
- Cymorth a chyllid i sefydliadau a chyrff sy'n darparu gweithgareddau, cyfleusterau ac addysg i siaradwyr Cymraeg a dysgwyr (e.e. dosbarthiadau iaith);
- Sicrhau bod gwasanaeth Cymraeg yn cael ei ddarparu mewn unrhyw ddatblygiad masnachol.



**5.5.34** Cyflwynir manylion pellach am y gofynion hyn yn y Canllawiau Cynllunio Atodol.

**5.5.35** Bydd angen i enwau strydoedd a datblygiadau mewn ardaloedd ieithyddol sensitif fod yn rhai Cymraeg er mwyn diogelu'r cymeriad ieithyddol lleol, y traddodiad, a hybu nodweddion unigryw'r diwylliant.

27 Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg - Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot (2012).






Adran 6

# Gweithredu a Monitro

# 6 Gweithredu a Monitro

**6.0.1** Mae'r adran hon o'r Cynllun yn ystyried y canlynol:

- Cyflwyno a Gweithredu - gan roi syniad o pryd disgwylir i gynigion gael eu gwneud, pwy fydd yn gyfrifol am roi'r datblygiad ar waith, a'r ffynonellau ariannu; a
- Monitro ac Adolygu - gan gynnwys y fframwaith monitro, sy'n nodi dangosyddion allweddol, targedau a sbardunau ar gyfer gweithredu pellach yng nghyswllt pob polisi, gan greu sail ar gyfer asesu effeithiolrwydd polisïau'r Cynllun.

## 6.1 Cyflwyno a Gweithredu

**6.1.1** Rhaid i'r holl gynigion a geir yn y CDLl fod yn rhai ymarferol sy'n debygol o gael eu rhoi ar waith yn ystod cyfnod y Cynllun. Mae'n angenrheidiol, felly, i'r dyraniadau gael eu cefnogi gan dystiolaeth sy'n dangos cyflawnadwyedd ac amserlenni'r holl gynigion datblygu.

**6.1.2** Mae'r dystiolaeth hon yn cynnwys gwybodaeth ynghylch pwy fydd yn gyfrifol am y datblygiad, sut y caiff ei ariannu, ei statws cyfredol a'r cyfnodau tebygol. Mae'r Cyngor yn brif dirfeddiannwr ac yn gweithio'n rhagweithiol gyda phartneriaid allweddol i symud ymlaen gyda nifer o fentrau adfywio pwysig. Fodd bynnag, mae amrywiaeth eang o sefydliadau'n cyfrannu at y ddarpariaeth. Yn y pen draw, cyflawnir mwyafrif y dyraniadau gan y sector preifat, gan gynnwys cyfraniadau at isadeiledd cyhoeddus. Fodd bynnag, cydnabyddir y bydd ffactorau economaidd allanol yn cael dylanwad sylweddol ar hyn.

**6.1.3** Paratowyd Cynllun Gweithredu sy'n rhoi manylion yr holl gynigion penodol ar gyfer datblygiadau newydd a gynhwysir yn y CDLl, ac sy'n amlinellu'r camau allweddol y bydd yn rhaid eu cymryd er mwyn cyflawni cynigion datblygu unigol.

**6.1.4** Ar ben hynny mae'r Cynllun Gweithredu yn amlinellu'r sefydliadau a fydd yn rhan o'r broses a'r materion y gallai fod angen ymdrin â hwy er mwyn sicrhau gweithrediad llwyddiannus. Yn deillio o hyn, ceir asesiad o pryd mae pob cynnig datblygu yn debygol o gael ei gyflwyno yng nghyfnod y Cynllun.

**6.1.5** Mae Tabl 6.1 yn crynhoi'r canfyddiadau allweddol. Ceir manylion llawn yn y Cynllun Gweithredu.



**Tabl 6.1** **Crynodeb o'r Cynllun Gweithredu**

| Cyfeirnod Polisi | Lleoliad | Anheddiad | Swm y Datblygiad | Sefydliad Arweiniol ac Ariannu | Statws 2015 | Cyfnodau | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | 2011-14 | 2014-17 | 2017-20 | 2020-23 | 2023-26 |
| **Polisi CCUC1 - Campws y Brifysgol ar Goridor yr Arfordir** | | | | | | | | | | |
| CCUC1 | Y Campws Gwyddoniaeth ac Arloesedd, Ffordd Fabian | Twyni Crymlyn | | Prifysgol Abertawe, St Modwen | Wedi cychwyn | | | | | |
| **Polisi H1 - Safleoedd Tai** | | | | | | | | | | |
| H1/ 1 | Cartref Gofal Gorffwysfa | Bryncoch | 15 | CNPT a'r Sector Preifat | | | | | | |
| H1/ 2 | Estyniad i Barc Leiros | Bryncoch | 200 | Sector Preifat | | | | | | |
| H1/ 3 | Heol Groves (Cyfnod 2) | Cimla | 42 | Sector Preifat | | | | | | |
| H1/ 4 | Ocean View | Jersey Marine | 81 | David Wilson Homes | Wedi cychwyn | | | | | |
| H1/ 5 | Ysgol Isaf Dŵr y Felin | Longford | 100 | CNPT a'r Sector Preifat | | | | | | |
| H1/ 6 | Cartref Gofal Hafod House | Castell-nedd | 12 | CNPT a'r Sector Preifat | | | | | | |
| H1/ 7 | Ailddatblygu Canol Tref Castell-nedd | Castell-nedd | 50 | CNPT a'r Sector Preifat | | | | | | |
| H1/ 8 | Gelli Crymlyn (Cyfnod 2) | Sgiwen | 75 | Barratt Homes | Wedi cychwyn | | | | | |
| H1/ 9 | Gelli Crymlyn (Cyfnod 3) | Sgiwen | 150 | Sector Preifat | | | | | | |
| H1/10 | Wern Goch | Sgiwen | 50 | Hale Homes | Wedi cychwyn | | | | | |
| H1/11 | Heol Castell-nedd / Heol Fairyland | Tonna | 300 | Sector Preifat | | | | | | |
| H1/LB/1 | Waunceirch | Bryncoch | 13 | Waterstone Homes | Wedi'i gwblhau | | | | | |
| H1/LB/2 | Heol Groves (Cyfnod 1) | Cimla | 34 | Grŵp Coastal | Wedi cychwyn | | | | | |
| H1/LB/3 | Cilgant Elba | Twyni Crymlyn | 50 | Sector Preifat | | | | | | |
| H1/LB/4 | Ardal 1, Pentref Trefol Coed Darcy | Llandarcy | 157 | Atlantic Developments | Wedi cychwyn | | | | | |
| H1/LB/5 | Pentref Trefol Coed Darcy | Llandarcy | 2,400 | St Modwen | Wedi cychwyn | | | | | |
| | | St Modwen a'r Sector Preifat. Cyllid a chyflawni wedi'u sicrhau fel rhan o'r cytundeb A.106, a'r cynllun wedi'i amserlennu i'w gyflawni cyn i uned 501 gael ei meddiannu, neu erbyn mis Gorffennaf 2017, p'un bynnag ddaw gyntaf. | | | | | | | | |
| TR1/2 | Ffordd Fynediad Ddeheuol Coed Darcy | Ariannwyd trwy Lywodraeth Cymru, ERDF a St Modwen, gyda chefnogaeth gan CNPT. Cynllun wedi'i gwblhau yn gynnar yn 2013 | | | | | | | | |
| TR1/3 | Ffordd Amazon (Cyfnod 2) | Rhaglen raddol o welliannau i'w chyllido a'i chyflawni yn unol â'r cytundeb A.106 | | | | | | | | |
| TR1/4 | Gwelliannau i Gyffordd 43 o'r M4 | | | | | | | | | |
| H1/LB/6 | Eaglesbush, Melincryddan | Castell-nedd | 50 | Sector Preifat | | | | | | |
| H1/LB/7 | Garthmor (Cyfnod 2), Melincryddan | Castell-nedd | 34 | Ballard Homes | Wedi cychwyn | | | | | |
| H1/LB/8 | Heol Llansawel | Castell-nedd | 28 | Grŵp Coastal | Wedi cychwyn | | | | | |
| H1/LB/9 | The Ropewalk | Castell-nedd | 12 | Grŵp Coastal | Wedi'i gwblhau | | | | | |
| H1/LB/10 | Barrons Court | Mynachlog Nedd | 15 | Sector Preifat | Wedi cychwyn | | | | | |
| H1/LB/11 | Heol Cardonnel | Sgiwen | 16 | Cymdeithas Tai Gwalia | Wedi cychwyn | | | | | |
| H1/LB/12 | Gelli Crymlyn (Cyfnod 1) | Sgiwen | 81 | Barratt Homes | Wedi cychwyn | | | | | |

| Cyfeirnod Polisi | Lleoliad | Anheddiad | Swm y Datblygiad | Sefydliad Arweiniol ac Ariannu | Statws 2015 | Cyfnodau | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | 2011-14 | 2014-17 | 2017-20 | 2020-23 | 2023-26 |
| H1/12 | Ysgol Blaenbaglan (tir y tu ôl iddi) | Baglan | 141 | Sector Preifat | | | | | | |
| H1/13 | Hawthorn Close | Cwmafan | 100 | Sector Preifat | | | | | | |
| H1/14 | Western Logs | Cwmafan | 130 | Sector Preifat | | | | | | |
| H1/15 | Coleg Castell-nedd Port Talbot (Campws Margam) | Margam | 70 | Coleg CNPT | | | | | | |
| H1/16 | Ysgol Gyfun Glanafan | Port Talbot | 50 | CNPT a'r Sector Preifat | | | | | | |
| H1/17 | Glannau'r Harbwr | Port Talbot | 385 | CNPT, Sector Preifat a LLCiaid | Wedi cychwyn | | | | | |
| | | Cynllun gwerth tua £108 miliwn, wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru ac arian Cydgyfeiriant, ac wedi'i gwblhau yn hwyr yn 2013 | | | | | | | | |
| TR1/5 | Ffordd yr Harbwr (FfDdY) | Ariannwyd gan y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol/y Cynllun Trafnidiaeth ar y Cyd â Rhaglen Genedlaethol Gwella Gorsafoedd, sy'n cynnwys arian LlC a Chydgyfeiriant. Mae gorsaf Parcffordd Port Talbot yn cael ei hadeiladu, ac i gael ei chwblhau yn ystod 2016, ac mae'r Canolbwynt Trafnidiaeth Integredig i fod yn gwbl weithredol erbyn 2018 | | | | | | | | |
| TR1/6 | Canolbwynt Trafnidiaeth Integredig (Port Talbot) | | | | | | | | | |
| H1/18 | Lido Afan a Thir y tu ôl i Ysgol Tywyn | Sandfields | 150 | CNPT a'r Sector Preifat | | | | | | |
| H1/19 | Clwb Cymdeithasol Bay View | Sandfields | 23 | Sector Preifat | | | | | | |
| H1/20 | Rhodfa Purcell | Sandfields | 115 | St Modwen | | | | | | |
| H1/21 | Cartref Gofal Morfa Afan | Sandfields | 10 | CNPT a'r Sector Preifat | | | | | | |
| H1/22 | Heol Tir Morfa | Sandfields | 75 | CNPT a'r Sector Preifat | | | | | | |
| H1/LB/13 | Fferm Blaenbaglan | Baglan | 160 | Sector Preifat | Wedi'i gymeradwyo | | | | | |
| H1/LB/14 | Thorney Road | Baglan | 10 | Sector Preifat | Wedi cychwyn | | | | | |
| H1/LB/15 | Stycyllwen | Baglan | 24 | Sector Preifat | Wedi cychwyn | | | | | |
| H1/LB/16 | Abbottsmoor | Rhosydd Baglan | 42 | Barratt Homes | Wedi'i gwblhau | | | | | |
| H1/LB/17 | Farteg Fawr | Bryn | 25 | Sector Preifat | Wedi cychwyn | | | | | |
| H1/LB/18 | Copperminers | Cwmafan | 90 | Barratt Homes | Wedi cychwyn | | | | | |
| H1/LB/19 | Forest Lodge Lane | Cwmafan | 12 | Sector Preifat | Wedi cychwyn | | | | | |
| H1/LB/20 | Groeswen | Margam | 39 | Taylor Wimpey | Wedi'i gwblhau | | | | | |
| H1/LB/21 | Heol yr Orsaf | Port Talbot | 14 | Grŵp Coastal | Wedi'i gwblhau | | | | | |
| H1/LB/22 | Adeiladau'r Royal, Heol Talbot | Port Talbot | 46 | Grŵp Coastal | Wedi'i gwblhau | | | | | |
| H1/LB/23 | Heol y Dyffryn | Taibach | 14 | Sector Preifat | Wedi'i gwblhau | | | | | |
| H1/LB/24 | Maes Marchog | Banwen | 16 | CNPT | Wedi'i gwblhau | | | | | |
| H1/LB/25 | Cartref Gofal Glyn Dulais | Crynant | 21 | CNPT a'r Sector Preifat | Wedi'i gymeradwyo | | | | | |
| H1/LB/26 | Heol Y Waun | Blaendulais | 68 | Sector Preifat | Wedi'i gymeradwyo | | | | | |
| H1/23 | Rhodfa'r Parc | Glyn-nedd | 150 | CNPT a'r Sector Preifat | | | | | | |
| H1/LB/27 | Heol Y Glyn | Glyn-nedd | 81 | Sector Preifat | Wedi'i gymeradwyo | | | | | |
| H1/LB/28 | Y Neuadd Les | Glyn-nedd | 17 | Sector Preifat | Wedi'i gymeradwyo | | | | | |

| Cyfeirnod Polisi | Lleoliad | Anheddiad | Swm y Datblygiad | Sefydliad Arweiniol ac Ariannu | Statws 2015 | Cyfnodau | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | 2011-14 | 2014-17 | 2017-20 | 2020-23 | 2023-26 |
| H1/LB/29 | Rhodfa Ynys y Nos | Glyn-nedd | 16 | WDL Homes | Wedi cychwyn | | | | | |
| H1/24 | Bryn Morgrug (Cyfnod 2) | Alltwen | 52 | Redrow Homes | Wedi cychwyn | | | | | |
| H1/25 | Heol Ynysymond | Alltwen | 50 | Sector Preifat | | | | | | |
| H1/26 | Ysgol Cwmtawe (Cyfnod 2) | Pontardawe | 32 | Sector Preifat | | | | | | |
| H1/27 | Waun Sterw / Waun Penlan, Rhydyfro | Pontardawe | 115 | CNPT a'r Sector Preifat | | | | | | |
| H1/28 | Fferm Bryn Brych | Rhos | 150 | Sector Preifat | | | | | | |
| H1/29 | Parc Ynysderw | Pontardawe | 50 | Sector Preifat | | | | | | |
| H1/LB/30 | Bryn Morgrug (Cyfnod 1) | Alltwen | 56 | Redrow Homes | Wedi cychwyn | | | | | |
| H1/LB/31 | Ysgol Cwmtawe (Cyfnod 1) | Pontardawe | 80 | Grŵp Coastal | Wedi cychwyn | | | | | |
| H1/LB/32 | Stryd Holly | Pontardawe | 45 | Sector Preifat | | | | | | |
| H1/LB/33 | Waun Penlan, Rhydyfro | Pontardawe | 19 | Sector Preifat | | | | | | |
| H1/LB/34 | Glan yr Afon (Cyfnod 2) | Pontardawe | 15 | Grŵp Coastal | Wedi'i gwblhau | | | | | |
| H1/30 | Compair / GMF | Ystalyfera | 70 | Sector Preifat | | | | | | |
| H1/31 | Golchfa Tirbach | Ystalyfera | 160 | Sector Preifat | | | | | | |
| H1/LB/35 | Golwg Y Mynydd | Godre'r Graig | 64 | Taylor Wimpey Homes | Wedi'i gwblhau | | | | | |
| H1/LB/36 | Graig Newydd (Cyfnod 1) | Godre'r Graig | 42 | Barratt Homes | Wedi'i gwblhau | | | | | |
| H1/LB/37 | Graig Newydd (Cyfnod 2) | Godre'r Graig | 66 | Taylor Wimpey Homes | Wedi cychwyn | | | | | |
| **Polisi GT 1 - Safle Sipsiwn a Theithwyr** | | | | | | | | | | |
| GT1 | Cae Garw (Cyfnod 1) | Margam | 4 Llain | CNPT | Wedi'i gymeradwyo | | | | | |
| | Cae Garw (Cyfnod 2) | Margam | 7 Llain | CNPT | Wedi'i gymeradwyo | | | | | |
| | Safle priodol / Cae Garw | | 9 Llain | CNPT | | | | | | |
| **Polisi EC 1 - Dyraniadau Cyflogaeth** | | | | | | | | | | |
| EC1/1 | Bae Baglan | Port Talbot | 15 Hectar | St Modwen, Sector Preifat | | | | | | |
| TR1/1 | Fforddd Gyswllt Parc Ynni Baglan | Cynllun £7.3 miliwn, wedi'i ariannu gan y CTRh / Cynllun Trafnidiaeth ar y Cyd, CNPT a'r datblygwr. Cynllun wedi'i gwblhau ym mis Mawrth 2015 | | | | | | | | |
| EC1/2 | Cyffordd 38 (yr M4), Margam | Port Talbot | 6 Hectar | Llywodraeth Cymru, Sector Preifat | | | | | | |
| TR1/5 | Ffordd yr Harbwr (FfDdY) | Cynllun gwerth tua £108 miliwn, wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru ac arian Cydgyfeiriant, ac wedi'i gwblhau yn hwyr yn 2013 | | | | | | | | |
| EC1/3 | Tir o fewn AAS Coed Darcy | Castell-nedd | 4 Hectar | St Modwen, Sector Preifat | | | | | | |
| TR1/2 | Ffordd Fynediad Ddeheuol Coed Darcy | St Modwen a'r Sector Preifat. Cyllid a chyflawni wedi'u sicrhau fel rhan o'r cytundeb A.106, a'r cynllun wedi'i amserlennu i'w gyflawni cyn i uned 501 gael ei meddiannu, neu erbyn mis Gorffennaf 2017, p'un bynnag ddaw gyntaf. | | | | | | | | |
| TR1/3 | Ffordd Amazon (Cyfnod 2) | Ariannwyd trwy Lywodraeth Cymru, ERDF a St Modwen, gyda chefnogaeth gan CNPT. Cynllun wedi'i gwblhau yn gynnar yn 2013 | | | | | | | | |
| TR1/4 | Gwelliannau i Gyffordd 43 o'r M4 | Rhaglen raddol o welliannau i'w chyllido a'i chyflawni yn unol â'r cytundeb A.106 | | | | | | | | |

| Cyfeirnod Polisi | Lleoliad | Anheddiad | Swm y Datblygiad | Sefydliad Arweiniol ac Ariannu | Statws 2015 | Cyfnodau | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | 2011-14 | 2014-17 | 2017-20 | 2020-23 | 2023-26 |
| EC1/4 | Tir o fewn AAS Glannau'r Harbwr | Port Talbot | 7 Hectar<br>40,000 tr sg (Cyfnod 1) | Sector Preifat, Deryn Properties | Cyfnod 1 wedi'i gwblhau | | | | | |
| TR1/5 | Ffordd yr Harbwr (FfDdY) | Cynllun gwerth tua £108 miliwn, wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru ac arian Cydgyfeiriant, ac wedi'i gwblhau yn hwyr yn 2013 | | | | | | | | |
| TR1/6 | Canolbwynt Trafnidiaeth Integredig | Ariannwyd gan y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol/y Cynllun Trafnidiaeth ar y Cyd â Rhaglen Genedlaethol Gwella Gorsafoedd, sy'n cynnwys arian LIC a Chydgyfeiriant. Mae gorsaf Parcffordd Port Talbot yn cael ei hadeiladu, ac i gael ei chwblhau yn ystod 2016, ac mae'r Canolbwynt Trafnidiaeth Integredig i fod yn gwbl weithredol erbyn 2018 | | | | | | | | |
| **Polisi R 1 - Dyraniadau Manwerthu** | | | | | | | | | | |
| R1/1 | Cynllun Adfywio Canol Tref Castell-nedd | Castell-nedd | I'w benderfynu | CNPT a'r Sector Preifat | Cyfnod 1 wedi cychwyn | | | | | |
| R1/2 | Ysgol Gyfun Glanafan | Port Talbot | I'w benderfynu | CNPT a'r Sector Preifat | | | | | | |
| R1/3 | Glannau'r Harbwr | Port Talbot | I'w benderfynu | Sector Preifat | Canllawiau Cynllunio Atodol wedi'u paratoi | | | | | |
| R1/4 | Rhodfa'r Parc, Glyn-nedd | Cwm Nedd | I'w benderfynu | CNPT a'r Sector Preifat | | | | | | |
| **Polisi TO 3 - Adfywio ar sail Twristiaeth** | | | | | | | | | | |
| TO3/1 | Ystâd Rheola, Glyn-nedd | Cwm Nedd | | Sector Preifat | Caniatâd Cynllunio Amlinellol | | | | | |
| **Polisi TO 4 - Llwybrau Cerdded a Beicio** | | | | | | | | | | |
| TO4/1 | Llwybr Arfordirol Cymru | | | Ariannwyd trwy CNPT, CNC a WEFO | Cwblhawyd ym mis Mai 2012 | | | | | |
| TO4/2 | Trywyddau Beicio Mynydd Cognation | | | Ariannwyd trwy Gydgyfeiriant ERDF, Llywodraeth Cymru ac ardal adfywio strategol Cymoedd y Gorllewin, gydag elfen Blade wedi'i hariannu gan Vatenfall fel rhan o brosiect fferm wynt Pen y Cymoedd | Wedi'i gwblhau | | | | | |
| TO4/3 | Llwybr Taith Fawr y Ddraig | | | Ariannwyd trwy grant Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (ROWIP) a weinyddir gan CNC | Cwblhawyd ym mis Mai 2012 | | | | | |
| **Polisi TR 1 - Cynigion Trafnidiaeth** | | | | | | | | | | |
| TR1/1 | Ffordd Gyswllt Parc Ynni Baglan | Baglan | | Cynllun £7.3 miliwn, wedi'i ariannu gan y CTRh / Cynllun Trafnidiaeth ar y Cyd, CNPT a chyfraniadau'r datblygwr | Wedi'i gwblhau ym mis Mawrth 2015 | | | | | |
| TR1/2 | Ffordd Fynediad Ddeheuol Coed Darcy | Llandarcy | | St Modwen a'r Sector Preifat. Cyllid a chyflawni wedi'i sicrhau fel rhan o'r cytundeb A.106 | Caniatâd cynllunio wedi'i gymeradwyo. Yn ôl yr amserlen mae Ffordd Fynediad Ddeheuol Coed Darcy i gael ei chwblhau cyn i uned 501 gael ei meddiannu neu erbyn mis Gorffennaf 2017, p'un bynnag ddaw gyntaf | | | | | |

| Cyfeirnod Polisi | Lleoliad | Anheddiad | Swm y Datblygiad | Sefydliad Arweiniol ac Ariannu | Statws 2015 | Cyfnodau | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | 2011-14 | 2014-17 | 2017-20 | 2020-23 | 2023-26 |
| TR1/3 | Ffordd Amazon (Cyfnod 2) | Llandarcy | | Ariannwyd trwy Lywodraeth Cymru, ERDF a St Modwen, gyda chefnogaeth gan CNPT | Wedi'i gwblhau yn gynnar yn 2013 | | | | | |
| TR1/4 | Gwelliannau i Gyffordd 43 o'r M4 | Llandarcy | | Rhaglen raddol o welliannau i'w chyllido a'i chyflawni yn unol â'r cytundeb A.106 | Mae'r gwaith o baratoi'r safle wedi'i gwblhau ac mae'r gwaith priffyrdd wedi cychwyn | | | | | |
| TR1/5 | Ffordd yr Harbwr (FfDdY) | Port Talbot | | Cynllun gwerth tua £108 miliwn, wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru ac arian Cydgyfeiriant | Wedi'i gwblhau yn hwyr yn 2013 | | | | | |
| TR1/6 | Canolbwynt Trafnidiaeth Integredig (Port Talbot) | Port Talbot | | Ariannwyd gan y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol/y Cynllun Trafnidiaeth ar y Cyd a Rhaglen Genedlaethol Gwella Gorsafoedd, sy'n cynnwys arian LlC a Chydgyfeiriant | Mae cynllun gorsaf newydd Parcffordd Port Talbot wedi'i gychwyn, ac mae i gael ei gwblhau yn ystod 2016 | | | | | |
| TR1/7 | Llwybr Beicio Dyffryn Aman | Dyffryn Aman | | Ariannwyd trwy'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol/y Cynllun Trafnidiaeth ar y Cyd | Wedi cychwyn | | | | | |
| TR1/8 | Trywydd Cwm Afan (Port Talbot i Gwm Afan) | Port Talbot | | VRP, Llwybr Troed Arfordirol Cymru Gyfan, Trefi Taclus, BBC Breathing Spaces, Cyfalaf CNPT, y Comisiwn Coedwigaeth, Dŵr Cymru, Barratts A.106 | Cwblhawyd ym mis Mawrth 2013 | | | | | |
| TR1/9 | Parcio a Rhannu, Cyffordd 38 (yr M4), Margam | Port Talbot | | CNPT a LlC | Mae prif gynllun ar gyfer yr ardal yn cael ei baratoi, a bydd yn cynnwys y cynllun | | | | | |

## 6.2 Adolygu a Monitro

**6.2.1** Mae Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol yn gofyn bod awdurdodau'n adolygu'n barhaus y materion hynny a allai effeithio ar gynllunio a datblygiad yn eu hardaloedd. Mae'r broses hon o fonitro yn golygu casglu a dadansoddi gwybodaeth yn gyson, yn barhaus ac yn systematig, er mwyn mesur ac asesu gweithrediad, effeithiolrwydd ac effaith polisïau trwy ddefnyddio fframwaith monitro. Mae'r fframwaith yn sefydlu ystod o faterion y mae angen ymdrin â hwy ac yn ymgorffori casglu, trefnu a dadansoddi gwybodaeth.

**6.2.2** Mae monitro yn agwedd gynyddol bwysig o lunio polisi ar sail tystiolaeth, ac mae systemau monitro yn allweddol wrth ddatblygu dealltwriaeth lawnach o'r materion sy'n effeithio ar gymunedau ac i ba raddau mae polisïau cyfredol yn cyflawni'r amcanion a nodwyd, gan arwain at lunio polisïau mwy effeithiol yn y dyfodol. Ymhlith elfennau'r fframwaith monitro mae:

- Canfod anghenion a gofynion o ran data;
- Cipio data;
- Dadansoddi data;
- Nodi targedau;
- Nodi dangosyddion.

**6.2.3** Bydd y fframwaith monitro yn caniatáu ar gyfer asesu'n barhaus a yw amcanion gwaelodol y CDLl yn dal yn ddilys neu a ydyw'r amgylchiadau economaidd, cymdeithasol neu ddiwylliannol cyffredinol wedi newid yn sylweddol. Mae'n darparu modd i fesur y cynnydd tuag at gyflawni amcanion polisi ac a yw polisïau penodol yn cael eu gweithredu yn y dull a ragwelwyd. Yn ei hanfod, bydd y fframwaith yn caniatáu asesu a yw gweithrediad y CDLl wedi'i gyflawni'n llwyddiannus, neu a yw hynny'n digwydd yn awr.

**Yr Adroddiad Monitro Blynyddol**

**6.2.4** Mae'n ofynnol i'r Awdurdod gynhyrchu Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) ar y CDLl. Bydd yr AMB yn nodi unrhyw bolisi nad yw'n cael ei weithredu yn y dull a ragwelwyd. Bydd yn amlinellu'r camau y mae'r Cyngor yn bwriadu eu cymryd i sicrhau gweithrediad y polisi dan sylw ac unrhyw ddiwygiadau i'r CDLl i ddisodli neu newid y polisi.

**6.2.5** Bydd yr AMB yn asesu a yw strategaeth waelodol y CDLl yn dal yn gadarn, effaith polisïau ar lefel leol ac ehangach, ac a yw polisïau a'r targedau cysylltiedig wedi cael eu cyflawni, neu a yw cynnydd yn cael ei wneud tuag at hynny.

**Dangosyddion Monitro**

**6.2.6** Strwythurwyd y fframwaith monitro o amgylch y Polisïau Strategol.

**6.2.7** Sefydlwyd cyfres o ddangosyddion monitro a fydd yn caniatáu mesur effeithiolrwydd ac effaith polisïau. Mae Rheoliad 37 yn y Cynllun Datblygu Lleol yn rhagnodi'r ddau ddangosydd canlynol y mae'n rhaid eu cynnwys yn yr AMB:

- Y cyflenwad tir ar gyfer tai a gymerir o'r Astudiaeth gyfredol ar Argaeledd Tir ar gyfer Tai (TAN 1); a
- Nifer yr anheddau net ychwanegol fforddiadwy ac ar gyfer y farchnad gyffredinol a adeiladwyd yn ardal yr ACLl (TAN 2).

**6.2.8** Pennir dangosyddion craidd eraill yn y canllawiau cenedlaethol, ac fe'u hymgorfforwyd yn y fframwaith monitro.

**6.2.9** Ar ben hynny, datblygwyd ystod o ddangosyddion lleol pellach sy'n ymwneud â chyd-destun CNPT ac â gofynion penodol polisïau ac amcanion strategol unigol. Yn olaf, cynhwyswyd nifer o ddangosyddion cyd-destunol. Mae'r rhain yn aml yn ymwneud â materion economaidd, cymdeithasol neu ddiwylliannol ehangach na fydd y CDLl o reidrwydd yn gallu dylanwadu'n fawr arnynt. Serch hynny, mae angen rhoi sylw i'r ffactorau eang hyn, a all fod yn rhai cenedlaethol neu ryngwladol, gan y gallant gael effaith ar y dull o weithredu polisi ar lefel leol.

**Targedau**

**6.2.10** Lle bo hynny'n ymarferol bosibl, nodir targedau realistig a chyflawnadwy ar gyfer pob dangosydd, ynghyd â nodi pwynt neu lefel lle bydd unrhyw newid cyfeiriad o'r targed a nodwyd yn sbarduno camau gweithredu.

**6.2.11** Gellir grwpio targedau'n fras i dri phrif gategori

- Targedau rhifol neu gwantwm. Gallai'r targedau hyn gyfeirio at raddfa'r datblygiad a gynigiwyd, er enghraifft lefel y datblygiad tai a ragwelir, a gellid eu mynegi ar ffurf gwerth rhifol unigol, fel cyfres neu ystod o werthoedd neu ar ffurf canran.
- Targedau canlyniadau. Byddai'r targedau hyn yn cyfeirio at ganlyniad penodol y mae'r polisi neu'r polisïau dan sylw yn ceisio ei gyflawni neu ei atal rhag digwydd.
- Targedau cynnig-benodol. Mae'r targedau hyn yn cyfeirio at gynigion datblygu penodol, er enghraifft cynllun priffyrdd, lle bydd targed o gyflawni'r cynnig dan sylw o fewn cyfnod y cynllun neu erbyn adeg benodedig.

**Camau Gweithredu**

**6.2.12** Ni ragwelir o reidrwydd y bydd methu â chyrraedd targed a sefydlwyd yn arwain yn awtomatig at adolygu'r polisi dan sylw. Y cam cyntaf a gymerid fel arfer fyddai cynnal dadansoddiad trylwyr o'r rheswm neu'r rhesymau am y methiant ac asesiad ehangach o'r goblygiadau o ran gweithredu'r CDLl yn llwyddiannus.

**6.2.13** Fe fydd achosion pryd bydd gweithredu polisi yn effeithiol yn ffactor allweddol wrth benderfynu pa mor llwyddiannus fydd y CDLl o ran cyflawni'r nodau a'r amcanion strategol. Mewn achosion o'r fath (er enghraifft, yng nghyswllt datblygiadau tai newydd lle bydd angen sicrhau darpariaeth ar hyd cyfnod y Cynllun), bydd yn bwysig sicrhau bod targedau'n parhau i gael eu cyrraedd er mwyn cyflawni'r nodau polisi erbyn diwedd cyfnod y Cynllun. Yma, byddai methu â chyrraedd un targed a nodwyd yn benodol yn gyfle i asesu'r polisi er mwyn canfod achosion y perfformiad ar lefel is na'r disgwyl. Fodd bynnag, gallai methu â chyrraedd targed arall gael effaith sylweddol ar allu'r cynllun i gyflawni'r nodau a'r amcanion a bennwyd, a byddai'n galw am adolygu'r polisi penodol hwnnw.

| Asesu | Cam Gweithredu |
|---|---|
| Mae'r dangosyddion yn cyfeirio at weithrediad llwyddiannus y Polisi. | Dim angen camau pellach. Monitro i barhau. |
| Nid yw polisïau'r CDLl yn cael eu gweithredu yn y modd a fwriadwyd. | Gall fod angen hyfforddiant i Swyddogion a/neu Aelodau. |
| Mae dangosyddion yn awgrymu bod angen canllawiau pellach ar ben y rhai a nodwyd yn y Cynllun. | Gall fod angen Canllawiau Cynllunio Atodol. |
| Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw polisi strategol y CDLl mor effeithiol ag y disgwylid yn wreiddiol. | Mae angen ymchwil ac ymchwilio pellach. |
| Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw'r polisi strategol yn cael ei weithredu. | Ar ôl ei gadarnhau, bydd y polisi yn destun proses adolygu. |
| Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw strategaeth y CDLl yn cael ei gweithredu. | Ar ôl ei gadarnhau, bydd y CDLl yn destun proses adolygu. |

**6.2.14** Mae Tabl 6.2 yn cyflwyno'r Fframwaith Monitro ar gyfer y CDLl.

**Tabl 6.2** **Fframwaith Monitro**

| Croesgyfeirio | Dangosyddion | Targed | Pwynt Sbarduno | Ffynhonnell ddata |
|---|---|---|---|---|
| **Polisi Strategol: SP1-Newid yn yr Hinsawdd / Mater: Ymdrin ag achosion y newid yn yr hinsawdd trwy aneddiadau a phatrymau aneddiadau mwy cydlynus ac effeithlon** | | | | |
| Polisi: BE 1<br>Amcan: 1<br>Amcanion yr AC: 1,2,6,7 | Dangosydd Lleol:<br>Nifer y ceisiadau a ganiatawyd o dan 35 annedd fesul hectar yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir (ASCA) | Dylid cyflawni dwysedd cyfartalog o 35 annedd fesul hectar ar safleoedd a ddyrannwyd o fewn y CCSA | Mae'r dwysedd cyfartalog a ganiateir ar safleoedd a ddyrannwyd oddi mewn i Bolisi 1 yn syrthio o dan 35 uned yr hectar, oni bai ei fod yn cyfateb i'r fframwaith polisi | Polisi Cynllunio CBSCNPT a Chronfeydd Data Rheoli Datblygu |
| Polisi: BE 1<br>Amcan: 1<br>Amcanion yr AC: 1,2,6,7 | Dangosydd Lleol:<br>Nifer y ceisiadau a ganiatawyd o dan 30 annedd fesul hectar yn Ardal Strategaeth y Cymoedd (ASC) | Dylid cyflawni dwysedd cyfartalog o 30 annedd fesul hectar ar safleoedd a ddyrannwyd o fewn y VSA | Mae'r dwysedd cyfartalog a ganiateir ar safleoedd a ddyrannwyd oddi mewn i Bolisi 1 yn syrthio o dan 30 uned yr hectar, oni bai ei fod yn cyfateb i'r fframwaith polisi | Polisi Cynllunio CBSCNPT a Chronfeydd Data Rheoli Datblygu |
| Polisïau: SP 16, BE 1<br>Amcan: 1<br>Amcanion yr AC: 1,2 | Dangosydd Lleol:<br>Swm y tir maes glas a gollwyd oedd heb ei ddyrannu yn y CDLl | Ni chollwyd tir maes glas yn groes i'r fframwaith polisi | Colli tir maes glas yn groes i'r fframwaith polisi | Polisi Cynllunio CBSCNPT a Chronfeydd Data Rheoli Datblygu |
| **Polisi Strategol: SP1-Newid yn yr Hinsawdd / Mater: Ymdrin ag achosion newid yn yr hinsawdd trwy annog cludo nwyddau ac anfon trafnidiaeth fasnachol ar hyd llwybrau heblaw'r ffyrdd** | | | | |
| Polisïau: SP 20, TR 4<br>Amcan: 1<br>Amcanion yr AC: 1,5 | Dangosydd Lleol:<br>Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i leoliadau cyfleusterau nwyddau a ddiogelwyd | Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi ar safleoedd sydd wedi'u diogelu ar gyfer cludo nwyddau | Caniatawyd un cais sy'n groes i'r fframwaith polisi | Polisi Cynllunio CBSCNPT a Chronfeydd Data Rheoli Datblygu |
| **Polisi Strategol: SP1-Newid yn yr Hinsawdd / Mater: Ymdrin â chanlyniadau'r newid yn yr hinsawdd trwy dywys datblygiad i ffwrdd oddi wrth dir sydd mewn perygl o ddioddef llifogydd** | | | | |
| Amcan: 1<br>Amcan yr AC: 1 | Dangosydd Lleol:<br>Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i ardaloedd gorlifdir C1 | Ni chaniateir ceisiadau ar gyfer datblygiad hynod fregus oddi mewn i ardaloedd gorlifdir C1 os nad ydynt yn bodloni holl brofion NCT15 | Caniatawyd un cais ar gyfer datblygiad hynod fregus nad yw'n bodloni holl ofynion NCT15 | Polisi Cynllunio CBSCNPT a Chronfeydd Data Rheoli Datblygu<br>Data Cyfoeth Naturiol Cymru |
| | Dangosydd Lleol:<br>Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i ardaloedd gorlifdir C2 | Ni chaniateir ceisiadau ar gyfer datblygiad hynod fregus oddi mewn i ardaloedd gorlifdir C2 | Caniatawyd un cais ar gyfer datblygiad hynod fregus | Polisi Cynllunio CBSCNPT a Chronfeydd Data Rheoli Datblygu<br>Data Cyfoeth Naturiol Cymru |
| **Polisi Strategol: SP2-Iechyd / Mater: Ymdrin â materion iechyd a salwch trwy gadw cyfleusterau hamdden hygyrch, adloniant, iechyd, cymdeithasol a chymunedol** | | | | |
| Polisïau: SP 10, OS 2, SC 2<br>Amcan: 2<br>Amcanion yr AC: 6,7 | Dangosyddion Lleol:<br>Newid, math a dosbarthiad gofodol net mannau agored a chyfleusterau cymunedol | Ni chaniateir colli cyfleusterau sy'n groes i'r fframwaith polisi | Collwyd un cyfleuster yn groes i'r fframwaith polisi | Polisi Cynllunio CBSCNPT a Chronfeydd Data Rheoli Datblygu |

| Croesgyfeirio | Dangosyddion | Targed | Pwynt Sbarduno | Ffynhonnell ddata |
|---|---|---|---|---|
| Polisi: BE 1<br>Amcanion: 23,24<br>Amcan yr AC: 4 | Dangosydd Lleol:<br>Nifer y ceisiadau a wrthodwyd ar sail dylunio | Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi | Caniatawyd un cais sy'n groes i'r fframwaith polisi | Polisi Cynllunio CBSCNPT a Chronfeydd Data Rheoli Datblygu |
| | Dangosydd Lleol:<br>Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n gysylltiedig â Dylunio | Paratoi'r CCA sy'n gysylltiedig â Dylunio erbyn Ebrill 2017 | Nid yw'r CCA wedi'u paratoi erbyn mis Ebrill 2017 | Polisi Cynllunio CBSCNPT |
| **Polisi Strategol: SP3 - Cymunedau Cynaliadwy / Mater: Hybu cymunedau cynaliadwy, cydlynus trwy nodi hierarchaeth aneddiadau** | | | | |
| Polisïau: PS 2<br>SC 1<br>Amcanion: 3,4<br>Amcanion yr AC: 2,6 | Dangosydd Craidd:<br>Swm y datblygiad manwerthu, swyddfa a hamdden pwysig a ganiateir yng nghanol y dref ac mewn canolfannau y tu allan i'r dref | Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi | Caniatawyd un cais sy'n groes i'r fframwaith polisi | Polisi Cynllunio CBSCNPT a Chronfeydd Data Rheoli Datblygu |
| **Polisi Strategol: SP3 - Cymunedau Cynaliadwy / Mater: Hybu cymunedau cynaliadwy a chydlynus trwy wrthsefyll datblygiadau amhriodol y tu allan i derfynau aneddiadau** | | | | |
| Polisïau: PS 2<br>SC 1<br>Amcanion: 3,4<br>Amcanion yr AC: 2,6 | Dangosydd Lleol:<br>Nifer y ceisiadau a ganiatawyd y tu allan i derfynau aneddiadau | Ni chaniateir ceisiadau y tu allan i derfynau aneddiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi | Caniatawyd un cais y tu allan i derfynau aneddiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi | Polisi Cynllunio CBSCNPT a Chronfeydd Data Rheoli Datblygu |
| **Polisi Strategol: SP4 - Isadeiledd / Mater: Darparu isadeiledd ac effaith datblygiad newydd ar gymunedau sydd eisoes yn bodoli** | | | | |
| Polisi: I1<br>Amcanion: 3,4,7,9,22,25<br>Amcanion yr AC: 2,8 | Dangosydd Lleol:<br>Nifer y ceisiadau a ganiatawyd lle mae isadeiledd newydd neu well wedi cael ei sicrhau trwy gyfraniadau datblygwyr | Bydd Datblygiad Newydd yn ymdrin â'r effaith ar gymunedau trwy ddarparu isadeiledd newydd neu well lle bo hynny'n briodol | Caniatawyd un cais sy'n groes i'r fframwaith polisi | Polisi Cynllunio CBSCNPT a Chronfeydd Data Rheoli Datblygu |
| | Dangosydd Lleol:<br>Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n gysylltiedig â Rhwymedigaethau Cynllunio | Paratoi'r CCA sy'n gysylltiedig â Rhwymedigaethau Cynllunio erbyn Hydref 2016 | Nid yw'r CCA wedi'u paratoi erbyn mis Hydref 2016 | Polisi Cynllunio CBSCNPT |

| Croesgyfeirio | Dangosyddion | Targed | Pwynt Sbarduno | Ffynhonnell ddata |
|---|---|---|---|---|
| **Polisi Strategol: SP5 - Datblygiad yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir / Mater: Darparu ar gyfer mwyafrif y datblygiadau tai newydd ar hyd Coridor yr Arfordir** | | | | |
| Polisïau: SP 7<br>H 1<br>Amcan: 5<br>Amcanion yr AC: 2,6 | Dangosydd Lleol:<br>Nifer yr unedau tai newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir | Dyrannwyd safleoedd oddi mewn i Bolisi H1 i ddarparu **5,690** o unedau tai newydd yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir dros gyfnod y Cynllun<br>Targedau Blynyddol:<br>2011/12: 152<br>2012/13: 134<br>2013/14: 216<br>2014/15: 268<br>2015/16: 318<br>2016/17: 379<br>2017/18: 495<br>2018/19: 553<br>2019/20: 518<br>2020/21: 513<br>2021/22: 502<br>2022/23: 468<br>2023/24: 412<br>2024/25: 387<br>2025/26: 375 | Mae nifer yr unedau tai newydd a ddarparwyd oddi mewn i Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir yn syrthio o dan y gofyniad cronnol ar gyfer 2 flwyddyn olynol | Polisi Cynllunio CBSCNPT a Chronfeydd Data Rheoli Datblygu |
| **Polisi Strategol: SP5 - Datblygiad yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir / Mater: Dyrannu Ardal Adfywio Strategol yng Nghoed Darcy** | | | | |
| Polisïau: SP 7<br>SRA 1<br>H 1<br>Amcan: 5<br>Amcanion yr AC: 2,6,8 | Dangosydd Lleol:<br>Swm a math y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflawnwyd oddi mewn i Ardal Adfywio Strategol Coed Darcy | Darparu **2,400** o unedau tai newydd erbyn 2026<br>Targedau Blynyddol:<br>2011/12: 0<br>2012/13: 3<br>2013/14: 72<br>2014/15: 100<br>2015/16: 125<br>2016/17: 140<br>2017/18: 170<br>2018/19: 190<br>2019/20: 215<br>2020/21: 215<br>2021/22: 215<br>2022/23: 225<br>2023/24: 235<br>2024/25: 245<br>2025/26: 250 | Mae nifer yr unedau tai newydd a ddarparwyd oddi mewn i AAS Coed Darcy yn syrthio o dan y gofyniad cronnol 2 flwyddyn yn olynol | Polisi Cynllunio CBSCNPT a Chronfeydd Data Rheoli Datblygu |

| Croesgyfeirio | Dangosyddion | Targed | Pwynt Sbarduno | Ffynhonnell ddata |
|---|---|---|---|---|
| Polisïau: SP 11, SRA 1, EC1/3<br>Amcan: 5<br>Amcanion yr AC: 2,6,8 | Dangosydd Lleol:<br>Swm a math y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflawnwyd oddi mewn i Ardal Adfywio Strategol Coed Darcy | Bydd isafswm o **4 Ha** o dir yn cael ei ddatblygu yn ystod cyfnod y Cynllun ar gyfer defnyddiau cyflogaeth, gydag isafswm o **0.33** Ha yn cael ei ddatblygu bob blwyddyn am y blynyddoedd sy'n weddill o gyfnod y Cynllun, gyda tharged cronnol o **0.66** Ha i gael ei ddatblygu dros unrhyw gyfnod o 2 flynedd | Mae swm y tir a ddatblygwyd at ddefnyddiau cyflogaeth yn AAS Coed Darcy yn syrthio o dan y gofyniad cronnol 2 flwyddyn yn olynol | Polisi Cynllunio CBSCNPT a Chronfeydd Data Rheoli Datblygu |
| Polisi: TR1/2<br>Amcanion: 21,22<br>Amcan yr AC: 6 | Dangosydd Lleol:<br>Swm a math y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflawnwyd oddi mewn i Ardal Adfywio Strategol Coed Darcy | Cyflawni Ffordd Fynediad Ddeheuol Coed Darcy yn unol â'r amserlen a nodwyd yn y cytundeb A.106 | Nid yw Ffordd Fynediad Ddeheuol Coed Darcy yn cael ei chyflawni yn unol â'r amserlen a nodwyd yn y cytundeb A.106 | Polisi Cynllunio CBSCNPT<br>Adrannau Eraill y Cyngor |
| Polisi: TR1/4<br>Amcanion: 21,22<br>Amcan yr AC: 6 | Dangosydd Lleol:<br>Swm a math y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflawnwyd oddi mewn i Ardal Adfywio Strategol Coed Darcy | Cyflawni'r gwelliannau i Gyffordd 43 (yr M4) yn raddol, yn unol â'r amserlen a nodwyd yn y cytundeb A.106 | Nid yw Cyffordd 43 (yr M4) yn cael ei gyflawni yn unol â'r amserlen a nodwyd yn y cytundeb A.106 | Polisi Cynllunio CBSCNPT<br>Adrannau Eraill y Cyngor |
| **Polisi Strategol: SP5 - Datblygiad yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir / Mater: Dyrannu Ardal Adfywio Strategol yng Nglannau'r Harbwr** | | | | |
| Polisïau: SP 7, SRA 2, H 1<br>Amcan: 5<br>Amcanion yr AC: 2,6,8 | Dangosydd Lleol:<br>Swm a math y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflawnwyd oddi mewn i Ardal Adfywio Strategol Glannau'r Harbwr | Darparu **385** o unedau tai newydd erbyn 2026<br>Targedau Blynyddol:<br>2011/12: 0<br>2012/13: 0<br>2013/14: 0<br>2014/15: 0<br>2015/16: 35<br>2016/17: 0<br>2017/18: 10<br>2018/19: 30<br>2019/20: 30<br>2020/21: 50<br>2021/22: 50<br>2022/23: 50<br>2023/24: 50<br>2024/25: 50<br>2025/26: 30 | Mae nifer yr unedau tai newydd a ddarparwyd oddi mewn i AAS Glannau'r Harbwr yn syrthio o dan y gofyniad cronnol 2 flwyddyn yn olynol | Polisi Cynllunio CBSCNPT a Chronfeydd Data Rheoli Datblygu |
| Polisïau: SP 11, SRA 2, EC1/4<br>Amcan: 5<br>Amcanion yr AC: 2,6,8 | Dangosydd Lleol:<br>Swm a math y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflawnwyd oddi mewn i Ardal Adfywio Strategol Glannau'r Harbwr | Bydd isafswm o **7 Ha** o dir yn cael ei ddatblygu yn ystod cyfnod y Cynllun ar gyfer defnyddiau cyflogaeth, gydag isafswm o **0.46** Ha yn cael ei ddatblygu bob blwyddyn am y blynyddoedd sy'n weddill o gyfnod y Cynllun, gyda tharged cronnol o **0.92** Ha i gael ei ddatblygu dros unrhyw gyfnod o 2 flynedd | Mae swm y tir a ddatblygwyd at ddefnyddiau cyflogaeth yn AAS Glannau'r Harbwr yn syrthio o dan y gofyniad cronnol am 2 flwyddyn olynol | Polisi Cynllunio CBSCNPT a Chronfeydd Data Rheoli Datblygu |

| Croesgyfeirio | Dangosyddion | Targed | Pwynt Sbarduno | Ffynhonnell ddata |
|---|---|---|---|---|
| Polisi: R1/3<br>Amcan: 13<br>Amcanion yr AC: 2,6,8 | Dangosydd Lleol:<br>Swm a math y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflawnwyd oddi mewn i Ardal Adfywio Strategol Glannau'r Harbwr | Cyflawni'r datblygiad manwerthu yn AAS Glannau'r Harbwr, yn unol â Fframwaith Datblygu Glannau'r Harbwr Port Talbot a Chanol y Dref | Ni chyflawnir y datblygiad manwerthu yn AAS Glannau'r Harbwr yn unol â Fframwaith Datblygu Glannau'r Harbwr Port Talbot a Chanol y Dref | Polisi Cynllunio CBSCNPT a Chronfeydd Data Rheoli Datblygu |
| Polisi: TR1/4<br>Amcanion: 21,22<br>Amcan yr AC: 6 | Dangosydd Lleol:<br>Swm a math y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflawnwyd oddi mewn i Ardal Adfywio Strategol Glannau'r Harbwr | Cyflawni Ffordd yr Harbwr (FfDdY) | **WEDI'I GWBLHAU** | Polisi Cynllunio CBSCNPT a Chronfeydd Data Rheoli Datblygu |
| | Dangosydd Lleol:<br>Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n gysylltiedig â Fframwaith Datblygu Glannau'r Harbwr Port Talbot a Chanol y Dref | Paratoi'r CCA sy'n gysylltiedig â Fframwaith Datblygu Glannau'r Harbwr Port Talbot a Chanol y Dref erbyn Hydref 2016 | Nid yw'r CCA wedi'u paratoi erbyn mis Hydref 2016 | Polisi Cynllunio CBSCNPT |
| **Polisi Strategol: SP5 - Datblygiad yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir / Mater: Hybu cynlluniau adfywio defnydd cymysg - Canol Tref Castell-nedd** | | | | |
| Polisïau: SP 7<br>CCRS1/1<br>H 1/7<br>Amcan: 5<br>Amcanion yr AC: 6,8 | Dangosydd Lleol:<br>Swm y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd oddi mewn i Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Canol Tref Castell-nedd | Cyflawni 50 o unedau tai newydd, y rhagwelir y byddant yn cychwyn o 2016/17 | Nid yw'r datblygiad tai sy'n rhan o Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Canol Tref Castell-nedd yn cael ei gyflawni o 2016/17 | Polisi Cynllunio CBSCNPT a Chronfeydd Data Rheoli Datblygu |
| Polisïau: SP 12<br>CCRS1/1<br>R 1/1<br>Amcan: 5<br>Amcanion yr AC: 6,8 | Dangosydd Lleol:<br>Swm y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd oddi mewn i Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Canol Tref Castell-nedd | Cyflawni elfen fanwerthu Cynllun Adfywio Canol Tref Castell-nedd:<br>Cyfnod 1 - Erbyn 2016 (yn cael ei adeiladu ar hyn o bryd)<br>Cyfnod 2 - Erbyn 2020 | Ni chyflawnir elfen fanwerthu Cynllun Adfywio Canol Tref Castell-nedd yn unol â'r amserlenni a nodwyd | Polisi Cynllunio CBSCNPT a Chronfeydd Data Rheoli Datblygu |
| **Polisi Strategol: SP5 - Datblygiad yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir / Mater: Hybu cynlluniau adfywio defnydd cymysg - Ysgol Gyfun Glanafan** | | | | |
| Polisïau: SP 7<br>CCRS1/2<br>H1/17<br>Amcan: 5<br>Amcanion yr AC: 6,8 | Dangosydd Lleol:<br>Swm y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd oddi mewn i Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Ysgol Gyfun Glanafan | Cyflawni 50 o unedau tai newydd, y rhagwelir y byddant yn cychwyn o 2017/18 | Nid yw'r datblygiad tai sy'n rhan o Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Ysgol Gyfun Glanafan yn cael ei gyflawni o 2017/18 | Polisi Cynllunio CBSCNPT a Chronfeydd Data Rheoli Datblygu |
| Polisïau: SP 12<br>CCRS1/2<br>R 1/2<br>Amcan: 5<br>Amcanion yr AC: 6,8 | Dangosydd Lleol:<br>Swm y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd oddi mewn i Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Ysgol Gyfun Glanafan | Cyflawni elfen fanwerthu datblygiad defnydd cymysg yn Ysgol Gyfun Glanafan, Port Talbot erbyn 2020 | Ni chyflawnir elfen fanwerthu datblygiad defnydd cymysg yn Ysgol Gyfun Glanafan, Port Talbot, erbyn 2020 | Polisi Cynllunio CBSCNPT a Chronfeydd Data Rheoli Datblygu |

| Croesgyfeirio | Dangosyddion | Targed | Pwynt Sbarduno | Ffynhonnell ddata |
|---|---|---|---|---|
| **Polisi Strategol: SP5 - Datblygiad yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir / Mater: Hybu cynlluniau adfywio defnydd cymysg - Lido Afan** | | | | |
| Polisïau: SP 7<br>CCRS1/3<br>H 1/19<br>Amcan: 5<br>Amcanion yr AC: 6,8 | Dangosydd Lleol:<br>Swm y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd oddi mewn i Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Lido Afan | Cyflawni 150 o unedau tai newydd, y rhagwelir y byddant yn cychwyn o 2016/17 | Nid yw'r datblygiad tai sy'n rhan o Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Lido Afan yn cael ei gyflawni o 2016/17 | Polisi Cynllunio CBSCNPT a Chronfeydd Data Rheoli Datblygu |
| Polisi: CCRS 1/3<br>Amcan: 5<br>Amcanion yr AC: 6,8 | Dangosydd Lleol:<br>Swm y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd oddi mewn i Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Lido Afan | Cyflawni datblygiad twristiaeth / adloniant yn Lido Afan erbyn 2020 | Nid yw'r datblygiad twristiaeth / adloniant yn Lido Afan yn cael ei gyflawni erbyn 2020 | Polisi Cynllunio CBSCNPT a Chronfeydd Data Rheoli Datblygu |
| **Polisi Strategol: SP5 - Datblygiad yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir / Mater: Cyflawni Campws Prifysgol ar Ffordd Fabian** | | | | |
| Polisi: CCUC 1<br>Amcan: 5<br>Amcanion yr AC: 6,8 | Dangosydd Lleol:<br>Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar Gampws y Bae ar gyfer defnyddiau sy'n groes i'r fframwaith polisi | Mae Campws Gwyddoniaeth ac Arloesedd Prifysgol Abertawe i gael ei gyflawni erbyn 2015:<br>Y gwaith i gychwyn ym mis Mai 2013<br>Yr adeiladau cyntaf wedi'u cwblhau ym mis Mai 2014<br>Cwblhawyd yr holl adeiladau heblaw'r rhai preswyl ym mis Mai 2015<br>Llety'r myfyrwyr wedi'i gwblhau ym mis Medi 2015 | Caniatawyd un cais sy'n groes i'r fframwaith polisi | Polisi Cynllunio CBSCNPT a Chronfeydd Data Rheoli Datblygu |
| **Polisi Strategol: SP6 - Datblygiad yn Ardal Strategaeth y Cymoedd / Mater: Cyflawni datblygiad tai yn Ardal Strategaeth y Cymoedd** | | | | |
| Polisïau: SP 7<br>VRS 1<br>H 1<br>Amcan: 6<br>Amcanion yr AC: 2,6,8 | Dangosydd Lleol:<br>Nifer yr unedau tai newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Strategaeth y Cymoedd | Dyrannwyd safleoedd oddi mewn i Bolisi H1 i ddarparu **1,435** o unedau tai newydd dros gyfnod y Cynllun<br>Targedau Blynyddol:<br>2011/12: 61<br>2012/13: 108<br>2013/14: 44<br>2014/15: 60<br>2015/16: 90<br>2016/17: 112<br>2017/18: 92<br>2018/19: 75<br>2019/20: 122<br>2020/21: 125<br>2021/22: 117<br>2022/23: 117<br>2023/24: 112<br>2024/25: 126<br>2025/26: 74 | Mae nifer yr unedau tai newydd a ddarparwyd oddi mewn i Ardal Strategaeth y Cymoedd yn syrthio o dan y gofyniad cronnol 2 flwyddyn yn olynol | Polisi Cynllunio CBSCNPT a Chronfeydd Data Rheoli Datblygu |

| Croesgyfeirio | Dangosyddion | Targed | Pwynt Sbarduno | Ffynhonnell ddata |
|---|---|---|---|---|
| **Polisi Strategol: SP6 - Datblygiad yn Ardal Strategaeth y Cymoedd / Mater: Ardal Twf Strategol Pontardawe** | | | | |
| Polisïau: SP 7<br>H 1<br>Amcan: 6<br>Amcanion yr AC: 2,6,8 | Dangosydd Lleol:<br>Nifer yr unedau tai newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Twf Strategol Pontardawe | Dyrannwyd safleoedd oddi mewn i Bolisi H1 i ddarparu **664** o unedau tai newydd dros gyfnod y Cynllun<br>Targedau Blynyddol:<br>2011/12: 0<br>2012/13: 46<br>2013/14: 30<br>2014/15: 38<br>2015/16: 65<br>2016/17: 92<br>2017/18: 72<br>2018/19: 50<br>2019/20: 66<br>2020/21: 50<br>2021/22: 40<br>2022/23: 40<br>2023/24: 35<br>2024/25: 40<br>2025/26: 0 | Mae nifer yr unedau tai newydd a ddarparwyd oddi mewn i Ardal Twf Strategol Pontardawe yn syrthio o dan y gofyniad cronnol 2 flwyddyn yn olynol | Polisi Cynllunio CBSCNPT a Chronfeydd Data Rheoli Datblygu |
| **Polisi Strategol: SP6 - Datblygiad yn Ardal Strategol y Cymoedd / Mater: Ardal Twf Strategol Cwm Nedd Uchaf** | | | | |
| Polisïau: SP 7<br>VRS 1<br>H 1<br>Amcan: 6<br>Amcanion yr AC: 2,6,8 | Dangosydd Lleol:<br>Nifer yr unedau tai newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Twf Strategol Cwm Nedd Uchaf | Dyrannwyd safleoedd oddi mewn i Bolisi H1 i ddarparu **264** o unedau tai newydd dros gyfnod y Cynllun<br>Targedau Blynyddol:<br>2011/12: 5<br>2012/13: 0<br>2013/14: 9<br>2014/15: 2<br>2015/16: 0<br>2016/17: 0<br>2017/18: 0<br>2018/19: 0<br>2019/20: 21<br>2020/21: 45<br>2021/22: 37<br>2022/23: 37<br>2023/24: 37<br>2024/25: 36<br>2025/26: 35 | Mae nifer yr unedau tai newydd a ddarparwyd oddi mewn i Ardal Twf Strategol Cwm Nedd Uchaf yn syrthio o dan y gofyniad cronnol 2 flwyddyn yn olynol | Polisi Cynllunio CBSCNPT a Chronfeydd Data Rheoli Datblygu |
| **Polisi Strategol: SP6 - Datblygiad yn Ardal Strategol y Cymoedd / Mater: Adfywio Defnydd Cymysg yn Rhodfa'r Parc, Glyn-nedd** | | | | |
| Polisïau: SP 7<br>VRS 1/1<br>H 1<br>Amcan: 6<br>Amcanion yr AC: 2,6,8 | Dangosydd Lleol:<br>Swm y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd oddi mewn i Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Rhodfa'r Parc, Glyn-nedd | Cyflawni **150** o unedau tai newydd, y rhagwelir y byddant yn cychwyn o 2020/21 | Nid yw'r datblygiad tai sy'n rhan o Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Rhodfa'r Parc, Glyn-nedd yn cael ei gyflawni o 2020/21 | Polisi Cynllunio CBSCNPT a Chronfeydd Data Rheoli Datblygu |

| Croesgyfeirio | Dangosyddion | Targed | Pwynt Sbarduno | Ffynhonnell ddata |
|---|---|---|---|---|
| Polisïau: SP 12, VRS 1/1, R 1/4<br>Amcan: 6<br>Amcanion yr AC: 6,8 | Dangosydd Lleol:<br>Swm y datblygiadau newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd oddi mewn i Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Rhodfa'r Parc, Glyn-nedd | Cyflawni elfen fanwerthu datblygiad defnydd cymysg yn Rhodfa'r Parc, Glyn-nedd yn unol â CCA Rhodfa'r Parc, Glyn-nedd | Ni chyflawnir elfen fanwerthu datblygiad defnydd cymysg yn Rhodfa'r Parc, Glyn-nedd yn unol â CCA Rhodfa'r Parc, Glyn-nedd | Polisi Cynllunio CBSCNPT a Chronfeydd Data Rheoli Datblygu |
| | Dangosydd Lleol:<br>Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n gysylltiedig â Rhodfa'r Parc, Glyn-nedd | Paratoi'r CCA sy'n gysylltiedig â Rhodfa'r Parc, Glyn-nedd erbyn Ebrill 2017 | Nid yw'r CCA wedi'u paratoi erbyn mis Ebrill 2017 | Polisi Cynllunio CBSCNPT |
| **Polisi Strategol: SP6 - Datblygiad yn Ardal Strategol y Cymoedd / Mater: Annog Defnyddiau Cyflogaeth, gan gynnwys unedau Bywyd/Gwaith** | | | | |
| Polisïau: SP 11, EC 5, EC 6<br>Amcan: 6<br>Amcanion yr AC: 6,8 | Dangosydd Lleol:<br>Nifer y cynigion bywyd/gwaith a ganiatawyd | Cynnydd yn nifer yr unedau bywyd/gwaith a ganiateir | Dim cynnydd yn nifer yr unedau bywyd/gwaith a ganiateir am 2 flwyddyn olynol | Polisi Cynllunio CBSCNPT a Chronfeydd Data Rheoli Datblygu |
| **Polisi Strategol: SP6 - Datblygiad yn Ardal Strategol y Cymoedd / Mater: Datblygu twristiaeth** | | | | |
| Polisïau: SP 13, TO3/1<br>Amcan: 6<br>Amcanion yr AC: 6,8 | Dangosydd Lleol:<br>Nifer y ceisiadau a ganiatawyd yn Rheola | Bydd y dyraniad yn Rheola yn cael ei gyflawni erbyn 2021 | Nid yw'r dyraniad yn Rheola yn cael ei gyflawni erbyn 2021 | Polisi Cynllunio CBSCNPT a Chronfeydd Data Rheoli Datblygu |
| **THEMA: ADEILADU CYMUNEDAU IACH, CYNALIADWY** | | | | |
| **Polisi Strategol: SP7 - Gofynion Tai / Mater: Darparu tai digonol i fodloni'r strategaeth ar gyfer twf a seiliwyd ar ffactorau economaidd** | | | | |
| Polisi: SP 2, H 1<br>Amcan: 7<br>Amcan yr AC: 6 | Dangosydd Craidd:<br>Nifer yr anheddau net ychwanegol fforddiadwy ac ar gyfer y farchnad gyffredinol a adeiladwyd yn ardal yr ACLl | Darperir cyfanswm o **8,760** o unedau tai newydd er mwyn sicrhau bod isafswm o **7,800** o unedau tai newydd yn cael eu darparu erbyn 2026<br>Targedau Blynyddol:<br>2011/12: 262<br>2012/13: 287<br>2013/14: 301<br>2014/15: 386<br>2015/16: 486<br>2016/17: 549<br>2017/18: 625<br>2018/19: 686<br>2019/20: 698<br>2020/21: 676<br>2021/22: 647<br>2022/23: 614<br>2023/24: 553<br>2024/25: 542<br>2025/26: 488 | Mae nifer yr unedau tai newydd a ddarparwyd o fewn y Fwrdeistref Sirol yn syrthio o dan y gofyniad cronnol 2 flwyddyn yn olynol | Polisi Cynllunio CBSCNPT a Chronfeydd Data Rheoli Datblygu |

| Croesgyfeirio | Dangosyddion | Targed | Pwynt Sbarduno | Ffynhonnell ddata |
|---|---|---|---|---|
| **Polisi Strategol: SP7 - Gofynion Tai / Mater: Darparu digon o dir ar gyfer tai newydd i ddiwallu'r anghenion tymor byr, canolig a hir** | | | | |
| Polisi: H1<br>Amcan: 7<br>Amcan yr AC: 6 | Dangosydd Craidd:<br>Y cyflenwad tir ar gyfer tai a gymerwyd o'r Astudiaeth gyfredol o Argaeledd Tir ar gyfer Tai (TAN 1) | Ni ddylai'r cyflenwad tir ar gyfer tai syrthio o dan 5 mlynedd, fel y pennwyd gan Astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai (NCT 1) mewn unrhyw flwyddyn benodol | Mae'r cyflenwad tir ar gyfer tai yn syrthio o dan 5 mlynedd, fel y pennwyd gan Astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai (NCT 1) mewn unrhyw flwyddyn benodol | Astudiaeth Flynyddol ar y Cyd - Argaeledd Tir ar gyfer Tai |
| **Polisi Strategol: SP8 - Tai Fforddiadwy / Mater: Sicrhau darpariaeth ddigonol ar gyfer tai fforddiadwy** | | | | |
| Polisïau: SP 2<br>AH 1<br>Amcan: 8<br>Amcan yr AC: 6 | Dangosydd Craidd:<br>Nifer yr anheddau net ychwanegol fforddiadwy ac ar gyfer y farchnad gyffredinol a adeiladwyd yn ardal yr ACLl | Cyflawni **1,200** o unedau tai fforddiadwy erbyn 2026<br>Targedau Blynyddol:<br>2011/12: 7<br>2012/13: 5<br>2013/14: 22<br>2014/15: 37<br>2015/16: 72<br>2016/17: 90<br>2017/18: 115<br>2018/19: 130<br>2019/20: 124<br>2020/21: 120<br>2021/22: 111<br>2022/23: 102<br>2023/24: 90<br>2024/25: 89<br>2025/26: 86 | Mae nifer yr unedau tai newydd fforddiadwy a ddarparwyd o fewn y Fwrdeistref Sirol yn syrthio o dan y gofyniad cronnol ar gyfer 2 flwyddyn olynol | Polisi Cynllunio CBSCNPT a Chronfeydd Data Rheoli Datblygu |
| | Dangosydd Lleol:<br>Newidiadau yn y gwerthoedd gweddilliol ar draws y 6 ardal is-farchnad:<br>1) Port Talbot<br>2) Castell-nedd<br>3) Pontardawe<br>4) Cymoedd Nedd a Dulais<br>5) Abertawe a Dyffryn Aman<br>6) Cwm Afan | Cyflawni'r lefel uchaf o dai fforddiadwy y bernir ei bod yn ddichonadwy | Cynnydd neu ostyngiad o 5% yng ngwerth gweddilliol unrhyw ardal dai sy'n is na lefel y farchnad mewn un flwyddyn | Pecyn Offer ar gyfer Arfarnu Datblygiad<br>Mynegai Prisiau Tai Cofrestrfa Tir EM<br>Gwasanaeth Gwybodaeth am Gost Adeiladau RICS (BCIS) - Prisiau Tendr |
| Polisïau: SP 2<br>AH2 | Dangosydd Lleol:<br>Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar safleoedd sy'n eithriadau o ran tai fforddiadwy | Cynnydd yn nifer y safleoedd sy'n eithriadau o ran tai fforddiadwy | Ni chaniateir cynnydd yn nifer y safleoedd sy'n eithriad o ran tai fforddiadwy am 2 flwyddyn olynol | Polisi Cynllunio CBSCNPT a Chronfeydd Data Rheoli Datblygu |
| | Dangosydd Lleol:<br>Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n gysylltiedig â Thai Fforddiadwy | Paratoi'r CCA sy'n gysylltiedig â Thai Fforddiadwy erbyn Hydref 2016 | Nid yw'r CCA wedi'u paratoi erbyn mis Hydref 2016 | Polisi Cynllunio CBSCNPT |

| Croesgyfeirio | Dangosyddion | Targed | Pwynt Sbarduno | Ffynhonnell ddata |
|---|---|---|---|---|
| **Polisi Strategol: SP9 - Sipsiwn a Theithwyr / Mater: Sicrhau Darpariaeth ddigonol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr** | | | | |
| Polisïau: SP2<br>GT 1<br>GT 2<br>Amcan: 9<br>Amcan yr AC: 6 | Dangosyddion Lleol:<br>Nifer y lleiniau ychwanegol a ddarparwyd yng Nghae Garw<br>Nifer y cynigion ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr a ganiatawyd yn flynyddol<br>Nifer y gwersylloedd Sipsiwn a Theithwyr heb eu hawdurdodi yr adroddwyd amdanynt yn flynyddol<br>Yr angen am ddarpariaeth ychwanegol i Sipsiwn a Theithwyr, fel y nodwyd mewn GTAA | Darperir 4 llain yng Nghae Garw erbyn 2017<br>Darperir 7 llain yng Nghae Garw erbyn 2022<br>Darperir 9 llain (ar safle priodol neu yng Nghae Garw) erbyn 2026 | Methiant i ddarparu'r 4 llain yng Nghae Garw erbyn 2017<br>Methiant i ddarparu'r 7 llain yng Nghae Garw erbyn 2022<br>Methiant i ddarparu 9 llain (ar safle priodol neu yng Nghae Garw) erbyn 2026 | Polisi Cynllunio CBSCNPT a Chronfeydd Data Rheoli Datblygu<br>Adrannau Eraill y Cyngor |
| **Polisi Strategol: SP10 - Mannau Agored / Mater: Datblygiadau Newydd a Darparu Mannau Agored** | | | | |
| Polisïau: SP 2<br>OS 1<br>Amcan: 10<br>Amcanion yr AC: 6,7 | Dangosydd Lleol:<br>Nifer y ceisiadau am ddatblygiadau tai a ganiatawyd nad ydynt yn ymdrin ag anghenion mannau agored y meddianwyr | Dylai pob datblygiad tai newydd lle ceir 3 uned neu fwy ddarparu ar gyfer man agored lle bo diffyg meintiol yn y ddarpariaeth chwaraeon awyr agored | Caniatawyd un cais am ddatblygiad tai newydd o 3 uned neu fwy nad yw'n darparu ar gyfer man agored pan fo diffyg meintiol yn y ddarpariaeth o ran mannau agored | Polisi Cynllunio CBSCNPT a Chronfeydd Data Rheoli Datblygu |
| **Polisi Strategol: SP10 - Mannau Agored / Mater: Amddiffyn Mannau Agored sydd eisoes yn Bodoli** | | | | |
| Polisïau: SP 2<br>OS 2<br>Amcan: 10<br>Amcanion yr AC: 6,7 | Dangosydd Lleol:<br>Nifer y mannau agored presennol a gollwyd yn sgîl datblygiad, yn groes i'r fframwaith polisi | Dim colli mannau agored sy'n groes i'r fframwaith polisi | Caniatawyd un cais oedd yn arwain at golli man agored yn groes i'r fframwaith polisi | Polisi Cynllunio CBSCNPT a Chronfeydd Data Rheoli Datblygu |
| | Dangosydd Lleol:<br>Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n gysylltiedig â Mannau Agored a Mannau Glas | Paratoi'r CCA sy'n gysylltiedig â Mannau Agored a Mannau Glas erbyn Ebrill 2017 | Nid yw'r CCA wedi'u paratoi erbyn mis Ebrill 2017 | Polisi Cynllunio CBSCNPT |
| **THEMA: HYBU ECONOMI GYNALIADWY** | | | | |
| **Polisi Strategol: SP11 - Twf Cyflogaeth / Mater: Darparu ar gyfer datblygiadau cyflogaeth newydd a rhai sy'n ehangu trwy ddyrannu tir at ddefnyddiau cyflogaeth** | | | | |
| Polisi: SP 2 | Dangosydd Lleol:<br>Lefel Cyflogaeth yn y Gweithle yn CNPT<br><br>Dangosyddion Cyd-destunol<br>Newid Cyflogaeth yn y Gweithle i Gymru a'r Deyrnas Unedig<br>Lefel a chyfradd cyflogaeth CNPT<br>Lefel a chyfradd cyflogaeth Cymru a'r Deyrnas Unedig | Prif Darged: Enillion net o **3,850** o swyddi hyd at 2026<br>Targedau Interim:<br>2011/14: - 1,458<br>2014/17: +1,326<br>2017/20: +1,326<br>2020/23: +1,326<br>2023/26: +1,326<br>Targed Blynyddol:<br>Enillion cyfartalog o **442** swydd y flwyddyn o 2014 dros weddill cyfnod y Cynllun, gyda tharged cronnol o **884** yn ystod unrhyw gyfnod o 2 flynedd | Mae lefel twf swyddi yn amrywio o'r targed cronnol o **884** o swyddi dros unrhyw gyfnod o 2 flynedd am 2 flwyddyn olynol | Llywodraeth Cymru / Statswales<br>Arolwg Cyflogaeth y Gofrestr Fusnes<br>Arolwg Poblogaeth Blynyddol yr ONS |

| Croesgyfeirio | | Dangosyddion | Targed | Pwynt Sbarduno | Ffynhonnell ddata |
|---|---|---|---|---|---|
| Polisïau: | SP 2<br>EC1/1<br>EC1/2<br>EC1/3<br>EC1/4 | Dangosydd Craidd:<br><br>Tir cyflogaeth a ganiateir ar safleoedd a ddyrannwyd fel % o'r holl ddyraniadau cyflogaeth | Prif Darged:<br><br>Datblygu isafswm o **32** Hectar o dir ar y safleoedd canlynol a ddyrannwyd at ddibenion cyflogaeth hyd at 2026.<br><br>Bae Baglan: 15 Hectar<br>Cyffordd 38: 6 Hectar<br>AAS Coed Darcy: 4 Hectar<br>AAS Glannau'r Harbwr: 7 Hectar<br>Targedau Interim:<br>2011/14: 1.7 Hectar (gwirioneddol)<br>2014/17: 7.6 Hectar<br>2017/20: 7.6 Hectar<br>2020/23: 7.6 Hectar<br>2023/26: 7.6 Hectar<br><br>Targed Blynyddol:<br><br>Datblygu cyfartaledd o **2.5** Hectar o dir at ddibenion cyflogaeth y flwyddyn, dros weddill cyfnod y Cynllun, gyda tharged cronnol o **5** Hectar i'w ddatblygu dros unrhyw gyfnod o 2 flynedd | Mae swm y tir a ddatblygwyd at ddibenion cyflogaeth yn syrthio o dan y targed cronnol o 5 Hectar sydd i'w ddatblygu dros unrhyw gyfnod o 2 flynedd, 2 flwyddyn yn olynol | Polisi Cynllunio CBSCNPT a Chronfeydd Data Rheoli Datblygu |
| Polisi: | EC1/1 | Dangosydd Lleol:<br><br>Nifer y ceisiadau a ganiatawyd at ddibenion cyflogaeth ym Mae Baglan | Prif Darged:<br><br>Datblygu isafswm o **15** Hectar o dir ar Fae Baglan at ddibenion cyflogaeth<br><br>Targedau Interim:<br>2011/14: 0<br>2014/17: 2.7 Hectar<br>2017/20: 4.1 Hectar<br>2020/23: 4.1 Hectar<br>2023/26: 4.1 Hectar<br><br>Targed Blynyddol:<br><br>Datblygu cyfartaledd o **1.35** Hectar o dir ym Mae Baglan at ddibenion cyflogaeth, gyda tharged cronnol o **2.7** Hectar o dir i gael ei ddatblygu dros unrhyw gyfnod o 2 flynedd | Mae swm y tir a ddatblygwyd at ddibenion cyflogaeth ym Mae Baglan yn amrywio o'r targed cronnol o 2.7 Hectar sydd i'w ddatblygu dros unrhyw gyfnod o 2 flynedd, 2 flwyddyn yn olynol | Polisi Cynllunio CBSCNPT a Chronfeydd Data Rheoli Datblygu |

| Croesgyfeirio | Dangosyddion | Targed | Pwynt Sbarduno | Ffynhonnell ddata |
|---|---|---|---|---|
| Polisïau: SP 2<br>EC 1<br>Amcanion: 2, 11,12<br>Amcanion yr AC: 6,7,8 | Dangosydd Lleol:<br>Y newid net yn swm y tir cyflogaeth a'r arwynebedd llawr | Prif Darged:<br>Darparu ar gyfer enillion net o ryw 34,000 metr sgwâr o arwynebedd llawr cyflogaeth yn y Fwrdeistref Sirol erbyn 2026<br>Targedau Interim:<br>2011/14: 7,000 m. sg.<br>2014/17: 7,000 m. sg.<br>2017/20: 7,000 m. sg.<br>2020/23: 7,000 m. sg.<br>2023/26: 7,000 m. sg.<br>Targed Blynyddol:<br>Datblygu cyfartaledd o **2,250** m.sg. o arwynebedd llawr cyflogaeth y flwyddyn, gyda tharged cronnol o **4,500** m.sg. i'w ddatblygu dros unrhyw gyfnod o 2 flynedd | Mae swm yr arwynebedd llawr a ddatblygwyd at ddibenion cyflogaeth yn syrthio o dan y targed cronnol, sef 4,500 m.sg. i'w ddatblygu dros unrhyw gyfnod o 2 flynedd, 2 flwyddyn yn olynol | Polisi Cynllunio CBSCNPT a Chronfeydd Data Rheoli Datblygu |
| Polisi: SP 2 | Dangosydd Lleol:<br>Cyfradd gweithgaredd economaidd CNPT<br>Dangosydd Cyd-destunol:<br>Cyfradd gweithgaredd economaidd Cymru a'r Deyrnas Unedig | Cyflawni cynnydd yng nghyfradd y gweithgaredd economaidd, i 76% erbyn 2026 | Mae cyfradd gweithgaredd economaidd yn dirywio 2 flwyddyn yn olynol | Llywodraeth Cymru / Statswales<br>Arolwg Cyflogaeth y Gofrestr Fusnes<br>Arolwg Poblogaeth Blynyddol yr ONS |
| Polisi: SP 2 | Dangosydd Lleol:<br>Cyfradd diweithdra CNPT<br>Dangosydd Cyd-destunol:<br>Cyfradd diweithdra Cymru a'r Deyrnas Unedig | Cyflawni gostyngiad yng nghyfradd diweithdra, i 6.9% erbyn 2026 | Mae cyfradd diweithdra'n cynyddu 2 flwyddyn yn olynol | Llywodraeth Cymru / Statswales<br>Arolwg Cyflogaeth y Gofrestr Fusnes<br>Arolwg Poblogaeth Blynyddol yr ONS |
| | Dangosydd Lleol:<br>Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n gysylltiedig â Fframwaith Datblygu Bae Baglan | Paratoi'r CCA sy'n gysylltiedig â Fframwaith Datblygu Bae Baglan erbyn Hydref 2016 | Nid yw'r CCA wedi'u paratoi erbyn mis Hydref 2016 | Polisi Cynllunio CBSCNPT |
| **Polisi Strategol: SP11 - Twf Cyflogaeth / Mater: Cefnogi a diogelu defnyddiau cyflogaeth sydd eisoes yn bodoli** | | | | |
| Polisïau: SP 2<br>EC 2<br>EC 3<br>EC 4<br>EC 5<br>Amcanion: 6,11,12<br>Amcanion yr AC: 6,8 | Dangosydd Lleol:<br>Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar safleoedd a ddiogelwyd, yn groes i'r fframwaith polisi | Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi | Caniatawyd un cais sy'n groes i'r fframwaith polisi | Polisi Cynllunio CBSCNPT a Chronfeydd Data Rheoli Datblygu |

| Croesgyfeirio | Dangosyddion | Targed | Pwynt Sbarduno | Ffynhonnell ddata |
|---|---|---|---|---|
| **Polisi Strategol: SP12 - Manwerthu / Mater: Amddiffyn defnyddiau manwerthu a chymysg priodol yn yr hierarchaeth fanwerthu** | | | | |
| Polisïau: SP 2, R 2, R 3<br>Amcan: 13<br>Amcanion yr AC: 6,8 | Dangosydd Lleol:<br>Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar gyfer datblygiad manwerthu, yn groes i'r hierarchaeth fanwerthu a ddiffiniwyd | Ni chaniateir ceisiadau ar gyfer datblygiad manwerthu sy'n groes i'r fframwaith polisi | Caniatawyd un cais ar gyfer datblygiad manwerthu sy'n groes i'r fframwaith polisi | Polisi Cynllunio CBSCNPT a Chronfeydd Data Rheoli Datblygu |
| **Polisi Strategol: SP12 - Manwerthu / Mater: Cynigion manwerthu ar raddfa fach** | | | | |
| Polisïau: SP 2, R 3<br>Amcan: 6<br>Amcanion yr AC: 6,8 | Dangosydd Lleol:<br>Nifer y ceisiadau am ddatblygiad manwerthu ar raddfa fach a ganiatawyd | Cynnydd yn nifer y cynigion manwerthu ar raddfa fach a ganiateir | Ni chaniateir cynnydd yn nifer y cynigion manwerthu ar raddfa fach a ganiateir am 2 flwyddyn olynol | Polisi Cynllunio CBSCNPT a Chronfeydd Data Rheoli Datblygu |
| **Polisi Strategol: SP13 - Twristiaeth / Mater: Darparu dull hyblyg o ymdrin â chynigion twristiaeth yng nghefn gwlad agored** | | | | |
| Polisi: TO 1<br>Amcan: 14<br>Amcanion yr AC: 6,8 | Dangosydd Lleol:<br>Nifer y ceisiadau a ganiatawyd yn groes i'r fframwaith polisi | Ni ddylid caniatáu cynigion twristiaeth yn groes i'r fframwaith polisi | Caniatawyd un cais ar gyfer cynigion twristiaeth sy'n groes i'r fframwaith polisi | Polisi Cynllunio CBSCNPT a Chronfeydd Data Rheoli Datblygu |
| **Polisi Strategol: SP13 - Twristiaeth / Mater: Gwrthsefyll cynigion a fyddai'n arwain at golli cyfleusterau twristiaeth** | | | | |
| Polisi: TO 2<br>Amcan: 14<br>Amcanion yr AC: 6,8 | Dangosydd Lleol:<br>Nifer y cyfleusterau twristiaeth a gollwyd yn groes i'r fframwaith polisi | Dim colli cyfleusterau twristiaeth sy'n groes i'r fframwaith polisi | Caniatawyd un cais oedd yn arwain at golli cyfleusterau twristiaeth yn groes i'r fframwaith polisi | Polisi Cynllunio CBSCNPT a Chronfeydd Data Rheoli Datblygu |
| **Polisi Strategol: SP13 – Twristiaeth / Mater: Darparu Llwybrau Cerdded a Beicio newydd a gwell** | | | | |
| Polisïau: SP 2, TO4/1, TO4/2, TO4/3<br>Amcan: 14<br>Amcanion yr AC: 6,7 | Dangosydd Lleol:<br>Datblygu amrywiaeth o lwybrau cerdded a beicio gwell | Cwblhau Llwybr Arfordirol Cymru erbyn 2012 | **WEDI'I GWBLHAU** | Polisi Cynllunio CBSCNPT a Chronfeydd Data Rheoli Datblygu |
| | | Cwblhau Trywyddau Beicio Mynydd Cognation erbyn 2013 | **WEDI'I GWBLHAU** | Polisi Cynllunio CBSCNPT a Chronfeydd Data Rheoli Datblygu |
| | | Cwblhau Llwybr Taith Fawr y Ddraig erbyn 2012 | **WEDI'I GWBLHAU** | Polisi Cynllunio CBSCNPT a Chronfeydd Data Rheoli Datblygu |
| **THEMA: GOSOD GWERTH AR EIN HAMGYLCHEDD** | | | | |
| **Polisi Strategol: SP14 - Cefn Gwlad a'r Arfordir sydd heb ei Ddatblygu / Mater: Amddiffyn yr Arfordir sydd heb ei Ddatblygu, Lletemau Glas ac Ardaloedd Tirlun Arbennig** | | | | |
| Polisïau: EN 1, EN 2, EN 3<br>Amcan: 15<br>Amcan yr AC: 2 | Dangosydd Lleol:<br>Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i'r ardaloedd Arfordir heb ei Ddatblygu, yr Ardaloedd Tirlun Arbennig a'r Lletemau Glas, yn groes i'r fframwaith polisi | Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi | Caniatawyd un cais sy'n groes i'r fframwaith polisi | Polisi Cynllunio CBSCNPT a Chronfeydd Data Rheoli Datblygu |
| | Dangosydd Lleol:<br>Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n gysylltiedig â'r Tirlun a'r Morlun | Paratoi'r CCA sy'n gysylltiedig â'r Tirlun a'r Morlun erbyn Ebrill 2017 | Nid yw'r CCA wedi'u paratoi erbyn mis Ebrill 2017 | Polisi Cynllunio CBSCNPT |

| Croesgyfeirio | Dangosyddion | Targed | Pwynt Sbarduno | Ffynhonnell ddata |
|---|---|---|---|---|
| **Polisi Strategol: SP15 - Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth / Mater: Amddiffyn safleoedd a ddynodwyd ar lefel genedlaethol a rhyngwladol a safle o bwysigrwydd rhanbarthol a lleol** | | | | |
| Polisi: EN 6<br>Amcan: 15<br>Amcanion yr AC: 2,3 | Dangosydd Lleol:<br>Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar safleoedd a ddynodwyd yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, a safleoedd bioamrywiaeth a geoamrywiaeth o bwysigrwydd rhanbarthol, yn groes i'r fframwaith polisi | Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi | Caniatawyd un cais sy'n groes i'r fframwaith polisi | Polisi Cynllunio CBSCNPT a Chronfeydd Data Rheoli Datblygu |
| | Dangosydd Lleol:<br>Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n gysylltiedig â Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth | Paratoi'r CCA sy'n gysylltiedig â Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth erbyn Ebrill 2017 | Nid yw'r CCA wedi'u paratoi erbyn mis Ebrill 2017 | Polisi Cynllunio CBSCNPT |
| **Polisi Strategol: SP16 - Amddiffyn yr amgylchedd / Mater: Amddiffyn yr amgylchedd** | | | | |
| Polisïau: SP 2, EN 8<br>Amcanion: 16,17<br>Amcanion yr AC: 2,5 | Dangosydd Lleol:<br>Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i'r ARhAA, yn groes i'r fframwaith polisi | Ni ddylai cynigion datblygu arwain at gynnydd sylweddol yn lefelau llygredd ac ni ddylent arwain at gynnydd yn nifer y bobl sy'n dod i gysylltiad â lefelau sylweddol o lygredd | Caniatawyd un cais sy'n groes i'r fframwaith polisi | Polisi Cynllunio CBSCNPT a Chronfeydd Data Rheoli Datblygu |
| **Polisi Strategol: SP16 - Amddiffyn yr amgylchedd / Mater: Amddiffyn Ardal Ganolog Port Talbot rhag achosion o dorri'r amcanion ansawdd aer** | | | | |
| Polisïau: SP 2, EN 9<br>Amcanion: 16,17<br>Amcanion yr AC: 5,7 | Dangosydd Lleol:<br>Nifer y ceisiadau a ganiatawyd a gyflwynwyd heb Gynllun Rheoli Adeiladwaith | Ni ddylid gweld unrhyw achosion o fethu â chydymffurfio â'r safonau ansawdd aer yn ystod y cyfnod adeiladu, yn groes i'r Cynllun Rheoli Adeiladwaith a gyflwynwyd ac y cytunwyd arno | Gwelwyd un achos neu fwy o fethu â chydymffurfio â'r safonau ansawdd aer yn ystod y cyfnod adeiladu, yn groes i'r Cynllun Rheoli Adeiladwaith a gyflwynwyd ac y cytunwyd arno | Polisi Cynllunio CBSCNPT a Chronfeydd Data Rheoli Datblygu |
| | Dangosydd Lleol:<br>Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n gysylltiedig â Llygredd | Paratoi'r CCA sy'n gysylltiedig â Llygredd erbyn Hydref 2016 | Nid yw'r CCA wedi'u paratoi erbyn mis Hydref 2016 | Polisi Cynllunio CBSCNPT |
| **Polisi Strategol: SP16 - Amddiffyn yr amgylchedd / Mater: Mannau Tawel** | | | | |
| Polisïau: SP 2, EN 10<br>Amcanion: 16,17<br>Amcanion yr AC: 5,7 | Dangosydd Lleol:<br>Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i Ardaloedd Tawel dynodedig | Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi | Caniatawyd un cais sy'n groes i'r fframwaith polisi | Polisi Cynllunio CBSCNPT a Chronfeydd Data Rheoli Datblygu |
| **Polisi Strategol: SP17 - Mwynau / Mater: Cynnal isafswm cyflenwad o agregau ar hyd cyfnod y Cynllun** | | | | |
| Amcan: 18<br>Amcan yr AC: 2 | Dangosydd Craidd:<br>Hyd a lled yr agregau cynradd a dynnwyd o'r tir a ganiatawyd yn unol â'r Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer Agregau, wedi'i fynegi fel canran o gyfanswm y capasiti gofynnol, fel y nodwyd yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol (MTAN)<br>Dangosydd Lleol:<br>Cyflenwad tir agregau | Mae banc tir 10 mlynedd o gerrig wedi'u malu i gael ei gadw ar hyd cyfnod y Cynllun | Mae banc tir 10 mlynedd o gerrig wedi'u malu i gael ei gadw ar hyd cyfnod y Cynllun | Cronfa Ddata Polisi Cynllunio CBSCNPT<br>Adroddiadau Monitro Blynyddol SWRAWP |

| Croesgyfeirio | Dangosyddion | Targed | Pwynt Sbarduno | Ffynhonnell ddata |
|---|---|---|---|---|
| **Polisi Strategol: SP17 - Mwynau / Mater: Diogelu adnoddau a ganfuwyd** | | | | |
| Polisi: M 1<br>Amcan: 18<br>Amcan yr AC: 2 | Dangosydd Lleol:<br>Nifer y ceisiadau a ganiatawyd a fyddai'n sterileiddio adnodd mwynol | Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi | Caniatawyd un cais sy'n groes i'r fframwaith polisi | Polisi Cynllunio CBSCNPT a Chronfeydd Data Rheoli Datblygu |
| Polisi: M2 | Dangosydd Lleol:<br>Nid yw nifer y ceisiadau cynllunio ar gyfer echdynnu agregau mwynau yn cydweddu â Pholisi M2 | Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi | Caniatawyd un cais sy'n groes i'r fframwaith polisi | Polisi Cynllunio CBSCNPT a Chronfeydd Data Rheoli Datblygu |
| **Polisi Strategol: SP17 - Mwynau / Mater: Datblygiad mewn Parthau Clustogi Mwynau** | | | | |
| Polisi: M 3<br>Amcan: 18<br>Amcan yr AC: 2 | Dangosydd Lleol:<br>Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i Barthau Clustogi Mwynau | Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi | Caniatawyd un cais sy'n groes i'r fframwaith polisi | Polisi Cynllunio CBSCNPT a Chronfeydd Data Rheoli Datblygu |
| **Polisi Strategol: SP18 - Ynni Adnewyddadwy ac Ynni Carbon Isel / Mater: Darparu ar gyfer cyfraniad priodol i gyrraedd targedau cenedlaethol ar gyfer ynni adnewyddadwy** | | | | |
| Polisi: RE 1<br>Amcan: 19<br>Amcan yr AC: 1 | Dangosydd Lleol:<br>Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar gyfer datblygu technoleg ynni adnewyddadwy a charbon isel | Cyrraedd targedau capasiti AChS TAN 8 ac annog, lle bo hynny'n briodol, datblygu pob math ar ynni adnewyddadwy a thechnoleg carbon isel | Ni chofnodwyd cynnydd yn nifer y cynlluniau ynni adnewyddadwy a ganiateir | Polisi Cynllunio CBSCNPT a Chronfeydd Data Rheoli Datblygu |
| **Polisi Strategol: SP18 - Ynni Adnewyddadwy ac Ynni Carbon Isel / Mater: Ynni Adnewyddadwy ac Ynni Carbon Isel mewn Datblygiadau Newydd** | | | | |
| Polisi: RE 2<br>Amcan: 19<br>Amcan yr AC: 1 | Dangosydd Lleol:<br>Nifer y ceisiadau a ganiatawyd a gyflwynwyd ochr yn ochr ag Asesiad Ynni Adnewyddadwy | Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi | Caniatawyd un cais sy'n groes i'r fframwaith polisi | Polisi Cynllunio CBSCNPT a Chronfeydd Data Rheoli Datblygu |
| | Dangosydd Lleol:<br>Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n gysylltiedig ag Ynni Adnewyddadwy ac Ynni Carbon Isel | Paratoi'r CCA sy'n gysylltiedig ag Ynni Adnewyddadwy ac Ynni Carbon Isel erbyn Ebrill 2017 | Nid yw'r CCA wedi'u paratoi erbyn mis Ebrill 2017 | Polisi Cynllunio CBSCNPT |
| **Polisi Strategol: SP19 - Rheoli Gwastraff/ Mater: Rheoli Gwastraff mewn Datblygiad Newydd** | | | | |
| Polisi: W 3<br>Amcan: 20<br>Amcan yr AC: 2 | Dangosydd Lleol:<br>Nifer y ceisiadau a ganiatawyd a gyflwynwyd ochr yn ochr â Chynlluniau Rheoli Gwastraff ar y Safle | Dylai'r holl gynigion datblygu newydd sy'n cael eu cwmpasu gan delerau Polisi W3 gynhyrchu Cynlluniau Rheoli Gwastraff ar y Safle | Caniatawyd un cais sy'n groes i'r fframwaith polisi | Polisi Cynllunio CBSCNPT a Chronfeydd Data Rheoli Datblygu |
| | Dangosydd Lleol:<br>Nifer y cyfleusterau gwastraff a ganiatawyd ac a wrthodwyd ar safleoedd cyflogaeth | Sicrhau cyflenwad priodol o safleoedd cyflogaeth ar gyfer gwastraff | Gwrthodwyd un cais ar safle cyflogaeth y barnwyd ei fod yn addas ar gyfer gwastraff | Polisi Cynllunio CBSCNPT a Chronfeydd Data Rheoli Datblygu |
| | Dangosydd Lleol:<br>Swm y tir a'r cyfleusterau ar gyfer darparu ar gyfer gwastraff yn CNPT | Cynnal tir a chyfleusterau digonol i ddarparu ar gyfer gwastraff yn CNPT (i'w gadarnhau ar lefel ranbarthol yn unol ag NCT 21) | Pwyntiau sbarduno i gael eu sefydlu ar lefel ranbarthol yn unol â NCT 21 | Polisi Cynllunio CBSCNPT a Chronfeydd Data Rheoli Datblygu |

| Croesgyfeirio | Dangosyddion | Targed | Pwynt Sbarduno | Ffynhonnell ddata |
|---|---|---|---|---|
| **THEMA: CYFLAWNI HYGYRCHEDD CYNALIADWY** | | | | |
| **Polisi Strategol: SP20 - Y Rhwydwaith Trafnidiaeth / Mater: Gwelliannau i'r Rhwydwaith Priffyrdd** | | | | |
| Polisïau: SP 2, TR1/1, TR1/2, TR1/3, TR1/4, TR1/5<br>Amcanion: 21,22<br>Amcan yr AC: 6 | Dangosydd Lleol:<br>Cyflawni Ffordd Gyswllt Parc Ynni Baglan | Mae Ffordd Gyswllt Parc Ynni Baglan yn cael ei chyflawni erbyn dechrau 2015 | **WEDI'I GWBLHAU** | Polisi Cynllunio CBSCNPT a Chronfeydd Data Rheoli Datblygu<br><br>Adran Priffyrdd CBSCNPT |
| | Dangosydd Lleol:<br>Cyflawni Ffordd Fynediad Ddeheuol Coed Darcy | Mae Ffordd Fynediad Ddeheuol Coed Darcy yn cael ei chyflawni yn unol â thelerau'r cytundeb A.106 | Nid yw Ffordd Fynediad Ddeheuol Coed Darcy wedi'i chwblhau cyn i uned 501 gael ei meddiannu neu erbyn mis Gorffennaf 2017, p'un bynnag ddaw gyntaf | |
| | Dangosydd Lleol:<br>Cyflawni Ffordd Amazon (Cyfnod 2) | Cyflawnir Ffordd Amazon (Cyfnod 2) erbyn 2014 | **WEDI'I GWBLHAU** | |
| | Dangosydd Lleol:<br>Cyflawni'r Gwelliannau i Gyffordd 43 (yr M4) | Cyflawnir y gwelliannau i Gyffordd 43 (yr M4) yn raddol, yn unol â thelerau'r cytundeb A.106 | Ni chyflawnir y gwelliannau i Gyffordd 43 (yr M4) yn unol â thelerau'r cytundeb A.106 (yn cael ei adeiladu yn 2015) | |
| | Dangosydd Lleol:<br>Cyflawni Ffordd yr Harbwr (FfDdY) | Cyflawnir Ffordd yr Harbwr (FfDdY) erbyn 2014 | **WEDI'I GWBLHAU** | |
| **Polisi Strategol: SP20 - Y Rhwydwaith Trafnidiaeth / Mater: Gwelliannau i'r Orsaf Cludiant Cyhoeddus** | | | | |
| Polisïau: SP 2, TR1/6<br>Amcanion: 21,22<br>Amcan yr AC: 6 | Dangosydd Lleol:<br>Cyflawni'r Canolbwynt Trafnidiaeth Integredig, Port Talbot | Cyflawni'r prosiect erbyn 2018 | Nid yw cynllun y Canolbwynt Trafnidiaeth Integredig yn cael ei gyflawni erbyn 2018 | Polisi Cynllunio CBSCNPT<br><br>Adrannau Eraill y Cyngor |
| **Polisi Strategol: SP20 - Y Rhwydwaith Trafnidiaeth / Mater: Llwybrau Cerdded a Beicio** | | | | |
| Polisïau: SP 2, TR1/7, TR1/8<br>Amcanion: 21,22<br>Amcan yr AC: 6 | Dangosydd Lleol:<br>Cwblhau prosiect Llwybr Beicio Dyffryn Aman | Mae prosiect Llwybr Beicio Dyffryn Aman i gael ei gyflawni erbyn 2014 | **RHAN WEDI'I GWBLHAU** | Polisi Cynllunio CBSCNPT<br><br>Adrannau Eraill y Cyngor |
| | Dangosydd Lleol:<br>Cwblhau Trywydd Cwm Afan (o Bort Talbot i Gwm Afan) | Mae Trywydd Cwm Afan (o Bort Talbot i Gwm Afan) i gael ei gyflawni erbyn 2013 | **WEDI'I GWBLHAU** | |
| **Polisi Strategol: SP20 - Y Rhwydwaith Trafnidiaeth / Mater: Safleoedd Parcio a Rhannu** | | | | |
| Polisïau: SP 2, TR1/9<br>Amcanion: 21,22<br>Amcan yr AC: 6 | Dangosydd Lleol:<br>Cyflawni cyfleuster Parcio a Rhannu yng Nghyffordd 38 (yr M4) Margam | Cyflawni'r prosiect erbyn 2020 | Nid yw'r cyfleuster Parcio a Rhannu yng Nghyffordd 38 (yr M4) Margam yn cael ei gyflawni erbyn 2020 | Polisi Cynllunio CBSCNPT<br>Adrannau Eraill y Cyngor |
| | Dangosydd Lleol:<br>Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n gysylltiedig â Pharcio | Paratoi'r CCA sy'n gysylltiedig â Pharcio erbyn Hydref 2016 | Nid yw'r CCA wedi'u paratoi erbyn mis Hydref 2016 | Polisi Cynllunio CBSCNPT |

| Croesgyfeirio | Dangosyddion | Targed | Pwynt Sbarduno | Ffynhonnell ddata |
|---|---|---|---|---|
| **THEMA: PARCHU UNIGRYWIAETH** | | | | |
| **Polisi Strategol: SP21 - Yr Amgylchedd Adeiledig a'r Dreftadaeth Hanesyddol / Mater: Diogelu nodweddion o Bwysigrwydd Lleol** | | | | |
| Polisïau: BE 2<br>BE 3<br>Amcanion: 23,24<br>Amcan yr AC: 4 | Dangosydd Lleol:<br>Nifer y ceisiadau a ganiatawyd a gafodd effaith ar adeiladau a nodweddion o bwysigrwydd lleol, pensaernïol neu ddiwylliannol | Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi | Caniatawyd un cais ar gyfer datblygiad sy'n groes i'r fframwaith polisi | Polisi Cynllunio CBSCNPT a Chronfeydd Data Rheoli Datblygu |
| | Dangosydd Lleol:<br>Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n gysylltiedig â'r Amgylchedd Hanesyddol | Paratoi'r CCA sy'n gysylltiedig â'r Amgylchedd Hanesyddol erbyn Ebrill 2017 | Nid yw'r CCA wedi'u paratoi erbyn mis Ebrill 2017 | Polisi Cynllunio CBSCNPT |
| **Polisi Strategol: SP21 - Yr Amgylchedd Adeiledig a'r Dreftadaeth Hanesyddol / Mater: Amddiffyn Ardaloedd Cadwraeth a safleoedd eraill dynodedig** | | | | |
| Polisi: BE 1<br>Amcanion: 23,24<br>Amcan yr AC: 4 | Dangosydd Lleol:<br>Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i Ardaloedd Cadwraeth a safleoedd eraill dynodedig | Ni chaniateir ceisiadau sy'n groes i'r fframwaith polisi | Caniatawyd un cais ar gyfer datblygiad sy'n groes i'r fframwaith polisi | Polisi Cynllunio CBSCNPT a Chronfeydd Data Rheoli Datblygu |
| **Polisi Strategol: SP22 - Yr Iaith Gymraeg / Mater: Datblygiad mewn Ardaloedd Ieithyddol Sensitif** | | | | |
| Polisi: WL 1<br>Amcanion: 6,25<br>Amcan yr AC: 6 | Dangosydd Lleol:<br>Nifer y ceisiadau a ganiatawyd a gyflwynwyd gyda Chynllun Gweithredu Ieithyddol | Ni chaniateir ceisiadau yn yr Ardaloedd Ieithyddol Sensitif heb ymdrin â materion yr Iaith Gymraeg | Caniatawyd un cais yn yr Ardaloedd Ieithyddol Sensitif heb ymdrin â materion yr Iaith Gymraeg | Polisi Cynllunio CBSCNPT a Chronfeydd Data Rheoli Datblygu |
| | Dangosydd Lleol:<br>Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n gysylltiedig â Datblygiad a'r Iaith Gymraeg | Paratoi'r CCA sy'n gysylltiedig â Datblygiad a'r Iaith Gymraeg erbyn Ebrill 2017 | Nid yw'r CCA wedi'u paratoi erbyn mis Ebrill 2017 | Polisi Cynllunio CBSCNPT |





Adran 7

# Canllawiau Cynllunio Atodol

## 7 Canllawiau Cynllunio Atodol

**7.0.1** Ym marn y Cyngor mae'r CDLl yn cynnwys gwybodaeth a pholisïau digonol i ddarparu sail ar gyfer penderfynu ar geisiadau cynllunio trwy'r broses rheoli datblygu. Er gwaethaf hynny, nodwyd cyfleoedd ar hyd y Cynllun i ddarparu canllawiau manwl pellach ar faterion penodol.

**7.0.2** Mae defnydd dethol o Ganllawiau Cynllunio Atodol (CCA) yn fodd i gyflwyno canllawiau mwy manwl ar bynciau neu safleoedd penodol, neu sut bydd polisïau'r CDLl yn cael eu cymhwyso o dan amgylchiadau neu mewn ardaloedd arbennig. Er mai polisïau yn y CDLl yn unig sydd â statws arbennig wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio, gellir rhoi sylw i CCA[28], fel ystyriaeth bwysig.

**7.0.3** Mae'r Cyngor felly wedi cynhyrchu'r rhestr ganlynol o CCA y mae'n bwriadu eu cynhyrchu a/neu eu diweddaru yn ystod cyfnod y Cynllun. Er eglurder, rhoddir rhif polisi arfaethedig y CDLl, y bydd y CCA yn rhoi eglurhad pellach arno, ynghyd â dyddiad cwblhau disgwyliedig.

**7.0.4** Pan gaiff y CDLl ei fabwysiadu a'i roi ar waith, gallai ddod yn amlwg bod angen rhagor o CCA i egluro rhai o bolisïau'r Cynllun. Gallai fod angen, felly, i'r Cyngor gyflwyno CCA ar ben y rhai a amlinellwyd isod.



**Tabl 7.1** **Canllawiau Cynllunio Atodol**

| Cyfeirnod Polisi | Enw'r Polisi | Canllawiau Cynllunio Atodol | Dyddiad Cyhoeddi Disgwyliedig |
|---|---|---|---|
| I1 | Gofynion Isadeiledd | Rhwymedigaethau Cynllunio | Hydref 2016 |
| SRA2 | Ardal Adfywio Strategol Glannau'r Harbwr | Fframwaith Datblygu Harbwr Port Talbot a Chanol y Dref | Ebrill 2017 |
| VRS1 | Cynllun Adfywio'r Cymoedd | Fframwaith Datblygu Rhodfa'r Parc | Ebrill 2017 |
| AH1 | Tai Fforddiadwy | Tai Fforddiadwy | Hydref 2016 |
| OS1 | Darparu Mannau Agored | Mannau Agored a Mannau Glas | Ebrill 2017 |
| EC1 | Dyraniadau Cyflogaeth | Fframwaith Datblygu Bae Baglan | Hydref 2016 |
| EN2 | Ardaloedd Tirlun Arbennig | Tirlun a Morlun | Ebrill 2017 |
| EN6 | Safleoedd Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth pwysig | Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth | Ebrill 2017 |
| EN8 | Llygredd a Sefydlogrwydd Tir | Llygredd | Hydref 2016 |
| EN9 | Datblygiadau yn Ardal Ganolog Port Talbot | | |
| RE2 | Ynni Adnewyddadwy ac Ynni Carbon Isel mewn Datblygiadau Newydd | Ynni Adnewyddadwy ac Ynni Carbon Isel | Ebrill 2017 |
| SP20 | Y Rhwydwaith Trafnidiaeth | Parcio | Hydref 2016 |
| BE1 | Dylunio | Dylunio | Ebrill 2017 |
| BE2 | Adeiladau o Bwysigrwydd Lleol | Yr Amgylchedd Hanesyddol | Ebrill 2017 |
| WL1 | Datblygiad mewn Ardaloedd Ieithyddol Sensitif | Datblygiad a'r Iaith Gymraeg | Ebrill 2017 |

28 Adran 38 (6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004.





# Atodiad

## Atodiad A Polisi H1 Safleoedd Tai

**A.0.1** Elfen ganolog o strategaeth y CDLl yw cyflawni a gweithredu'r safleoedd tai a restrir ym Mholisi H1. Darperir disgrifiadau byr o'r safleoedd hyn isod, ynghyd â throsolwg o'r materion cyflawni a gweithredu penodol i'r safleoedd, gan gynnwys gwybodaeth, lle mae hynny'n hysbys, am gyfyngiadau'r safle, mesurau lliniaru / gwneud iawn angenrheidiol, a'r gofynion isadeiledd / A106 posibl y bydd eu hangen er mwyn cynnig y safleoedd i'w datblygu.

**A.0.2** Dylid pwysleisio, fodd bynnag, nad yw'r wybodaeth a gyflwynir isod yn derfynol, a'i bod yn cynrychioli ciplun sydd wedi'i seilio ar yr wybodaeth orau oedd ar gael ar adeg mabwysiadu'r CDLl. Anogir datblygwyr, felly, i gychwyn trafodaethau cyn gynted â phosibl gyda swyddogion Rheoli Datblygu **[planning@npt.gov.uk]** cyn cyflwyno cais cynllunio ffurfiol. Bydd trafodaethau o'r fath cyn cyflwyno cais yn gyfle gwerthfawr i bob parti ystyried cwmpas ac effaith y cynnig datblygu ac unrhyw gyfyngiadau safle-benodol a gofynion isadeiledd sy'n bodoli.

**A.0.3** O ran y safleoedd Banc Tir hynny [H1/LB/*] sydd naill ai yn cael eu hadeiladu, yn agos at gael eu cwblhau neu wedi'u cwblhau, byddai'r holl faterion cysylltiedig â chyfyngiadau safle a gofynion isadeiledd wedi derbyn sylw adeg y cais cynllunio manwl a/neu cyn y cyfnod adeiladu, ac felly nid ydynt yn cael eu hailadrodd yma. O ran y safleoedd Banc Tir hynny lle nad yw'r cyfnod adeiladu wedi cychwyn eto, mae'r manylion a ddarparwyd wedi'u cyfyngu i'r caniatâd cynllunio perthnasol, ac yn deillio ohonynt.



**Tabl A.1** **Polisi H1 Safleoedd Tai**

| Safle | Disgrifiad o'r Safle | Nodweddion y Safle - Cyfleoedd a Chyfyngiadau |
|---|---|---|
| **ARDAL OFODOL CASTELL-NEDD** | | |
| **H1/1 Cartref Gofal Gorffwysfa, Bryncoch** | Mae'r safle tir llwyd wedi'i leoli ar ymyl ogleddol bellaf anheddiad Bryncoch, ac mae yn ymyl yr A474 Heol Castell-nedd, sef y prif lwybr rhwng ardal drefol Castell-nedd a Phontardawe i'r gogledd.<br><br>Mae'r safle'n cynnig cyfle ailddatblygu ar dir sydd ar hyn o bryd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer nifer o adeiladau, sef Cartref Gofal Preswyl Gorffwysfa. Mae'r cyfleuster i gael ei gau o ganlyniad i 'Gynllun Trawsnewid Gwasanaethau Pobl Hŷn y Cyngor', ac mae'r trigolion i gael eu trosglwyddo i gyfleuster newydd a adeiladwyd at y diben yn yr ardal leol. | • **Priffyrdd** - angen mynediad o Lys Gwynfryn; angen mân welliannau i'r llwybr troed.<br>• **Bioamrywiaeth** - mae posibilrwydd y gallai fod rhywogaethau a amddiffynnir mewn adeiladau a pherthi ar y safle, a gallai fod angen mesurau lliniaru.<br>• **Darpariaeth Tai Fforddiadwy** - 25% yn ofynnol ar y safle.<br>• **Cyfleustodau** - mae llinell nwy pwysedd uchel yn rhedeg i'r gogledd o'r safle, ac mae angen parth clustogi addas ar ei chyfer; mae cebl pŵer uwchben a phrif gyflenwad nwy pwysedd isel ar y safle; mae angen dulliau ar wahân i waredu'r dŵr brwnt a'r dŵr arwyneb.<br>• **Halogiad** - angen astudiaeth pen desg.<br>• **Darpariaeth Mannau Agored** - angen cyfraniad ariannol.<br>• **Darpariaeth Addysg** - angen cyfraniad ariannol posibl. |
| **H1/2 Estyniad i Barc Leiros, Bryncoch** | Mae'r safle maes glas yn ymyl ardal breswyl sefydledig ar ochr ogledd-ddwyreiniol Bryncoch, gyda mynediad da i Ganol Tref Castell-nedd a'r cyfleusterau a'r gwasanaethau mwy lleol sydd ar gael. | • **Priffyrdd** - angen gwelliannau i'r priffyrdd oddi ar y safle; angen dau bwynt mynediad (Daphne Road a Rhodfa Parc Leiros) fel bod modd cael trefniant priffyrdd cylchol;<br>• **Trafnidiaeth Gyhoeddus / Cysylltedd** - mae angen cysylltiadau allweddol ar gyfer cysylltedd Cludiant Cyhoeddus/beicio/cerddwyr.<br>• **Hawliau Tramwy Cyhoeddus** - cadw parthau clustogi wedi'u tirlunio mewn mannau uchel/amlwg er mwyn diogelu'r golygfeydd/fistâu o'r rhwydwaith;<br>• **Bioamrywiaeth** - mae perthi/waliau cerrig yn darparu cysylltedd; cadw parth clustogi priodol i Gamlas Rhyddings; amddiffynnir coed ar hyd y lôn werdd gan Orchymyn Cadw Coed;<br>• **Darpariaeth Tai Fforddiadwy** - 25% yn ofynnol ar y safle.<br>• **Cyfleustodau** - mae cebl pŵer uwchben yn croesi rhan o'r safle; mae angen modelu/asesu hydrolig i oresgyn anawsterau o ran y cyflenwad dŵr a chysylltiadau â'r rhwydwaith carthffosiaeth.<br>• **Halogiad** - angen astudiaeth pen desg.<br>• **Archaeoleg** - angen asesu cyn penderfynu ar unrhyw gais cynllunio; bydd angen cadw llinell y gamlas hanesyddol.<br>• **Darpariaeth Mannau Agored** - gofyniad ar y safle.<br>• **Darpariaeth Addysg** - angen cyfraniad ariannol posibl.<br>• **Gwastraff** - bydd angen Cynllun Rheoli Gwastraff ar gyfer y Safle yn unol â Pholisi W3.<br>• **Ynni** - bydd angen Asesiad Ynni yn unol â Pholisi RE2. |
| **H1/3 Heol Groves (Cyfnod 2), Cimla** | Mae'r safle maes glas nesaf at ardal breswyl sefydledig ac yn ymyl datblygiad presennol sy'n cael ei adeiladu ar hyn o bryd [H1/LB/2 - Heol Groves (Cyfnod 1)]. | • **Priffyrdd** - mynediad i'r safle trwy ddatblygiad cyfagos Cyfnod 1.<br>• **Bioamrywiaeth** - cadw parth clustogi priodol, heb ddatblygiad, i Eastland Brook; mae coetir/perthi yn ddull o sicrhau cysylltedd, a dylid eu cadw lle bo modd; gallai amrywiol rywogaethau fod yn bresennol.<br>• **Darpariaeth Tai Fforddiadwy** - 25% yn ofynnol ar y safle.<br>• **Darpariaeth Mannau Agored** - angen cyfraniad ariannol.<br>• **Darpariaeth Addysg** - angen cyfraniad ariannol posibl. |
| **H1/4 Ocean View, Jersey Marine** | *Safle'n cael ei adeiladu/bron wedi'i gwblhau.* | |

| Safle | Disgrifiad o'r Safle | Nodweddion y Safle - Cyfleoedd a Chyfyngiadau |
|---|---|---|
| **H1/5 Ysgol Isaf Dŵr y Felin, Longford** | Mae'r safle tir llwyd yn rhan o anheddiad presennol Longford.<br><br>Mae'r safle'n cynnig cyfle ailddatblygu ar dir oedd gynt yn gartref i Ysgol Isaf Dŵr y Felin, a gaeodd fel rhan o 'Raglen Strategol Gwella Ysgolion' y Cyngor. | ● **Priffyrdd** - mae angen dau bwynt mynediad fel bod modd cael trefniant priffyrdd cylchol.<br>● **Trafnidiaeth Gyhoeddus** - mae angen cysylltiadau allweddol ar gyfer cysylltedd Cludiant Cyhoeddus/beicio/cerddwyr.<br>● **Hawliau Tramwy Cyhoeddus** cadw parthau clustogi wedi'u tirlunio mewn mannau uchel/amlwg er mwyn diogelu'r golygfeydd/fistâu o'r rhwydwaith.<br>● **Bioamrywiaeth** - dylid cadw'r stribed cul o goetir yn ymyl ffin y safle lle bo modd.<br>● **Darpariaeth Tai Fforddiadwy** - 25% yn ofynnol ar y safle.<br>● **Cyfleustodau** - mae cebl pŵer uwchben a charthffos gyhoeddus yn croesi rhan o'r safle; gallai fod gofyn cryfhau'r rhwydwaith nwy; mae angen strategaeth ddraenio integredig.<br>● **Halogiad** - angen astudiaeth pen desg.<br>● **Darpariaeth Mannau Agored** - gofyniad ar y safle.<br>● **Darpariaeth Addysg** - angen cyfraniad ariannol posibl.<br>● **Gwastraff** - bydd angen Cynllun Rheoli Gwastraff ar gyfer y Safle yn unol â Pholisi W3.<br>● **Ynni** - bydd angen Asesiad Ynni yn unol â Pholisi RE2. |
| **H1/6 Cartref Gofal Hafod House, Castell-nedd** | Mae'r safle tir llwyd yn agos at Ganol Tref Castell-nedd.<br><br>Mae'r safle'n cynnig cyfle ailddatblygu ar dir sydd ar hyn o bryd yn gartref i nifer o adeiladau, sef Cartref Gofal Preswyl Hafod House. Mae'r cyfleuster i gael ei gau o ganlyniad i 'Gynllun Trawsnewid Gwasanaethau Pobl Hŷn y Cyngor', ac mae'r trigolion i gael eu trosglwyddo i gyfleuster newydd a adeiladwyd at y diben yn yr ardal leol. | ● **Priffyrdd** - gellir defnyddio dulliau mynediad presennol.<br>● **Bioamrywiaeth** - mae coed ar y safle wedi'u hamddiffyn gan Orchymyn Cadw Coed.<br>● **Darpariaeth Tai Fforddiadwy** - 25% yn ofynnol ar y safle.<br>● **Cyfleustodau** - mae prif gyflenwad nwy pwysedd isel /ceblau trydan tanddaear ar y safle; bydd angen dulliau ar wahân o waredu'r dŵr brwnt a'r dŵr arwyneb.<br>● **Halogiad** - angen astudiaeth pen desg.<br>● **Darpariaeth Mannau Agored** - angen cyfraniad ariannol.<br>● **Darpariaeth Addysg** - angen cyfraniad ariannol posibl. |
| **H1/7 Ailddatblygu Canol Tref Castell-nedd, Castell-nedd** | Mae'r safle tir llwyd yn cynnwys y tir cysylltiedig â swyddfeydd y Cyngor gynt, y maes parcio ar lefel y stryd, Llys yr Ynadon, y maes parcio aml-lawr a'r ddwy siop oddi tano, y rhes o dai teras a ddymchwelwyd ar Stryd y Dŵr, tir rhwng y llwybr cerddwyr yn ymyl Eglwys Dewi Sant, gan gynnwys yr iard wasanaeth, yr unedau manwerthu a'r dafarn sy'n wynebu Stryd y Dŵr ac adeilad y Gwasanaethau Cymdeithasol ar Stryd y Gwynt. Mae hefyd yn cynnwys meysydd parcio Stryd Rosser a'r Stryd Fawr a llain o dir oddi ar Stryd y Gwynt. | ● **Yr Amgylchedd** - mae'r safle'n agos iawn at Ardal Gadwraeth Parc Victoria, Parc a Gardd Hanesyddol a nifer o adeiladau hanesyddol (e.e. Tŵr Eglwys Dewi Sant), y bydd angen rhoi ystyriaeth ofalus iddynt.<br>● **Bioamrywiaeth** - gallai fod yn bresennol yn yr adeiladau presennol, a bydd angen cynnal arolygon cyn y gwaith dymchwel.<br>● **Darpariaeth Tai Fforddiadwy** - 25% yn ofynnol ar y safle.<br>● **Cyfleustodau** - mae prif gyflenwad dŵr / carthffos gyhoeddus / prif gyflenwad nwy / cyflenwad trydan yn croesi'r safle.<br>● **Halogiad** - angen astudiaeth pen desg.<br>● **Archaeoleg** - mae rhan o'r safle yn ardal tref ganoloesol Castell-nedd, er ei bod hi'n bosibl bod datblygiadau pwysig sylweddol eisoes wedi dinistrio neu ddifrodi nodweddion archaeolegol i raddau helaeth. Bydd angen asesiad neu werthusiad.<br>● **Sŵn** - mae Maes Eglwys a Gerddi Victoria wedi'u mabwysiadu'n fannau tawel, a bydd angen rhoi ystyriaeth ofalus iddynt.<br>● **Gwastraff** - bydd angen Cynllun Rheoli Gwastraff ar gyfer y Safle yn unol â Pholisi W3.<br>● **Darpariaeth Addysg** - angen cyfraniad ariannol posibl. |

| Safle | Disgrifiad o'r Safle | Nodweddion y Safle - Cyfleoedd a Chyfyngiadau |
|---|---|---|
| **H1/8 Gelli Crymlyn (Cyfnod 2), Sgiwen** | *Safle'n cael ei adeiladu/bron wedi'i gwblhau.* | |
| **H1/9 Gelli Crymlyn (Cyfnod 3), Sgiwen** | Mae'r safle maes glas y tu ôl i Ystâd Parc Crymlyn ac yn ymyl dyraniad tai arfaethedig y CDLl (H1/8). | • **Priffyrdd** - mae angen dau bwynt mynediad fel bod modd cael trefniant priffyrdd cylchol.<br>• **Bioamrywiaeth** - dylid cadw perthi/waliau cerrig sydd eisoes yn bodoli lle bo modd, i sicrhau cysylltedd; mae rhan ogledd-ddwyreiniol y safle'n bwysig o safbwynt cysylltedd ymlusgiaid a chreaduriaid di-asgwrn cefn, ac mae angen asesu pellach ar ymlusgiaid, moch daear a Balsam Himalaya; dylid cadw'r coed ar ran ogleddol y safle, i sgrinio'r datblygiad o Drafford yr M4 - bydd angen cynnal asesiad o'r sŵn o ran agosrwydd y safle i'r M4; bydd angen rhoi sylw manwl i effaith draenio'r safle ar ACA Cors Crymlyn wrth gyflwyno'r cais cynllunio.<br>• **Darpariaeth Tai Fforddiadwy** - 25% yn ofynnol ar y safle.<br>• **Cyfleustodau** - bydd angen parth clustogi priodol ar gyfer y biblinell nwy pwysedd uchel; mae llinellau pŵer uwchben yn croesi'r safle; mae rhan o'r safle wedi codi i lefel lle na ellir gwarantu pwysedd y prif gyflenwad dŵr, ac o ganlyniad gallai fod angen prif gyflenwad dŵr ar draul y datblygwr; gallai fod angen prif gyflenwad ar y safle ar gyfer cysylltiad carthffosiaeth; gallai fod angen cynllun draenio tebyg i'r hyn sydd ar y safle yn ymyl.<br>• **Halogiad** - angen astudiaeth pen desg.<br>• **Darpariaeth Mannau Agored** - gofyniad ar y safle; gallai fod angen adleoli'r lle chwarae presennol i blant i leoliad hygyrch sydd â chysylltiadau beicio/cerdded diogel.<br>• **Darpariaeth Addysg** - angen cyfraniad ariannol posibl.<br>• **Gwastraff** - bydd angen Cynllun Rheoli Gwastraff ar gyfer y Safle yn unol â Pholisi W3.<br>• **Ynni** - bydd angen Asesiad Ynni yn unol â Pholisi RE2. |
| **H1/10 Wern Goch, Sgiwen** | Mae'r safle maes glas yn cael ei adeiladu'n rhannol, gan fod caniatâd cynllunio wedi'i sicrhau ar gyfer dau gyfnod cyntaf y datblygiad. Mae Cyfnod 1 wedi'i adeiladu ac mae Cyfnod 2 ar waith. | • **Priffyrdd** - cyfyngu'r mynediad o Heol Crymlyn i 50 uned; mae angen mesurau arafu traffig ar hyd Heol Crymlyn.<br>• **Bioamrywiaeth** - dylid cadw coed/perthi gyda pharth clustogi priodol; bydd angen parth clustogi priodol ar gyfer y cwrs dŵr; bydd angen ystyried yn ofalus sut mae draenio'r safle er mwyn penderfynu ar gyfeiriad y draenio ac a fydd unrhyw effaith ar ACA Cors Crymlyn.<br>• **Yr Amgylchedd** - oherwydd bod y safle mor agos at yr M4, dylid gosod yr eiddo yn bellach nôl i sicrhau bod NO2 yn cael ei wasgaru, a bydd angen asesiad sŵn.<br>• **Darpariaeth Tai Fforddiadwy** - 25% yn ofynnol ar y safle.<br>• **Cyfleustodau** - mae prif gyflenwad dŵr yn croesi'r safle.<br>• **Halogiad** - angen astudiaeth pen desg.<br>• **Cysylltedd** - dylid ystyried ymarferoldeb darparu cysylltiad i gerddwyr o'r safle i Barc Tennant, a dylid ystyried cysylltiad â'r llwybr beicio gerllaw.<br>• **Darpariaeth Mannau Agored** - angen cyfraniad ariannol.<br>• **Darpariaeth Addysg** - angen cyfraniad ariannol posibl.<br>• **Gwastraff** - bydd angen Cynllun Rheoli Gwastraff ar gyfer y Safle yn unol â Pholisi W3. |

| Safle | Disgrifiad o'r Safle | Nodweddion y Safle - Cyfleoedd a Chyfyngiadau |
|---|---|---|
| **H1/11 Heol Castell-nedd / Heol Fairyland, Tonna** | Mae'r safle maes glas sydd ar rywfaint o oleddf yn ymyl datblygiad 'Hunters Ridge' a'r 'Paddocks' yn Nhonna, gyda Heol Castell-nedd i'r gorllewin, a Heol Fairyland i'r de. | ● **Priffyrdd** - mae angen dau bwynt mynediad fel bod modd cael trefniant priffyrdd cylchol; gall fod angen Gorchmynion Rheoleiddio Traffig i ymdrin â phroblemau lleol o ran y briffordd a pharcio ar hyd Stryd y Parc a Heol Llantwit.<br>● **Bioamrywiaeth** - dylid diogelu perthi/nodweddion ffiniol lle bo hynny'n ymarferol; os bydd y datblygiad yn effeithio ar yr ymyl cadwraeth ar Heol Fairyland, bydd angen mesurau lliniaru neu wneud iawn. Dylid darparu parth clustogi tirlun ar gyfer Heol Fairyland.<br>● **Darpariaeth Tai Fforddiadwy** - 25% yn ofynnol ar y safle.<br>● **Cyfleustodau** - mae llinellau pŵer trydan yn croesi'r safle; angen gwella'r system ddraenio; gallai fod angen cryfhau'r prif gyflenwad nwy; mae angen modelu/asesu hydrolig, a gallai fod angen gwelliannau i'r cyflenwad Dŵr/system garthffosiaeth.<br>● **Halogiad** - angen astudiaeth pen desg.<br>● **Archaeoleg** - mae cyfyngiad archaeolegol bychan yn bodoli yng Nghefn y Don, a bydd angen gwneud gwaith yno cyn penderfynu'n gadarnhaol ar gais gynllunio.<br>● **Cysylltedd** - dylid ystyried creu cysylltiad i gerddwyr rhwng y safle a'r lle chwarae i blant ar ddatblygiad cyfagos Hunter's Ridge.<br>● **Darpariaeth Mannau Agored** - gofyniad ar y safle.<br>● **Darpariaeth Addysg** - angen cyfraniad ariannol posibl.<br>● **Gwastraff** - bydd angen Cynllun Rheoli Gwastraff ar gyfer y Safle yn unol â Pholisi W3.<br>● **Ynni** - bydd angen Asesiad Ynni yn unol â Pholisi RE2. |
| **H1/LB/1 Waunceirch, Bryncoch** | *Safle wedi'i gwblhau.* | |
| **H1/LB/2 Heol Groves (Cyfnod 1), Cimla** | *Safle'n cael ei adeiladu/bron wedi'i gwblhau.* | |
| **H1/LB/3 Cilgant Elba, Twyni Crymlyn** | Mae'r safle tir llwyd gwastad yn ymyl anheddiad Twyni Crymlyn ac mae yn ymyl ardal lle ceir tai a chyflogaeth eisoes. | ● **Priffyrdd** - angen mynediad oddi ar Gilgant Elba, ynghyd â gwaith i wella'r briffordd oddi ar y safle.<br>● **Bioamrywiaeth** - angen arolwg ecolegol/ymlusgiaid, a gallai fod gofyn lliniaru.<br>● **Yr Amgylchedd** - mae angen asesiad sŵn/ffens sy'n creu rhwystr acwstig; bydd angen parth clustogi wedi'i dirlunio sy'n 10 metr o led ar gyfer ffin y safle; angen cynllun ar gyfer dileu rhywogaethau ymwthiol.<br>● **Darpariaeth Tai Fforddiadwy** - 20% yn ofynnol ar y safle.<br>● **Cyfleustodau** - mae carthffos gyhoeddus yn croesi'r safle; gallai fod galw am brif gyflenwad dŵr ar/oddi ar y safle.<br>● **Halogiad** - angen asesiad ynghyd â chynllun gwneud iawn yn ôl y galw.<br>● **Darpariaeth Mannau Agored** - angen cyfraniad ariannol. |
| **H1/LB/4 Ardal 1, Coed Darcy, Llandarcy** | *Safle'n cael ei adeiladu.* | |
| **H1/LB/5 Pentref Trefol Coed Darcy, Llandarcy** | *Safle'n cael ei adeiladu.* | |

| Safle | Disgrifiad o'r Safle | Nodweddion y Safle - Cyfleoedd a Chyfyngiadau |
|---|---|---|
| **H1/LB/6 Eaglesbush, Castell-nedd** | Mae'r safle, sy'n un maes glas yn bennaf, ym mhen dwyreiniol Melincryddan. Mae adeiladau eisoes ar y safle, a byddai angen eu dymchwel. | • **Priffyrdd** - uchafswm o 50 annedd ar y safle; mae angen gwaith gwella'r brifffordd oddi ar y safle, ynghyd â Gorchmynion Rheoleiddio Traffig.<br>• **Bioamrywiaeth** - mae angen arolygon o'r adeiladau presennol; mae angen parth clustogi 10 metr i'r coetir cyfagos; mae nifer o'r coed presennol wedi'u diogelu gan Orchymyn Cadw Coed.<br>• **Darpariaeth Tai Fforddiadwy** - gofyniad.<br>• **Cyfleustodau** - mae isadeiledd trydan/nwy yn croesi'r safle; mae cwlfert o dan ran o'r safle; gallai fod galw am brif gyflenwad dŵr ar/oddi ar y safle a'r isadeiledd cysylltiedig.<br>• **Halogiad** - angen astudiaeth pen desg.<br>• **Archaeoleg** - gallai fod yn bresennol ar y safle, a bydd angen cytuno ar raglen o gofnodi/dadansoddi adeiladau hanesyddol a rhaglen o waith.<br>• **Darpariaeth Mannau Agored** - angen cyfraniad ariannol. |
| **H1/LB/7 Garthmor (Cyfnod 2), Castell-nedd** | Mae'r safle maes glas estynedig yn cynrychioli cyfnod olaf datblygiad mwy.<br><br>Mae'r safle yn ardal breswyl sefydledig Melincryddan. | • **Priffyrdd** - angen cynllun rheoli traffig.<br>• **Bioamrywiaeth** - mae nifer o'r coed presennol wedi'u diogelu gan Orchymyn Cadw Coed.<br>• **Yr Amgylchedd** - angen cynllun ar gyfer dileu rhywogaethau ymwthiol.<br>• **Darpariaeth Tai Fforddiadwy** - gofyniad.<br>• **Cyfleustodau** - mae carthffos gyhoeddus / prif gyflenwad dŵr yn croesi'r safle; gallai fod galw am brif gyflenwad dŵr ar/oddi ar y safle a'r isadeiledd cysylltiedig.<br>• **Darpariaeth Mannau Agored** - gofyniad. |
| **H1/LB/8 Heol Llansawel, Castell-nedd** | *Safle'n cael ei adeiladu/bron wedi'i gwblhau.* | |
| **H1/LB/9 The Ropewalk, Castell-nedd** | *Safle'n cael ei adeiladu/bron wedi'i gwblhau.* | |
| **H1/LB/10 Barrons Court, Mynachlog Nedd** | Mae'r safle maes glas hwn ym Mynachlog Nedd ac mae'n rhan o ddatblygiad presennol Barrons Court.<br><br>Mae'r safle yn ymyl cyfadeilad Chwaraeon Cwrt Herbert a datblygiad preswyl sydd eisoes yn bodoli. | • **Yr Amgylchedd** - angen cynllun ar gyfer dileu rhywogaethau ymwthiol.<br>• **Darpariaeth Tai Fforddiadwy** - gofyniad A106 i gynnal Asesiadau Dichonoldeb Tai Fforddiadwy yn barhaus. |
| **H1/LB/11 Heol Cardonnel, Sgiwen** | Mae'r safle tir llwyd yn agos at ymyl ddeheuol Sgiwen. Mae'n cynnwys annedd a gardd fawr, sydd i gael ei ddymchwel i hwyluso'r datblygiad. | • **Priffyrdd** - angen gwaith gwella, ynghyd â Gorchmynion Rheoleiddio Traffig.<br>• **Yr Amgylchedd** - angen cynllun ar gyfer dileu rhywogaethau ymwthiol; angen parth clustogi priodol ar gyfer y cwrs dŵr.<br>• **Darpariaeth Tai Fforddiadwy** - 100% yn Dai Fforddiadwy.<br>• **Cyfleustodau** - mae angen cynllun draenio; mae carthffos yn croesi'r safle; gallai fod galw am brif gyflenwad dŵr ar/oddi ar y safle a'r isadeiledd cysylltiedig. |
| **H1/LB/12 Gelli Crymlyn (Cyfnod 1), Sgiwen** | *Safle'n cael ei adeiladu/bron wedi'i gwblhau.* | |

| Safle | Disgrifiad o'r Safle | Nodweddion y Safle - Cyfleoedd a Chyfyngiadau |
|---|---|---|
| **ARDAL OFODOL PORT TALBOT** | | |
| **H1/12 Ysgol Blaenbaglan (tir y tu ôl iddi), Baglan** | Mae'r safle maes glas yn cwmpasu rhan o ymyl ddwyreiniol ardal breswyl sefydledig Baglan a'r ardal yn union y tu ôl i'r ysgol. Mae'r safle ar oleddf ac mewn man uchel. | • **Priffyrdd** - mae angen pwyntiau mynediad oddi ar Darren Wen, Ty'n y Tŵr a Maes Tŷ Canol; mae angen gwaith gwella'r briffordd oddi ar y safle.<br>• **Trafnidiaeth Gyhoeddus / Cysylltedd** - mae angen cysylltiadau allweddol ar gyfer cysylltedd Cludiant Cyhoeddus/beicio/cerddwyr.<br>• **Bioamrywiaeth** - dylid diogelu perthi/nodweddion ffiniol lle bo modd; rhywogaethau o ddiddordeb yn gysylltiedig â'r ardal goetir ogleddol, a bydd angen darparu parth clustogi priodol i'w amddiffyn.<br>• **Darpariaeth Tai Fforddiadwy** - 25% yn ofynnol ar y safle.<br>• **Cyfleustodau** - ni ellir gwarantu pwysedd y prif gyflenwad dŵr oherwydd y safle uchel, sy'n golygu bod angen gorsaf bwmpio dŵr newydd; mae angen modelu/asesu hydrolig i oresgyn anawsterau o ran y cyflenwad dŵr a chysylltiadau â'r rhwydwaith carthffosiaeth; y gofyn tebygol am isadeiledd carthffosiaeth oddi ar y safle; gallai fod angen cryfhau'r isadeiledd nwy; mae llinellau pŵer uwchben yn croesi'r safle.<br>• **Yr Amgylchedd** - mae'n ofynnol bod lefelau dŵr ffo o dir maes glas yn cael eu cynnal.<br>• **Darpariaeth Mannau Agored** - gofyniad ar y safle.<br>• **Darpariaeth Addysg** - angen cyfraniad ariannol posibl.<br>• **Gwastraff** - bydd angen Cynllun Rheoli Gwastraff ar gyfer y Safle yn unol â Pholisi W3.<br>• **Ynni** - bydd angen Asesiad Ynni yn unol â Pholisi RE2. |
| **H1/13 Hawthorn Close, Cwmafan** | Mae'r safle maes glas i'r de-ddwyrain o Gwmafan, nesaf at y datblygiad presennol ac yn agos iawn at safle Western Logs a ddyrannwyd (H1/14). | • **Priffyrdd** - angen gwelliannau i'r briffordd; mynediad oddi ar yr A4107; angen Asesiad Trafnidiaeth llawn.<br>• **Bioamrywiaeth** - bydd colli cynefin CGBLl o ganlyniad i ddatblygiad yn galw am fesurau lliniaru; dylid cadw perthi lle bynnag y bo modd; angen parth clustogi priodol ar gyfer y cwrs dŵr/coetir.<br>• **Darpariaeth Tai Fforddiadwy** - 25% yn ofynnol ar y safle.<br>• **Cyfleustodau** - Mae angen modelu/asesu hydrolig i oresgyn anawsterau o ran y cyflenwad dŵr a chysylltiadau â'r rhwydwaith carthffosiaeth; mae llinellau pŵer uwchben yn croesi'r safle.<br>• **Yr Amgylchedd** - bydd angen parth clustogi priodol i amddiffyn y cwlfert agored presennol.<br>• **Halogiad** - angen astudiaeth pen desg; gallai fod treftadaeth mwyngloddio ar y safle, a gallai fod angen gwaith lliniarol.<br>• **Darpariaeth Mannau Agored** - gofyniad ar y safle.<br>• **Cysylltedd** - bydd angen cysylltiadau cerddwyr/beicio i Gwmafan.<br>• **Darpariaeth Addysg** - angen cyfraniad ariannol posibl.<br>• **Gwastraff** - bydd angen Cynllun Rheoli Gwastraff ar gyfer y Safle yn unol â Pholisi W3.<br>• **Ynni** - bydd angen Asesiad Ynni yn unol â Pholisi RE2. |

| Safle | Disgrifiad o'r Safle | Nodweddion y Safle - Cyfleoedd a Chyfyngiadau |
|---|---|---|
| **H1/14 Western Logs, Cwmafan** | Mae'r safle tir llwyd i'r de-ddwyrain o Gwmafan ac yn agos iawn at safle dyranedig Hawthorn Close (H1/13). | ● **Priffyrdd** - angen gwelliannau i'r briffordd; mynediad oddi ar yr A4107; angen Asesiad Trafnidiaeth llawn.<br>● **Bioamrywiaeth** - mae peth gwerth bioamrywiaeth i'r ffiniau gogleddol a dwyreiniol (coetir cymysg) sy'n bwysig ar gyfer cysylltedd, ac y dylid eu cadw lle bo modd.<br>● **Darpariaeth Tai Fforddiadwy** - 25% yn ofynnol ar y safle.<br>● **Cyfleustodau** - Mae angen modelu/asesu hydrolig i oresgyn anawsterau o ran y cyflenwad dŵr a chysylltiadau â'r rhwydwaith carthffosiaeth; mae llinellau pŵer uwchben yn croesi'r safle.<br>● **Yr Amgylchedd** - bydd angen parth clustogi priodol i amddiffyn y cwlfert agored presennol.<br>● **Halogiad** - angen astudiaeth pen desg; gallai fod treftadaeth mwyngloddio ar y safle, a gallai fod angen gwaith lliniarol.<br>● **Darpariaeth Mannau Agored** - gofyniad ar y safle.<br>● **Cysylltedd** - bydd angen cysylltiadau cerddwyr/beicio i Gwmafan.<br>● **Darpariaeth Addysg** - angen cyfraniad ariannol posibl.<br>● **Gwastraff** - bydd angen Cynllun Rheoli Gwastraff ar gyfer y Safle yn unol â Pholisi W3.<br>● **Ynni** - bydd angen Asesiad Ynni yn unol â Pholisi RE2. |
| **H1/15 Coleg Castell-nedd Port Talbot (Campws Margam), Margam** | Mae'r safle tir llwyd yn ardal breswyl sefydledig Margam. Mae'r safle'n cynnig cyfle ailddatblygu ar dir sydd ar hyn o bryd yn gartref i adeiladau sy'n rhan o Gampws y Coleg. Mae'r cyfleuster addysg uwch i gael ei adleoli i ardal Glannau'r Harbwr, ac wedi hynny bydd y safle ar gael i'w ailddatblygu. | ● **Priffyrdd** - angen mynediad oddi ar Beechwood Road a College Green.<br>● **Bioamrywiaeth** - mae angen arolwg o'r adeiladau presennol.<br>● **Darpariaeth Tai Fforddiadwy** - 25% yn ofynnol ar y safle.<br>● **Cyfleustodau** - mae isadeiledd trydan / carthffosydd yn croesi'r safle; mae angen dulliau ar wahân i waredu'r dŵr brwnt a'r dŵr arwyneb.<br>● **Halogiad** - angen astudiaeth pen desg.<br>● **Yr Amgylchedd** - bydd angen parth clustogi 10 metr ar gyfer Traffordd yr M4.<br>● **Darpariaeth Mannau Agored** - gofyniad ar y safle.<br>● **Darpariaeth Addysg** - angen cyfraniad ariannol posibl.<br>● **Gwastraff** - bydd angen Cynllun Rheoli Gwastraff ar gyfer y Safle yn unol â Pholisi W3. |
| **H1/16 Ysgol Gyfun Glanafan, Port Talbot** | Mae'r safle tir llwyd yng nghanol Port Talbot, ar brif stryd siopa Heol yr Orsaf. Mae'r safle'n cynnig cyfle ailddatblygu ar dir sydd ar hyn o bryd yn gartref i Ysgol Gyfun Glanafan, fydd yn cael ei hadleoli fel rhan o Raglen Gwella Ysgolion Strategol y Cyngor. | ● **Priffyrdd** - uchafswm o 50 annedd ar y safle; mynediad oddi ar Stryd Tŷ Draw.<br>● **Bioamrywiaeth** - mae angen arolwg o'r adeiladau presennol.<br>● **Darpariaeth Tai Fforddiadwy** - 25% yn ofynnol ar y safle.<br>● **Cyfleustodau** - mae isadeiledd trydan ar y safle; mae angen dulliau ar wahân i waredu'r dŵr brwnt a'r dŵr arwyneb.<br>● **Halogiad** - angen astudiaeth pen desg.<br>● **Yr Amgylchedd** - mae'r safle wedi'i gyfyngu gan Barth Llifogydd C1 MCD (DAM), ac mae angen Asesiad Canlyniadau Llifogydd manwl; oherwydd y lleoliad amlwg yng Nghanol y Dref bydd angen rhoi ystyriaeth ofalus i ddyluniad ffasâd Heol yr Orsaf; bydd angen Cynllun Rheoli Adeiladwaith (CMP) yn unol â Pholisi EN9.<br>● **Darpariaeth Mannau Agored** - gofyniad ar y safle.<br>● **Darpariaeth Addysg** - angen cyfraniad ariannol posibl.<br>● **Gwastraff** - bydd angen Cynllun Rheoli Gwastraff ar gyfer y Safle yn unol â Pholisi W3. |

| Safle | Disgrifiad o'r Safle | Nodweddion y Safle - Cyfleoedd a Chyfyngiadau |
|---|---|---|
| **H1/17 Glannau'r Harbwr, Port Talbot** | Mae 'Glannau'r Harbwr' ym Mhort Talbot wedi'i ddyrannu'n Ardal Adfywio Strategol ac mae'n ardal helaeth o dir maes llwyd a fu gynt yn rhan o'r dociau, yn union yn ymyl Canol Tref Port Talbot.<br><br>Mae'r safle'n darparu cyfle pwysig i greu datblygiad cynhwysfawr defnydd cymysg mewn lleoliad canolog cynaliadwy, gan gynnwys elfennau preswyl, cyflogaeth a manwerthu. | • **Priffyrdd** - bydd mynediad yn amrywio yn dibynnu ar leoliad lleiniau datblygu.<br>• **Bioamrywiaeth** - mae rhannau o'r safle yn cynnwys ardaloedd sydd o ddiddordeb, gan gynnwys afonydd/nentydd, gwelyau cyrs a tir 'wedi'i adnewyddu' a ddatblygwyd yn flaenorol; byddai datblygiad ar lan yr afon yn galw am barth glannau'r afon; mae angen arolwg o'r adeiladau presennol.<br>• **Darpariaeth Tai Fforddiadwy** - 25% yn ofynnol ar y safle.<br>• **Cyfleustodau** - mae isadeiledd trydan/dŵr/carthffosydd yn croesi'r safle, bydd angen hawddfreintiau lle bo hynny'n briodol; mae angen dulliau ar wahân i waredu'r dŵr brwnt a'r dŵr arwyneb; gallai fod angen isadeiledd prif gyflenwad dŵr oddi ar y safle; angen asesu Gorsaf Bwmpio Newbridge Road i ganfod pa welliannau sy'n angenrheidiol.<br>• **Halogiad** - angen astudiaeth pen desg.<br>• **Archaeoleg** - cyfyngiad archaeolegol bychan ar rannau o'r safle, a allai olygu bod angen gwaith archaeolegol cyn penderfynu'n gadarnhaol ar unrhyw gais cynllunio.<br>• **Yr Amgylchedd** - rhan o'r safle (Safle 3: Gwaith Ffordd Osgoi a Safle 13: Green Park) - mae'r safle wedi'i gyfyngu gan Barth Llifogydd C1 MCD (DAM), ac mae angen Asesiad Canlyniadau Llifogydd manwl; oherwydd agosrwydd Ardal Rheoli Ansawdd Aer Margam/Taibach, bydd angen Cynllun Rheoli Adeiladwaith (CMP), yn unol â Pholisi EN9; bydd angen ystyried yn ofalus y sŵn sy'n cael ei gynhyrchu gan ddefnyddiau tir cymdogol.<br>• **Darpariaeth Mannau Agored** - gofyniad ar y safle.<br>• **Darpariaeth Addysg** - angen cyfraniad ariannol posibl.<br>• **Gwastraff** - bydd angen Cynllun Rheoli Gwastraff ar gyfer y Safle yn unol â Pholisi W3.<br>• **Ynni** - bydd angen Asesiad Ynni yn unol â Pholisi RE2. |
| **H1/18 Lido Afan a thir y tu ôl i Ysgol Tywyn, Sandfields** | Mae'r safle tir llwyd yn cynnwys safle canolfan chwaraeon Lido Afan gynt a'r pwll nofio a'r tir yn ymyl y tu ôl y Ysgol Tywyn, sy'n cael ei ddefnyddio fel maes parcio dros dro.<br><br>Mae'r safle'n cynnig cyfle ailddatblygu yn dilyn penderfyniad y Cyngor i adeiladu cyfleuster chwaraeon newydd ar dir gerllaw. | • **Priffyrdd** - mae angen Asesiad Trafnidiaeth i ganfod yr effaith ar signalau Heol Victoria ac yn Ffordd yr Harbwr/Stryd y Dŵr.<br>• **Darpariaeth Tai Fforddiadwy** - 25% yn ofynnol ar y safle.<br>• **Cyfleustodau** - mae isadeiledd carthffosydd ar y safle; mae angen dulliau ar wahân i waredu'r dŵr brwnt a'r dŵr arwyneb.<br>• **Halogiad** - angen astudiaeth pen desg.<br>• **Yr Amgylchedd** - bydd angen parth clustogi 5 metr ar gyfer Ffordd y Dywysoges Margaret.<br>• **Darpariaeth Mannau Agored** - gofyniad ar y safle.<br>• **Darpariaeth Addysg** - angen cyfraniad ariannol posibl.<br>• **Gwastraff** - bydd angen Cynllun Rheoli Gwastraff ar gyfer y Safle yn unol â Pholisi W3.<br>• **Ynni** - bydd angen Asesiad Ynni yn unol â Pholisi RE2. |

| Safle | Disgrifiad o'r Safle | Nodweddion y Safle - Cyfleoedd a Chyfyngiadau |
|---|---|---|
| **H1/19 Clwb Cymdeithasol Bay View, Sandfields** | Mae'r safle tir llwyd cymharol fach yn cynnig cyfle ailddatblygu ar dir a fu gynt yn gartref i Glwb Cymdeithasol Bay View ar Lan Môr Aberafan. | • **Priffyrdd** - angen mynediad oddi ar Promenade View.<br>• **Darpariaeth Tai Fforddiadwy** - 25% yn ofynnol ar y safle.<br>• **Cyfleustodau** - mae isadeiledd carthffosydd yn croesi'r safle.<br>• **Halogiad** - angen astudiaeth pen desg.<br>• **Darpariaeth Mannau Agored** - angen cyfraniad ariannol.<br>• **Darpariaeth Addysg** - angen cyfraniad ariannol posibl. |
| **H1/20 Rhodfa Purcell, Sandfields** | Mae'r safle maes glas ar ymyl orllewinol ardal breswyl sefydledig y Sandfields. | • **Bioamrywiaeth** - gan fod y safle'n bodloni'r meini prawf i gael ei ddynodi'n Safle o Ddiddordeb ar gyfer Cadwraeth Natur (SINC), bydd angen mesurau lliniaru ar y safle neu fesurau gwneud iawn oddi ar y safle.<br>• **Darpariaeth Tai Fforddiadwy** - 25% yn ofynnol ar y safle.<br>• **Cyfleustodau** - mae angen modelu/asesu hydrolig i oresgyn defnyddiau posibl a allai fod â chysylltiadau â'r rhwydwaith carthffosiaeth; mae angen dulliau ar wahân i waredu'r dŵr brwnt a'r dŵr arwyneb.<br>• **Halogiad** - angen astudiaeth pen desg.<br>• **Yr Amgylchedd** - bydd angen parth clustogi 5 metr ar gyfer y briffordd.<br>• **Darpariaeth Mannau Agored** - gofyniad ar y safle.<br>• **Darpariaeth Addysg** - angen cyfraniad ariannol posibl.<br>• **Gwastraff** - bydd angen Cynllun Rheoli Gwastraff ar gyfer y Safle yn unol â Pholisi W3.<br>• **Ynni** - bydd angen Asesiad Ynni yn unol â Pholisi RE2. |
| **H1/21 Cartref Gofal Morfa Afan, Sandfields** | Mae'r safle tir llwyd yn cynnig cyfle ailddatblygu ar dir sydd ar hyn o bryd yn gartref i nifer o adeiladau, sef Cartref Gofal Preswyl Morfa Afan.<br><br>Nid yw'r cyfleuster yn cael ei ddefnyddio bellach o ganlyniad i 'Gynllun Trawsnewid Gwasanaethau Pobl Hŷn y Cyngor', ac mae'r trigolion yn trosglwyddo i gyfleuster newydd a adeiladwyd at y diben yn yr ardal leol. | • **Priffyrdd** - angen mynediad oddi ar Heol Dalton.<br>• **Bioamrywiaeth** - mae angen arolwg o'r adeiladau presennol.<br>• **Darpariaeth Tai Fforddiadwy** - 25% yn ofynnol ar y safle.<br>• **Cyfleustodau** - mae isadeiledd trydan/nwy ar y safle; mae angen dulliau ar wahân i waredu'r dŵr brwnt a'r dŵr arwyneb.<br>• **Halogiad** - angen astudiaeth pen desg.<br>• **Darpariaeth Mannau Agored** - angen cyfraniad ariannol.<br>• **Darpariaeth Addysg** - angen cyfraniad ariannol posibl. |
| **H1/22 Heol Tir Morfa, Sandfields** | Mae'r safle maes glas yng nghanol ardal breswyl sefydledig y Sandfields. | • **Priffyrdd** - mae angen dau bwynt mynediad, oddi ar Ffordd y Dywysoges Margaret a Heol Tir Morfa.<br>• **Bioamrywiaeth** - bydd colli glaswelltir twyni yn galw am fesurau lliniaru ar y safle trwy dirlunio priodol.<br>• **Darpariaeth Tai Fforddiadwy** - 25% yn ofynnol ar y safle.<br>• **Cyfleustodau** - mae carthffos gyfun yn croesi'r safle.<br>• **Halogiad** - angen astudiaeth pen desg.<br>• **Darpariaeth Mannau Agored** - gofyniad ar y safle neu bydd cyfraniad ariannol yn ofynnol.<br>• **Darpariaeth Addysg** - angen cyfraniad ariannol posibl.<br>• **Gwastraff** - bydd angen Cynllun Rheoli Gwastraff ar gyfer y Safle yn unol â Pholisi W3. |

| Safle | Disgrifiad o'r Safle | Nodweddion y Safle - Cyfleoedd a Chyfyngiadau |
|---|---|---|
| **H1/LB/13 Fferm Blaenbaglan, Baglan** | Mae'r safle maes glas yn cwmpasu rhan o ymyl ddwyreiniol ardal breswyl sefydledig Baglan. Mae'r safle ar oleddf ac mewn man uchel.<br><br>Ymhlith manteision y safle mae caniatâd yn ei le a Thystysgrif Datblygiad Cyfreithlon.<br><br>Mae'r safle hefyd yn ymyl dyraniad preswyl H1/12 (Ysgol Blaenbaglan, tir y tu ôl iddi, Baglan). | • **Bioamrywiaeth** - dylid cadw perthi/coetir brodorol/parcdir/nentydd lle bo modd.<br>• **Cyfleustodau** - mae isadeiledd nwy/dŵr yn croesi'r safle; roedd y caniatâd yn cynnwys nifer o amodau oedd yn galw am gyflwyno manylion pellach ynghylch carthffosiaeth/draenio.<br>• **Yr Amgylchedd** - roedd y caniatâd yn cynnwys nifer o amodau oedd yn galw am gyflwyno manylion pellach ynghylch suddiant mwyngloddio a chyfnodau; mae angen rhoi ystyriaeth ofalus i'r ffaith fod Heneb Restredig (Plas Baglan) gerllaw.<br>• **Darpariaeth Mannau Agored** - gofyniad ar y safle. |
| **H1/LB/14 Thorney Road, Baglan** | *Safle'n cael ei adeiladu/bron wedi'i gwblhau.* | |
| **H1/LB/15 Stycyllwen, Baglan** | *Safle'n cael ei adeiladu/bron wedi'i gwblhau.* | |
| **H1/LB/16 Abbottsmoor, Rhosydd Baglan** | *Safle'n cael ei adeiladu/bron wedi'i gwblhau.* | |
| **H1/LB/17 Farteg Fawr, Bryn** | *Safle'n cael ei adeiladu.* | |
| **H1/LB/18 Copperminers, Cwmafan** | *Safle'n cael ei adeiladu/bron wedi'i gwblhau.* | |
| **H1/LB/19 Forest Lodge Lane, Cwmafan** | *Safle'n cael ei adeiladu.* | |
| **H1/LB/20 Groeswen, Margam** | *Safle wedi'i gwblhau.* | |
| **H1/LB/21 Heol yr Orsaf, Port Talbot** | *Safle wedi'i gwblhau.* | |
| **H1/LB/22 Royal Buildings, Heol Talbot, Port Talbot** | *Safle wedi'i gwblhau.* | |
| **H1/LB/23 Heol y Dyffryn, Taibach** | *Safle wedi'i gwblhau.* | |
| **ARDAL OFODOL CWM DULAIS** | | |
| **H1/LB/24 Maes Marchog, Banwen** | *Safle wedi'i gwblhau.* | |
| **H1/LB/25 Cartref Gofal Glyn Dulais, Creunant** | Mae'r safle tir llwyd mewn lleoliad canolog yn anheddiad sefydledig Creunant.<br><br>Mae'r safle'n cynnig cyfle ailddatblygu wedi i'r Cartref Gofal gau. | • **Priffyrdd** - uchafswm o 25 annedd ar y safle; mae angen gwaith gwella'r brifforddd oddi ar y safle.<br>• **Bioamrywiaeth** - angen arolwg ymlusgiaid.<br>• **Darpariaeth Tai Fforddiadwy** - gofyniad.<br>• **Cyfleustodau** - mae isadeiledd trydan / carthffosydd yn croesi'r safle.<br>• **Darpariaeth Mannau Agored** - angen cyfraniad ariannol. |
| **H1/LB/26 Heol y Waun, Blaendulais** | Mae'r safle maes glas hwn, sydd ar rywfaint o oleddf, ym mhen gogleddol anheddiad sefydledig Blaendulais. | • **Bioamrywiaeth** - mae angen arolwg ar gyfer Britheg y Gors; mae'r caniatâd yn cynnwys gofyniad Adran 106 i brynu a chynnal ardal o gynefin ar gyfer Britheg y Gors.<br>• **Cyfleustodau** - mae carthffos yn croesi'r safle; gallai fod galw am brif gyflenwad dŵr ar/oddi ar y safle a'r isadeiledd cysylltiedig.<br>• **Darpariaeth Mannau Agored** - mae'r caniatâd yn cynnwys gofyniad Adran 106 i brynu a chynnal ardal sy'n fan agored. |

| Safle | Disgrifiad o'r Safle | Nodweddion y Safle - Cyfleoedd a Chyfyngiadau |
|---|---|---|
| **ARDAL OFODOL CWM NEDD** | | |
| **H1/23 Rhodfa'r Parc, Glyn-nedd** | Mae'r safle, sy'n un maes glas yn bennaf, i'r de o Rodfa'r Parc yng Nglyn-nedd, ac yn cael ei hyrwyddo fel cynllun adfywio defnydd cymysg sy'n cynnwys elfennau manwerthu a phreswyl.<br><br>Mae'r safle sylweddol ei faint yn agos at ganol Glyn-nedd. Er bod y safle'n wastad yn bennaf, mae gweddill bancyn yr A465 (Cefnffordd) yn ei groesi. | • **Priffyrdd** - angen prif bwynt mynediad oddi ar Rodfa'r Parc; angen gwelliannau i'r briffordd, gan gynnwys y gyffordd â signalau oddi ar Rodfa'r Parc.<br>• **Bioamrywiaeth** - gan fod y safle'n bodloni'r meini prawf i gael ei ddynodi'n Safle o Ddiddordeb ar gyfer Cadwraeth Natur (SINC), bydd angen mesurau lliniaru ar y safle neu fesurau gwneud iawn oddi ar y safle.<br>• **Darpariaeth Tai Fforddiadwy** - dim gofyniad.<br>• **Cyfleustodau** - mae isadeiledd carthffosydd yn croesi'r safle; gallai fod angen isadeiledd prif gyflenwad dŵr oddi ar y safle.<br>• **Halogiad** - angen astudiaeth pen desg.<br>• **Archaeoleg** - angen asesu cyn penderfynu ar unrhyw gais cynllunio.<br>• **Yr Amgylchedd** - mae angen ystyried yn ofalus Ardal Gadwraeth Melin Wlân Glyn-nedd, sydd gerllaw, yn nyluniad a chynllun unrhyw ddatblygiad; mae rhan o'r safle wedi'i chyfyngu gan Barth Llifogydd C2 MCD (DAM), ac mae angen Asesiad Canlyniadau Llifogydd manwl; mae angen parth clustogi 7 metr priodol i'r cwrs dŵr; mae llinell hanesyddol Camlas Castell-nedd yn croesi rhan o'r safle, a dylid ei chadw'n nodwedd mewn unrhyw ddatblygiad.<br>• **Darpariaeth Mannau Agored** - gofyniad ar y safle.<br>• **Darpariaeth Addysg** - angen cyfraniad ariannol posibl.<br>• **Gwastraff** - bydd angen Cynllun Rheoli Gwastraff ar gyfer y Safle yn unol â Pholisi W3.<br>• **Ynni** - bydd angen Asesiad Ynni yn unol â Pholisi RE2. |
| **H1/LB/27 Heol y Glyn, Glyn-nedd** | Mae'r safle cymharol fychan, sydd ar rywfaint o oleddf, mewn man canolog mewn ardal breswyl sefydledig yng Nglyn-nedd. | • **Priffyrdd** - angen mynediad oddi ar Heol y Glyn, gyda lôn 'ffug' ar gyfer troi i'r dde.<br>• **Bioamrywiaeth** - mae coed ar ymyl y safle wedi'u diogelu gan Orchymyn Cadw Coed.<br>• **Cyfleustodau** - mae angen gwaith gwella'r draeniad dŵr brwnt oddi ar y safle, ac nid oes unrhyw anheddau i gael eu meddiannu nes ei fod wedi'i gwblhau;<br>• **Archaeoleg** - Archaeolegydd i arsylwi'r gwaith proffilio ar y ddaear.<br>• **Yr Amgylchedd** - angen cynllun ar gyfer dileu rhywogaethau ymwthiol; bydd angen gwaith proffilio ar y ddaear.<br>• **Darpariaeth Mannau Agored** - angen cyfraniad ariannol. |
| **H1/LB/28 Y Neuadd Les, Glyn-nedd** | Mae'r safle mewn man canolog mewn ardal breswyl sefydledig yng Nglyn-nedd. | • **Priffyrdd** - angen gwelliannau i'r briffordd; mae angen Gorchmynion Rheoleiddio Traffig i gyfyngu ar barcio ar y gyffordd ar Rodfa'r Parc; gallai fod angen adleoli'r Arhosfan Bysiau ar Rodfa'r Parc.<br>• **Cyfleustodau** - gallai fod galw am brif gyflenwad dŵr oddi ar y safle a'r isadeiledd cysylltiedig; angen hawddfraint addas ar gyfer yr isdeiledd carthffosydd.<br>• **Yr Amgylchedd** - angen cynllun ar gyfer dileu rhywogaethau ymwthiol; cais am gofrestru Hawl Tramwy Cyhoeddus ar y tir. |
| **H1/LB/29 Rhodfa Ynys y Nos, Glyn-nedd** | *Safle'n cael ei adeiladu.* | |

| Safle | Disgrifiad o'r Safle | Nodweddion y Safle - Cyfleoedd a Chyfyngiadau |
|---|---|---|
| **ARDAL OFODOL PONTARDAWE** | | |
| **H1/24 Bryn Morgrug (Cyfnod 2), Alltwen** | *Safle'n cael ei adeiladu.* | |
| **H1/25 Heol Ynysymond, Alltwen** | Mae'r safle maes glas sydd ar rywfaint o oleddf ym mhen de-orllewinol anheddiad sefydledig Alltwen. | • **Priffyrdd** - uchafswm o 50 annedd ar y safle; angen mynediad oddi ar Heol Ynysymond; mae angen i gerddwyr gael mynediad i Heol y Dderwen.<br>• **Bioamrywiaeth** - gan fod y safle'n bodloni'r meini prawf i gael ei ddynodi'n Safle o Ddiddordeb ar gyfer Cadwraeth Natur (SINC), bydd angen mesurau lliniaru ar y safle neu fesurau gwneud iawn oddi ar y safle.<br>• **Darpariaeth Tai Fforddiadwy** - 10% yn ofynnol ar y safle.<br>• **Cyfleustodau** - gallai fod galw am brif gyflenwad dŵr oddi ar y safle a'r isadeiledd cysylltiedig; gallai fod angen cryfhau'r isadeiledd nwy; mae llinellau pŵer uwchben yn croesi'r safle.<br>• **Halogiad** - angen astudiaeth pen desg.<br>• **Darpariaeth Mannau Agored** - gofyniad ar y safle.<br>• **Darpariaeth Addysg** - angen cyfraniad ariannol posibl.<br>• **Yr Iaith Gymraeg** - bydd angen Cynllun Gweithredu ar gyfer yr iaith, yn unol â Pholisi WL1.<br>• **Gwastraff** - bydd angen Cynllun Rheoli Gwastraff ar gyfer y Safle yn unol â Pholisi W3. |
| **H1/26 Ysgol Cwmtawe (Cyfnod 2), Pontardawe** | Mae'r safle uchel, maes glas, i'r gogledd ddwyrain o dref Pontardawe.<br><br>Mae'r safle nesaf at ddyraniad H1/LB/31 (Cyfnod 1) sy'n cael ei adeiladu ar hyn o bryd. | • **Priffyrdd** - angen mynediad oddi ar Rodfa Alltycham a thrwy Gyfnod 1 y datblygiad.<br>• **Bioamrywiaeth** - dylid cadw'r coetir/perthi sydd ar ffiniau'r safle lle bo modd; bydd angen cynnal parth clustogi priodol ar gyfer yr ardal fioamrywiaeth a ddarperir i liniaru datblygiad Cyfnod 1.<br>• **Darpariaeth Tai Fforddiadwy** - 10% yn ofynnol ar y safle.<br>• **Cyfleustodau** - mae angen dulliau ar wahân i waredu'r dŵr brwnt a'r dŵr arwyneb.<br>• **Halogiad** - angen astudiaeth pen desg.<br>• **Darpariaeth Mannau Agored** - gofyniad ar y safle neu bydd cyfraniad ariannol yn ofynnol.<br>• **Darpariaeth Addysg** - angen cyfraniad ariannol posibl.<br>• **Yr Iaith Gymraeg** - bydd angen Cynllun Gweithredu ar gyfer yr iaith, yn unol â Pholisi WL1. |

| Safle | Disgrifiad o'r Safle | Nodweddion y Safle - Cyfleoedd a Chyfyngiadau |
|---|---|---|
| **H1/27 Tir oddi ar Waun Sterw / Waun Penlan, Rhydyfro** | Mae'r safle maes glas ym mhen gogleddol Rhydyfro, yn ymyl ardal breswyl sefydledig.<br><br>Mae'r safle yn ymyl dyraniad H1/LB/33 (Waun Penlan). Mae'r safle ar oleddf i gyfeiriad y gogledd. | • **Priffyrdd** - bydd angen mynediad oddi ar yr A474 trwy droi i'r dde, a chreu cysylltiadau â Heol Penlan a Waun Sterw.<br>• **Bioamrywiaeth** - mae cyfran ddeheuol y safle yn bodloni'r meini prawf i gael ei ddynodi'n Safle o Ddiddordeb ar gyfer Cadwraeth Natur (SINC), a bydd angen mesurau lliniaru ar y safle neu fesurau gwneud iawn oddi ar y safle; bydd angen eithrio ardaloedd o Goetir Hynafol (gyda Pharth Clustogi priodol) sydd ar ymyl y safle o'r ardal y gellir ei datblygu.<br>• **Darpariaeth Tai Fforddiadwy** - 10% yn ofynnol ar y safle.<br>• **Cyfleustodau** - gallai fod galw am brif gyflenwad dŵr oddi ar y safle a'r isadeiledd cysylltiedig.<br>• **Yr Amgylchedd** - bydd angen parth clustogi priodol ar gyfer y cwrs dŵr; oherwydd agosrwydd y safle i SoDdGA Frondeg, bydd angen gofalu nad yw datblygiad yn effeithio ar ddraeniau, ffosydd a chyrsiau dŵr cysylltiedig; bydd angen ffigurau ar gyfer dŵr ffo o'r tir maes glas/SuDS.<br>• **Darpariaeth Mannau Agored** - gofyniad ar y safle.<br>• **Darpariaeth Addysg** - angen cyfraniad ariannol posibl.<br>• **Yr Iaith Gymraeg** - bydd angen Cynllun Gweithredu ar gyfer yr iaith, yn unol â Pholisi WL1.<br>• **Gwastraff** - bydd angen Cynllun Rheoli Gwastraff ar gyfer y Safle yn unol â Pholisi W3.<br>• **Ynni** - bydd angen Asesiad Ynni yn unol â Pholisi RE2. |
| **H1/28 Fferm Bryn Brych, Rhos** | Mae'r safle maes glas mewn lleoliad canolog yn anheddiad sefydledig Rhos. Mae'n gorwedd yn ymyl yr A474 a gyferbyn ag Ysgol Gynradd Rhos. | • **Priffyrdd** - angen prif ffordd fynediad oddi ar yr A474.<br>• **Bioamrywiaeth** - bydd angen i unrhyw drefniadau draenio'r safle sicrhau nad oes effaith niweidiol ar Gors Rhos Bends gerllaw; dylid cadw coed/perthi lle bo modd;<br>• **Darpariaeth Tai Fforddiadwy** - 10% yn ofynnol ar y safle.<br>• **Cyfleustodau** - mae angen modelu/asesu hydrolig i oresgyn defnyddiau posibl a allai fod â chysylltiadau â'r rhwydwaith carthffosiaeth; gallai fod galw am brif gyflenwad dŵr ar/oddi ar y safle a'r isadeiledd cysylltiedig; mae llinellau pŵer uwchben yn croesi'r safle; angen parth clustogi priodol ar gyfer draeniau / materion tir.<br>• **Halogiad** - angen astudiaeth pen desg.<br>• **Yr Amgylchedd** - bydd angen ffigurau ar gyfer dŵr ffo o'r tir maes glas/ SuDS.<br>• **Darpariaeth Mannau Agored** - gofyniad ar y safle.<br>• **Darpariaeth Addysg** - angen cyfraniad ariannol posibl.<br>• **Yr Iaith Gymraeg** - bydd angen Cynllun Gweithredu ar gyfer yr iaith, yn unol â Pholisi WL1.<br>• **Gwastraff** - bydd angen Cynllun Rheoli Gwastraff ar gyfer y Safle yn unol â Pholisi W3.<br>• **Ynni** - bydd angen Asesiad Ynni yn unol â Pholisi RE2. |

| Safle | Disgrifiad o'r Safle | Nodweddion y Safle - Cyfleoedd a Chyfyngiadau |
|---|---|---|
| **H1/29 Parc Ynysderw, Pontardawe** | Mae'r safle tir llwyd, gwastad hwn mewn lleoliad cynaliadwy dros ben, yn agos at amrywiaeth o wasanaethau a chyfleusterau yng Nghanol Tref Pontardawe. | • **Priffyrdd** - angen mynediad oddi ar Heol Ynysderw, a bydd angen lledu'r ffordd. Dim datblygiad o ran blaen yr adeiladau/mynediad uniongyrchol oddi ar Ffordd Parc Ynysderw.<br>• **Darpariaeth Tai Fforddiadwy** - 10% yn ofynnol ar y safle.<br>• **Cyfleustodau** - mae isadeiledd nwy ar y safle.<br>• **Archaeoleg** - o ystyried defnydd hanesyddol y safle (Gwaith Tunplat Ynysderw), bydd angen asesu/gwaith cyn penderfynu ar unrhyw gais cynllunio.<br>• **Halogiad** - angen astudiaeth pen desg.<br>• **Darpariaeth Mannau Agored** - gofyniad ar y safle neu bydd cyfraniad ariannol yn ofynnol.<br>• **Darpariaeth Addysg** - angen cyfraniad ariannol posibl.<br>• **Yr Iaith Gymraeg** - bydd angen Cynllun Gweithredu ar gyfer yr iaith, yn unol â Pholisi WL1.<br>• **Gwastraff** - bydd angen Cynllun Rheoli Gwastraff ar gyfer y Safle yn unol â Pholisi W3. |
| **H1/LB/30 Bryn Morgrug (Cyfnod 1), Alltwen** | *Safle'n cael ei adeiladu.* | |
| **H1/LB/31 Ysgol Cwmtawe (Cyfnod 1), Pontardawe** | *Safle'n cael ei adeiladu.* | |
| **H1/LB/32 Stryd Holly, Pontardawe** | Mae'r safle tir llwyd yn cynnig cyfle ailddatblygu yn agos at ganol Pontardawe. | • **Priffyrdd** - angen gwaith i wella'r brifffordd ynghyd â Gorchmynion Rheoleiddio Traffig; Asesiad Trafnidiaeth wedi'i gyflwyno ochr yn ochr â'r cais cynllunio.<br>• **Darpariaeth Tai Fforddiadwy** - gofyniad.<br>• **Halogiad** - angen gwaith i ymchwilio i'r ddaear.<br>• **Yr Amgylchedd** - angen cynllun ar gyfer dileu rhywogaethau ymwthiol; mae angen parth clustogi 7 metr priodol i'r gamlas; Cyflwynwyd Asesiad Canlyniadau Llifogydd ochr yn ochr â'r cais cynllunio. |
| **H1/LB/33 Waun Penlan, Rhydyfro** | Mae'r safle ym mhen gogleddol Rhydyfro, mewn ardal breswyl sefydledig, ac mae yn ymyl yr Ysgol Gynradd a dyraniad H1/27 (Waun Sterw/Waun Penlan). | • **Priffyrdd** - angen gwaith i wella'r brifffordd.<br>• **Bioamrywiaeth** - mae angen parth clustogi priodol ar gyfer y cwrs dŵr.<br>• **Cyfleustodau** - gallai fod galw am brif gyflenwad dŵr oddi ar y safle a'r isadeiledd cysylltiedig; mae isadeiledd dŵr yn croesi'r safle. |
| **H1/LB/34 Glan yr Afon (Cyfnod 2), Ynysmeudwy** | *Safle wedi'i gwblhau.* | |

| Safle | Disgrifiad o'r Safle | Nodweddion y Safle - Cyfleoedd a Chyfyngiadau |
|---|---|---|
| **ARDAL OFODOL CWM TAWE** | | |
| **H1/30 Compair / GMF, Ystalyfera** | Mae'r safle tir llwyd/maes glas ym mhen deheuol Ystalyfera, yn agos iawn at yr A4067 a Siop Fwyd newydd Asda. | • **Priffyrdd** - angen dau bwynt mynediad, gyda'r prif fynediad oddi ar yr A4067.<br>• **Bioamrywiaeth** - mae cyfran o'r safle yn bodloni'r meini prawf i gael ei ddynodi'n Safle o Ddiddordeb ar gyfer Cadwraeth Natur (SINC), a bydd angen mesurau lliniaru ar y safle neu fesurau gwneud iawn oddi ar y safle.<br>• **Darpariaeth Tai Fforddiadwy** - dim gofyniad.<br>• **Cyfleustodau** - mae isadeiledd dŵr yn croesi'r safle; gallai fod galw am brif gyflenwad dŵr ar/oddi ar y safle a'r isadeiledd cysylltiedig; mae angen system wedi'i rheoli ar gyfer gwaredu dŵr arwyneb.<br>• **Halogiad** - angen astudiaeth pen desg.<br>• **Archaeoleg** - angen asesu cyn penderfynu ar unrhyw gais cynllunio.<br>• **Yr Amgylchedd** - mae rhan o'r safle wedi'i chyfyngu gan Barth Llifogydd C2 MCD (DAM), ac mae angen Asesiad Canlyniadau Llifogydd manwl; mae angen parth clustogi 10 metr priodol i'r A4067.<br>• **Darpariaeth Mannau Agored** - gofyniad ar y safle.<br>• **Darpariaeth Addysg** - angen cyfraniad ariannol posibl.<br>• **Yr Iaith Gymraeg** - bydd angen Cynllun Gweithredu ar gyfer yr iaith, yn unol â Pholisi WL1.<br>• **Gwastraff** - bydd angen Cynllun Rheoli Gwastraff ar gyfer y Safle yn unol â Pholisi W3. |
| **H1/31 Safle Golchfa Tirbach, Ystalyfera** | Mae'r safle tir llwyd hwn ar ymyl ogledd-ddwyreiniol yr anheddiad, yn ymyl y ffin weinyddol ac yn agos at y gwasanaethau a'r cyfleusterau sydd ar gael yn Ystalyfera. | • **Priffyrdd** - angen cyffordd gyda signalau i'r A4067; angen gwelliannau i'r ffordd fynediad o'r A4067; angen ailalinio'r ffordd halio bresennol yn ymyl y safle, gan gynnwys angen am ailgyfeirio'r llwybr i ran o'r safle.<br>• **Darpariaeth Tai Fforddiadwy** - dim gofyniad.<br>• **Bioamrywiaeth** - potensial o ran amrywiol rywogaethau, gan gynnwys rhai sy'n cael eu hamddiffyn. Mae'r ardaloedd o amgylch yn cefnogi cynefinoedd mosaig agored ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol, yr afon a'r coetir (pob un ohonynt yn gynefinoedd CGB/A42). Mae SINC cwrs dŵr ar ffin ddwyreiniol y safle, ac mae SINC Coetir Hynafol i'r gogledd o'r safle.<br>• **Cyfleustodau** - byddai angen asesiad modelu hydrolig i ganfod a fyddai modd i'r isadeiledd lleol ymdopi â'r llifoedd a ragwelir o'r safle. Mae isadeiledd cysylltiedig â dŵr yn croesi'r safle, a gallai fod angen ei ddargyfeirio.<br>• **Halogiad** - angen astudiaeth pen desg.<br>• **Darpariaeth Mannau Agored** - gofyniad ar y safle.<br>• **Darpariaeth Addysg** - angen cyfraniad ariannol posibl.<br>• **Yr Iaith Gymraeg** - bydd angen Cynllun Gweithredu ar gyfer yr iaith, yn unol â Pholisi WL1.<br>• **Gwastraff** - bydd angen Cynllun Rheoli Gwastraff ar gyfer y Safle yn unol â Pholisi W3.<br>• **Ynni** - bydd angen Asesiad Ynni yn unol â Pholisi RE2. |
| **H1/LB/35 Golwg y Mynydd, Godre'r Graig** | *Safle wedi'i gwblhau.* | |
| **H1/LB/36 Graig Newydd (Cyfnod 1), Godre'r Graig** | *Safle wedi'i gwblhau.* | |
| **H1/LB/37 Graig Newydd (Cyfnod 2), Godre'r Graig** | *Safle wedi'i gwblhau.* | |

## Byrfoddau ac Acronymau

Mae'r rhestr hon o Fyrfoddau ac Acronymau yn darparu termau a chyfeiriadau a fydd o ddefnydd wrth ddarllen y ddogfen hon.

| | |
|---|---|
| TFf | Tai Fforddiadwy |
| AMB | Adroddiad Monitro Blynyddol |
| ARhAA | Ardal Rheoli Ansawdd Aer |
| CACA | Cynllun Adfywio Coridor yr Arfordir |
| ASCA | Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir |
| GPhC | Gwres a Phŵer Cyfunedig |
| AIC | Ardoll Isadeiledd Cymunedol |
| MCD | Map Cyngor Datblygu |
| AFH | Anheddau fesul Hectar |
| YoW | Ynni o Wastraff |
| ESDGC | Addysg Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang |
| GTAA | Asesu Llety Sipsiwn a Theithwyr |
| AEI | Asesiad Effaith ar Iechyd |
| ARhC | Arfarniad Rheoliadau Cynefinoedd |
| IMADP | Polisi Interim ar gyfer Treillio Agregau Morol |
| IMAECA | Gweithredu'r Fethodoleg ar gyfer Asesu Capasiti Amgylcheddol Agregau Cynradd |
| JTP | Cynllun Trafnidiaeth ar y Cyd |
| MA | Mater Allweddol |
| CGBLl | Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol |
| CDLl | Cynllun Datblygu Lleol |
| STLl | Strategaeth Tai Lleol |
| GNL | Gwarchodfa Natur Leol |
| ACLl | Awdurdod Cynllunio Lleol |
| ACM | Awdurdod Cynllunio Mwynau |
| MREC | Canolfan Adennill Deunyddiau ac Ynni |
| MTAN | Nodyn Cyngor Technegol ar Fwynau |
| GNG | Gwarchodfa Natur Genedlaethol |
| CBSCNPT | Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot |
| CNC | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| A | Amcan |
| PBA | Peter Brett Associates |
| FfDdY | Ffordd Ddosbarthu Ymylol |
| PCC | Polisi Cynllunio Cymru |
| PV | Ffotofoltaidd |
| YaD | Ymchwil a Datblygu |
| RIGS | Safleoedd Geoamrywiaeth o Bwysigrwydd Rhanbarthol |
| LCC | Landlord Cymdeithasol Cofrestredig |
| CTRh | Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol |
| DTRh | Datganiad Technegol Rhanbarthol |
| A106 | Cytundebau Adran 106 |
| AC | Arfarniad Cynaliadwyedd |
| ACA | Ardal Cadwraeth Arbennig |
| AAS | Asesiad Amgylcheddol Strategol |
| SFCA | Asesiad Canlyniadau Llifogydd Strategol |
| SINC | Safleoedd o Ddiddordeb Cadwraeth Natur |
| CIS | Cynllun Integredig Sengl |
| CLG | Ardal Tirlun Arbennig |
| SMP | Cynllun Rheoli'r Traethlin |
| PS | Polisi Strategol |
| CCA | Canllawiau Cynllunio Atodol |
| SuDS | Systemau Draenio Cynaliadwy |
| ATS | Ardal Twf Strategol |
| AAS | Ardal Adfywio Strategol |
| AChS | Ardal Chwilio Strategol |
| SoDdGA | Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig |
| SWRAWP | Gweithgor Agregau Rhanbarthol De Cymru |
| NCT | Nodyn Cyngor Technegol |
| AET | Asesiad Effaith ar Draffig |
| Y DU | Y Deyrnas Unedig |
| VARP | Cynllun Adfywio Ardaloedd y Cymoedd |
| ASC | Ardal Strategaeth y Cymoedd |
| LlC | Llywodraeth Cymru |
| CGC | Cynllun Gofodol Cymru |

## Rhestr Eirfa

Mae'r Rhestr hon o Eirfa yn darparu termau a chyfeiriadau a fydd o ddefnydd wrth ddarllen y ddogfen hon.

| | |
|---|---|
| Deddf 2004/Y Ddeddf | Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 |
| Mabwysiadu | Yr adeg pryd bydd fersiwn gytunedig derfynol dogfen yn dechrau cael ei defnyddio'n ffurfiol gan y Cyngor at ddibenion cynllunio. |
| Ardal Rheoli Ansawdd Aer | Mae Deddf yr Amgylchedd 1995 yn gofyn bod Awdurdodau Lleol yn adolygu ac yn asesu ansawdd yr aer mewn ardaloedd yn erbyn safonau ac amcanion ansawdd aer cenedlaethol. Lle nad yw amcanion ansawdd aer y Deyrnas Unedig yn cael eu bodloni ac mae hynny'n effeithio ar aelodau o'r cyhoedd, mae gofyn bod Awdurdodau Lleol yn cyhoeddi ARhAA. |
| Tai Fforddiadwy | Tai lle mae systemau diogel yn eu lle i sicrhau eu bod ar gael i'r rheiny sy'n methu â fforddio tai ar y farchnad agored, a hynny wrth i'r preswylwyr cyntaf eu meddiannu ac yn achos preswylwyr dilynol. |
| Dyraniad | Tir a nodwyd at ddefnydd penodol yn y Cynllun. |
| Adroddiad Monitro Blynyddol | Wedi i'r CDLl gael ei fabwysiadu'n ffurfiol, adroddiad yw hwn a gyflwynir i Lywodraeth Cymru, gan asesu effeithiolrwydd y CDLl yn erbyn cyfres o ddangosyddion a thargedau. |
| Dosbarth Defnydd B1 | Busnes - Swyddfeydd (ac eithrio'r rhai sy'n syrthio i gategori A2), ymchwil a datblygu cynnyrch a phrosesau, diwydiant ysgafn sy'n briodol mewn ardal breswyl. |
| Dosbarth Defnydd B2 | Diwydiannol cyffredinol - Defnydd ar gyfer proses ddiwydiannol nad yw'n rhan o ddosbarth B1 (ac eithrio dibenion llosgi, triniaeth gemegol neu dirlenwi neu wastraff peryglus). |
| Dosbarth Defnydd B8 | Storio a dosbarthu - gan gynnwys storio yn yr awyr agored. |
| Bioamrywiaeth | Holl amrywiaeth bywyd ar y ddaear. Mae'n cynnwys pob rhywogaeth o blanhigion ac anifeiliaid a'r ecosystemau a chynefinoedd y maent yn rhan ohonynt. |
| Safleoedd Tir Llwyd (tir llwyd a/neu dir a ddatblygwyd yn flaenorol) | Diffinnir tir llwyd, neu dir a ddatblygwyd yn flaenorol, ym Mholisi Cynllunio Cymru 2016 fel tir lle mae neu lle bu strwythur parhaol (heb gynnwys adeiladau amaethyddol neu goedwigaeth) ac isadeiledd arwyneb sefydlog cysylltiedig. Cynhwysir cwrtil y datblygiad, a hefyd adeiladau amddiffynnol, a thir a ddefnyddir ar gyfer echdynnu mwynau a gwaredu gwastraff lle na ddarparwyd ar gyfer gwaith adfer trwy weithdrefnau rheoli datblygu. Disgrifir yr eithriadau a'r nodiadau manwl yn llawn yn Ffig. 4.1 PCC. |
| Parth Clustogi | Ardal o dir sy'n gwahanu neu'n sgrinio defnyddiau a allai fod yn anghydnaws, fel arfer ardal wedi'i thirweddu neu fan agored. |
| Safleoedd Ymgeisiol | Wrth baratoi'r Cynllun, gwahoddwyd tirfeddianwyr, datblygwyr ac eraill sydd â diddordeb mewn tir i gyflwyno safleoedd y maent am iddynt gael eu hystyried ar gyfer datblygiad neu ddefnyddiau eraill trwy'r CDLl. |
| Newid yn yr Hinsawdd | Amrywiadau tymor hir yn nhymheredd, dyddodiad, gwynt a phob agwedd arall ar hinsawdd y Ddaear. Bernir yn aml bod hyn o ganlyniad i weithgaredd dynol a defnydd o danwydd ffosil. |
| Coridor yr Arfordir | Y darn cul o arfordir sy'n ymestyn o amgylch Bae Abertawe lle ceir y prif ganolfannau poblogaeth. |
| Gwres a Phŵer Cyfunedig | Gorsaf bŵer neu beiriant gwres a luniwyd i gynhyrchu gwres a thrydan o un ffynhonnell. |
| Ardoll Isadeiledd Cymunedol | Trefniant sy'n golygu bod datblygwyr yn cyfrannu'n ariannol at y gwelliannau i isadeiledd ffisegol. Bydd hyn yn rhoi'r symiau ariannol y gofynnir amdanynt o Adran 106 ar waith, fel bod cynigion datblygu yn gyflawnadwy ac yn bosibl eu darparu. Bydd yr ardoll yn cynnwys cynllun gweithredu a fydd yn cyflwyno blaenoriaethau o ran sut bydd yr arian a gesglir yn cael ei wario. |
| Cytundeb Cyflawni | Cytundeb rhwng yr Awdurdod Cynllunio Lleol a Llywodraeth Cymru sy'n cynnwys amserlen ar gyfer paratoi'r Cynllun a Chynllun Cynnwys y Gymuned sy'n nodi sut mae'r Awdurdod yn bwriadu ymgysylltu â'r cyhoedd a chyrff rhanddeiliaid. |
| Dwysedd | Yn achos datblygiad preswyl, mesur o nifer yr anheddau fesul hectar. |
| Y Cynllun Adnau | Y fersiwn o'r CDLl a gyflwynir i Lywodraeth Cymru ar gyfer archwiliad cyhoeddus. |
| Ecoleg | Astudio'r berthynas rhwng planhigion ac anifeiliaid a'i gilydd a'u hamgylchiadau. |
| Sylfaen o Dystiolaeth | Yr wybodaeth a'r data a gesglir gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol i gyfiawnhau "cadernid" y dull gweithredu polisi a gyflwynir yn y Cynllun Datblygu Lleol, gan gynnwys nodweddion corfforol, economaidd, a chymdeithasol ardal. |
| Parth Llifogydd | Ardal o dir isel yn ymyl dyfrffyrdd neu mewn ardaloedd arfordirol sy'n debygol o ddioddef llifogydd. |
| Geoamrywiaeth | Yr amrywiaeth o ddeunyddiau daear, ffurfiau a phroses sy'n creu ac yn ffurfio'r ddaear, gan gynnwys mwynau, creigiau, gwaddodion, ffosiliau, pridd a dŵr. |

| | |
|---|---|
| Lletem Las | Dynodiad tirlun a ddefnyddir gan Awdurdod Cynllunio Lleol i (1) atal aneddiadau rhag rhedeg i'w gilydd (neu gael eu cyfuno); ac i (2) amddiffyn lleoliad ardaloedd trefol. |
| Safleoedd Maes Glas | Tir lle na fu datblygiad yn y gorffennol. Fel arfer glaswelltir, tir ffermio neu rostir. |
| Sipsiwn a Theithwyr | Pobl sy'n byw bywyd crwydrol, o ba hil neu darddiad bynnag, gan gynnwys pobl o'r fath sydd am resymau cysylltiedig â'u hanghenion addysg neu iechyd eu hunain neu eu teulu neu eu dibynyddion, neu oherwydd henaint wedi rhoi'r gorau i deithio dros dro neu'n barhaol, ond gan eithrio aelodau o grŵp trefnedig o bobl sioe deithiol neu bobl syrcas sy'n cyd-deithio felly. |
| Arfarniad Rheoliadau Cynefinoedd | Asesiad o effeithiau cynigion / polisïau datblygu ar safleoedd Natura 2000 (sef Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Amddiffyniad Arbennig). |
| Asesiad Effaith ar Iechyd | Asesiad o effeithiau polisïau/cynigion ar iechyd. |
| Archwiliad Annibynnol | Proses ar gyfer profi cadernid y CDLl yn gyhoeddus. |
| Isadeiledd | Ym maes cynllunio, y strwythurau ffisegol sy'n ofynnol i gymuned weithredu a bod yn gynaliadwy yn y tymor hir. Yn nodweddiadol mae isadeiledd yn cyfeirio at faterion fel ffyrdd, cyflenwad dŵr, carthffosydd, trydan ac elfennau cymdeithasol eraill megis addysg, hamdden a chyfleusterau iechyd. |
| Adroddiad yr Arolygwyr | Canfyddiadau'r Arolygydd, yn dilyn archwiliad annibynnol o'r CDLl, wedi'u cyflwyno mewn adroddiad sy'n rhwymo'r Awdurdod Cynllunio Lleol. |
| Tirlenwi | Safleoedd lle gwaredir gwastraff cartref, masnachol a diwydiannol yn y ddaear. |
| LANDMAP | Methodoleg gyffredin ar gyfer Proses y Tirlun a Gwneud Penderfyniadau (LANDMAP) yng Nghymru, sy'n ceisio integreiddio asesiad amrywiol gydrannau'r tirlun. Mae'r rhain yn cynnwys daeareg a thirffurfiau (gan gynnwys hydroleg), llystyfiant a chynefinoedd, canfyddiad gweledol, synhwyraidd ac ysbrydol, hanesyddol, defnydd o dir gwledig (megis amaethyddiaeth a choedwigaeth), anheddiad a datblygiad, artistig a chwedloniaeth. |
| Ardal Ieithyddol Sensitif | Ardal lle mae'r Iaith Gymraeg yn rhan bwysig o wead y gymdeithas. |
| Uned byw a gweithio | Eiddo sydd wedi'i ddylunio'n benodol ar gyfer defnydd deuol, gan gyfuno gofod preswyl a chyflogaeth. |
| Adeilad Rhestredig | Adeilad sydd ag amddiffyniad cyfreithiol arbennig, ac sydd ar y rhestr o Adeiladau o Ddiddordeb Pensaernïol a Hanesyddol Arbennig a luniwyd gan Cadw. |
| Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol | Ei nod yw sicrhau bod rhywogaethau a'u cynefinoedd o bwysigrwydd cenedlaethol, rhanbarthol a lleol yn cael eu hamddiffyn rhag datblygiad amhriodol. |
| Cynlluniau Datblygu Lleol Cymru (CDLlC) | Dogfen sy'n roi arweiniad ar bolisi cynllunio gan Lywodraeth Cymru ynghylch paratoi Cynlluniau Datblygu Lleol. |
| Asesiad o'r Farchnad Dai Leol | Astudiaeth sydd wedi'i bwriadu i adolygu'r farchnad dai bresennol mewn ardal, ystyried natur yr angen am dai marchnad a fforddiadwy yn y dyfodol a llywio datblygiad polisi. |
| Parth Clustogi Mwynau | Parth o amgylch gweithfeydd mwynau a ganiateir neu rai arfaethedig er mwyn sicrhau pellter gwahanu rhwng defnyddiau tir a allai wrthdaro. |
| Lliniaru | Mesurau i osgoi, lleihau neu wneud iawn am effeithiau niweidiol sylweddol. |
| Defnydd Cymysg | Datblygiadau neu gynigion sy'n cynnwys mwy nag un math o ddefnydd tir ar un safle. |
| Amcan | Datganiad o'r hyn a fwriadir, yn pennu cyfeiriad y newid a ddymunir o ran tueddiadau. |
| Man Agored | Mae hyn yn cyfeirio at ofod hamdden y gall y cyhoedd gael mynediad iddo, ac mae'n cynnwys meysydd chwarae, caeau a chyrtiau chwaraeon, ardaloedd chwarae i blant, cyfleusterau i blant hŷn, mannau agored anffurfiol, mannau glas, parciau a rhandiroedd. |
| Cyfnodau | Mae'n rheoli'r broses o ryddhau tir ar gyfer datblygiad yn raddol. |
| Cais Cynllunio | Cais i'r Awdurdod Cynllunio Lleol am ganiatâd i gynnal datblygiad o fath penodol neu safle/adeilad penodol, sydd fel arfer yn golygu bod rhaid talu ffi benodedig. |
| Amod Cynllunio | Gellir rhoi caniatâd cynllunio ar sail amodau cynllunio er mwyn sicrhau bod datblygiad yn digwydd, neu nad yw'n digwydd, mewn modd penodol. |
| Rhwymedigaeth Gynllunio | Gall hyn fod yn ymrwymiad cyfreithiol gan ddatblygwr yn unig, neu'n gytundeb cyfreithiol-rwymol gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol. Penderfynir yn derfynol ar y rhwymedigaethau cynllunio cyn rhoi caniatâd cynllunio. Fe'u defnyddir i sicrhau bod datblygiad yn digwydd mewn ffordd benodol. |
| Caniatâd Cynllunio | Caniatâd a roddir am gyflawni datblygiad penodedig ar safle penodol. Gellir rhoi caniatâd yn amodol neu'n ddiamod. |

| | |
|---|---|
| Polisi Cynllunio Cymru | Dyma'r brif ddogfen polisi cynllunio a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru. Ychwanegir at hyn gan gyfres o Nodiadau Cyngor Technegol (TANs) ac ynghyd â chanllawiau eraill ar ffurf cylchlythyron ac ati, mae'n darparu cyd-destun cynhwysfawr ar gyfer polisi cynllunio defnydd tir cynaliadwy yng Nghymru. Gall y rhain, yn rhannol neu yn eu crynswth, fod yn ystyriaethau pwysig mewn penderfyniadau ac apeliadau cynllunio, a rhaid i awdurdodau cynllunio lleol roi sylw priodol i bolisi cenedlaethol wrth lunio'u Cynlluniau a'u Polisïau. |
| Cyfnod y Cynllun | Y cyfnod y mae cynllun yn ei gwmpasu. Mae Cynllun Datblygu Lleol Castell-nedd Port Talbot (CDLl) yn cwmpasu'r cyfnod o 2011 i 2026. |
| Polisïau | Gall y rhain yn gyffredinol weithredu mewn tair ffordd: (1) tywys cyfeiriad a natur twf yn y dyfodol; (2) hyrwyddo lleiniau penodol o dir er mwyn symbylu neu sicrhau datblygiad, trwy wneud dyraniadau clir; (3) sicrhau bod y cynigion a gyflwynir gan ddatblygwyr yn cydymffurfio â pholisïau cenedlaethol, canllawiau rhanbarthol, a strategaeth fabwysiedig y Cynllun. |
| Cyn Adnau | Y cyfnod cyntaf ffurfiol o baratoi'r Cynllun, lle gall unigolion a sefydliadau gyflwyno sylwadau i'r CDLl. |
| Map o'r Cynigion | Elfen o'r Cynllun Datblygu Lleol sy'n dangos dosbarthiad daearyddol cynigion ar fap Arolwg Ordnans gwaelodol. |
| Ynni Adnewyddadwy | Ynni sy'n digwydd yn naturiol ac yn gyson yn yr amgylchedd, er enghraifft o'r haul, y gwynt a disgyniad dŵr. |
| Cynrychiolaeth | Sylwadau o blaid, neu yn erbyn, y Cynllun Datblygu Lleol. |
| Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig | Sefydliadau di-elw sy'n darparu "tai cymdeithasol" cost isel. Maent yn darparu tai ar rent yn ogystal â chynlluniau rhannu perchnogaeth i helpu'r rhai sy'n methu fforddio prynu tŷ cyfan. |
| Arfarniad Cynaliadwyedd | Proses systematig a ailadroddir wrth baratoi (ac adolygu) cynllun sy'n nodi ac yn adrodd ar i ba raddau bydd gweithredu'r cynllun yn cyflawni'r amcanion amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd. |
| Ffynonellau Eilaidd | Sgîl-gynhyrchion prosesau diwydiannol eraill yw'r rhain fel arfer, neu ddeilliannau gweithrediadau echdynnu deunydd heblaw agregau, a broseswyd i ymateb i ofynion manyleb deunydd agregau adeiladu. |
| Cytundeb Adran 106 | Cytundeb cyfreithiol o dan Adran 106 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Cytundebau cyfreithiol rhwng Awdurdod Cynllunio a datblygwr yw cytundebau Adran 106, neu ymrwymiadau unochrog a gynigir gan ddatblygwr sy'n sicrhau bod peth gwaith ychwanegol sy'n gysylltiedig â datblygiad yn cael ei gyflawni. |
| Terfyn Anheddiad | Ar gyfer aneddiadau a ddynodwyd yn y CDLl. Mae'r rhain yn diffinio ffin yr ardal drefol y ceir cefn gwlad y tu hwnt iddi. |
| Parth Amddiffyn Anheddiad | O fewn 500m i aneddiadau bydd angen i weithrediadau glo arwyneb ddangos bod modd darparu cyfiawnhad llawn ar gyfer amgylchiadau eithriadol fel y'u nodwyd yn MTAN2. |
| Cynllun Rheoli'r Traethlin | Mae hwn yn amlinellu'r strategaethau ar gyfer amddiffyn yr arfordir yn y Fwrdeistref Sirol. |
| Safleoedd Pwysig o safbwynt Cadwraeth Natur | Safleoedd cadwraeth natur sy'n bwysig yn lleol a fabwysiadwyd gan Awdurdodau Lleol at ddibenion cynllunio. |
| Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig | Safleoedd yw'r rhain sydd wedi cael eu cydnabod am bwysigrwydd eu gwerth biolegol, daearyddol neu werth eu tirlun. |
| Cadernid | Y cysyniad a ddefnyddir gan yr Arolygydd mewn Archwiliad Annibynnol i archwilio CDLl, p'un a dderbyniwyd sylwadau neu beidio, a hynny o dan benawdau cyffredinol gweithrefn, cysondeb a chydlyniad ac effeithiolrwydd. Datblygwyd Fframwaith ar gyfer asesu cadernid CDLlau gan yr Arolygiaeth Gynllunio. |
| Cynllunio Gofodol | Agwedd fodern at gynllunio defnydd tir sy'n edrych y tu hwnt i'r effeithiau uniongyrchol ar ardal leol er mwyn ystyried goblygiadau ehangach datblygiad, gan gynnwys sut mae cynigion yn cydweddu â strategaethau ac amcanion eang, ac yn eu cyflawni. |
| Ardal Cadwraeth Arbennig | Safle a ddynodwyd o dan Gyfarwyddeb Cynefinoedd y Gymuned Ewropeaidd i amddiffyn cynefinoedd a rhywogaethau naturiol sydd o bwysigrwydd rhyngwladol. |
| Ardal Tirlun Arbennig | Dynodiad tirlun a ddefnyddir gan Awdurdodau Cynllunio Lleol i amddiffyn ardaloedd sydd â gwerth uchel i'w tirlun. Mae gan y cyfryw ardaloedd amddiffyniad ychwanegol dros ben 'polisïau cynllunio arferol' er mwyn amddiffyn cefn gwlad. |
| Rhanddeiliaid | Grwpiau, unigolion neu sefydliadau y gall cynnig datblygu neu bolisi cynllunio effeithio arnynt, neu y gallai fod ganddynt ddiddordeb allweddol ynddo. Yn aml gallant fod yn arbenigwyr yn eu maes neu gynrychioli barn llawer o bobl. |
| Asesiad Amgylcheddol Strategol | Term cyffredinol a ddefnyddir yn rhyngwladol i ddisgrifio asesiad amgylcheddol fel y'i cymhwysir i bolisïau, cynlluniau a rhaglenni. Mae Cyfarwyddeb AAS Ewrop (2001/42/EC) yn galw am "asesiad amgylcheddol ffurfiol o rai cynlluniau a rhaglenni, yn cynnwys rhai ym maes cynllunio a defnydd tir". |

| | |
|---|---|
| Ardal Chwilio Strategol | Ardaloedd chwilio a nodwyd gan Lywodraeth Cymru fel rhai addas ar gyfer datblygiadau ffermydd gwynt ar raddfa fawr. |
| Cyflwyno | Y cyfnod ffurfiol pryd y cyflwynir y CDLl i Lywodraeth Cymru ar gyfer archwiliad annibynnol gan arolygydd cynllunio a benodir gan y llywodraeth. |
| Canllawiau Cynllunio Atodol | Modd i gyflwyno canllawiau mwy manwl ar bynciau neu safleoedd penodol, o ran sut bydd polisïau'r CDLl yn cael eu cymhwyso o dan amgylchiadau neu mewn ardaloedd arbennig. |
| Datblygu Cynaliadwy | Yn gyffredinol ystyr hyn yw datblygiad sy'n diwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau. |
| Systemau Draenio Cynaliadwy | Systemau draenio sydd wedi'u llunio i leihau effaith bosibl datblygiadau newydd a phresennol o ran gollyngiadau draenio dŵr arwyneb. |
| Nodiadau Cyngor Technegol | Dogfennau a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru sy'n rhoi arweiniad technegol manwl i Awdurdodau Cynllunio Lleol ar faterion cynllunio penodol. Dylid darllen NCTau ochr yn ochr â Pholisi Cynllunio (Cymru) a dylai Awdurdodau Cynllunio Lleol roi sylw iddynt wrth baratoi cynlluniau datblygu. Gallant hefyd fod yn ystyriaethau cynllunio pwysig wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio unigol. |
| Coridorau Trafnidiaeth | Dyma'r prif lwybrau a nodwyd yn y Fwrdeistref Sirol ar gyfer symud pobl neu nwyddau. |
| Topograffi | Sut mae nodweddion ffisegol y tirlun wedi'u trefnu. |
| Dosbarth Defnydd | Mae Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987 yn dosbarthu defnyddiau tir ac adeiladau i amrywiol gategorïau a elwir yn 'Ddosbarthiadau Defnydd', gan gyfeirio at y math o weithgaredd sy'n digwydd mewn eiddo neu ar dir. |
| Gweledigaeth | Sut rhagwelir bydd Castell-nedd Port Talbot yn newid yn ystod cyfnod y Cynllun. |
| Cynllun Gofodol Cymru | Cynllun sydd wedi'i baratoi a'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru sy'n cyflwyno'r fframwaith strategol ar gyfer tywys datblygiad yn y dyfodol ledled Cymru. |
| Safleoedd Annisgwyl | Safle ar gyfer datblygiad tai newydd sydd heb ei ddyrannu ar hyn o bryd, ond a allai gael ei gynnig ar gyfer datblygu yn ystod cyfnod y Cynllun. |



Neath Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol

www.npt.gov.uk/ldp